

LLYTHYRAU AT DEWI

Bobi Jones

2017

Pan ymddeolais o'm gwaith beunyddiol, roedd rhai dychmygion a myfyrion yn corddi yn fy mhen. Teimlwn y rheidrwydd i'w rhoi ar bapur. Ac fe'i gwnes, yn danddaearol megis, ac ymhell o ffws a ffair y cyhoeddi ffwdanus. Y Wefan oedd y canlyniad i hynny.

Erbyn cyrraedd brawddeg y 'diwedd', roedd yna fath o ollyngdod i mi. Ond ymhen wythnos, fe wyddwn nad oedd y gollyngdod terfynol hwnnw ddim i fod ar y ddaear hon. A dechreuais yn dawel bach ar yr atodiad hwn.

Wrth gwrs, anorffen yw bywyd hwn ei hun. Hyd yn oed pan fyddwn yn marw, mae'n amlwg nad ydym wedi gorffen. Dyna'r wers i fywyd oll. Wele felly barhad yn awr i'r Wefan.

Yn y Beibl, mae yna ddau 'Orffennwyd' dwys, y naill a fwriadwyd i fod yn gofiadwy bersonol i unigolion: fe'i hynganwyd ar y groes. Yr oedd Duw yno wedi rhoi ei ateb perffaith i'r golled a gafodd dyn yn Eden. Pechod oedd y golled honno. Marw Crist oedd wedi lladd pob Marw. Ac yr oedd problem fawr dyn ar ben, wedi'i chlirio. Fe'i gorffennwyd yn ogoneddus.

Ond yr oedd yna baradocs ar ôl, yn awr. Roedd y Greadigaeth yn parhau yma: edrychwch. Er bod problem yr unigolyn wedi'i datrys yn gadarn, a'r sawl a dderbyniodd fywyd yn cael iachâd personol, yr oedd hyd yn oed yr unigolyn o Gristion yn gwybod ei fod heb orffen, a'i fod yn mynd ymlaen drwy'r bedd i farn ac i fywyd tragwyddol. Yr oedd y rhan anodd drosodd, a'r rhan orau ar ei dechrau, ac yn peidio â bod yn 'rhan'. Roedd y "Gorffennwyd" hwn yn arwain i'r anorffen.

Felly y Greadigaeth faith ei hun. Bu cynllun Duw yng ngwraidd y Greadigaeth, a darluniodd y cynllun hwnnw yn *Genesis*. Yn yr hyn sydd yn y llyfr hwnnw, ac yn ei ddilyn, mae'r Ysbryd Glân yn darlunio rhagluniaeth holl ateb Duw. Dywedir y cynllun hwnnw hyd at ei air olaf yn *Datguddiad*. Wedi'r gair hwnnw, nid oes yr un gair arall i'w ychwanegu sydd yn berthnasol i'r dadlennu i'r Cynllun. Mae'r frwydr oll drosodd.

Ond y paradocs mawr yw, er bod Iesu Grist yn llyfr *Datguddiad* yn gallu dangos bod yr hanes ar ben, un peth mawr a ddengys hefyd yw bod y diwedd a geisiodd Satan gynt, y farwolaeth orffenedig a fwriadodd ef, wedi'i distrywio, ac mai ansawdd priodol tragwyddoldeb yw bod yn gwbl anorffen. Mae'r anorffen yn bythol aros, ac yn wedd ar Ogoniant Duw. Dyma nod ystyr y profiad a gafodd Ioan ar Batmos.

Mae Paradvys yn nes nag a wyddom.

LLYTHYRAU AT DEWI

CYNNWYS

Rhagair: Y WEFAN ANORFFEN

Rhagymadrodd: BEIRNIADAETH EDIFEIRIOL

CERDDI: LLYTHYRAU AT DEWI

(i) Y Wefan yn Ymddiheuro'n Farwnadol i'r Llyfrau; (ii) Yr 'Anghofio' Gwydn yn Ateb i Waldo; (iii) Pan Fyddaf yn Fwlch; (iv) Dathlu Dydd Arall i Hunaniaeth Henwr; (v) Wil Biau'r Canu; (vi) Y Rheswm; (vii) Buaswn Wedi Hoffi Cadw'r Llais o Leiaf; (viii) Oferedd Dau Trahaus; (ix) Pam y Methwyd mewn un Cerdyn Pen-blwydd ; (x) Gwanwyn 2016; (xi) Portread o Daniel Owen; (xii) Cysyniad; (xiii) Portread o Chwaer nas Cafwyd; (xiv) Portread o'm Brawd Iau, Keith; (xv) Portread O; (xvi) Canaf Beth yw Hunaniaeth Lleiafrif; (xvii) Clwb Cyd Heol y Wig Aberystwyth 2016; (xviii) Portread o Fam Farw-Wrth-Esgor; (xix) Ei ffrind, yr Awen; (xx) Hunangofiant Huawdl Daear; (xxi) Lle i Goeden Nadolig; (xxii) Y Goeden Waharddedig yn Hanes Adda; (xxiii) Yr Hen Ŵr yn Gwylio'r Crwt; (xxiv) Portread o Hen Gydabod; (xxv) Ust! Ddydd ar ei Rod; (xxvi) Y Dyn na Chwarddodd; (xxvii) Ar yr Hewl; (xxviii) Ymhyfryda Ef yn Ofn yr Arglwydd; (xxix) Pwysau Tusw o Fwg; (xxx) Sedd yn Philadelffia; (xxxi) Y Gwŷr Cerwch Eich Gwagedd; (xxxii) Canu yng Nghalon y Ferch; (xxxiii) Yr Ŵyr, y Fi, a'r Animeiddio; (xxxiv) O Anghyffelyb Flas! O Amrywioldeb Lliw! (xxxv) Dathliad y Beddrod Gwag; (xxxvi) Persbectif Cywir Athro-Weddw; (xxxvii) Ar Ddarllen Llyfr y Datguddiad; (xxxviii) Yngan S mewn Syndod; (xxxix) Car Newydd; (xxxx) Hamddena'n Gysglyd ar Lan y Môr; (xxxxi) Da Bo! (xxxxii) Mae'r Môr Heddiw'n Bwyta Tamaid; (xxxxiii) Ymweliad bach ag Aberystwyth; (xxxxiv) Ysbrydoliaeth; (xxxxv) Mosul; (xxxxvi) Chwilio am Amser; (xxxxvii) Carol Nadolig; (xxxxviii) Y Daith Hir; (xxxxix) Codi Capan Euog Diolchgar; (xxxxx) Tri Llythyr am Aleppo; (xxxxxi) Y Merched a Gamdriniwyd; (xxxxxii) Ennill yw Colled; (xxxxxiii) Dic yr Hendre; (xxxxxiv) Dechrau'r Dyn Dall o'i Enedigaeth.

STORĪAU

(i) Alahu Achbar yng Nghaerdydd; (ii) Gwelyau; (iii) Y Corwynt Araul; (iv) Y Collwr Da.

ADOLYGIAD AR WAITH JOSEPH CLANCY

DIWINYDDIAETH : MYFYRDOD AM DDATGUDDIAD

LLYTHYRAU AT DEWI

RHAGYMATRODD: BEIRNIADAETH EDIFEIRIOL

Annwyl Dewi,

Ar ryw olwg, mae hyn o Wefan wedi dechrau gyda'r rhagair ynghynt a'r rhagymadrodd hwn yn awr; ac y mae'n wir am bob Cristion (yn ei ffordd unigryw a gwahanol ei hun) ei fod wedi'i eni, a'i aileni, i fynd yn ei flaen ar ôl cychwyn i fod yn aruthr anorffen.

Ar hyn o ddaear, bydd pob dydd yn y bôn heb ei gwblhau. Yn y broses o sancteiddhad, y mae'r Cristion yn cael cymorth beunyddiol yr Ysbryd Glân i ddatrys y gwaith anorffen o ogoneddu Duw wrth ddeffro bob bore o'r newydd. Wrth iddo edrych yn ôl ar ei fywyd, mae'n sylwi y dylai fod wedi'i wneud yn well.

Hynny yw, mae'n edifarhau.

Yn y rhagymadrodd i'r gyfrol *Mawl a'i Gyfeillion*, 2000, bûm yn ceisio diffinio a disgrifio Mawl. Yr wyf yn awr yn yr ysgrif hon yn mynd i geisio dadlau mai is-ffrwd o Fawl yw 'Beirniadaeth Edifeiriol'. Efallai yr esgusodir fi am ddyfynnu o'r rhagymadrodd hwnnw gan fy mod am ddatblygu ychydig o'r syniadaeth sydd yn y fan honno:

t. 21: 'Yr ydym fel pe baem yn synied yn y fan hon am ffordd o feddwl, hyd yn oed am osgo sefydlog at fywyd. Y mae fel pe bai'r proses o greadigrwydd yn gorfodi agwedd gadarnhaol, a bywyd ei hun yn gorfodi bod yn adeiladol.'

'Yng Ngramadegau'r Penceirddiaid ... ceir rhai o feirniaid cynharaf Cymru yn myfyrio ynghylch priffordd y traddodiad, yn y weithred hon o glodfori. Yng nghnewyllyn y weithred honno yr ymglywir â'r hyn yr oedd yr oedd llenyddiaeth ei hun yn amcanu ato.'

'Y mae fel pe bai yna ryw riniau, rhyw hadau mewn Mawl, sy'n hanfod amlwg i oroesiad llenyddiaeth ei hun. Mawl yw'r cynnwys mwyaf cyffredinol o bob pwnc a gwrthrych, o bob rhyw ddeunydd – sy'n angenrheidiol i lenyddiaeth. Dim ond oherwydd cymhelliad cadarnhaol Mawl y gwneir llenyddiaeth yn bosibl.' Ynddo mae bodolaeth ei hun yn rhagflaenu Mawl.

Yr wyf am gyferbynnu'r ddwy egwyddor mewn beirniadaeth lenyddol – Mawl a Beirniadaeth Edifeiriol wedyn. Cymhelliad yw'r hyn sy'n cysylltu dau reidrwydd cynhaliol llenyddiaeth – sef Cynnwys a Ffurf. Oni bai am Gymhelliad, ni ellid (hyd yn oed mewn esblygiad Darwiniaidd) gael bodolaeth llenyddiaeth. A math o Gymhelliad, y math pwysicaf, yw Mawl. Math arall yw Dychan.

Yr ymchwil am rinweddau yw Mawl (nid gweniaith): diffinia'r cadarnhaol, a hynny o fewn fframwaith dethol. Yr ysfa sy'n gyrru beirniadaeth i wella yw Beirniadaeth Edifeiriol. Uniaetha ag

awdur mewn modd ansoddol. Chwenycha berffeithrwydd yn ôl yr amgylchiadau, tan drafod gwendidau heb fod yn negyddol yn unig. Cymer hwn 'flaenoriaeth' fel cyflwr er mwyn blaenori Mawl wedyn. Mae Mawl yn ysgogiad sy'n gogrwn diben tuag at safon.

Tyfodd Beirniadaeth Mawl ddiweddar allan o adwaith – yn erbyn Beirniadaeth ddihangol ddiweddar yn y byd academiaidd a chymdeithaseg – pethau sy'n ceisio osgoi gwerthuso naturiol. Annifyrrwch diweddar beirniadaeth yw ynghylch wynebu cadarnhaoldeb tynnu'r anadl nesaf i fyw, a choledda'r sgeptigrwydd ffasiynol. Fel arfer, y mae Mawl yn ymwneud â phobl: ymwna Edifeirwch â ni'n hun.

Er bod sefyllfa Beirniadaeth Edifeiriol yn llai calonrwygol o lawer iawn, mae yna ddifrifoli a gwir edifeirwch yn digwydd. Mae yna fethiant hefyd ynghylch byw'n iawn. Mae yna empathi â'r hyn sy'n digwydd yn nyfnder gwerthoedd gan ein hymateb oll wrth fyw yng nghyd-destun byd lle mae yna gymaint o dristwch yn digwydd, yn yr economi, mewn perthynas â hiliaeth, rhwng crefyddau a diffyg ffydd (heblaw hunanganologrwydd), gyda heintiau, a hyd yn oed yn y celfyddydau.

Gall ddigwydd gyda phobl eraill, wrth gwrs; ond gall fod hefyd ar ein stepyn drws ein hun, yn ein gwaith bod dydd, yn ein symlder arferol anghyhoeddus. Mae Edifeirwch yn ymwneud â phopeth.

* * *

Ar ôl gorffen y Wefan, teimlwn fy mod wedi gorffen cofnodi'r holl bethau yr oeddwn wedi ymdeimlo â'u presenoldeb yn fy meddwl adeg ymddeol. Roeddwn wedi ymwared â baich. Cyn hynny, yn wir wrth ymddeol o'm gwaith beunyddiol, wedi cyfnod dwys o lafurio'n annisgwyl yn unochrog mewn meysydd gweinyddol, yr oeddwn wedi ymlâdd drwy bryderu ynghylch datblygiadau ariannol diweddar y Prifysgolion. O'r herwydd, mewn gwirionedd, bu rhaid anwybyddu dros dro – yn fy swydd – briffordd dyletswydd a braint gywir fy swydd, sef bod yn greadigol ac ymchwilio.

Felly, ffois i ymddeol. A chydredodd yr ymddeol hwn â nifer o lawdriniaethau y bu'n rhaid eu derbyn yn dynn ar sodlau'i gilydd, nes cael iachâd go dda. Bu sgrifennu'r Wefan yn bleserus am flynyddoedd wedyn yn donic ond rywsut hefyd yn dreth ar y corff a oedd bellach wedi dechrau ymddatod. Dywedodd yr ontologydd wrthyf ar ôl fy nhriniaeth fawr gyntaf fod rhyw 50% o bosibilrwydd imi ddod drwodd. Ond euthum ati i weithio yn fy ffordd fy hun a deuthum rywsut i ben â thasgau 'maith' (i mi). Bu eu trymder arnaf yn amheuthun.

Eithr yn yr eitem olaf yn y Wefan, fe drois yn sydyn i adolygu storïau'r gorffennol. Nid oeddwn wedi cynllunio na disgwyl gwneud y fath beth. Ond yng nghefn y meddwl gennyf o hyd fel cysgod amheus mewn ogof, yr oedd yr hyn a alwaf mwyach yn Feirniadaeth Edifeiriol, yn crafu,

crafu. Roedd yn fath o euogrwydd. Teimlwn yn ddrwg gennyf fy mod heb wneud y storïau hynny'n fwy gofalus ar y pryd, sef y rhai a gyhoeddaswn mewn llyfrau ynghynt, ond heb fod yn union fel y bwriadaswn. Cefais yn awr ail gyfle gan y We. Cefais fy ngyrru i fyfyrion'n greadigol o'r newydd cyn dod i ben.

Gweithiais yn feunyddiol o'r bore bach ymlaen ar y Wefan hyd at yr 'eitem olaf'. Ac yna, yn annisgwyl fe ganiatawyd i mi ddigon o fywyd a chwpla'r storïau. A thynnais linell derfyn dani. Anedlais ollyngdod.

Rhywbeth arall annisgwyl a ddigwyddodd, wedi hynny, oedd imi dderbyn digon o amser, ar ôl cau'r Wefan, i barhau ysgrifennu fel hyn. I mi, roedd hyn eto yn fendith annisgwylidig. Ategiad i'r Wefan, yn awr, i lenwi fy nydd gyda'r atodiad hwn. Eithr wrth fwrw golwg yn ôl ar ôl gorffen yr atodiad, sylwais fy mod yn canlyn yn awr yr un math o feddwl ymarferol â'r hyn a ddigwyddodd yn achos y storïau yn y Wefan gyntaf. Sgrifennais gerddi, a'u hadolygu o ddydd i ddydd. Adolygais bedair stori newydd yn yr atodiad. Sef edifarhau'n feirniadol o fath gwahanol. Ochr yn ochr â'r storïau, ar y Wefan gyntaf, fe fu dwy gyfrol hir ar ddiwinyddiaeth, y naill ar Feddwl Pantycelyn a'r llall ar awdur y Beibl. Patrwm y naill gyfrol a'r llall oedd sylwi ar ddau brosiect enfawr Iesu Grist – sef llunio'r Greadigaeth a Chyflwyno'r Waredigaeth. Yr oeddwn felly wedi canolbwyntio ar yr hyn a alwai Diwinyddion Calфинаidd yn Ras Cyffredinol a Gras Arbennig. Er fy ngwaethaf, o ddydd i ddydd wedyn, byddwn yn myfyrion o hyd ar faterion diwinyddol sy'n fath o estyniad i'r myfyrdod a gafwyd yn y Wefan gyntaf. A pharhawn o ddydd i ddydd i estyn thema'r Gorchymyn Diwylliannol a Chynllun Duw i mewn i Fyfyrdod ar *Ddatguddiad*.

Bellach, dyma'r Beirniad Edifeiriol a oedd wedi prifio ynof i yn teimlo ffwfwy fy mod wedi peidio â sylwi'n ddigonol mai Un person – Tad – oedd Duw a oedd yn ymwneud â'r ddau Ras hynny; Deuol oedd yn wir yn yr Anweledig a'r Gweledig; Triol hefyd yn y Drindod. Nid yn unig yr oedd Duw yn gyfrifol am greu'r Bydysawd ar y naill law a sicrhau Iachawdwriaeth i bechaduriaid a syrthiodd ar y llall, eithr Un Duw cysylltiol oedd ef ym mhopeth. Yr un Duw oedd yn gyfrifol am ddwyn y Greadigaeth hon i derfyn. Gras oedd y ddwy. Yr oedd dolen rhwng ei holl weithredoedd. Ac yn y ddolen unol honno yr oedd y Beibl yn datgan pwysigrwydd i'n sylweddoliad o Undod. Hyfrydwch i mi oedd ymdroi gyda materion Beiblaidd. A heblaw Beirniadaeth Edifeiriol, yr oedd yna fater diwinyddol mawr arall yn fy nghorddi. Sef anhawster dyrys Llyfr y Datguddiad, Dyma'r ail fater diwinyddol a drafodir yn y gyfrol hon. Dyma bresenoldeb dwy ddysgeidiaeth i fywyd: y Greadigaeth a'r Waredigaeth yn arwain i Ddaear Newydd a Nefoedd Newydd.

* * *

Fe all llawer crefydd sydd heb gydnabod Duw fel Iachawdwr werthfawrogi Duw'r Creawdwr, a chanfod Mynegiant o'i Ogoniant yn y gwaith hwnnw. Datguddir Ei ddaioni drwy

neilltuo hyn i amryw eneidiau mewn math o belydryn o ddeallusrwydd Duw fel y gallant yn eu hamgylchfyd gael arolwg ar Dduw, heb iddynt ymostwng i Dduw mewn crediniaeth yn Ei faddeuant. Ond Duw yw'r Duw Cristnogol a'i gostyngodd ei hun i laca'r byd ac i waed aberthol y groes ar ffurf ei Fab. Caiff y Cristion adnabyddiaeth o hwn oherwydd gwaith yr Ysbryd Glân yn ei galon. Mae ef, felly, yn medru ymateb i bresenoldeb y Gwardwr ei hun yn y Greadigaeth:

'Trysorwyd gras, ryw annherfynol stôr
Yn Iesu Grist cyn rhoddi deddf i'r môr;
A rhedeg wnaeth bendithion arfaeth ddrud,
Fel afon gref lifeiriol dros y byd.'

Pedr Fardd

Ym mhob peth, boed yn Waredigaeth, yn Greadigaeth, neu'n Farn, yr un Iesu Grist sy'n tywynnu'n undod diwnïad, er bod y swyddogaethau'n gyferbyniol ynddo. Mewn gwirionedd, wrth gwrs, yr oedd y Waredigaeth wedi digwydd o fewn trefn y greadigaeth, ac yn uchafbwynt i Gynllun Rhagluniaeth: (Ioan 1: 3-4), 'Daeth pob peth i fod trwyddo ef, hebdo ef ni ddaeth un dim sydd mewn bod. Ynddo ef yr oedd bywyd.' Cyn bod 'bywyd' dyn, cyn bod 'bywyd' planhigion, cyn pechod ac wedyn, yr oedd y Drindod yn Undod. Gallai Duw fod wedi creu dyn yn y fath fodd fel na byddai'n ewyllysio pechu, heb y gwyrad yn ei ddeall. Ond diogelwch y tu hwnt i bob amgyffrediad yw Duw. Ni ellid ymestyn yn iawn ato heb yr Ysbryd i ddirnad y Creawdwr, a Gogoniant Aberth y Mab, a'r Mynegiant godidog a wnaethpwyd mewn Rhagluniaeth. Y Cyfan yn Undod.

Datguddiwyd llawer annisgwyl eisoes. Agorir yr Etholedigion i fwy na Chyfiawnhad: agorant i Sancteiddhad ac i Uniad yn ymarferol yn y byd. Trawsffurfir ystyr y Greadigaeth. Mewn ffordd o siarad, meddiennir yr union **ddaear** a oedd gan yr anghredadun cyn tröedigaeth i olygu llawer mwy nag yr oedd i'r sawl na chafodd ei droi. Tyf dealltwriaeth o 'fodoli' ei hun oherwydd ystyr ffydd; ac eto, y mae hyn wedi digwydd fel bod ein natur gynhenid yn aros ac eto'n newid. Adferir y meddwl unol a oedd gan ddyn crediniol cyn y Cwmp i fod yn un eto â meddwl Duw, gan ymhyfrydu mewn Cread na phrofasai'r syrthiedig ond yn rhannol.

Doedd dim o hyn yn ddamweiniol. Does dim damweiniau gyda Duw. Rhan o gynllun Duw yw pob un, a chynllun diwnïad ymwybodol yw i'r cadwedig a ganfu burdeb y bwriad cyntaf yn fyw. Dyfnheir y dehongliad gan sylw Iesu wrth Nicodemus: 'carodd Duw y **byd** gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.' Yma y mae'n arferiad derbyn y 'byd' yn yr ystyr o 'bobl y byd'; ond fe ellid ystyried yn fwy llythrennol mai'r byd creedig a'r cwbl yw a gwmpaswyd gan gynllun Duw i fod yn berffaith, y greadigaeth gynhwysfawr. Eiddo'r Arglwydd y ddaear a'r cwbl sydd arni ac ynddi.

Ceir amryw gyfeiriadau mwy amlwg eu perthynas sy'n cysylltu iachawdwriaeth Iesu â'r

Cosmos, megis Rhuf. 5 : 12: 'Daeth pechod i'r **byd** trwy un dyn, a thrwy bechod farwolaeth, ac yn y modd hwn ymledodd i'r ddynolryw i gyd, yn gymaint ag i bawb bechu... felly hefyd y daeth cyfiawnhad sy'n esgor ar fywyd i'r ddynolryw i gyd trwy un weithred o gyfiawnder.' Ac yn 2 Cor. 5:17, 19: 'Felly os yw rhywun yng Nghrist, y mae'n **greadigaeth newydd**; aeth yr hen heibio, y mae'r newydd yma... Hynny yw, yr oedd Duw yng Nghrist yn cymodi'r **byd** ag ef ei hun, heb ddal neb yn gyfrifol am ei droseddau, ac y mae wedi ymddiried i ni neges y cymod.' Onid yw hyn yn golygu bod yna ail greu wedi digwydd? Os yw rhywun wedi derbyn rhyddhad iddo'i hun, felly, a hwnnw'n cael ei lanhau o bechod Adda, rhaid bod yna greadigaeth newydd [heb ei chyfyngu], wedi'i chymodi eisoes yn ei feddiant. Mae bodolaeth Crist ynddo yn rhoi iddo fwy nag adferiad personol: ceir hefyd yr holl gosmos. Hynyna yw'r Gogoniant, gyda gofal dros bob dim. 'Carodd Duw y *byd* gymaint ynddo ef i beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol. Oherwydd nid i gondemnio'r *byd* yr anfonodd Duw ei Fab i'r *byd*, ond er mwyn i'r *byd* gael ei achub trwyddo ef.'

Beth mae'r gair pwysig *byd* yn ei olygu yn y fan hon? Llawer peth. Mae'n meddwl '*dod i lawr o'r nef i'r ddaear*'. Y safle. Mae hefyd yn golygu '*y bydol, i ganol pechod*'. Ond mae hefyd yn golygu '*yr holl bobl yn y byd*'. Ond fe ddadleuwn fod yna ystyr arall sy'n cael ei hesgeuluso gennym. Heblaw ei gyfrifoldeb arbennig fel Gwardwr, canolbwynt hanes y byd, bu gan yr Arglwydd gyfrifoldeb am greu'r byd ac am fod yn gynhaliwr i'r ddaear – y cwbl: iacháu ac adfer y bydysawd fel y bwriadwyd erioed a wnaeth ef yng Nghrist, o'r dechrau hyd y diwedd. Hynny, ddwedwn i, yw'r ffordd 'lythrennol' o'i ddehongli; a throsiad neu'n fwy arbennig drawsennw (*metonymy*) yw yr un pryd. Cynhwysol yw'r defnydd olaf o 'byd', a chyflea holl ogoniant Duw yn ei Fawrhydi. Os yw'r profiad hwnnw ar lythrenogrwydd y gair 'byd', mewn ambell fan, felly, i fod megis y bydd y dyn yn y stryd yn ei ddeall (nid yn drosiadol negyddol fel 'bydol'), ni thyf hynny o agwedd negyddol at y trosiad. Mae yna filoedd o drosiadau angenrheidiol yn y Beibl, megis cysgodion neu deipiau, rhan ydynt o'r traethiad llawn o gwmpasiad ymerodraeth yr Oen.

Dyma'r 'Ddaear Newydd' a ganfuwyd yn Llyfr y Datguddiad.

Crybwyllais gynnau y diddordeb fu gennyf wrth ysgrifennu yn y Wefan gyntaf ddwy gyfrol ddiwinyddol, y naill am Feddwl Pantycelyn, a'r llall ar y Beibl; dwy gyfrol gyda'r naill a'r llall ar batrwm deuoliaeth a olrheinai'r ddau Ras cynlluniol – Gras Cyffredinol a Gras Arbennig. Peth arall a dyfodd fwyfwy yn y cyfrolau hynny oedd diddordeb mewn Trosiad a Symbol mewn llenyddiaeth grefyddol a Pharadocs, sydd hefyd yn cael blaenoriaeth yn y Beibl.

Defnyddir 'trosiad' er mwyn diffinio'n fanylach a llefaru'n fwy diriaethol. Pan ddywed Moses fod Duw yn dân ysol, nid yw'n ceisio'i wneud yn fwy byw yn llenyddol. Nid dyna sydd mewn golwg. Ceisio cyfleu rhyw wirionedd teimladol neu ryfeddol am Dduw y mae, neu wirionedd am ei hawl a'i weithred o gosbi. 'Dim ond trosiad', medd rhywrai; 'mae'r ffeithiol yn gywirach.' Ond

pan ddywed Moses fod Duw yn dân, y mae eisoes yn fwy byw nag 'y mae Duw *fel* tân ysol.' Nid dyna sydd mewn golwg.

Hyd yn oed ym marwolaeth Iesu Grist wedyn, sonnir am 'dâl' – sef am berthynas, gwnaeth iawn am 'ddyled': trosiad yw, wrth gwrs, ond gweithred hefyd. Rhan o ddeuawd meddyliol yw 'trosiad'; dwg berthynas â'r llythrennol, dwy ochr mewn cyfundrefn asiol (system) feddyliol. Mae iawndal Crist yn canslo dyled, a chadarnheir y dywediad llythrennol a'r athrawiaeth a'r hanes. Fe wreiddiwyd cyd-destun hanesyddol mewn symbolaeth baradocsaid: defnyddia reswm, a dryllia reswm hefyd.

Bob amser, wrth ddisgrifio â throsiad perthynol, fe geir yna 'wrthrych' + rhag-gynrychiolydd yn ôl cyfundrefn (system) gysylltiol Iaith. Mae'r rhag-gynrychiolydd yn isradd, ac ymdeimlir â chynnydd yn yr ail elfen : e.e. yr Adda Olaf, Mab Dafydd. Gwaith ysbrydol yw'r asio ystyr: gyrrir gan yr Ysbryd Glân yn ei waith o oleuo unwaith eto, a chlymir daear a nef mewn cyfansoddiad ysbrydol. Undod daear a nef yw'r gwirionedd. Mae John Murray yn dweud: 'Even the non-elect are embraced in the design of the atonement in respect of blessings falling short of salvation which they enjoy in this life.' Hynny yw, drwy'r etholedigion gwasgerir bendithion ar led, yn ddiffiniau, fe grëir neu fe gyffyrddir â chymdeithas yn y fath fodd fel y mae'n fanteisiol i bawb. Gogoniant Duw sydd flaenaf. Yng ngoleuni hynny y sefydlwyd Cymod rhwng dyn a Duw.

'Talodd Crist anfeidrol iawn

Ar y Croesbren un prynhawn.'

Pedr Fardd

'Talodd yno swm dy ddyled

Â gwerthfawr waed ei galon friw.'

David Williams, Llandeilo Fach

Cafwyd iawn pendant (penodol) oherwydd bod cytundeb wedi bod rhwng Adda a Duw. Ni ellid ystyried dioddefaint yn daliad yn yr Iesu yn yr Iawn heb ragdybied y cyfamod a sefydlwyd o'r dechrau i iacháu'r unigolyn a'r Greadigaeth.

Dyma brif drosiadau'r Iawn (mewn Teipoleg neu Gysgodeg), sy'n rhan o gyfanrwydd mynegiant o Ogoniant Duw: (1) Dydd y Cymod: cofnodir trefn ar gyfer gwneud Cymod: 'nad yw ar bob adeg i ddod y tu ôl i'r llen' (Lef. 16), ond pan fydd yn ymddangos mewn cwmwl. (2) Thuserau: codir y thuserau allan o'r goelcerth (hynny yw, eiddo'r rhai a bechodd); a fu farw i'w curo'n blatiau i wneud yn gaead ar yr allor. (3) Dŵr i lanhau pechod (Numeri 19). (4) Y Sarff Bres: Duw'n gorchymyn gwneud sarff bres er mwyn i bawb sy'n edrych arni gael iachâd (Numeri 21). (5) Pasg (Exodus): 'Rhaid i bob oen fod yn wryw blwydd heb nam, wedi ei gymryd o blith y defaid neu o blith y geifr... Yna byddant yn cymryd peth o'r gwaed a'i daenu ar ddau bost a chapau drws y tai lle

y bwyteir hwy.' (6) Eiriolaeth Moses ar eu rhan (ar ôl addoliad pechadurus y llo aur): mae Moses ei hun yn erfyn ar Dduw i barhau er mwyn i Israel anhaeddiannol aros yn wthrych Ei ras a'i drugaredd. Manylion mawr yn y creedig, ond arwyddion o'r tragwyddol, a chynrychiolwyr o'r cyflawnder, oedd y rhain: (Rhuf. 8: 22): 'Oherwydd fe wyddom fod yr holl greadigaeth yn ochneidio, ac mewn gwewyr drwyddi, hyd heddiw.' Dyma ddiodefaint enfawr yr holl Greadigaeth gynhwysol. A hyn mwyach i mi, yw natur Gras Cyffredinol o fewn cyferbyniad trefnol Gras Cyffredinol/ Gras Arbennig: dehongliad diwygiedig yw. Bu'r pwnc hwn yn faich ar fy nehongliad o Ras yr Iawn Pendant, ac felly o arwyddocâd Cristnogaeth i Lenyddiaeth yn ei gwasanaeth (boed yn Gristnogol neu'n Anghrediniol) ar hyd y blynyddoedd. O fewn hynny, roedd yna themâu cynwysedig eraill: (1) Perthynas y Genedl a Christnogaeth (*Ystyr y Cwlwm, The Christian Heritage, I'r Arch, Llên Cymru a Chrefydd*); (2) Awydd i wasanaethu Cyfoesedd, gyda'i wynebu amheuan a'i wendidau meddyliol a'i sectau a'i amharodrwydd i gydnabod gostyngeddwrwydd credu (*Mawl a Gelynion ei Elynion, Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg, Cyfriniaeth Gymraeg*); Difaterwch y Sefydliad ynghylch y Goruwchnaturiol/ Absoliwt/ Gorfodaeth Ymostwng. Y cwbl wedi'i ddisgrifio'n feidrol iawn. Hiraethwn yn ddiweddar serch hynny am ailymweld â'r mater hwn yn ei gwmpasiad llawn.

O'r herwydd, cafwyd Beirniadaeth Edifeiriol, a hynny yn yr unfed ganrif ar hugain.

Erys y gair 'Goruwchnaturiol' yn fwgan cyfleus i rywrai. A ffy rhywrai oddi wrth y gair i ddweud eu bod yn defnyddio geirfa arall mewn crefydd. Cwyno am 'eiriau' yw setlo'r broblem iddynt. Pryderu am ei realiti yw'r baich i eraill. Anaml y byddwn yn meddwl am Gristnogion fel bodau goruwchnaturiol, oherwydd canolrwydd 'dynoliaeth' i'w hymarferoldeb cymwysedig, meddwn. Ond nid oes neb dynol heb ddimensiwn goruwchnaturiol. Defnyddio 'geiriau' yw ymffrost yr anifail dynol, am mai creadur iaith yw: ond methu a wna yn y ddelfryd. Geiriau yw'r gamp sy'n gwahaniaethu rhwng dyn ac anifail; eto, mae tafod yn llawer mwy nag offeryn i siarad. Mae'n offeryn i ddweud y gwir. Yn gyntaf oll, wrth gwrs, y mae'n offeryn i 'ddweud': i ddadansoddi'r byd a bywyd. Mae'n dyfeisio cyfundrefn lafar i droi seiniau'n synnwyr drwy gynrychiolwyr symbolaidd. Drwy gyfundrefn fechan aruthr y gair, y mae'n corffori ystyron. Mynegiant llafar yw'n sy'n adeiladu cof helaeth a chymhleth, a chadwraeth profiadau yn bosibl – drwy argraffu ar bapur ac mewn ffilmiau, cyrhaedda mathemateg a masnach ymhellach na 10% yn y meddwl dynol (yn wahanol i anifeiliaid), agorir y modd i ddatblygu celfyddyd amaethyddiaeth drwy iaith. Ond gallwn hefyd lygru'r amgylchfyd yn ôl ein hewyllys gan ddefnyddio ffyrdd digonol i ddifodi pob bywyd o bob math ledled y ddaear. Gallwn gyfathrebu nid yn unig ag Awstralia, ond â'r lleud hefyd. Gall dynion gyflawni hunanladdiad o ran tybiaeth. Pa anifail a all hunan-ladd fel nyini? Ac a all yr un anifail geisio siarad am Dduw ei hun drwy iaith? Er bod llawer o hyn, yn y ganrif hon, yn gofyn geirfa

newydd i fod yn effeithiol, y mae'n angenrheidiol ac yn ymarferol, felly, gyda hyd yn oed y gair 'goruwchnaturiol' mewn canrif o ormes meddyliol gan fydolrwydd rhagdybiol gwyddoniaeth gyfoes. Ond meidrol yw. Gwnawn lawer o'r pethau hyn gyda bodlonrwydd a balchder. Ond yna, fe ddown at her nad yw'n ffitio i mewn i'r ymffrost aruchel. Nid yw campau a helaethrwydd geirfaol dynol yn atebol i un sialens arbennig. Mae dyn naturiol ym mhob man yn dod wyneb yn wyneb nid yn unig â'r ffaith a'r galar ynghylch marw – fel llawer o anifeiliaid eraill – ond â'r cwestiwn o Atgyfodiad hefyd, a'r broblem o Wirionedd ynghylch y fath gwestiwn. Yma, mae'n arafu, yn tewi, yn osgoi, yn gwyrddroi popeth, er ei fod yn cogio bod yn ddychrynlyd o onest ac o effro sobr. Ac yn y fan yna, fe all symlder unionsyth calon fod yn fwy medrus na'r balchder academaidd sy'n amodi pob ystyriaeth yn ddynganolog. Oherwydd yno y mae diben y Farn Olaf yn ymrithio.

Tybia rhai anghredinwyr mai byw gyda chwestiynau sydd orau, gyda'r rhagdybiaeth nad oes ateb yn y diwedd. Gorfodaeth y gymdeithas *status quo* yw bod yn benagored ei hateb. Tybia rhywrai mai'r rheidrwydd yw dod o hyd i ateb ystyrllon mewn cymysgedd dogmatig pryd y mae'r cythrwbl chwilota'n cael math o ddatglymiad mewn cyfaddawd hanfodol. Ar ryw olwg, mae'r casgliad hwnnw'n gywir mewn cyfanrwydd. Mae yna ateb, mae yna bosibilrwydd yn yr ysgrythur i ddod o hyd i ddatrysiad perffaith, digonol, a gogoneddus. A hyn sydd i'w gael mewn Duw llafar yn y Beibl ysgrifenedig a rydd Gyfiawnhad terfynol. Yr un pryd, mewn sancteiddhad bob dydd, bob munud, cyfyd cwestiynau ym meddwl y Cristion yn ei holl weithredoedd i addoli Duw drwy holl amgylchiadau bywyd, gyda chwestiynau'n ceisio Duw o ddifri ymostyngol, a phob amser yn cael ateb. Bwriadaf yn awr ymdroi ychydig yn fwy gyda Gras Arbennig cyn troi'n fwy hamddenol at Ras Cyffredinol.

Bu dadl bwysig yng Nghymru yn amser John Elias ynghylch 'Limited Atonement'. A chywir yr atebwyd yn yr englyn enwog a chrwn gan Robert ap Gwilym Ddu.

Paham y gwneir cam â'r cymod? – neu'r Iawn
a'i rinwedd dros bechod?
Dywedwch faint y Duwdod!
Yr un faint yw'r Iawn i fod!

Cofir bellach fel y gwnaethpwyd yr acronym (mnemonic) TULIP yn Saesneg i gynrychioli dysgeidiaethau Canonau Dordt (pryd yr oedd Esgob Llandâf yn bresennol). Ond roedd y gair 'limited' yn ceisio rhoi 'ffiniedig' ar nerth yr hyn a wnaethpwyd yn dragwyddol gan Iesu Grist, Arglwydd nef a daear yn Nhragwyddoldeb oedd Ef; ac nid oedd y term 'atonement' chwaith yn dynodi'r hyn a olygai'r diwinyddion cyfandirol ar y pryd. Yn Dordt y crynhowyd yn ofalus yr hyn a enwir yn au yn 'bum pwynt Calfiniaeth.' Ac yr wyf wedi crynhoi sylw yn bennaf ar yr hyn a elwir bellach yn 'Iawn Pendant' (*Definite Atonement*). Dyma a gynigir i bawb, – mewn ffordd, fel Gras

Cyffredinol. Mae yna debygrwydd, fel yr awgryma 1 Tim. 2: 5: 'un Duw sydd, ac un cyfryngwr hefyd rhwng Duw a dynion, sef Crist Iesu, yntau yn ddyn. Fe'i rhoes ei hun yn bridwerth dros bawb, yn dystiolaeth yn yr amser priodol i fwriad Duw. Ar fy ngwir, heb ddim anwiredd, dyma'r neges y penodwyd fi i dystio iddi fel pregethwr ac apostol.' Dyma'r alwad i bob pregethwr, dim mwy a dim llai.

Eto, nid wyf am ganolbwyntio ar oedi gyda hwnnw yn awr, sef Gras Arbennig, ond ar Ras Cyffredinol; ac nid ar Ras Cyffredinol Cristnogion yn feunyddiol, ond i unigolion sydd heb droi, sef Gras Cyffredinol pawb, yn ddisylw ar wasgar fel *bodolaeth* a'r *greadigaeth*. Nid 'daioni', – ond am bethau na feddyliwn amdanynt yn aml, megis y galaethau nas gwelsom, a'r llwch na wyddom amdano arnynt. Ond y pethau diddefnydd fel petaent. Y distadl anweledig. Ymerodraeth Gras yw'r cwbl, hyd yn oed y gwrthrych na ddeallwn ei bwrpas na'i fodolaeth. Y dibwys eithafol i'n profiadau.

Gallem sôn am Ras Cyffredinol pob dydd, wrth gwrs: Gonestrwydd, Caredigrwydd, a Moesoldeb y meddwl. Ond llai na hynny sydd gennyf mewn golwg: yr holl ddigwyddiadau amherthnasol drwy'r bydysawd, yr holl forgrug anweledig, yr holl donnau yn torri ledled y Tawelfor. Mae Gras Duw'n cynnal y cwbl. A oes gwerth sôn am hyn? Nid ar gyfer yr efengyl, yn sicr. Ond nid dyna'r pwnc yn awr, eithr sôn wyf am y palmant dan draed wrth fynd am dro, y golchi llestri defodol, y rhoi dillad ar y lein, prynu bara yn y siop. Rhaid bod hyn oll yn gynnyrch Cariad yr Ysbryd Glân ac mae Duw wedi rhaglunio'r cwbl oll, bob llwchyn – ac mae wedi bod o dan gyfraith Ysbryd Bywyd a Bodolaeth.

Priodol i Gristion gydnabod aruthredd ymestyniad diderfyn Duw, er nad dyna bwnc ein tystiolaeth hiraethus yng nghyd-destun Iachawdwriaeth ogoneddus Jerwsalem. Beth, felly, dw-i'n ei wneud wrth orwedd ar fy nghefn, mewn poen, yn meddwl am y boen fwy ambell waith wrth gofio ffrindiau, yn cofio hyfrydwch Duw dros y blynyddoedd, yn cadw'r gyfraith er bod Cristion fan hyn yn llithro'n ysbrydol? Onid y peth ei hun dw-i'n ei wneud yw gwylid amser yn pasio o hyd tuag at y Duw sy'n croesawu pawb a'i geilw'n daer grediniol? Felly y mae ac y bydd lle y bo'r Ysbryd Glân. Cydnabyddwn y cyffredin 'gwag' a 'chyfoethog' (a sylweddoli hyn); ond cawn ein meddiannu gan yr hyn a wnaeth Crist drosom ni, a'r awydd i fynegi'i enw. Yr arferol cyffredin oll hwn sy'n fframwaith eang i fodolaeth mwyach ar lwyfan diderfyn mewn Gras anweledig; ac nid oes dim yn ddistadl mewn gwirionedd.

Prinder Edifeirwch dyn gerbron Duw yw'r gwreiddyn sydd i holl ddrygau'r oes. Mae hyn wrth gwrs yn edifeirwch sy'n fwy o lawer na 'Mae'n ddrwg 'da fi.' Dyna groesffordd lle y mae newid cyfeiriad bywyd yn bosibl, oddi wrth bechod yn erbyn Duw. Hon yw'r groesffordd bwysicaf yn y byd; ond yn Ewrob y dyddiau hyn, dyma un o'r croesffyrdd lleiaf prysur. Dyma'r groesffordd lle y mae Gras Arbennig yn disgyn o'r nef, yn oruwchnaturiol, i gyflawni gwyrth. A dyna'r lle y mae'r

marw ysbrydol yn dod yn fyw. Darganfyddir angen, a diwellir gobraith. Dyna'r lle y mae enaid yn cyfrif i bob dynolyn. Dyna'r greadigaeth.

Drwy'r holl greadigaeth mae angen edifeirwch mawr.

Ac yn awr, pan wyf am ragarwain at gefndir yr edifarhau all fod i bob llenor uwchben ei waith beunyddiol cyffredin, yr wyf yn ceisio ei gysylltu â rhywbeth eang iawn, sy'n cychwyn yng Ngras aruthr Duw. Felly, mater dwys yw. Ac yr wyf am ddifrifoli'r cysyniad o edifarhau Gras Cyffredinol.

Mae pobl o bob cyflwr yn medru dweud 'Mae'n ddrwg 'da fi'; ac y mae hynny'n beth i'w gymeradwyo. Dylem ni i gyd ei 'ddweud a'i feddwl' yn amlach. Ond sôn y bydd y Cristion am ddwyyster y weithred eithriadol bwysicach na hynny. Gras yw, fel y mae'r ddau Ras – Arbennig – Cyffredinol. Gweithred yw nas cyflawnir yn gyntaf gan ddyn ond drwy nerth yr Edifeiriol ei hun; mae'n ormod i ddyn ar ei ben ei hun. Dyma waith gweddnewidiol grymus, y tu hwnt i'r dimensiwn sydd eisoes yn farw, sef i'r sawl nas ganwyd ond unwaith. Dyma weithred fwyaf hanfodol bywyd i'r dysgedig a'r di-ddysg. Gweithred seml, seml yw i'r naill a'r llall. Ond mae'n dylanwadu nid yn unig tra bôm yn ymhel â'n holl weithgareddau bob dydd. Y mae'n effeithio ar yr hyn sy'n digwydd i bopeth wedi marwolaeth. Edifarhau o'r galon i Dduw.

Gras Arbennig yn y galon dlawd sy'n rhoi edifeirwch achubol go iawn. Nid yw hyn yn bychanu Gras Cyffredinol. Ond y mae cymysgu ystyr a nerth y ddau ras yn y galon yn un o'r camddealltwriaethau pennaf mewn Cristnogaeth.

Rhinwedd Gras Cyffredinol yw meddu ar yr hyn sy'n darparu medr dynol o bob math – bywyd, meddwl, caredigrwydd, iechyd, gwaith caled, medr yn y gwyddorau, golygfeydd nef a daear, medr yn y celfyddydau, trefnusrwydd deddfol, addysg o bob math, amaethyddiaeth, medr mewn diwydiant, bywyd teuluol hapus, llawenydd naturiol, bodolaeth yn wir. Medr i ddarllen y Beibl hefyd, doniau ieithyddol, iaith ei hun, traddodiad, dychymyg, cydnabyddiaeth fod yna Dduw ar gael. Ond y mae Gras Arbennig yn anhraethol rymusach na'r grymustersau rhyfeddol hyn. Ac y mae i'r rhain oll eu gwerthoedd a'u safonau eu hun. Gwelir bod a wnelom â maes hynod eang.

Yn awr, felly, symudwn i egwyddor anghyffredin o dreiddgar ynghylch y doniau a'r gras hwn: fe all y dyn dawnus o anghredadun, hyd yn oed gelynyon ffydd, feddu ar doniau llenyddol sy'n fwy gwreiddiol na dyn cywir o Gristion llai dychmyglon. Nid yw Duw yn neilltuo gras ei greadigrwydd yn ôl Gras Arbennig. Afradlon yw Ei Ras Cyffredinol. Gall doniau naturiol y pagan ragori ar eiddo Cristion cadwedig.

Ac y mae hyn yn her i'r *Beirniad* o Gristion edifeiriol. Ond mae yna her hefyd i'r pagan sy'n fwy anodd. Heb gredu, mae'n amhosibl iddo brofi arbenigedd a dyfnder a goleuni'r Cristion; ond y

mae gostyngeddwydd tyner rhwng pobl a'i gilydd yn bosibilrwydd dyneiddio, a hyd yn oed yn caniatáu cydnabod cyfyngder iddo yn dawel.

Ond y gwir yw bod bywyd 'ysbrydol' yn gallu ymddangos yn amlycach i'r anghredadun (yn baradocsaid drwy ras naturiol Duw), er ei fod yn fwy amddifad, ac er ei fod yn sylfaenol ymwrthod ag ef.

Bûm yn pendroni beth yn union yw'r gwahaniaeth *egwyddorol* a diffiniol sy'n cwmpasu y naill a'r llall o rasmusau Gras Arbennig a Gras Cyffredinol. A'r ateb y deuthum i iddo yn gyntaf oedd: maent yn unol, ond yn teithio drwy'r ymwybod o gyfeiriadau cytûn-wahanol. Yna, maent yn ymgorffori'n Undod cyflawn mewn un gwrthrych a digwyddiad, sef Crist a hwnnw wedi'i groeshoelio'n aberthol mewn Un person i bawb, a hwnnw'n meddu ar fodolaeth dragwyddol amryliw, a bod Gras Cyffredinol yn bresennol mewn myrdd o wrthrychau – anifeiliaid o bob math, gan gynnwys nodweddiol gwahaniaethol ymddangosiadol ddiderfyn, chwâl, llawer yn hardd, rhai yn ddigrif, gyda phatrymau rhyfeddol, rhai ag adenydd heb allu hedfan na nofio, rhai heb symud, planhigion o fathau di-rif, yr Amryw niferus, sy'n eiddo i Undod y Creawdwr mawr ei hun. Meddyliwch, Dewi, am y cyfanswm o weithredoedd a phrofiadau graslon sy'n dod i ran rhywun bob dydd yn hanes bywyd digon hir. Gellir sylweddoli, wrth basio rhes o bwyntiau di-gyfrif, ac y mae'r Amryw'n niferus, ond eiddo syml yw i Undod y Creawdwr mawr ei hun. Crynhoir y pwysig gyda'r dibwys mewn Gras Cyffredinol yn y gorchymyn (Col. 3:23): 'Beth bynnag yr ydych yn ei wneud, gweithiwch â'ch holl galon, fel i'r Arglwydd, ac nid i neb arall.'

Fy nod yn yr ysgrif hon yw trafod Gras Cyffredinol a Gras Arbennig ar waith yng ngwaith beunyddiol ar seiliau problemau personol un Cristion yn benodol, o fewn cyffiniau ystyriaethau un bywyd nodweddiadol a chyffredin yn unig, gan fy mod yn hyderu y gall y rheini gael eu mynegi'n hwylus drwy brofiad 'enghreiffiol'. Mae'r Gras Arbennig hwn yn troi o gwmpas athroniaeth Iawn Pendant (*Definite Atonement*): dyma'r nodwedd Galfinaidd sy'n fwyaf gwrthun, ac ym mryd yr anghredadun yn fwyaf ideosyncratig, gan fod a wnelo ag Etholedigaeth. Teg yw cydio yn y ddanhadlen boethaf hon wrth ymdroi gyda dadl neu feirniadaeth lem. Fel y dywed pennod odidocaf y Testament Newydd: (Rhuf. 8): 'Yn awr, felly, nid yw'r rhai sydd yng Nghrist Iesu dan gollfarn o unrhyw fath. Oherwydd yng Nghrist Iesu y mae cyfraith yr Ysbryd, sy'n rhoi bywyd, wedi dy ryddhau o afael cyfraith pechod a marwolaeth...'

Wrth fyfyrion ar berthynas Gras Cyffredinol a Gras Arbennig, felly, deuthum i sylweddoli'r angen i 'weithio' a myfyrio o'r newydd ar arwyddocâd edifarhau mewn Gras Cyffredinol. Mor allweddol, yn natblygiad bywyd pob Cristion, yw edifarhau nid yn unig mewn Gras Arbennig wrth ddod yn Gristion, ond deall beth y mae'r anghredadun yntau yn ei wneud wrth edifarhau yn ei weithgareddau a'i deimladau am gyd-ddynion yn feunyddiol. Mewn Gras Arbennig

y mae'r Ysbryd yn cyffwrdd ag ef. A gall hynny ddigwydd unrhyw le gyda'r un canlyniad. Onid yw edifarhau yn bosibl i Gristion mewn amgylchfyd pryd y mae'n ymwneud â chyneddfau a doniau a gysylltir ag unrhyw weithgareddau creadigol sy'n rhan o'r byd? Ond mor allweddol yn hyn oll, – yn natblygiad bywyd pob Cristion – , yw edifarhau. Y mae edifarhau i Gristion yn gwbl unigryw, yn syml oherwydd bod argyhoeddiad o bechod yn y credadun yn deffro'n fythol i bopeth, ac y mae'n newid i fod yn newydd yn ddyddiol. Yn y newid hwnnw y mae'n dod yn Gristion. Ystyr edifarhau yw troi, ymdeimlo â'r awydd am faddeuant, bod yn drist am rywbeth a wnaethpwyd yn erbyn Duw, hiraethu am gyflawni delfryd, a chyffesu i Dduw y drwg. Mae'r uchod wedi dod yn isod, er mwyn gwneud yr isod iddo yn uchod. Mae'r pechadur sy'n syrthio ar ei fai yn dod yn effro i wirionedd.

Ond y mae'n amlwg fod anghredadun yn profi gwedd ar hyn hyd yn oed yn y cyd-destun seciwlar. Mae'n teimlo'n ddrwg pan fyddo wedi gwneud rhywbeth yn erbyn rhywun arall neu'n ei erbyn ef ei hunan. Mae'n gallu awyddu i wneud yn well, a theimla'n anesmwyth am nad yw wedi gwneud ei orau. Mae gan anghredadun ddymuniad mawr i gyflawni delfryd. Ac wrth gwrs, gŵyr pob seicolegydd, megis pob offeiriad Pabyddol, fod cyffesu a 'dweud' wrth rywun, gan rannu gydag ef, yn broses o gatharsis sy'n gallu cyfrannu at iachâd. Ond cyffes a gair i Dduw yn unig yn y pen draw yw'r iachâd hwnnw. Gall weithio yn ddistadl mewn gwerthoedd cyffredin: gall weithio mewn tröedigaeth argyfyngol.

Math o ymarfer gwelliannol, ym maes Gras Cyffredinol sy'n hysbys i Gristion ym mhopeth megis i anghredadun ac yn ddilys gynhenid, yw hyn. Mae gan y naill a'r llall allwedd i broblem gyffredinol, ac eto mae angen holi am yr allwedd yna, ac i beth y mae yn gweithio'n union? Wrth gwrs, yr ateb yw – i'r Duw goruwchnaturiol neu i ymddygiad mwy delfrydol. Ar y ddaear hon y mae'r naill a'r llall yn methu i ryw raddau. Eto, fel y gŵyr y Cristion, mae perffeithrwydd gofynnol a llwyr farweiddiad o'r Cnawd yn amhosibl, dan ei stêm ei hun o fewn y ddaear hon. Ni ellir perffeithrwydd dwyfol ar y ddaear hon, bid siŵr. A rhaid peidio â chywilyddio a digalonni'n llwyr a theimlo'n farwol euog oherwydd y tu-hwntrwydd hwnnw. Chwilia am yr allwedd felly, sydd ar gael yn Iesu Grist, dyna yw'r neges ddigonol; a phob peth arall a *roddir* i ni.

Tyrd megis plentyn. Tyrd fel yr wyt. Hyn yw gobaith a chariad Duw yn galw arnom ni, i wisgo'r gwaed a gaed ar Galfari.

* * *

Wrth fyfyrion uwchben gorchymyn yr Ysbryd Glân (Col. 3: 23), ac yn arbennig am y geiriau 'Beth bynnag yr ydych yn ei wneud', gall yr unigolyn dystio'n onest fod yr hyn a wna yn chwerrthinllyd yn aml. Ond er mor dila y bo, rhaid yw cydnabod a sylweddoli bod y manion hyn yn rhai y mae'n rhaid eu cynnwys yn y gofynion aruchel. Wrth lenyddu, wrth olchi llestri, wrth arddio, wrth glercio, neu werthu crysau mewn siop. Nis gwna heb fywyd. Ymarfer ag ymhel ac archwilio

yw ymarfer â bod yn Gristion, ond bob amser gwasanaethu Duw. Nid drwg o beth yw i bob Cristion ddilyn llwybr y groes yn wastad. Ac mewn Gras Cyffredinol, yntau, priodol yw bod y cyneddfau cyfredol i geisio perffeithrwydd a hiraethu am wella, hwythau hefyd, yn cael eu holi, hyd yn oed wrth roi dillad ar y lein.

I lenor y mae'r math hwn o ymdrech a wneir yn yr achos hwn i'w weld ei hun wrth weithio yn unigryw ac yn wedd ar fynegi. Mae'r llenor yntau'n ceisio caboli, weithiau ar ôl llunio sawl drafft cychwynnol, ond bob amser wrth fynd ymlaen o air i air, y mae'n isymwybodol am ei fod yn chwilio am yr union air sy'n corffori'i brofiad cyffredin a gwahanol. Yn aml, fe all y caboli hwnnw ymestyn dros flynyddoedd. Mae'n dinoethi'i wendidau'i hun.

I mi fy hun, mae'r caboli hwn yn broses fwy pleserus ac yn llai o straen yn aml na'r sgrifennu agoriadol. Ac y mae'n ddiddorol archwilio nid yn unig y gwaith unigol, ond y broses ei hun o archwilio. Beth yr wyf yn ei wneud yn ystod yr ail gam hwn? Onid unioni a chynyddu?

Yr wyf yn edifarhau mewn beirniadaeth ar fy ngwaith fy hun. Ni dderfydd edifarhau o'r fath. Bob dydd fe fydd pechadur, wrth ei dynnu'i hun yn rhacs, yn llunio'r math o hunangofiant llenyddol. Ceisiaf ymatal am foment, Dewi, rhag edrych yn rhy glos ar gerddi bach unigol, a throi at rywbeth hwy.

Cymerer er enghraifft y dasg unigol fwyaf yr ymwnes â hi erioed.

Ar ôl gorffen fy nrafft olaf un o *Hunllef Arthur* (wedi pob diwygio, a newid, a chaboli, ac adolygu), eisteddais yn ôl wedi ymládd ac ymholi'n feirniadol beth oedd hyn i gyd? Wrth ymaflyd yn y dasg o lunio cerdd hir fel hon, gwyddwn fod y gerdd ei hun fel ysgogiad wedi bod yn corddi'n hir fel cyfanwaith o flaen llaw, nid yr holl linellau unigol wrth gwrs, ond yn ôl adeiladwaith y rhannau a'r cyfan, y cyweiriau, y thema sylfaenol a'r patrwm o is-themâu a'r patrwm o is-themâu: serch, rhyfel, iaith, tyfiant llanc, perthynas ymwybod ac is-ymwybod, byd natur, teulu, rhamantiaeth, henaint, aeddfedrwydd cenedligrwydd, ymwybod o Dduw. Bu'r rhain yn gafael yn dynnach dynnach; a dymunwn ddweud y gwir. Ond allwn i byth wneud hyn ar y pryd. Doedd yr amser ddim yn ddigonol, a dal ati i ddarlithio yn fy ngwaith beunyddiol yr un pryd. Doedd dim marchnad, na chynulleidfa i waith o'r cyfryw. Ond mynnai'r gerdd ddod yn ôl nes bwrstio. Roedd yr ymdrech hon yn anorffen, ac yn gymhleth.

Wedi gorffen y drafft cyflawn cyntaf, – cymerai dipyn go lew o chwys – y peth nesaf a sylweddolais oedd bod yna ar hyd y ffordd, yn rhedeg fel math o wythien, asgwrn-cefn cynhaliol, a'm tynnai drwyddi. Nid meddwl yr wyf yn awr yn unig am rai rhediadau (ac ambell linell unigol) a oedd yn gryfach na'i gilydd, nac yn sicr nid am sribyn o 'ddarnau porffor' mwy ysbrydoledig na'i gilydd mewn cerdd hir. Ond am linellau rywsut a oedd yn amcan neu'n ddiben i ystyr gyflawn ac unedig y gerdd. Roedd y dasg yn ormod, ond roedd y cyfan oll wedi'i wneud o lythrennau unigol.

Es i'n ôl drwy'r gerdd a'u marcio a hunan-ymholi o'r newydd, er mwyn dysgu drwy ddatgymalu. Ceisiwn ddychwelyd at y gerdd a'i harchwilio'n feirniadol. Er mwyn adolygu, bu dadansoddi.

Yr oedd y mythau cynhaliol a thematig yma ac acw, wrth gwrs, yn gwbl ddychmygol. Nodais ar fy nghopi, 'Peidiwch â gadael i ffeithiau lesteirio stori dda.' Wedi'r cwbl, breuddwyd neu'n hytrach hunllef oedd y testun, nid cronicl. A gŵyr pawb fod pob breuddwyd yn gelwydd, a rhai celwyddau'n well na'i gilydd. Rhaid bod yn was i'r amcanion. Ac amcan, Dewi, y buom yn sôn mewn sgysiau gyda'n gilydd lawer tro amdani yw gwerthfawredd gwylid y llinell gydiol, y thema ganol, y gadwyn feddyliol unol. Fe'i ceir fel arfer mewn llinellau achlysurol cyfannol.

O ran diddordeb i ffrindiau, nodaf yma'r sgaffaldwaith hwnnw fel rhan fwy penodol a manwl o'r drafodaeth ynghylch adeiladwaith ystyr yr *Hunllef*:

I ll. 1-67; 83-89; 96-105; 127-164; 180-190; 205-219; 268-277; 304-373; 390-412; 476-579; 603-627; 785-787; 803-813; (Y rhan gyntaf yn gosod y fframwaith meddyliol.)

II ll. 1-9; 113-171; (dechrau cyflwyno'r ailymdddangosiadau o Arthur mewn gwahanol weddau hanesyddol)

III ll. 335-359; 602-621; 729-766;

IV ll. 96-104; 261-271; 370-384; 660-685; 717-728; 766-780;

V ll. 1-86; 140-144; 221-224; 523-529; 670-693; 745-752; 839-863; 918-942; 1023-1037; 1207-1222; 1362-1375; 1554-1582; 1594-1631; (Y rhan arweiniol sy'n gosod thema serch.)

VI [Y rhan allweddol i gyflwyno'r Cymro cyffredin, y taeogion a'r werin, a'r berthynas rhwng y Cymro Arthur ab Ieuan a'r Sais John; a'r themâu amryfal sydd i ufudd-dod.] ll. 1-53; 175-190; (Cyflwynir y 'forwyn' sydd hefyd yn wrach.) 223-357; 502-513; 563-609; 633-646.

VII [Y rhan allweddol i gyflwyno trasiedi Cymru; Arthur yn ymddangos yn hanes Llywelyn.] ll. 11-13; 62-67; 76-79; 88-90; 333-337; 389-518; 546-704.

VIII 24-38; 81-84; 137-167; 244-254; 273-276; 505-539; 616-621; 656-671; 712-732; 830-846.

IX 96-109; 237-246; 335-349; 372-384; 746-759; 803-821; 905-970; [cywiriad pellach: darllener 'buasai' yn lle 'bu'] 1035-1061.

X 312-331; 379-389; 475-480; 707-711; 865-915.

XI 1-106; 127-134; 347-377; 414-453; 496-502.

XI 101-113; 330-351; 438-461; 773-788; 876-912.

XIII 1-19; 259-273; 371-387; 444-456; 669-694.

XIV 1-24; 303-312; 386-400; 511-532; 894-1018.

XV 1-108; 136-149; 347-391; 498-507; 530-547; 635-652; 697-723.

XVI 182-198; 399-440; 496-601.

XVII 1-83; 99-119; 158-188; 222-234; 299-315; 481-500; 529-535; 769-777.

XVIII 145-174; 210-226; 477-494.

XIX 1-368; 461-471; 506-536; 758-781; 795-816; 887-895; 905-914; 979-990.

XX 168-181; 389-438; 659-707; 841-874.

XXI 29-35; 138-141; 381-395; 418-444; 454-462; 680-713; 775-790.

XXII 69-80; 309-314; 383-389; 545-559; 831-901; 939-950; 961-976; 1023-1039.

XXIII 1-85; 514-525; 769-818; 1065-1080.

XXIV 1-409; 554-565; 800-829.

Dyna, mewn arolwg o'r llinellau allweddol unol ran estynedig o'm bywyd wedi mynd i'r adeiladu hwn. Dyna'r fframwaith adeileddol o sgaffaldwaith. Pendronwn mwyach a gresynwn – beth pe bawn i wedi ymgymryd â hyn oll mewn ffordd wahanol.

Rwy'n gallu gorwedd yn y fan hon yn awr gan edrych ar y nenfwd ac edifarhau. Rwy'n teimlo gwir dristwch am gynifer o bethau mewn bywyd hir. Mewn gwirionedd, rwy'n profi pigiad cydwybod am weithred ar ôl gweithred ar ôl gweithred, a'm calon yn gwaedu oherwydd gafael pechod cyson ynof. Y Beirniad Edifeiriol yw hyn. O'r fath fywyd, a ges i, mewn rhes o wanweithredoedd na allwn eu credu! Dyma'r hyn y mae'r Cristion tlawd i fod i'w wneud, mae'n debyg; ond mor llesg yw'r teimlad.

Ac yn sydyn, rwy'n gweld beth sy'n digwydd. Rwy'n blasu balchder yn yr edifarhau hwn: bachder ffôl mewn cyd-destun cyffredinol a chnawdol. Crist sy'n rhoi gras i edifarhau. 'Does dim edifarhau ysbrydol go iawn i'r gwaelod gan anghredadun na chredadun', meddaf. Eto, yng nghanol edifeirwch, rwy'n gwneud yn union y gwrthwyneb. Gwnaf hunan-amddiffynnwr ohonof fy hun.

Rhaid gwylid y diafol yn ymwithio. Hen gydymaith. Bu'n rhy agos. Onid Duw yw fy mhrif lawenydd? Onid ef sy'n llenwi fy meddylfryd ac osgo fy myfyrdodau?

Mae yna rywbeth yn bod arna-i. Ymesgusodaf, ymsonaf yn blentynaid yn fy henaint. Mae'n debyg nad yw'r ffaith fy mod ar fy ngorwedd am wyth deg pump y cant o'm hamser ddim yn help. 'Druan ohono. On'd yw e'n ddewr!' Ond y gwir yw nad oes dim osgoi ymarferol; felly allwn i ddim ei osgoi. Mae'r cyflwr yn rhan anwybodol ohono'i fel anadlu. Mae'n anochel. Ac eto, fe ganmolir fi am fod fel yr wyf! Mae'n hen hen bryd i mi ymwared â throi i mewn fel hyn, a throi tuag at y Duw sy'n iawn, yr Un sydd wedi ennill fy mryd. Eiddo ef ydw i. Adnabod tristwch, eithr bod yn llawen o hyd... Peth fel hyn yw fy edifeirwch: perygl o hyd.

Perygl yw byw. Mae dyn yn coleddu pechod, hyd y diwedd, yn lle ffoi a rhedeg fel y gwynt rhag y duedd i anwylo ffwdan celwyddgar personol. Yn wir, dyma, wrth fyfyrion amdanaf fy hun, ddiolch yn y lle gwaethaf am bob un dim. Eto, yn lle sylweddoli'r hyn a wnaeth Duw wrth ddiogelu'r ffydd a thrwy gariad Ei ysbryd ddiolch yn yr unfed ganrif ar hugain am fy mod i'n arddel

yr un ffydd a'r un broblem â Paul a Clement a Jerôm ac Awstin a Thertwlian ac Emrys a Chalfin a Beza a Chatecism Heidelberg a Phascal a John Owen a Phantycelyn a Martyn Lloyd-Jones, heb ddim diolch i mi fy hun, mae hi fel petai rhywun yn cael tröedigaeth ac yn chwilio am gamera.

Un o'm balchderau lawer yw hunanamddiffyn. Dylwn i fod yn gallach. Fe gefais i ddigon o bractis. Ac eto, mae'n gwrthweithio bob tro. Mae'n taflu'r abwyd i'r awyr uwch fy mhen, ac wele'n ddi-ffael rwy'n neidio'n awchus gyda'r gwirionyn hwn, yr helwheliwr, fi. Bu Duw'n garedig i mi drwy fy nghadw ar fy nghefn i oedi. Rhoddodd gyfeillion triw sy'n tynnu'r ystyllen o'm llygad – gyda'r mawr a'r mân – i beri i mi ymdroi gyda'r llu o stylod. Caiff lawer ffordd i'm ceryddu.

Disgynna ar achlysuron yn anwyliadwrus.

Mae gen i ambell gyfaill chwithig – ddim yn elyn o gwbl – sy'n mynnu sibrwd yn fy nghlust yn garedig ac yn gyson: 'Mae Bobi Jones yn fardd gwyllt o anodd o hyd.' A yw hyn yn wir, neu a yw pob beirniad yn sylfaenol ddymuno i bawb ysgrifennu'n debyg iddo ef? A dyma fi'n troi at fy nhrydedd gyfrol o gerddi i'w siecio o'r newydd a holi (nid at yr un o'r ddwy gyfrol gyntaf sydd yn syml dost), gan ymlusgo i gornel i ddarllen a chofleidio'r helwheliwr:

I'r Bychan Cyn Ei Flwydd

Gwyddwn yn burion 'mod innau'n jôc,
Fod f'ymennydd a'm calon a'm trwyn yn jôc;
Ond credwn yn ddiniwed fod cŵn yn iawn,
Fod tai at ei gilydd, a choed yn iawn,
A bod 'na wedduster mewn bwyd a llyn
Mor ddof fel na chwarddai'r un enaid fel hyn
Mewn dirdyniad gwyllt o ddigrifwch. Gwir
Fod ambell barchusyn yn sbort i ni:
Ond doed poen neu afiechyd, achan, rwyt ti'n
Fwrlwm am bawb a phopeth. Drwy'r dydd
Yn gwingo chwerthin, yn hollti'n rhydd
Nes datod d'asennau. Mae'r byd o'r bron
Yn smaldod gwirion a'r ddaear gron
Yn bêl i chwarae â hi. Mae stôl
Yn fynydd i'w ddringo i gyrraedd côl
Yr haul, a gorwedd i fyny fry
Gan gicio coesau uwchben y tŷ,
Neu uwch pob lefel resymol gall.

Ar ben y ford mae gweld: fe all
Gwir acrobat werthfawrogi'r lle, –
Achos syrcais yw'r cwbl o'r gogledd i'r de.
Lleban yw'r gwynt; eliffantod llwyd
Yw'r cymylau. A phwy sy'n ymofyn rhwyd
Ddiogelwch? Ni ddelid chwerthiniad y llanc.
Fe neidia o glust i glust. Mae'i wanc
Am chwerthin yn aruthr beryglus hy.
Weithiau 'rwy'n ofni dod i mewn i'r tŷ
Achos gwegian chwerthin fwy na neb erioed
Wrth weld fod y fath beth i'w gael ar ddwy droed
A wna fy mab. Mae'n dadrithio dyn,
Wrth reswm, gan beri atal ei hun-
An-annwyl. Mae Duw wedi creu mewn un
Genedl o chwerthin a'i gronni'n grwn:
Paciwyd tyrfa o sbri a rhialtwch yn hwn.

Cyn belled ag y mae hynny'n taro un-ar-ddeg, mae'n gwneud hynny oherwydd mai math o edifarhau yw'r testun ei hun, a hefyd oherwydd ei fod wedi cymryd plentyndod nid yn unig yn destun ond yn arddull hefyd. Plentynnaidd yw, onid e?

Yr wyf bellach yn synied hefyd fod gormod o'm gwaith yn llafurus o ymenyddol, ac y dylwn fod wedi fy nisgyblu fy hun i droi'n amlach at hwyl yr ysgafnfryd. Plant yw'r athrawon gorau.

Pam dewis hyn? Ai rhoi ateb i feirniad arall a wna? Ai ymchwyddo hunan-amddiffynnol?

I ba raddau yr wy'n pwyso mesur symllder yr hyn a ysgrifennaf? Onid yw symllder yn hanfodol o fewn yr hyn a wynebwn? Na, nid o hyd; ond yn anodd hefyd, os bydd angen. Hyd yn oed yn Gymraeg. Cwestiwn yw hyn ynglŷn â symudiad amrywiol y meddwl cenedlaethol, ac ynglŷn â seicoleg yr hunaniaeth ddiwylliannol: yr holl rychwant deallol. Cwestiwn yw hefyd ynghylch yr awydd i fod yn dryloyw.

Pan oeddwn i'n llunio beirniadaeth lenyddol yn sgil fy ngwaith bob dydd, doedd y cwestiynau hynny ynghylch gwerthoedd mewn manion ysbrydol ddim wedi derbyn y sylw a ddylai fod yn her. Fe'i gwneuthum yn bwnc canolog i'm myfyrdod beunydd, a cheisir cysidro a'i gysidro yn ddiderfyn. Y gwir oedd fy mod yn sgrifennu gormod. Yr oeddwn yn rhy barod hefyd i ateb yn ôl. Y dull a gymerwn i oedd yr un rhesymegol o 'anrhydeddu'r' gwaith, a minnau'n gwybod yn well mai cymwynas oedd yr ymateb gonest gan gyfaill. Bu balchder ystyfnig yn drech nag edifeirwch wrth

or-sgrifennu.

Dyna'r ateb. Mae fy nghyfaill o feirniad yn gwenu arnaf, mi wn, ac yn iawn felly. Mae fy hen groen-deneurwydd wedi cicio'n ôl bob tro; yr hen hunandosturi, y peth na ddylai fod dim trugaredd ynglŷn ag ef. Nid dyna'r ffordd mae Cristion yn ei wneud. Nid dyna'r ffordd y mae'r Ysbryd Glân yn cyfarwyddo. Rwy'n cicio'n ôl, yn hytrach nag yn archwilio'r hunan. Nid dyna'r ffordd y mae'r Ysbryd Glân yn dilyn trywydd y meddwl ac yn peri sylweddoli plentyneidd-dra balchder. Mae fel petawn i'n rhuthro i gysuro siom, fel petai rhywun yn cael tröedigaeth ac eisiau canmoliaeth am lwyddo i gwrdd â'r Ysbryd Glân. Hynny yw, rwy'n ymateb yn y lle mwyaf sanctaidd â'r ateb mwyaf garw, yn lle bod mewn rhyfel fel tangnefeddwyr go iawn, gyda buddugoliaethau a cholledigaethau, yn ddiwarafun. Fy ngholli fy hun go iawn fyddai Ei ennill Ef.

Mae'r Ysbryd ei hun yn ein trin â llef ddistaw fain, yn y mini-benderfyniadau yn fynych fynych iawn, ar y pryd. Bu arnaf eisiau hoelio fy sylw ar y pethau bach, oherwydd ein bod bob amser yng nghyd-destun Gogoniant Duw. Yn yr hunanamddiffyn hwnnw mae'r magl. Gwyddom fod testun yr hunanamddiffyn yn bychanu caru cymydog fel fi fy hun. Bob amser mae eisiau i Gristion ladd y pechod hwnnw sydd ar ôl. Ac yr wyf wedi cael digon o bractis. Mae angen mwy o wrando.

Rwyt ti, Dewi, yn d'ymatebion wythnosol wedi bod yn ddigon cymwynasgar drwy sgysio ar y ffôn a thrwy lunio ymateb yn dy lythyrau ysgrifenedig i'm hyfforddi mewn gwranddo.

* * *

Dw-i wedi bod yn parablu am ddistadledd a chwmpas Gras Cyffredinol: 'beth bynnag y mae person yn ei wneud'. Tybiais mai ymarferiad hwyliog fyddai arolygu maint a natur yr edifarhau a'r gras syml a dibwys yn fy mywyd beunyddiol, mewn diwygiadau achlysurol penodedig.

A wnest ti sylwi, Dewi? Y cwestiwn rwyt ti'n ei ofyn i mi bob wythnos yw 'sut mae-i yr wythnos hon?' Cwestiwn yw sy'n gofyn am drwbwl. Cwestiwn yw nad oedd ond yn symudiad agoriadol na fwriadaist iddo fynd â ni'n bell. A'r ateb treiddgar a roddaf yn ddieithriad yw 'Iawn; rhywbeth tebyg i arfer, diolch i Duw.' Pe bawn i'n Gristion aeddfed, yr hyn a ddylai fod yn amlwg i'm henaid fyddai "Nes byth at Dduw bob dydd." Ond ni ddwedaf ddim o'r fath. Dw-i wrthi'n ceisio marweiddio'r cnawd yn fy meddwl wrth gwrs; yn sancteiddio, ond dw-i'n anobeithiol. Ond wedi cael yr Allwedd, dw i ddim yn well person. O! na: tewi sy orau ar y pen yna.

Bûm yn pendroni am y cwestiwn hwnnw o dawelwch, yr wythnos hon. Mae yna rai cwestiynau mawr y gellid cydio ynddyn nhw; ac os nad ŷm ni'n ofalus, fe allan nhw godi'u pennau, ac edrych drwy'u llygaid yn ôl arnom ni, a chrechwenu. Yn fy achos i, mae'n debyg, bywyd go ddiffwrwyth sy gen i'n feunyddiol. Ac eto, fel ti, Dewi, does gen i ddim munud i'w sbario. Dyw'r diwrnod ddim yn ddigon hir.

Ar ddiwedd oes, dyma fynd ati, i ailddarllen fy ngwaith, a phwysu a mesur fy methiant, heb feddalwch.

Mae'r patrwm beunyddiol yn fy mywyd yn undonog hynafol, ac yn gyffrous o anniddorol. Dyma raglen y dydd a'i ffwdan hynod. Fel llawer henwr, dw-i'n diuno'n gynnar, tua phump o'r gloch y dyddiau hyn. Arhosaf yn y gwely am hanner awr, gan feddwl yn llawen neu'n bryderus am y teulu, a diolch i Dduw amdany'n nhw ac am ffrindiau. Mae'r ddau blentyn – bendith arny'n nhw – yn ymgysylltu â ni bob dydd, i sôn am eu gwaith a'u teuluoedd a'u ffrindiau. A ninnau'n clustfeinio'n awchus. Yna byddaf yn codi'u henwau gerbron Gorseddfainc Duw. Mae Beti, fy ffrind a'm cariad, erbyn hyn yn bedwar ugain a chwech druan, ond finnau'n flwyddyn yn hŷn er nad yn gyfartal yn ei doethineb, ac felly y mae gennym lu o atgofion cyffredin i'w rhannu ac i atgoffa'n gilydd amdany'n nhw. O ran anianawd, mae'r ddau ohonom yn wahanol iawn, ond wedi bod yn wyn ein byd oherwydd maint mawr y serch sydd rhyngom... Dim byd i'w wneud!?

Ar ôl yr hanner awr effro cychwynnol a myfyriol yn y gwely, yr wyf yn codi, ac yn gwranddo ar bregeth gan fy nghefnder Geoff am ryw 50 munud ar y Cyfrifiadur. Credaf fod Geoff yn bregethwr cwbl athrylithgar. Mae ganddo ddoniau hollol eithriadol. Clywais lawer o bregethwyr arddelgar yn fy mywyd, gan gynnwys Martyn Lloyd-Jones. Bu hyn yn un o freintiau pennaf fy mywyd. Darllenais gannoedd o bregethau; ond does neb wedi cyrraedd uchelderau Geoff. Rhaid ei fod yn yr un dosbarth â Daniel Rowland. Ni wŷr ef am unman ar y ddaear i ddod o hyd i drigfan barhaol. Ar hyn o bryd yr wyf yn gwranddo ar gyfres Lloyd-Jones ar Rufeiniaid. Ond y mae Geoff yntau yn ei weinidogaeth wedi cofnodi miloedd o bregethau, mae'n rhaid, sydd yn cael eu gwasgaru drwy'r byd bob wythnos. Ac y mae ei deithiau efengylu yn cludo'r ias i bum cyfandir, gan groesi mwy nag un cyfandir bob blwyddyn. Mae ganddo gof am filoedd o gymeriadau. Mi wŷr am hanesion di-ri wedi'u casglu ar sail darllen a chymdeithasu eithriadol o eang ac awchus. Mae ganddo gof rhyfeddol. Cofia gannoedd o linellau gan Shakespeare a llenorion seciwlar eraill. Mae ganddo gof fel papur litmws. A gweddïa'n ddiflino. Welais i erioed y fath ffenomen ddynol. Dw-i'n dysgu ganddo am fwynhad gwynfydus.

Wedyn ar ddiwedd y bregeth, rwy'n gosod brechwast ar y ford.

Rhaglen reolaidd sydd i'n deiet, (ac i'n diwrnod mewn gwirionedd). Pur ddefnyddiol a diddychymyg o arferol yw'r pryd hwn. Ffwdanus ydw i am drefn y brechwast. Mae chwaeth Beti'n lletach o dipyn na'm deiet i'n gyffredinol. Ychydig o lysiau sy'n ddigon iddi hi: dyn ffrwythau a physgod ydw i. Mae Beti'n hoffi popeth bron. Sut bynnag, cyn ei bod hi'n dod i lawr, y mae'r brechwast yn barod. Mae'r dewis yn gyfyngedig i uwd-llaeth-soya yn sylfaen, gyda thriagl 'molasses' (mêl i Beti), llawer iawn o ffrwyth – grawnwin du, hanner banana yr un, ceirios, cnau cymysg, nectarîn, clementîns, gellyg, sudd afal-ac-ysgawen. Wedyn, mae gan Beti ei phils, sy'n gymhleth

amrywiol, gan gynnwys 'Warfarin'. Ond dim cig i mi yn y deiet (heblaw pysgod). Cefais rybudd gan y meddyg ar ôl fy mhwl cyntaf o ganser i beidio â bwyta cig. Yna, caf fara menyn (menyn – olew olewydd – Bertolli). Nid deiet iach dan orchymyn yw hwn, yn rhinweddol o ddifri, am nad oeddwn yn hoff iawn o unrhyw gig ta beth. Ond dilyn chwaeth yw sy'n cyd-ddigwydd yn o lew â iechyd. Nid oherwydd egwyddorion na chariad at anifeiliaid na dim byd mor uchel-ael â hynny.

Ar ôl brecwast, mae'r gwaith yn dechrau. Dyma'r llenyddda bondigrybwyll, a'r Feirniadaeth Edifeiriol. Mae'n para, gyda dau fwch i gerdded, tan ryw bump o'r gloch y dyddiau hyn gan fod y corff yn llai cydweithredol nag y bu. Mae hyn yn wir am Beti hefyd yr un pryd, ac yr ym ni'n gorwedd yn gyfochrog drwy'r dydd yn yr ystafell-fyw – ar wahân i'r ddau dro i mi drotian o gwmpas y fynwent, tra bo Beti'n paratoi cinio a the. Dyw Beti ddim yn gallu cerdded fawr o gwbl ar ei phen ei hun mwyach ond o ddodrefnyn i ddodrefnyn, ac felly y mae 'tro' normal yn amhosibl iddi hi, druan bach. Felly, y mae rhyw debygrwydd anabl i'r pâr hwn, ond bod Beti ychydig yn llai heini na mi, ac yn dioddef ychydig mwy o boen wrth gychwyn symud ar ei thraed.

Bydd ymwelwyr yn holi weithiau faint o boen sydd gen i. Ac mae'n gwestiwn dirgel na wn i sut mae'i ateb. Rhywbeth tebyg yw i'r ymholiad adnabyddus arall honno – pam mae'n digwydd eich bod chi **yma** yn hytrach na pheidio â **bod yn unman o gwbl**? Rhagluniaeth Duw yw'r ateb amlwg i'r ymholiad yn y cyd-destun crefyddol. Yr ateb cyfredol ynghylch fy mhoen sut bynnag yw 'dim llawer'. Mae'r boen serch hynny yno'n wastad, yn ysgafn; ond anghofiaf amdani, ond pan fyddaf yn eistedd i fwyta. Does dim lles o geisio meddwl am boen sy'n gyson ysgafn. Gallaf lwyddo i gysgu er gwaethaf dolur tila fel hyn; ond pan ddeffrôf y mae ef yno o hyd, yn dweud yn dawel: does dim dianc. Cosb yw am ymddaliad blêr. Eistedd yw'r gamp i mi. Gallaf gerdded (gwibio i ateb y ffôn efallai) heb ond ychydig o ymwybod o bresenoldeb annifyrrwch. Gallaf sefyll am ddeng munud yn yr unfan. Rheitiach gennyf symud. Mae gweithio ar feistedd wrth y cyfrifiadur am ddeng munud, neu eistedd i fwyta pryd, neu deithio yn y tacsî i'r *Home Café* neu i Siop Jona'r Pysgod, neu i'r capel neu i Morrisons, yn bosibilrwydd er bod y boen yn gynyddol ac yn dweud wrthyf am newid safle yn achlysurol. Yn y capel, trefnodd y cyfeillion imi orwedd ar fatras ar y llawr yn y festri, a darparu derbynnnydd i'r gwasanaeth fel y gallaf ei glywed ac ymuno yn y gân gyda'r uchelseinydd. Pan fyddaf yn cofio am rai pobl foedran i yn dioddef mewn ysbytai, yna teimlaf beth dirmyg at fy hunan-dosturi.

Gartref, yn ystod y dydd, byddwn ni'n dau yn mwynhau cwmni ffrindiau diddorol ac aml. Bydd rhai'n cerdded i mewn yn ddirybudd braf – sef y rhai sy'n rhan o'r 'teulu' mwyaf rheolaidd fel arfer. Bydd perthnasau'n dod heibio, i aros weithiau, am ychydig o ddyddiau, ac eraill am ychydig o oriau. Weithiau, bydd hen fyfyrwyr hoff yn dod heibio, ac eraill sy'n fyfyrwyr heddiw ac am drafod eu gwaith ymchwil.

I bobl eraill, fel gyda thi, Dewi, mae pobl eraill yn synied ein bod ni'n dau yn byw bywydau eithafol o anniddorol, a ninnau heb o'r braidd egwyl i 'orffwys' heb ddim ar y gweill oherwydd darllen a sgwrsio a'r 'gwaith'.

Cyn i mi droi nawr i drafod *natur* fy ngwaith beunyddiol, dylwn ddweud gair am ansawdd yr 'anniddorol' yn gyffredinol. Mae cyfoeswyr ifainc yn tybied bod gwaith academaidd, neu efrydu ac ysgrifennu ar faterion crefyddol, neu ymddistewi a myfyrio am ystyr bywyd, yn syrffedus ac yn 'sych'. Dim o gwbl. Dw i'n deall bid siŵr pam y mae llawer o bobl yn dweud bod materion crefyddol yn sych. Ac y mae llawer iawn o'r bai ar y capelwyr eu hunain. Ond nid yn gyfan-gwbl. Mae'r oes yn gyffredinol wedi'i gorfodi i fyw mewn un-dimensiwn a digyfnewid. Math o orfodaeth yw glynu, yn ddiddywedwst, law-yn-llaw â gwep-lyfr, neu ar y teledu, gan drosglwyddo lled-frawddegau achlysurol iawn â rhywun arall, heb ddweud dim byd, gan wrando ar yr hyn sy'n fiwsig am foment, ac yna'n noswyllo'n hwyr ac yn codi'n hwyr. Wyddan nhw ddim am grefydd fyw, wrth gwrs. Welsan nhw erioed y fath beth. A dydyn nhw ddim eisiau clywed. 'Onid dyma'r bobl sy'n meddwl eu bod yn well na phawb arall?' meddan nhw. Ond yn groes i hynny mae'r bobl yna yn ystyried eu bod yn waeth na phawb arall o lawer.

Wrth gwrs, pe baen nhw – pe bai rhywun – yn synied ei fod yn well na rhywun arall, Ffarisead fyddai. Y mae ar goll o safbwynt gwybod dim uwchlaw'r arwyneb. Mae'r Gwirionedd yn gaeedig, ond yn eiddo i'r tu allan i ddyn. Yn wir, gwacter yw dyn yn y bôn, yn annigonol yn fewnol, heb werthfawrogi ond yr arwyneb. Eto, mae bywyd sy'n arwyneb yn rhan o'r greadigaeth. Duw biau bob dim, hyd at y pethau lleiaf. Mae pawb a phopeth yn hanfodol ddiddorol, hyd yn oed yr anghredadun hunan-ganolog cyfyngaf. Nid dim yw peidio â gwneud dim. Bod yn y byd yw. Ac y mae yn rhan o fodolaeth. Ffarisead ydw innau pan dw i'n hunan-amddiffynnol.

Bu llawer o'm bywyd meddylol i ar draws y degawdau yn troi o gwmpas y ddwy wedd – y greadigaeth a'r waredigaeth – gras cyffredinol a gras arbennig. Pwnc yw y cydiais ynddo, ac aros yn ffyddlon iddo. Dw i ddim yn disgwyl i neb gytuno â mi ynghylch arwyddocâd hyn ym myd beirniadaeth lenyddol; ond gwn fod modd i mi gytuno â llawer iawn o gyfeillion ynghylch y mater er ei bod yn ymddangos iddynt hwy fel petaent wedi cymryd safbwynt cwbl groes i mi. Gras Cyffredinol yw'r bont ymddangosiadol i ni. Dawn iaith. Bûm o ddifri yn chwilio yn fwyaf penodol ymhlith yr anghredinwyr a oedd yn ymwneud ag adeiladwaith llenyddol a syniadol, rhyngwladol negyddol, yn y byd ysbrydol, â'r cwestiwn hwn i feirniaid seciwlar yn ogystal ag i feirniaid Cristnogol, beth sydd a wnelont â'r pwnc penodol esoterig hwn o ddawnusrwydd cyffredin? A yw dehongliad crefyddol yn dramgwydd rhagdybiol? Onid yw hwyl a sbort yn rhan o hanfod ysbrydol y Cristion, ac onid yw Gras a Mawrhydi Duw hefyd yn berthnasol i'r anghredadun megis harddwch i bob darllenydd? Nid ynghylch cred gan neb arall, ond y ffaith ei bod ar gael o gwbl.

Credai Baxter, y Piwritan cywir, fod ffuglen storiol yn gelwydd ac yn wrachaid fel 'bodolaeth'. Nid dyna agwedd y Beibl. Yn Corinth I, 15: 23 mae Paul yn dyfynnu o'r ddrama Thais gan y dramodydd Groeg Menander. Wrth sgrifennu at Titus am y Cretiaid, mae Paul yn dyfynnu Epimenides, brodor o Greta ac yn awr ar ei ôl 'mae'r dystiolaeth yn wir' (Tit. 1: 12-13). Yr adran fwyaf enwog yw'r araith arwyddocaol i'r Areopagus yn Act. 17, lle y mae awgrym o gyfeiriad at Homer (am Cyclops Polyphemus yn chwilio am y fynedfa i'w ogof ac at Plato yn y *Phaedo*). Yn ddiweddarach (adnod 28), cyfeiria at y beirdd Groegaid Cleanthes, Arctus, ac Epimenides. Ac wrth gwrs, mae gan y Beibl ei cherddi a'i storiâu ei hun. Roedd gan yr awduron eu creadigrwydd storiol yn ôl y galw. Mae dychymyg llenyddol yn hyrwyddo mawrhydi'r bod dynol, ac yn corffori'r profiad ymarferol a haniaethol a'r gwerthoedd teimladol. Mae mwynhad llenyddiaeth yn dyfnhau ein pleserau deallol. Dewisodd Duw fod yn gorff ac yn ysbryd yr un pryd.

Gallai Iesu lunio damhegion.

Dichon y bydd rhai beirniaid proffesiynol yn bychanu celfyddydau ymarferol fel amaethyddiaeth o gymharu'u gras cyffredinol, neu berfformiad ar offer chwyth, o'u cymharu â dramâu theatrig, ond dynodant gam bras ymlaen yn natblygiad gwareiddiad ac yn unigrywiaeth dyn (Genesis 4: 20-22). Wedi'r cwmp, mae'r medrau hyn yn gallu cael eu cyflwyno i lefel arall heblaw'r seciwlar. Edrycha'r Beibl drwy lygaid person Un a luniwyd ar ddelw dyn. Un o'r gweddau ar olwg Duw yw prydfferthwch y cread. Yn y greadigaeth ei hun ymfalchīwyd yng ngwaith Duw yn trefnu ffurf o gwbl. Fe all yr asyn fod yn iwtilitaraidd: ar ei gefn, cyfyd dyn i fod yn ddaionus fel y mae Duw yntau'n ddaionus (Ecles. 5: 18-19) ac yn batrymgar fel y mae Duw'n batrymgar.

Rhyfeddwn fod crefft y stori – y gymeriadaeth, yr elfen ddisgwyl, y tro rhwystrol, cyflawni'r patrwm a diben y newydd-deb, yn gallu rhoi boddhad a hyfrydwch i Dduw ei hun. Eto'r un pryd, gall y safbwynt a arddelir yn wleidyddol neu hyd yn oed yn syniadol fod yn gorfforol wrthun i ddarllenydd ac eto'n gelfyddydol swynol. Yn ôl y dyneiddiwr Matthew Arnold: 'it was Christians who finally taught man to appraise poetry by a purely aesthetic standard – which enabled them to reject most of the moral and religious teaching of the classical poets as false and ungodly, while accepting the formal elements in this work as instructive and aesthetically delightful.'

Yn hyn oll mae'r Cristion yn ymsymud gan mwyaf mewn dimensiwn Cyffredinol, ac eto mewn dimensiwn Arbennig neu Waredigol, er nad oes dim modd bod yn niwtral.

* * *

Cefais yn ddiweddar, felly, achlysur i fynd yn ôl yn feirniadol i ailchwilio'n adolygol lawer o'm gwaith fy hun, a chael bod edifarthau'n rhan o waith beunyddiol llenor. Mwynhawn edifarthau ac ymosod. Mae yna edifeirwch i'w gael ar gyfer pob gwedd ar ein bywyd.

Rhan o waith pob bardd yw bod yn feirniad, ar y pryd ac wedyn. Ar ôl ysgrifennu pob cerdd,

rhaid iddo ddychwelyd ati yn fuan neu ymhen amser, os yw'n weddol ddoeth i geisio gweld a yw wedi dweud yr hyn yr oedd ef yn meddwl ei ddweud, ac a oedd wedi dweud yr hyn yr oedd yn werth ei ddweud, – ac a oedd wedi cyflwyno'r dweud hwnnw yn ei wisgoedd arddulliol gorau.

Mae pob cerdd sâl a ollyngir i'r cyhoedd yn sen ar wareiddiad. Mae ei phresenoldeb yn ddrwg yn y caws. Dyletswydd y beirniad-yn-y-bardd yw rhoi taw ar y rhannau sâl o'r cynnyrch hwnnw os medr cyn i'r cyhoedd eu goddef.

Ceisiais eisoes gofnodi ychydig o'm gwaith adolygol a dynnodd fy sylw drwy olrhain cyfeiriad llwybr beirniadaeth yn fy mhererindod i yn ysgrif yr Hunan Du [yWefan].

Erbyn y cyfnod 1986 (*Hunllef Arthur*) – 1989 (*Casgliad o Gerddi*) yn fy hanes i, yr oeddwn yn teimlo i mi gyrraedd gwasgfa a chyfnod newydd yn fy mywyd. Yr oeddwn wedi treulio deng mlynedd o ymgyfyngu i'r dasg o lunio gwrth-epig hir, a'r gerdd honno (a'i llafur llethol) wedi tynnu i ben o'r diwedd, ac wedi tynnu fy mhen i oddi arnaf hefyd. Cerdd oedd hi a oedd wedi pwysu arnaf erioed imi'i rhoi ar bapur; ac yr oeddwn yn ddiolchgar (yn fy ffordd naif fy hun) imi gael bywyd a chyfle i'w thynnu i fwcwl. Teimlwn ei bod yn bryd imi oedi a phensynnu wedyn, a cheisiwn symud bellach ganolbwynt fy niddordeb oddi ar farddoniaeth yn unig.

Yn ail, yr oedd fy ngwaith cyflogedig beunyddiol, ar y pryd, yn golygu mai fy nyletswydd foesol a galwedigaethol fu cefnu ychydig oddi ar y barddoni i baratoi beirniadaeth lenyddol broffesiynol ynghyd ag wynebu'n feddylgar symudiadau deallol megis Ôl-foderniaeth, a'r argyfwng cyfoes a wthiai syniadaeth orfodol y gymdeithas oll i gyfeiriad argyfyngus sgeptigrwydd a dogma ansicrwydd a chwalfa. Roedd hynny wedi tyfu'n fygythiad go gyffredinol i gadarnhad llenyddda fel nod. Ymhith ffasiynau beirniadol, a oedd yn rhemp ar y pryd o'm cwmpas, yr oedd 'Ôl-foderniaeth anhunanfeirniadol'. Rywfodd, roedd yn ddyletswydd feddyliol academiaidd imi wynebu hyn a'i harolygu ymhell uwchlaw ffasiynoldeb ac ymatal rhag gorfodaeth dilyn y llif yna mewn beirniadaeth. Rheitiach fuasai brwydro'n fwy uniongyrchol o fewn cyd-destun y traddodiad cadarnhaol Cymraeg, yn hytrach na derbyn amhenderfynolrwydd awtomatig fy nghyfoeswyr cartref a thramor.

Yn drydydd, tybiwn y byddwn yn dysgu rhagor am y broses greadigol wrth dyfu neu finiogi yn fy myfyrdod yn fwyfwy beirniadol, – yn genedlaethol, ac yn grefyddol. Yr oedd arnaf eisiau edrych yn ôl a dychwelyd at yr hyn oll a sgrifennwyd gennyf i fy hun eisoes o'r blaen mewn prydyddiaeth i'w dadansoddi. A hynny a wneuthum linc-di-lonc yn *Casgliad o Gerddi* (1989); sef ymdroi gyda'm blynyddoedd casgledig. Wedyn, oherwydd y rhyddhad a gefais yn y gwaith hwnnw, tyfodd teimlad o derfynu cyfnod neu oes, a lluniais ddwy gyfrol newydd i'w hychwanegu at y *Casgliad*, nid amgen *Canu Arnaf*, sef *I* a *II* (1994-5). Roedd y teitl yn adlewyrchu ymosodiad seicolegol a fu arnaf ar y pryd. Lluniwyd y ddwy gyfrol hynny mewn cyfnod o benbleth oherwydd

ansefydlogrwydd diangor syniadaeth yr oes. A syniaf yn awr fod y dryswch hwnnw wedi'i ddadlennu ei hun mewn llinellau lawer a ddarllenwn yn edifeiriol anesmwyth bellach yn fy ngwaith fy hun wrth fwrw golwg yn ôl. Ansicrwydd trothwy henaint oedd yr holl ffidlan hwn. Dyma ddatblygiad ar edifeirwch, oddi ar yr adolygu arferol, i fath newydd o adolygu dwysach a mwy ysbrydol. A theimlwn fod angen dadwneud bywyd eto, oherwydd yr angen i ddiwygio fy ngwaith oll yn y ddwy gyfrol *Canu Arnaf*, ac yn wir, fod yna lawer o gerddi y dylwn eu hepgor bellach yn llwyr.

Byddai hepgor rhai cerddi cloff megis gweithred o ymlanhau. Dywedai'r cerddi *aflwyddiannus* nid anfynych a phytiog hynny fwy wrthyf amdanaf i fy hun a'm penbleth ar y pryd nag a wnâi rhai o'r cerddi yr oeddwn yn fwy bodlon arnynt. Mae'r fath brofiad ymddiwygiol yn wers iachusol. Does dim diwrnod yn gwawrio i neb heb angen edifarhau. Mae pob derbyn cam mewdol, gwellhaol, a chydweithiol yn rhagflaenu gwrthod, ac mae pob da yn rhagflaenu drwg. Gwedd ar ddiffinio ieithyddol a llenyddol yw hyn. Mae ailymweld llenyddol fel hyn wedi dod gan bwyll i'm hawntio'n garedig, a chefais fy mod yn magu'r arfer o ymholi creulon pa fath o ffactorau a oedd yn fy nghorddi yn awr wrth geisio gwrthod rhai pethau. Daeth adnabod a gwerthuso mwy ffwdanus fel hyn yn rhan gynhenid o'm bywyd, ac yn ffordd o feddwl.

Dylwn esbonio efallai pam y dechreuwyd y 'We' o gwbl. Nid oherwydd *na* byddai rhywun arall yn ei chyhoeddi mewn cyfrwng arall, mwy confensiynol efallai. Bûm yn cyhoeddi yn ddigon rheolaidd hyd at ymddeol heb anhawster dros gyfnod o amser. Ond roeddwn wedi cyrraedd oedran pryd y ces gyfres o byliau o salwch, un ar ôl y llall, ambell un yn ddifrifol. Ac roedd gen i awydd i roi rhai cyfansoddiadau, a oedd yn eplesu yn fy meddwl, ar bapur.

Un clefyd arall oedd arnaf yn arbennig, sef dal ati i ysgrifennu. Synhwyrwn (yn anghywir drwy drugaredd) na byddai gen i ddigon amser i nodi'r pethau a oedd yn corddi gyda'i gilydd yn fy nychymyg. Dyna pam yr ymddeolwyd yn drigain oed gynt. Rhwystrwyd fy nymuniadau i ysgrifennu tua diwedd fy ngyrfa academiaidd yn y Brifysgol gan ddyletswyddau gweinyddol a phryderon ynghylch tocio ar staff yr adran (yn ôl polisi ac argyhoeddiadau Thatcheriaidd, blaenoriaethau a gyfrifwn i yn ffaidd, ac na allwn i ufuddhau iddynt ddim mwyach). Ymddiswyddais yn gynnar felly, – yn 1989 – a bwrw ati'n fuan (yn seler fy meddwl) i adeiladu Gwefan.

Pe bawn i'n onest yr ysgrifennu i mi oedd y peth, nid y cyhoeddi. Ar y pryd roedd dweud pethau yn fwy deniadol na meddwl am ymateb. A dechreuwyd arni, yn weddol unplyg, gan fod nifer o gynlluniau'n gogordroi yn fy myfyr yn aflonydd. Euthum ati, yn bwyllog o ddydd i ddydd. Erbyn 2016 roedd gennyf ryw ugain o gyfrolau ar y We, rhai'n hir iawn, y rhan fwyaf yn ganolig o ran hyd, a rhai'n fyr iawn; roedd rhai'n syml boblogaidd, rhai'n fwy dyrys nag y dylent fod, a'r rheini

i gyd, y cwbl wedi ymlwybro drwy'r dull a alwn bellach yn ddull y Beirniad Edifeiriol. Fy nod oedd bod mor syml a thryloyw ag y gallwn i. Bu cymhlethdod achlysurol yn flinder i mi ers tro. A gwn fod hyn yn flinder marwol i rai darllenwyr. Magwyd arddull a chynnwys symlaidd ar gyfer plantos. Mae rhai cyhoeddiadau yn gyfan gwbl amhosibl i rywrai wrth gwrs – hyd yn oed y *Western Mail*. Tybiai un beirniad fy mod yn teimlo cywilydd ynghylch 'tywyllwch' fy ngwaith fy hun. Euthum yn ymwybodol ac yn fwriadol elfennol. Yn sicr, mae cyhoeddi (hyd oed yn danddaearol ar We), yn amddifad o reswm os nad yw'n dderbyniol i 'rywun'. Roedd yn bosibl fel yna i fod yn anghwrtais i'r iaith. Eto un peth nid anghyffredin sydd wedi digwydd yng Nghymru yw 'ysgrifennu i lawr.' Tybiwyd y dylai fod yna yn y Wasg Gymraeg fonopoli o ysgafnder. Dylid ysgrifennu popeth yn fwy elfennol yn yr iaith hon, yr iaith israddol yn fwy plentynnaidd hyd yn oed. Datblygiad seicolegol yn y *psyche* Cymreig oedd hyn a amlhaodd tua'r 30au; ac yr oedd hi'n dra phwysig fod yna wrthwynebiad wedi parhau i'r dogma hwn. Bu'r Wefan yn fodd hwylus i fod yn greadigol neilltuedig ac i osgoi llawer o'r trafferthu cyhoeddus hwnnw.

Bellach, yn 2016, mae'r Wefan honno wedi'i hen orffen. Mae'r llyfrau a oedd gen i yn anniddigo yn fy mhen ac am fod yn orffenedig wedi dod allan i'r fei bellach. Dyma fi'n gorwedd yn segur ar fy nghefn, bellach, a'r oriau'n hir. Dechreuaf fyfyrion yn gynnar yn y bore. Ond mae gennyf gyfaill. Rwyd ti'n ei nabod yn bur dda, Dewi. Siaradaf â hwnnw ar y ffôn ar ddydd Gwener bob wythnos... am wleidyddiaeth Gymreig a rhyngwladol, celfyddyd, llenyddiaeth, a (chan fy mod yn 87 a Dewi yn ei 70au) am y dyfodol hefyd, ac felly am ddiwinyddiaeth wrth reswm. Hefyd, llythyrwn â'n gilydd bob wythnos ...

Er bod y Wefan bresennol wedi tynnu i derfyn a'i chladdu, mae'r sgrifennu'n mynnu para, felly, – bellach ar lun 'Llythyrau at Dewi', yn rhyw fath o gyw Gwefan arall. Nis bwriadwyd yn wreiddiol. Nid oedd ei eisiau, rywsut. Ac eto, dyma hwn yn rhyw fath o etifedd wedi ymffurfio i lenwi'r oriau a chripiant allan. Felly wrth allforio llyfrau. Daeth yn hen bryd i ysgafnhau'r gwaith a erys i'm hetifeddwy. Ond er dechrau ymwarded â miloedd o lyfrau oddi ar y silffoedd, (wedi dod adref â phentyrrau o'm hystafell yn y Coleg gynt,) yr wyf yn dal i brynu rhai newydd wrth gwrs. Bywyd o adolygu, a darllen ysgrifeniadau pobl eraill, chwerthin am fy mhen fy hun, ac atgofiannu yw hyn mwyach. Hoffwn rannu rhai pethau gyda thi, Dewi, ynghylch yr aildarllen sydd ar y gweill, o rai llyfrau a sgrifennais gynt yn fy ieuenctid gynt, ac o rai llyfrau sy'n dal i frigo i'r golwg.

Pan roddais 'Y Beirniad Edifeiriol' yn bennawd ar y llythyr bach hwn, fe'i bwriedais fel uchelgais priodol wylaidd (gan berson hynafolfarf heb fod yn hanner digon gwylaidd) i ffurfio clo adolygol i'r Wefan. A chan fod fy ngostyngeddwrwydd yn bur amheus i ni'n dau, mentraf ymwarded â rhai eithriadau i'r ymgyrch chwynnu, o ddydd i ddydd. Fan hyn, yn gyfrinachol fel petai, daliaf ati y tu ôl i gefn y Sefydliad: hynny yw, crynhof rai pethau i ti a fi drafod ffolinebau'r gorffennol, os

byddi di ambell ddiwrnod am droi i'th silffoedd lle yr wyf yn llechu mewn ambell gyfrol. Bu pedair cyfrol o Feirniadaeth academiaidd ddiweddar. Yna, cafwyd dwy Nofel y gallwn eu goddef, sef *Epistol Serch a Selsig* ac un ar Wefan, *Breuddwydion Maxine*, ynghyd â nifer helaeth o'r Storiâu nad wyf yn cywilyddio amdanynt ar y Wefan gyntaf. Yn y rhuthr i anghofio'r corff mwyaf o'm gwaith gan Edifeirwch, ofnaf i mi beidio ag ymwared â digon yn ddigon cafalir. Bid a fo am hynny, mae yna nifer o gyfeillion-lenyddweithiau eraill y carwn eu harddel rhwng cromfachau yr oeddwn wedi anghofio amdanynt nhw am y tro fel y *Bratiau Budron a Mawl a'i Gyfeillion*. Ond rhyngom ni'n dau, Dewi, a ninnau'n gyfeillion goddefgar, ni allaf fforddio bod yn haerllug.

Yn awr, wrth gyrraedd diwedd y Wefan 'rmjones/bobjones-net', y mae'n fath o ddiwedd oes, a chydabod llesgedd henoed. Teimlaf fel pe bawn wedi cyrraedd wal. Roedd yn bryd cynnal post mortem. Fe ddechreuais edrych yn ôl i bendroni o'r newydd ynghylch yr holl gorpws hwn a fuasai o'r blaen, ac yr oedd y myfyrdod hwn yn fath o glo iddo. Bûm yn cyffesu mewn ysgrif goffa gynt ar y We – 'Yr Hunan Du' – fy mod yn profi cywilydd i mi gyhoeddi gormod o bethau yn y corpws cynnar hwnnw, – megis y nofelau anaeddfed *Nid yw Dŵr yn Plygu* a *Bod yn Wraig* ynghyd â thipyn go lew o'r feirniadaeth lenyddol euog, yn ogystal â sgrifennu llawer gormod o weithiau eraill drwy'r blynyddoedd megis dramâu sâl drybeilig a ddiflannodd yng ngharedigrwydd y tân drwy drugaredd. Trueni fy mod erioed wedi cyhoeddi rhai o'r pethau hyn. I mi yn awr, roedd bod yn fwy penodol, (wrth archwilio diffygion), yn ymarfer da. Mae'n debyg, wrth gyflawni pob gweithred o'r newydd a wnawn, ein bod oll yn rhy fellten o sydyn fel arfer yn gorfod dewis geiriau a beirniadu ar y pryd. Dw i'n credu bod hunanfeirniadu hir yn sylfaenol werthfawr onid yn angenrheidiol mewn bywyd yn gyffredinol. Mae carthu gwyradau'n ffurf ar ymostyngiad, yn arbennig os yw'n arwain ymlaen at ddiwygio ymarferol. Edifeirwch bentigili.

Mae'n sicr gen i fod edifeirwch wedi'i drefnu i arwain at ddiwygio fy sefyllfa i'n gymwynasgar ystyrllon. Nid yw hwyr byth yn rhy hwyr i hyn. Fe ellid wrth gwrs yn deg holi beth yw'r pwynt i rywun, tua diwedd ei wythdegau, edifarhau'n ymarferol fel hyn, os nad yw'r amser ar ôl yn ddigonol i'r edifeirwch gael ei weithredu'n effeithiol o hyn ymlaen. Ond dylai edifarhau i'r Cristion arwain at eni bythol newydd ac at wasanaethu a gogoneddu ei Arglwydd bob amser. Ac wele fi o flaen wal o fath. Eto, hyd yn oed i hen Galfinydd edifeiriol cyffredin, erys bob amser yr angen i edifarhau o'r galon o fewn y byd hwn beth bynnag yw'r oed, hyd yn oed i'r sawl sydd bellach yn treulio nawdeg y cant o'i amser, ar ei gefn, yn y gwely.

Rhaid cyfaddef, sut bynnag, hyd yn oed pan fyddaf yn weddol o gwmpas fy mhethau, ac yn cyrchu i'r fan hyn a'r fan draw, y byddaf o hyd yn edifarhau'n ddwfn sawl gwaith bob dydd. Os yw hynny yn ddiwyll, fe gaiff fendith, ac ni fydd yn ofer. Rhaid cyfaddef mai Gras Cyffredinol yw pob 'ysgrifennu' fel y cyfryw, beth bynnag yw'r safon. Ond i Gristion, gras ei hun yw hyn: fe'i

'rhoddir'. I Gristion, yn y pen draw, y dasg ychwanegol yw cyfeirio Gras Cyffredinol at sylwi ar broblem y berthynas â Gras Arbennig, cynneddf lawer pwysicach. Ac i Gristion, mater gweddi yw peth felly: erfyn y bydd i bob dim – os yw'n tyfu o geisio difrifoldeb – yn cael penodol ateb gan Dduw'n bersonol.

* * *

Ar y Wefan estynedig gynt, fe gawswn gyfle annisgwyl felly i ymddiwygio yn fy nghasgliadau o 'storïau byrion'. Yn hyn o ysgrif heddiw, dichon y caf gyfle am orig gyda thi i ymdroi'n feddylol a chwynnu yn achos y 'cerddi' ryw ychydig.

Mewn ysgrif ddiweddar 'Yr Hunan Du' 2016, dw-i'n gweld dwy frawddeg awgrymus am y teimlad anghenus o hawntus tua 1976 (*Gwlad Llun*) i 'edifarthau'n weithredol'. Roedd henaint (ac ambell bwl sâl) wedi dechrau pwysu arnaf fwyfwy ar y pryd; roedd gormod o olion brys wedi bod mewn bywyd. Dechreuais yn gynnar edifarthau. Roedd yn bryd bellach ar ôl gorffen y gyfrol *Gwlad Llun* i eistedd ac aros yn y gadair, a phensynnu ... a hynny am ddeng mlynedd.

Deng mlynedd a neilltuais ar ôl 1976, fel y nodais gynnau, i ymrwymedig ac i araf ysgrifennu'r Gwrth-epig hir *Hunllef Arthur*, 1986. Bu gorffen hynny i mi, Dewi, yn ysbardun i ymatal, ac i gadw fy 'ngheg ynghau' pan gydiai'r awydd ynof ar y pryd i gyhoeddi'r farddoniaeth nesaf. Cyfrol adolygol hunanfeirniadol fyddai honno bellach, sef *Casgliad o Gerddi*, 1989.

Ni lwyddodd cynildeb y bwriad hwnnw fel y dylasai. Yn hytrach, agorwyd y llifddorau llac o'r herwydd. Cafwyd yn *Canu Arnaf* 1994 yr un broblem ag yn *Gwlad Llun* 1976. Roeddwn wedi ymdynghedu i ymatal rhag bwrw ymlaen yn rhy gyflym; ceisiais ymdroi fwyfwy gyda'r testun, a dethol yn fwy llym; ond roedd yr hen ddolur rhydd yn fy mhlagio yn fy nannedd. Mwyach, yn nhrobwynt 1994 fel yn 1976, yr oedd y bywyd academiaidd yntau hefyd wedi cau'n dynnach amdanaf o ran amser beunyddiol. Brwydrwn yn erbyn amser galwedigaethol. Cododd angen i ddatblygu ac i ganolbwyntio fwyfwy ar yr ail wedd ar fy mywyd ysgrifennu (yn 'ail' felly i farddoni), sef ar Feirniadaeth Lenyddol. O leiaf, dyna oedd y rheswm a roddais i mi fy hun am y cloffi awenyddol ddwy waith yn y ddwy flynedd hynny, – neu'r esgus. Nodaf ddau hanesyn. Dwi'n trysori atgof fod dau ddarlennydd doeth a medrus, ar ran y Wasg ar y pryd, wedi cytuno bod *Canu Arnaf* yn gyfrol ry hir, ac y byddai'n well ei rhannu, drwy gyhoeddi ar gyfer gwerthiant I, yn 1994, a'r llall II yn 1995. Protestiais i mai cyfrol hunangofiannol unol oedd y cwbl i fod, o'r dechrau; ond y ddau ddarlennydd a enillodd drwy drugaredd. Caredig oedd eu cymhelliad; cefais fwy o amser i adolygu ail ran y gyfrol yn ystod y flwyddyn a ychwanegwyd. O'r hyn lleiaf, cawsai'r ddwy gyfrol deitl gweddus a adlewyrchai fy nheimladau ar y pryd. Roedd fy mhrif themâu sut bynnag yn ystod y pyllau di-gyhoeddi diweddar hyn wedi ymgrisialu'n gliriach. Yn ystod y blynyddoedd hyn, allwn i ddim ymwarded â hen bendroni dwys pellach ynghylch perthynas thematig Moesoldeb a

Chenedlaetholdeb yn ein Hanes fel Cymry. Gyda hynny, bûm yn archwilio pa fath o effaith a gâi'r traddodiad o fewn datblygiad hunaniaeth. Roedd y rhain wedi ymdroi ac wedi datroi o fewn y farddoniaeth megis *Hunllef Arthur* ac mewn beirniadaeth. Wedi ymwared â'r cyfrolau hir mewn barddoniaeth, deuthum yn ôl i fath o normalrwydd rheolaidd o gyfrolau o gerddi byrion o hynny ymlaen, cyn y Wefan, ac yna'r Llythyrau hirwyntog hyn atat ti Dewi wedyn yn 2016 – 2017.

Ymataliaf i geisio rhesymoli'r weithred nesaf, drwy gofio fy mod wrth adolygu dy stwff darllen yn gwneud cymwynas i ti ac yn lleihau'r llafur caredig! Dichon, o'th safbwynt di, y gall fod yna esgus ar gyfer y nodiadau canlynol hyn heddiw, y post mortem hwn fel petai, oherwydd os cyfyd byth awydd arnat ti fel cyfaill i fwrw golwg yn ôl ar fy ngherddi, bydd gennynt restr fer wrth gwrs o'r pechaduriaid i'w hosgoi. Roeddwn wedi gwneud rhestr wrth law o'r rhai yr oeddwn am eu diarddel i ti, ynghyd â chywiriadau y byswn yn hoffi bellach eu cynnwys yn y darlleniad o rai o'r lleill. Rywfodd roedd yr awydd hwn felly i chwynnu wedi sefyll i holi pwy oeddwn i. Dechreuai godi gwynt. Torchaf fy llawes i ateb yr her. Mae yna'r fath beth â rhoi cysur i'r iaith. Mae'r iaith ar ei mwyaf hapus ac yn wir ar ei mwyaf optimistaidd pan fydd y geiriau yn cael eu doddi yn eu lleoedd iawn. Hyd yn oed pan fydd hi'n gras ac yn ymddangos yn greulon, a phan fydd yn cael ei chystwyo'n ystyrlon ac yn trafod negyddiaeth tristwch gan fardd, fe all fod yn greadigol fywydol. Mae hyn yn amlwg mewn marwnadau Cristnogol, ond mae'n wir hefyd, drwy Ras Cyffredinol, mewn trasiedïau a hyd yn oed mewn gogan. Ac y mae'r agwedd hon at gelfyddyd sydd wedi costio'n ddrud i'r awdur wrth arolygu'i waith, yn dysgu iddo fod pob un sill yn anadlu'n rhyddach wrth ffitio i mewn i'w gilydd. Mae'r traddodiad a'r iaith yn berchen ar fath o awdurdod (fel y maent yn berchen ar ramadeg) y mae'n rhaid ufuddhau iddo. Felly y syniwn i mwyach, wrth fwrw golwg yn ôl, am linellau unigol neu am gerddi cyfan.

Buddiol ac ymarferol, gobeithiwn, yw edifarhau o'r galon pan fydd awdur yn adolygu'i waith ei hun fel hyn yn ymosodol onest, gan ei fod yn arwain ymlaen yn ddiddihangfa at ddiwygio. Dyna fi, felly, Dewi, yn ddiweddar yn ailddarllen hen bytiau o ganeuon, tan edifarhau, ac eto'n dysgu eu carthu yn fy meddwl. Y ffordd orau i edifarhau yw tynnu'r aradr yn gras drwy'r gwaith o gam i gam, a chwilio 'rhigolau bywyd'. Pan fo'r galon ddioglyd wrth grafu drwy waith tybiedig orffenedig felly, neu'n well pan fo'n sylweddoli ei fod yn glwyfedig, buddiol o ymarfer yw troi'n ôl yn onest at hen gynnyrch, dod i'r aradr yn ei hawenau – yn ei Hawen – a chrafu'r cwbl yn greulon, un effro, yn ymwybodol, ac yn drefnus hyd yn oed. Ymarfer ysbrydol yw hefyd.

*

*

Dere gyda mi, felly, Dewi, yn gwbl ddiriaethol, i grafu'r gwaelod, gan gychwyn yn *Canu Arnaf I a II* ac ymlaen drwy'r cyfrolau barddoniaeth a gafwyd. Dw-i'n cychwyn yn y fan honno

oblegid fy mod eisoes yn *Casgliad o Gerddi* wedi gwneud yr un dasg honno o chwynnu hyd at syrffed wrth gribo'r cerddi'n drwyadl, nes ymlacio ymhen hir a hwyr yn *Canu Arnaf*.

Cyfnod y cerddi hir, rhy hir, fu *Canu Arnaf II*, yn arbennig o'r Adran 'Chwythu Plwc' hyd at yr Adran 'Hawddamor Iti Dri.' Mae'r rhain naill ai'n storiol neu'n lled storiol. Parhad neu ddrych ydynt o gyfnod *Hunllef Arthur*. Deuthum rywsut o dan hud storïau hir. Ac mae teitl a phwnc 'Y Ddinas Wen' (adlais o *Hunllef Arthur*) sy'n cloi 'Chwythu Plwc' yn cadarnhau'r esboniad yna i mi. Gall fod yna resymau seicolegol rhwystredig hefyd. Yn y gerdd sy'n cloi'r gyfrol yn yr adran 'Ffidl yn y To', sef 'y bardd yn araf ddysgu tewi ar ddiwedd ei yrfa', fe adlewyrchir ymwybod cynyddol o arafu cynhyrchiol ac o fynd o'r neilltu. Adlewyrcha hefyd y ffaith fy mod ar y pryd wedi magu cefn tost parhaol (yn llythrennol), ynghyd ag anwylderau eraill ond cyson, ac yn dechrau sylwi fwyfwy fy mod yn fy nghyfyngu'n ddibaid i gyd-destun o Orwedd. Roedd y cysgodion yn cau. Doeddwn i ddim yn siŵr felly pa mor hir y byddai'r awen ysgrifennu yn goddef ei herlid gan yr ysgrifennu obsesiynol mewn safle felly. Teimlwn hefyd fod rhai athrawiaethau ffasiynol, megis Ôl-foderniaeth faterol, wedi dechrau ffynnu a dod â'u cysgodion sinistr a meddiannu'r llwyfan llenyddol o'r newydd o'm cwmpas, nid yn unig yng Nghymru, ond yn fydeang hefyd, gan arwain yn anochel i mewn i gors, heb sylwi. Roedd honno'n amlwg yn ddysgeidiaeth ffug ac yn anymarferol, ond roedd pawb (fel petai) yn llyncu'r abwyd. Roedd swrealiaeth wedi'i rhagflaenu, nid yn unig drwy gydnabod iawnder theoretig dibyniaeth celfyddyd ar yr isymwybod, ond fel patrwm lliwgar didrefn o chwalu a thanseilio meddwl union. Adlewyrchir agosrwydd hynny mewn amryfal gerddi yn nwy gyfrol *Canu Arnaf*.

Dyma'r teitl a'r realiti i gyfansoddi mwyach. Esgorasant ar y gyflafan ganlynol.

Yma y canlyn felly'r cerddi rhwng 1994 a 2015 a ddiarddelir, y rhai lle y methais â dweud eisoes beth roeddwn i'i eisiau'i ddweud yn iawn, sef y rhai y dylet ti, Dewi, eu **dileu**'n grwn oddi ar wyneb y ddaear:

Canu Arnaf I (1994) t.14: 'Cyn y Gic Gosb'; t.16: 'Hunan-gofiant Balch'; t.60 'Portread o Gitarydd'; t.105: 'Dameg y Cynrhonyn Llon'; t.111: 'Dameg y Frân a'r Fronfraith'; t.117: 'Heddwch Crwban'; t.120: 'Cyw Gwalch Glas'; t.139: 'Gwir Fyddaru'; t.141: 'Y Cweryl'; t.143: 'Amgueddfa yn Ailymweld â Gelltydd Llanhuadain'; *Canu Arnaf II (1995)* t.223: 'Ysgariad'; t.225: 'Ffenest'; t.244: 'Chwithdod'; t.266: 'Arian Mân' – rhif 8: 'Plygain'; *Ynghylch Tawelwch (1998)* t.50-1: 'Portread o Gyfieithydd (Rhan 2)'; t.74-5: 'Coesau a Breichiau'; t.84-7: 'Gwlad fy Nadau' (dileu rhan 8: Comed); *Ôl Troed (2003)* t.62: 'Narsisws Mewn Triptych'; t.77-8: 'Y Sillaf Uchaf'; t.117-8: 'Marwnad Coeden'; *Yr Amhortreadwy (2009)* t.110-11: 'Rhieingerdd yr Eira Prin.' Allan â hwy. Dim newid yn *Y Fadarchen Hudol (2005)* nac yn *Bratiau Budron (2001-15)*.

Mae'r **cywiriadau** neu'r **diwygiadau mân** yn fwy ffwdanus na'r dileu cerddi cyflawn yn

Canu Arnaf I:

t.36: yn lle – ar ymyl yr amau, darllener – smic a chroen

rhyw hafan

Ei glywed

t.101: yn lle – ei ysbryd cellweirus darllener – ei gerbyd cellweirus

t.109: yn lle – cyfieithu'r cof eithaf darllener – cyfieithu imi'r cof eithaf

yn lle – mor naturiol.

darllener – mor naturiol...

t.138: yn lle – o goginio;

darllener – o'm coginio;

yn lle – camp crefftwreg wych darllener – , meddan nhw i mi,

ond pwy wyf bellach? –

yn lle – ust fflamau

darllener – ust fflamau !

O ran y gyfrol *Y Fadarchen Hudol*, dichon fod angen 'nodyn godre' bellach i amryw o'r cerddi yn y gyfrol. Un enghraifft amlwg yw t.82-4: 'Y Graig 'Fu'n Faen Tramgwydd (Er cof am F'ach Fach). Fy nhad oedd 'F'ach Fach'. Yn y pennill ar d.83 sy'n dechrau –

Ei dad a anfonasai 'nhad

i'r twll, fel oen i'r gad.

Ei fam a'i hanogai i'r llan

i gloddio am angau du,

i ddarganfod ei enaid gwan

a phalu am newyn fry.

Sonnir fan hyn am dad fy nhad (a oedd yn feddwyn) yn tynnu fy nhad yn dair ar ddeg oed o'r Ysgol Ramadeg, lle y dylai fod wedi aros, i weithio yn 'nhwll du' y glo i ennill arian diod iddo. Ond Cristion oedd mam fy nhad, a hi a yrrai'i mab i gloddio rheitiach pethau yn y capel ar y Sul – megis argyhoeddiad o bechod ('yr angau du'), sylweddoliad o'i ysbryd ('i ddarganfod newyn fry'), a 'bara bywyd' yn ôl y gofyn. Mae'r pennill wedyn yn 'Y Graig 'Fu'n Faen Tramgwydd' yn helaethu ar y bara cudd hwn. Pan holai fy nhad ei hun beth oedd arwyddocâd llawn ei lafur yn y pwll, teimlai fod ei dad ef wedi cynnig carreg lythrennol iddo ar ei ben. Agor drysau oedd ei swyddogaeth lythrennol yn y pwll; ond bu rhaid iddo roi'r gorau iddi am ei fod wedi'i glwyfo dan gwmp o'r to. Cyfeirir at yr un digwyddiad hwnnw yn y gerdd 'tryciau' (a sgrifennwyd heb lythrennau mawr er mwyn cyfleu'r ymiselu) a gyhoeddwyd yn yr un gyfrol hon *Y Fadarchen Hudol* t.21.

Gêm hir yw crefft geiriau, Dewi; ac ni feistrolwn mohoni byth mae'n debyg hyd yn oed wedi oes hir, er i ninnau yn ein tro gael, nid carreg, ond cynnig o fara.

*

*

*

Tasg wahanol i ddiwygio barddoniaeth yw ei gyfaill, diwygio beirniadaeth. Ond i mi, byddaf yn cael fy ngyrru bellach i ddiwygio fy marn am y llyfrau heblaw fy marddoniaeth a ailddarllenwn,

fel math o oferu oddi ar hynny.

Cyn y Wefan, proses ddatblygol fu Beirniadaeth gyda rhai o'm llyfrau. Disodlwyd *Tafod y Llenor* er enghraifft gan bedair cyfrol fechan *Seiliau Beirniadaeth*; ac oni bai bod angen ar y myfyrwyr, y rhai allanol yn arbennig, i'w defnyddio yn gefndir mwy manwl na'r darlithiau, ni byddwn wedi cyhoeddi dim o'r fath beth. Gwaith ar y gweill oeddent. Math o edifarhau oedd hynny, mae'n debyg. Mwy terfynol, yn yr un datblygu, oedd pedair cyfrol yn benodol yr oeddwn eisoes yn eu cyfrif yn fath o glo mwy boddhaol i'r twf myfyriol mewn ffurf, sef *Meddwl y Gynghanedd*, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, *Y Tair Rhamant Arthuriaidd*. Dyma fy nhair cyfrol hoff a mwyaf datblygedig. Datblygiad cyfredol i'r un yna oedd thema hollol wahanol, sef yr un a darddai yn *Llên Cymru a Chrefydd*. Allan o hynny, y rhedodd *Cyfriniaeth Gymraeg*, *Ysbryd y Cwlwm*, a'r ddwy gyfrol ar Fawl; a dylid hepgor y gyfrol ddechreuol a oedd yn ffynhonnell i'r pethau hyn.

Mae datblygu hunanfeirniadaeth yn gallu dadlennu gwendidau ac annog cydbwysedd. Mae'r math hwn o ddadansoddi yn awr yn gydnabyddiaeth o'r angen i gywiro'r beiau sy'n llusgo o'r tu ôl i rywun yn rhy aml ac yn rhy hir. Os yw'r Beirniad Edifeiriol, wrth werthuso (a dyna'i waith canolog a dibennol), yn ceisio bod yn deg, drwy gwmpo ar fai, yna ni ddylid gadael i'w camfarn na'i ragfarn ei hun i barhau wrth gydnabod camgymeriad cynt. Wrth sefyll ar ôl bwlech, neu ysbaid o dawelwch ysbryd, mae'r pen wedi oeri, a barn lanach yn bosibl.

Profiad rhyfedd yw bwrw golwg yn amheus yn ôl. Gall fod y heintus.

Er enghraifft, yn ddiweddar, fe ddigwyddodd i mi ailddarllen *Llenyddiaeth Gymraeg 1902-1936*, 1987; a sefais yn ôl yn syfrdan. Bellach roeddwn wedi anghofio fy nhrafodaeth yno ar waith R.T. Jenkins. Roeddwn hefyd wedi anghofio'i ffugenw Idris Thomas. Ar y pryd, yn fywiog, yn y fan honno, roeddwn wedi anghofio imi fychanu'i lyfr *Ffynhonnau Elim* 1945, er cywilydd i mi. Arhosais, ac edifarhau.

Dyma sylwi o'r newydd yn awr ar yr hunangofiant o nofel ddiddorol honno yr oeddwn wedi newid fy marn yn llwyr amdani bellach. Erbyn hyn, ni byddwn byth wedi dweud hyn, pe buaswn yn ystyriol. Roedd arnaf siom ynof fy hun. Ni ddywedais yno fy nghasgliad aeddfed amdani; a theimlwn awydd mawr yn fy ngyrru i gywiro'r cam ac i edifarhau ynghylch fy marn ynghynt. Ni wnâi'r newid hwn na lles na drwg i neb bellach, mae'n wir; nid oedd o bwys ond dyma fynd ati i ailddarllen y gyfrol ac i atrefnu fy nghasgliadau beirniadol i dawelu hynny o gydwybod a oedd gennyf. Ac yna i gofnodi'r rheini yn y fan hon.

Cyfuniad yw'r nofel *Ffynhonnau Elim* o hunangofiant ac o wrth-hunangofiant. Mae pob nofel yn gofiant o fath. Cofnod yw o ryw beth sydd eisoes wedi digwydd i'r awdur yn ei feddwl. Ond wrth ailystyried y nofel hunangofiannol hon gwelir bod R.T. Jenkins yn ysgrifennu amdano'i hun mewn cymeriad gan newid rhediad y thema yn gwbl groes i lawer o'r hyn a brofodd ef ei hun. Cwbl

wrthwyneb fu ei hanes personol ef ei hun i'r hyn a geir yn *Ffynhonnau Elim* gan ei fod (ac yntau'n Gymro ail iaith wedi'i eni yn Lerpwl) yma yn llafar frodorol rugl ei gymeriad, hyd yn oed yn ddeheuol-dafodieithol ei ysgrifennu (ac yntau'n Ogleddwr, wedi'i fagu ar ôl marwolaeth ei fam pan oedd e'n 6 oed a'i dad y flwyddyn wedyn – wrth ymgartrefu yn y Bala gydag eraill o'i deulu). Ymhellach ymlaen, bid siŵr byddai'n llunio'i hunan-gofiant 'llythrennol' go iawn yn fwy clasurol ei iaith, ac eto'n llyfn naturiol ymgomiol, sef *Edrych yn Ôl*. Yn ôl yr Athro J. Gwynn Williams, Bangor, am hwnnw: 'yr hunan-gofiant difyrraf a luniwyd erioed yn Gymraeg.' Roedd hyn yn llygad ei le. Roedd hyn yn orchestol o gynnyrch.

Cyflwynodd R.T. Jenkins y gyfrol honno i'w ail wraig yn 1944 cyn marwolaeth ei wraig gyntaf oherwydd mai hi (yn ei swydd fel ysgrifenyddes) a awgrymodd 'ei chyhoeddi... wedi imi farw' (fe'i cyhoeddwyd yn 1966). [Priododd R.T. Jenkins ddwywaith, yn gyntaf yn 1946 â Mary Davies, Aberystwyth; ac yn ail, flwyddyn ar ôl marw'i wraig gyntaf â'i ysgrifenyddes Myfanwy Williams, Aberdâr.] Yr oedd yn llygad ei le. Roedd hyn yn orchestol o gynnyrch. Ond sôn yr oeddwn am yr elfennau o wrth-hunangofiant yn *Ffynhonnau Elim* lle y ceir 'Fi' sy'n cefnu ar ei dafodiaith wreiddiol ei hun, ond lle y mae'n newid ei enwad hefyd. O gofio sut y datblygodd R.T. Jenkins yn ei aeddfedrwydd llenyddol llawn, yr hyn sydd gennym mewn gwirionedd yw math o 'oganu am ei ben ei hun' – ffug ostyngeddwrwydd wrth hunan-gofiannu, sbort am ei ymholiadau dysgedig, bychanu'i fedr esthetig, gwenu coeg am ddiwylledd profiadol ei greddau diwinyddol, ac yn y blaen. Sgeptig cymedrol oedd wrth natur, ond yma newidiodd ei gymedrolrwydd hyd yn oed.

Llyfr i'w ddarllen yn araf yw hwn. Y mae'r awdur yn crwydro i mewn ac allan o amser a phobl. Mae'n creu byd. Sylwer fel y mae'n ymwybodol am y weithred o sgrifennu ar y naill law fel 'R.T. Jenkins' ar dro heb gyfaddef hynny, ond hefyd am 'Idris Thomas', prif gymeriad *Ffynhonnau Elim*. Mae'n ymwybodol o'i grefft. Dywed mewn un lle (tud.8), 'Amcan yr esboniad hwn yw egluro ichwi sut y bûm i gyhyd o amser cyn gwrdd â'r Parch. Philip Rhys, Rheithor Llanfair.' Y mae wedi cyrraedd y frawddeg hon yn araf deg; ond nid y rheswm hwn yw'r esboniad cywir i egluro'r oediad. Mae'r tudalen hwn mewn gwirionedd yn syml yn gyfrwng i orfanylu'n ffeithiol, yn null croniclydd, gan fwrw peth coegi arno'i hun fel hanesydd solet. Mae'n gwybod beth y mae'n ei wneud. Lleolir pob person a lle yn fanwl, a chyferbynnu peth o natur a nerth yr enwadau anghydfurfiol a'u pellter naws a lleoliad oddi wrth yr eglwys wladol, yn arbennig yn yr ardaloedd gwledig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Drwy edifarhau, cefais gyfle i ail-chwilio dawn ddiamheuol yr awdur. Mae'n nofel soffistigedig iawn. Mae'n fodern. Y dyddiau hyn y mae soffistigeiddrwydd gwaith Angharad Price yn cynnal y traddodiad dwfn. Gwenu y mae'r awdur am drymder goracademaidd yr hanesydd proffesiynol nad yw'n fawr mwy (ar ei waethaf) na chronicydd gorffeithiol. Ar dud 9, helaethir ar gymeriad a cheidwadaeth yn yr ardal yn ôl parch at anglicaniaeth a'r traddodiad claddu. Mae'r

awdur yn nodi, 'ni chlywais mo'r gwasanaeth yn cael ei *ddarllen* mor feddylgar nac mor brydferth.' Coegi yw hyn yn garedig wawdus, a chartŵn o angladd. 'Ar lan y bedd, gofynnodd yr *hen* offeiriad o'r *hen* fam eglwys braidd yn *betrus* imi a garwn ddweud gair.' Nawddogol yw 'petruster' yr 'hen' offeiriad i estyn caniatâd i'r anghydfurfiwr. Manylu ymddangosiadol fwriadol a dirfodol yw'r ymadrodd: 'Bu'r ceffylau'n hir yn ein llusgo i fyny ac i lawr y rhiwiau, a hyd y lôn wlad gul garegog, i olwg tŵr cadarn sgwâr yr hen eglwys lwyd, a'r llwyni tewion o gelyn yn gylch amdani.' Symbol mewn hunangofiant yw'r cwbl o'r manylder disgrifiol hwn o ffordd o fyw. Yna ceir cyfarfod manylach rhwng yr un sy'n ei alw ei hun yn 'fi' a'r 'hen Reithor', gydag 'aroglau gwair a meillion a blodau'r eithin ym mhobman.' Amgylchfyd dianghenraid o safbwynt storïol, efallai, ond cyd-destun llawn a chyfoethog croniclydd i'w gyflwyno i'r rheithor gwledig. Ac yna, ar dud 10, fe gyflwynir enw'r 'fi' o'r diwedd: 'Ie, Syr [sylwer]; Thomas yw f'enw, gweinidog y Bedyddwyr yn y pentre.' A gŵyr sut mae siarad â'i well: 'O peidiwch â phoeni, Rector,' meddwn innau, 'mi wn yn dda fod llawer offeiriad yn teimlo nad yw hi'n hollol drefnus i wahodd gweinidog o'r tu faes i gymryd rhan yn nefodau'r Eglwys. Myfi a ddylai ddiolch i chwi am eich caedigrwydd.' Bellach, y mae gennym un cywair – sef coegi – ar gyfer dwy wedd yn y fan hon ar y nofel: coegi am ben crefyddoldeb ei dosbarth cymdeithasol, a choegi (i raddau) am ben yr hanesydd academiaidd gorffeithiol. O hyn ymlaen, fe ddatblygir y cyfuniad hwn o ddarlunio hoffter R.T. Jenkins o 'lyfrau ar lyfrau ar lyfrau'. Dyma ddychanu'r byd academiaidd wrth hunangofiannu'n goeg: 'Cefais yn wir gryn drafferth gyda rhannau ieithegol y cwrs Cymraeg yn Aberystwyth.' Ar y pryd, Edward Anwyl (yn Saesneg wrth gwrs) a ddarlithiai am yr iaith Gymraeg; gyda 'sylwadau ar the reduplicated emphatic pronoun.' Dyna sylw yn *Llenor* XXII; ac medd ef yn ei hunan-gofiant: 'A place where they do good Sixth-form work.' (Ac os caf innau fod yn Anwylaidd amdanaf fy hun: 'see my book on Welsh Literature 1902-1936, 405-421').

Erbyn cyrraedd tud. 11, daeth yn bryd i'r ffug awdur drafod dysg yng nghyd-destun y weinidogaeth, a gwna 'fi' hynny drwy sylwi ar lefel dysg yr olyniaeth o weinidogion yn Elim yn ôl amrywioldeb y pregethu. Ymddengys fod 'fi' yn eciwmenydd dyneiddiol yn olyniaeth y dirywiad a geid yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg: felly –

[a] Y gogwydd at ddysg ryddfrydol ddyneiddiol yn hytrach na gorfoledd mewn dysg o safbwynt y sawl sy'n ymwybodol o bersbectif goruwchnaturiol a Phrotestannaidd y ddeunawfed ganrif: Michael Humphreys, D.D. (Oneida Springs, U.S.A), 'awdur... Yr Eglwys Gyntefig yn ôl yr Epistol at y Colosiaid... gellir eu cael o Lyfrau'r Undeb, am y pris gostyngol o 1/8 yr un, yn cynnwys y cludiad.' Roedd y Doctor wedi gwagu Elim bron, ond am ryw ddyrnaid o hen bobl.

Yna [b] 'pregethwr poblogaidd' i hel pobl i mewn; a daeth 'y Parch Ephraim Rogers', a ddisgrifiwyd eisoes 'gan grochfloeddio a chanu a gwneud y nadau mwyaf gwrthun.'

Ac yn awr, [c] ar ei farch gwyn, wele 'fi' yn dyfod, 'er nad oedd y pen-diacon... yn sicr o'm hunion-gred.'

Hynny yw, dyma'r modernydd confensiynol. Cododd ef uwchlaw hedfan rhamantaidd ei gyfoedion. Cewch fentro mai eciwmenydd dyneiddiol oedd 'fi' fel R.T. Jenkins a bod y pellter oddi wrth uniongrededd yn gymhwyster i'r oes ego-ganolog a laddodd yr enwadau hynny maes o law, – nid ei fod heb sylweddoli camre'r dirywiad hwnw hefyd. Dyma'r lle i gyflwyno Gwenno, gwraig 'fi', arddelydd i'r 'efengyl gymdeithasol' gellid meddwl, gan helpu cynnal cangen o'r Urdd, a dringo'r mynyddoedd. Ac yn awr y mae Roberts a Gwenno a'r awdur R.T. Jenkins wedi ymuniaethu ac y mae natur y coegi'n newid eto.

Coegi'r darlennydd ynghylch yr awdur a geir o hyn ymlaen. A rhaid inni fod yn barod i fwynhau'r stori hon gyda phinsied o halen. Difrifoldeb a geir drachefn yn y drafodaeth, ac ysgolheictod go iawn wrth i'r cyfeillgarwch gyda'r hen Reithor ddyfnhau ynghyd â chyd-weinidog yr Annibynwyr, David Roberts (hen lanc). Dangosir o'r tu ôl i hyn oll, fod gwir ddiddordeb yr awdur (R.T. Jenkins) yn hanes diweddar Cristnogaeth, ond diddordeb mesuradwy mewn diwinyddiaeth hefyd (tud.21).

Eto, mae 'ffasiwn', a pheidio â bod yn 'hen-ffasiwn' yn blino amryw yn y gymdeithas weinidogaethol, ddysgedig hon (tud. 22-24). Mae'n glwyf ifanc.

Yna, ym mhennod 4 (tud. 24) fe newidir natur y plot: cyfyd dirgelwch storïol: llun merch ieuanc yn nhŷ'r Rheithor, a oedd yn byw ychydig o'r neilltu yn Llanfair-y-celyn. Fe'n cyflwynwyd ni eisoes i dwysged o gymeriadau, ac i'w perthynas; eithr yn awr dyma'r elfen gudd yn y stori yn codi'i phen drachefn a symudai'r naratif yn gyflymach. Y dirgelwch nofelaid. Cofiai Idris a'i wraig Gwenno am 'Mrs Harris' mewn gwesty yn Llundain, yn ystod eu mis mêl. Datgelir (tud. 27) mai merch yr hen ŵr oedd hi, Olwen. Roedd honno wedi syrthio mewn cariad â gŵr ifanc o'r tŷ, am nad oedd ei thad am gollu'i ferch. Gyrodd y gŵr ifanc o'r tŷ, er mai bachgen nobl oedd y gŵr ifanc. Dewisodd Olwen ddianc ar ôl ei chariad. A mynnodd ei thad i'w forwyn beidio â chrybwyll hi byth mwy. Wedyn, bu 'farw'r' tad, yn yr ystyr fod y bywyd diwyd wedi mynd allan ohono.

Mewn pwyllgor yng Nghaerfyrddin prynodd 'fi' nofel i Gwenno 'Our Lady of the Hollies' (tud. 30) gan John Coventry. Gwawriodd ar Gwenno, 'that this was Llanfair-y-celyn.' Ond roedd yr awdur wedi newid yr holl enwau-lleoedd i enwau-lleoedd yng Nghernyw. Yn 'St. Mary Hollies' roedd yna ficer dysgedig, sef Canon Tregennith, gŵr gweddw a chanddo unig ferch, Hilary, tuag ugain oed. Adroddai fel yr oedd Henry Bennett, arlunydd ifanc, wedi dod i St. Mary i gryfhau ei iechyd, wedi cwrdd â Hilary a'i charu.

Doedd fawr o gamp ar y nofel a gyflwynwyd i Gwenno. Ac er holi a stilio, methwyd ag olrhain John Coventry. Ysbaid ar ôl hyn, roedd Gwenno yng Nghaerdydd, a gwelodd 'ddalennau

cyfnodolyn pictiwrs ar gownter rhyw siop ac wedi cael ei tharo gan ddarlun ynddo'. Roedd y geiriau hyn oddi tano: "Mr and Mrs John Harris ('John Coventry') and their son, Captain Philip Harries, at Beechley, their home in the Cotswold country.' Llun Mrs Harris a welodd Gwenno ar bared y Rheithordy. Yn ddiymwybod i bawb, sgrifennodd Gwenno at Mrs Harris.

Daeth Mrs Harris i ymweld â nhw.

Cysylltir y cwbl â thema y Mab Afradlon. Dôl Olwen a Gwenno yn gyfeillion oes. A sylwodd John Coventry a Thomas fod eu bywydau ill dau yn cael eu trefnu'n llwyr gan eu gwragedd. Ond cafodd Roberts yr ysgolhaig diwyd 'ddyrchafiad' i fod yn Athro Prifysgol (fel R.T. Jenkins) a gwaith wrth fodd ei galon. Cafodd Gwenno blentyn arall.

Mae'r cwlwm hwn tua diwedd y stori yn awgrymu bod yr awdur yn cael trafferth 'i roi pen llinyn arall o'r stori anniben hon' at ei gilydd ac ymadael â phawb – sylw hunanfeirniadol ar ei orau ef. Y gwir yw bod yr holl sôn am Roberts yn ddiangen ac y gallesid hepgor ei gymeriad. A gallesid cyd-wau ei ran â'r Ficer. Siarad y mae R.T. Jenkins yn y fan hon am ei anesmwythyd wrth geisio cadw trefn ar y nofel. Eto, er y diffygion achlysurol, nofel hynod a medrus yw'r nofel unigryw hon.

Bellach, o dud. 46 i dud. 62 fe gaiff 'fi' alwad o'i gapel bach [Elim] i gapel mawr Ramoth 'gyda rhyw fil o aelodau'. A chyda'r holl gyffro-perthyn a'r cymhlethdodau o symud nawr, ni chofiaf y fath fanylder araf ynghylch y fath ddigwyddiad capelig mewn unrhyw nofel arall. Ymhlith y ddigwyddiadaeth gyfansawdd hon caiff Gwenno fab, ac fe'i henwir yn Philip ar ôl y Ficer. Yna ceir ffarwelio yn araf, ac ymadael yn oediog. Derbynnir llythyr oddi wrth Olwen, a newyddion am farwolaeth ei thad, lle y mae'n 'cofio' am Gwenno yn ei ewyllys, ynghyd â chwpan arian bychan i fedyddio'r plentyn ynddo.

Nid hawdd yw anghofio anwylydeb tawel y stori hon ar ei hyd, nodwedd sy'n adlewyrchu cymeriad yr awdur. Ond fel sy'n gweddu i stori hanesydd, dadlennir hefyd seicoleg cyfnod yn hanes Cymru drwy fynd at yr hyn a oedd yn ganolog (dirywiedig neu beidio) ym mywyd y wlad ar y pryd. Crëir awyrgylch â gwên dyner ar ei hwyneb. Yn ddi-os, cafodd R.T. Jenkins lawer o hwyl ar ffurf yr hunan-gofiant. Creadigaeth ôl-fodernaidd oedd; creadigaeth oedd wedi profi moderniaeth ei chyfnod, ac eto wedi dringo allan ohoni, a beirniadu'r hyn oedd yn ddefodol fodernaidd. Crybwyllais iddo gyhoeddi dwy enghraifft o'r *genre* hunan-gofiant. Am y llall, yr hunan-gofiant go iawn, *Edrych yn Ôl* (a gyhoeddwyd yn 1968), ail-ddywedaf eiriau'r Athro J. Gwynn Williams, Bangor 'yr hunan-gofiant difyrfa a luniwyd erioed yn Gymraeg'. Nid cystal oedd *Ffynhonnau Elim* o bell ffordd; ond y mae'r hynaf yn naid nodedig iawn tua Moderniaeth a themateiddio meddylgar, ac nid yw'n briodol i'w fychanu. Ni fûm yn deg ar y pryd; ac ni fu beirniadaeth Gymraeg yn deg byth wedyn. Mae'n un o drysorau bychain un o'r gwŷr llên mwyaf hoffus, gwybodus, gwâr a diwylliedig a gafodd Cymru yn y cyfnod 1881-1959... Dylwn fod wedi sylwi yn fastudiaeth

feirniadol o'r cyfnod. Dw-i' teimlo'n well nawr.

*

*

*

Dyma fi, sut bynnag, wedi arolygu nifer o enghreifftiau o Feirniadaeth Edifeiriol fel egwyddor a ddatblygodd yn fy ngwaith fy hun. Gallwn fod wedi cyfeirio llawer o rai eraill, megis:-

Atodiad 1

Rhagor o gywiriadau yn *Llenyddiaeth Gymraeg 1902-1936, 1987:-*

Tud. 8: dileu – brawddeg gyntaf y paragraff canol; a gosoder yn ei lle –

'Mab i ben-garddwr plasty yn Nyffryn Clwyd oedd Emrys ap Iwan.'

Tud. 85: ll. 18 cywirer – naifder.

Tud. 268: chwe ll. o'r gwaelod – Fictoriaidd.

Tud. 369: ll. 15 – Gogynfeirdd.

Tud. 407: ll. 6 o'r gwaelod – 1933-1968.

Tud. 423: tair ll. o'r gwaelod – Pererindodau.

Tud. 567: ll. 2 – dileu 'goll'.

Tud. 575: cywirer – Davies, Pennar, 153.

Atodiad 2

Pam y caniatodd Duw i fi sgrifennu *Crwydro Môn* o gwbl? Nawr mae'n ymddangos yn sothach. Mae arnaf wir gywilydd. Ond roedd ar y pryd yn fy nghyfareddu. Ac edifarhau wedyn. Rhaid oedd dysgu. Roedd yn llyfr a sgrifennwyd 'ar gais'. Doedd yr Awen ddim gyda mi. Diau fod methiannau'n ysgogiad i ddyn fyfyrion'n fwy catholig wrth gynllunio llyfr – am sut? pam? a'r pryd? A oes terfyn byth? Dylwn fod wedi gwybod yn well ar y pryd. Hynny yw dysgais les beirniadaeth edifeiriol.

Rwy'n galw'r llyfr allan nawr i lawr y dosbarth. Saif o flaen fy llygaid. A dyma ddatgan heb flewyn ar fy nhafod: 'Absennol.'

Atodiad 3:

Ac felly ymlaen, drwy'r blynyddoedd, yn gynhenid anorffen, y llif o fethiannau i edifarhau o'u plegid..

Dyma ni wedi cyrraedd hen gyrraedd diwedd yr Atodiad. Ond erys un peth y carwn ei nodi. Wrth fod yn hunanfeirniadol, cysur yw canfod bod y tywyllwch a welir yn y byd cyfoes ôl-fodern mewn cymaint o'n hamgylchfyd yn gallu cuddio – yn wir, yn gallu datguddio'n baradocsaidd – lawer o oleuni gobaith. Tyfodd hyn i mi yn ddiweddar wrth fwrw golwg o'r newydd yn ddiweddar

ar y llyfrau y bûm i'n eu hefrydu yn fy llyfrau a'm nodiadau ar lenyddiaeth Gymraeg.

Rhaid bod gostyngeddwydd y funud yma yn un o hanfodion pennaf edifeirwch. Ac nid damwain yw hi bod a wnelo y ddau a neidiodd y funud yma i'm hymwybod yn un mewn ffyrdd gwahanol mor wylaidd.

Nid damwain yw hi eu bod y ddau berson a ddaeth i'm meddwl i, ill dau, wedi cael eu hatynnu gan Waldo. Y ddau a fynnai fy sylw yw Mererid Hopwood a Robert Rhys. Mae'r ddau wedi ymroi i feistrolï'r ddwy ffurf lenyddol y bûm innau mewn modd llai effeithiol na hwy wedi ymhel â hi fwyaf. A dysgais lawer gan y berson ifanc hyn. Teimlaf y dylwn allu ysgrifennu'n well ar ôl eu darllen o'r newydd.

Cefais fy nghyfareddu gan ddwy gyfrol feirniadol *Y Patrwm Amryliw*, cyfrol 1, 1997 a chyfrol 2, 2006. Dyma'r ddwy gyfrol orau o feirniadaeth lenyddol a olygwyd oddi ar *Meistri'r Canrifoedd*, Saunders Lewis, ac ysgrifau'r golygydd Robert Rhys yw coron y ddwy gyfrol. Dyma'r feirniadaeth fwyaf treiddgar, soffistigedig wreiddiol, ac ysbrydoledig a ddarllenais yn y Gymraeg ers cenhedlaeth.

Yna, y mae barddoniaeth anghyffredin Mererid Hopwood *Nes Draw*, 2015 yn rhyfeddod. Braint yw byw yn yr un cyfnod â bardd fel hon. Cymerodd wythnosau imi ddarllen. A gwn, wedyn, fod rhaid i mi ddychwelyd i'r gyfrol dro a thrachefn. Nid yw hi'n gallu gwneud cam gwag. Mae'n hyderus, ond yn ysgafn ddeallus ei chyffyrdiadau yr un pryd. Mae hi'n amryfal ei ffurfiau caeth a rhydd – gyda'r awdl goronog (2001) 'Dadeni', cerddi arbrofol, mwys o ystyrlon, englynion, a sonedau. Diau mai'r gair 'Dadeni' yw'r disgrifiad manylaf o'r creadigaethau hyn.

Cefais y ffrainc o adnabod y naill a'r llall o'r llenorion hyn.

Rhaid i lenyddiaeth genedlaethol esgor ar gynnyrch safonol o'r math hwn, os yw'n mynd i godi'i phen ymhlith y cenhedloedd.

LLYTHYRAU AT DEWI (1)

Y WEFAN YN YMDDIHEURO'N FARWNADOL I'R LLYFRAU –

rhai llyfrau, y rhai aroglog,
y rhai sy'n dweud yn blwmp sut mae 'pethau', mewn ffordd debyg-i-bawb,
y rhai sy'n cynnwys hunaniaeth
ac yn agor
gyda thudalennau treuliedig glân.
Byseddaf y rhain. Mae yna filoedd o flynyddoedd
y tu ôl i'r agor hwn gan eu drysau hwy.

Dw i'n wefan drydanol yn curo'n annynol ger eu drysau isel
ac yn plygu fy mhen gan ddweud o'r diwedd,
'Mae'n ddrwg 'da fi.
Wyddwn i ddim eich bod chi'n aroglu mor gyfeillgar.'

Ac dw i'n cerdded nawr ymhlith gweddillion y casgliad hwn
ar y silffoedd
mewn cywilydd imi rywsut eich bradychu chi i gyd.
Ymhlith y clebr beunyddiol
dyma chi'n fy ngwyllo i ac yn gwrando arnaf yn dweud: 'Mae'n ddrwg 'da fi'
i chi bob gair a fu'n byw mewn tywydd amgen;
fe roesoch chi gymaint gynt–
fy ffrindiau da –
mor wâr nes dysgu i mi geisio peidio â bod mor annynol fy mheirianwaith,
gyda'r llyfr trydanol marw, sy'n crafu byw'n bersonol dan fy nwylo nawr,
yn fy mysedd synhwyrus
fel tonnau naturiol am ddial nes bod eu geiriau'n fy hyrddio i'r llawr

a gadael awydd taer ynof iddynt ddod drachefn
yn galetach y tro nesaf. 'Ond fydda-i ddim yma,' medd y llyfr hwn,
ac wylai ef am y dyfodol.

LLYTHYRAU AT DEWI (2)

YR 'ANGHOFIO' GWYDN YN ATEB I WALDO

Yn well na'r fath 'gofio' gwydn mae'n bryd i mi ddweud
gair o blaid 'anghofio'. O! mor felys garedig yw
ei swydd goleddgar hefyd: tyrd yn ôl, hen ffrind
mewn sawl lle. Bu'r cyffwrdd gan hwn mor ddoeth:

wrth fynd â'm gofod hwn am dro drwy amser,
bu hwn yn casglu hewl o sbwriel yn ei gwd,
fel pe bai ganddo lymphiau drewdod o euogrwydd
i'w daflu o'm gorffennol sydd wrthi'n casglu rhwd.

Wrth fynd am dro, mae'r cof yn gweld ar lain y ffordd
gorff dafad farw, a fwriwyd gan fy nghar euog
wrth wibio yn rhy gyflym ar hyd hewl gul,
yn bywhau corff na allaf ei fwrw o'm cof.

Anghofier y llu o gyrff uchel-eu cloch a daflwyd
ar hyd y daith ar lain y borfa sy'n cogio
bod yn anghof, ond yn mynnu erof hefyd
fod traddodiad yn taenu clogau o flaen llygaid.

“Os na chofiwn, fe'i hailadroddwn,”
meddai'r call. Ond yma yng ngogledd Iwerddon
gloddest o gof sy, heb gais i anghofio yn un man.
“Pob clod i'r cof bach byw,” dywed y symlyn.

A'r fan hyn hefyd ym Mhalesteina gydag Israel,
“mae dau gof,” meddaf i, “yn waeth nag un.”
A fan hyn heddiw yn nhref Aleppo, mae yna ddau
heb ddim cof ble mae Syria, ill dau'n hiraethu am anghof.

2016

LLYTHYRAU AT DEWI (3)

PAN FYDDAF YN FWLCH

Pan fyddaf yn fwlch fel y sawl sy'n gweld diwedd
bodoli, pwy a ddaw ataf i ddeall? Digon ychydig.
Pawb sy'n drwsogl, rhai sy'n berthnasau marw.
Poenus fydd tawelwch i'r ymwelwyr (ac ofn ei dorri),
oherwydd bod yr ystrydebau oll wedi'u dihysbyddu.
Bydd llawer o gynlluniau byw i'n dyfodol
nas cyflawnir;
y gwyliau oll, ar lan y môr, bellach yn y môr
wedi'u canslo, fel y papurau newydd,

y llyfrau nas darllenais, (pan fûm yn ifanc
adeiledais fy llygaid â llyfrau),
llwybr fy ieuenctid a gefais yn ymdrech serth i lenwi'r bwlch
hyd at hanner ffordd
ac yna'n llethr go egr i lawr i'r gwaelod, gan wybod ar y diwedd.
Yn awr, fe â'r anwyliaid i chwilio'r pethau
a adawyd i'r cwpwrdd dillad, dewis cadw rhai llyfrau,
a fforio amdanaf i rhwng cotiau. Edrychant
ar ei gilydd o gwmpas eu distawrwydd eu hunain.

Yno y mae'r pethau y buom ni'n dau
yn eu gwneud: popeth heb lenwi'r bwlch, ond gwawn a gwawn.

Onid yw gwawn fel galar yn gwau edafedd
clòs, fel cerdd a'i llinynnau'n llinellau
cerddorol, – glo mân y galon heb oglau mwg mwyach?
Mae fel sgwrs lefn a dofn, a'i pharabl yn hardd fel bywyd,
a'i serch yn risiau i'r pryfyn cop ddringo i'r ffenest
i'n serenadu ni'n dau. Y pethau y pryd hynny

a fu yn ein gallu ni i'w gwneud,
ac na ellir eu gwneud mwyach! Megis rhwygo'r
bwlch yn y gwawn hwn amdanom â'n dyrnau.
Dywed rhai mai anodd yw torri'r gwawn dros yr holl dŷ hwn,
ac maent yn iawn.

LLYTHYRAU AT DEWI (4)

DATHLU DYDD ARALL I HUNANIAETH HENWR HEN IAWN

Heddiw, efallai y byddaf yn methu â dringo grisiau.
O! Y medrau sy'n ffarwelio â mi fesul diwrnod, fesul clonc,
o gam i gam hyd fethu â methu cam. Nid af allan â'm coesau eto;
ond pa aelodau dewr yn awr sy'n oedi tan ystyfnigo?
Y ffenest hon nas defnyddia fy llygaid mwyach.
Ni ddefnyddiaf y croywder mwyach. A'r wylan wedi bawio arni!

Ar fy nghefn yn yr ystafell gyfyng, ar fy ngwely,
rhoddaf fy llaw
yn araf
ar y waliau lle
y gorweddaf. Cyfrifaf hwy.
Pedair!

Caeaf eu blanced amdanaf. Llanwaf eu diwrnod â goroesi: cludant
imi'r hen ddigwyddiadau – fel bwyta cinio heb ei ollwng ar hyd
fy mryst a'm gliniau. Drwy'r ffenestr, carcharwyd fy hunaniaeth gan
yr olygfa bellach o fewn
fy nhrem. Undonog yw pennau'r toi; heb fod yn ddigon deniadol
i'r adar hyd yn oed eu gwyngalchu'n arferol wrth lanio, diolch.

Heb ein hunaniaeth, mae'r tu-allan yn gaeedig rhag y tu mewn
caeedig. Ydw i wedi dod â'm hunan gyda mi? Oes peth
ar ôl? Mae'n bur debyg, os daeth llychyn, doedd dim dal ar
y bysedd di-ddal a'r traed disefyll. Cryn yw'r tir danynt,
nid fel daeargryn, ond fel crychsisial. Rwy'n cael gwared,
yn eu tro, â defnyddio aelodau. Un peth na bydda-i byth
yn cael gwared ohono – y newyn beunyddiol am faddeuant
a'r Un sy'n eneinio'r pen ag olew ac yn sibwrdd Ei gân yn y glust.

LLYTHYRAU AT DEWI (5)

AR Y FFORDD ADREF

Roedd Williams ar gefn ei geffyl yn gorfoleddu'n dawel.
Wedi cyrraedd goriwaered y bryncyn nesaf fe gâi weld
y dyffryn – yn ôl! 'Yn ôl' oedd pob hen gyfrinach
yn narnau croyw'r gwydrloyw o fethu peidio â dweud
yn cipio yn yr awyr ei hiraeth tawel am ei Fari fythol.
Mae gan bawb eu cyfrinachau. (Paid â dweud dim.)

Ysai llygaid Williams fynyddoedd drwy'r anialwch.
Ceisiai'i glustiau lais yr haul drwy fabwysiadu cân
a adeiladwyd iddo gan drywydd cenedlaethau gan-mil
o filltiroedd ceffyl amyneddgar a'r gwres bron mynd i lawr.
Diolch o hyd am y daith seml hon a'r golau dan bedolau
drwy rwbio clustiau'r ceffyl â'i gledr tirion tragwyddol.

Mae pobun a phoblle'n meddu ar ddistawrwydd o'i eiddo'i hun.
Mae gan y llwyn o goed acw ei ymosodiad o dawelwch
o ddifrif, ac yn rhwyd o baradwys; yn ffrwydrad chwyldro
o lonyddwch na wyddai na Rowland na Harris amdano
heb balu i lawr yn bell i dywyllwch o olau syn.

Mantais yw ceffyl, un amgenach (o ychydig) na dyn. Fe sieryd
y gŵr fel lladd nadredd â chalon hwn, weithiau heb agor ei geg. A gŵyr
nad etyb y ceffyl, heblaw siglo'i rawn. A chyfyd Williams
ei law i smwddio'i dalcen â'i gledr tirion ei hun, a siglo'u
tawelwch fymryn; ac wedyn stopiant... Gartref. Tawelwch Duw.

[gw. *Cyfriniaeth Gymraeg*, Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1994, lle y trafodir Theomemphus yn cofio yn y 'glaslwyn hyn o goed', yno trafodir W.J. Gruffydd yn cynnig bod hyn yn brawf symbolaidd i W.J. Gruffydd o brofiad cyfriniol Williams: 'Cafodd Theomemphus sicrwydd am faddeuant wrth llwyn o goed, ac o hyn allan, y mae'r llwyn

wedyn yn symbol am y sicrwydd ei hunan, – un o arwyddion mwyaf cyffredin y meddwl cyfriniol...' Yr wyf innau'n dadlau nad oedd Rowlands na Harris wedi profi Crist yn union gyffelyb i Williams, er bod eu diwinyddiaeth mor Galfinaidd debyg. Nid oeddent wedi emyna ar gefn ceffyl, ac 'r oeddent yn deimladol ieithyddol wahanol hefyd, ac 'roedd eu priodasau'n llai hapus.]

LLYTHYRAU AT DEWI (6)

Y RHESWM

Roeddet ti'n tybied, fy wŷr,
mai mynd â thi ar grwydr
drwy'r fynwent ddifyr hon
ei hun oedd ein mwynhad.

Ymhlith y beddau enwog
megis T. Gwynn a Gwenallt,
aem heibio ar bwys i'r beddargraff
mwyaf diddorol yn y lle
(i Albert Potts), a gweld
briallu a chlychau'r gog a'u gwib
yn crafu'r awyr sydyn,
a'u traed yn sownd.

Nid felly. Yr unig gymell
imi yno oedd d'adnabod
di'n well, llepian dy lais,
dan awyr gariadus, gwybod
pwy oeddet ti. Felly, i bawb,
adnabyddiaeth oedd y cwbl a ddôï i'n rhan
ynghudd, ple bynnag roem ni'n
ymdroi gyda chyfaill. Mae'r twf nawr rhyngom.

A dyna sut mae'r blodau
a'r borfa drwom yn esbonio ble y cerddem
gan gladdu difaterwch yn y gladdfa.
Adnabod yw ein rhyddid.

Dy farf hefyd a dyfodd, fy wŷr. Ie, a'r coesau praff –
a'r heddwch mwyn a roddwyd
yn y fynwent hon fan hyn i'w goledd i ni
yng ngolau ein gilydd.

LLYTHYRAU AT DEWI (7)

YR HEN WŔ YN HIRAETHU AM GADW'R LLEISIAU O LEIAF

Buaswn wedi hoffi coleddu'r lleisiau

oll a'u recordio'n barhaol wrth eu clywed,
wrth fynd am dro drwy'r bore. Ffrindiau byw
sy'n llithro rhwng ein bysedd. Trosedd yw
eu gollwng yn yr awel esgeulus hon
a'n lapiodd o fewn ei theithiau heini.

Ni ddylem flino byth ar y daith hon o leiaf ac ildio

blas ac anadlu'r coed. Nid esgus
ddigonol yw peidio â chadw'r llencyn
bythol ynom ni tan derfyn oes.
Mae'r storm o harddwch cynnil Duw
yn ein cadw ar ddi-hun
gan gofio dawnsio hyd y bedlam da.

Gyda throredd crin yr henwr

rhaid yw syrthio ar ein bai;
y bai yw'r annynoli po fwyaf amlwg yw.

Gwir nad wyf mwy mewn oedran

gwneud cymwynas ag odid neb.
Mae hon ar frig yn gân ar gainc
yn gwneud tro da i bawb
oblegid ei hanhelaeth hunan.

Felly'r gras dihunan 'wna

yn dinc ar glonc, y rhew sy'n rhonc
a'r cwbl yn donc i leisiau yr hen glod.

Am ei chân mwyalchen heno,

fe gofiwn oes nad oes dim tâl:
mae hi yno i sionci traed
heb un hiraeth am ego'n ôl,
ac yn gynhenid cyn henoed –
am fod yna angen amdani'n gêl
wreiddiedig yn y gwaed.

Chwilio am ras y gwirfodd

wna yn hiraeth hyn o adeg, –
y nodau ifainc a deifl mwyalchen
ar raslon wybren obry.

A chwilio am gwmni gras

yw f'egus wrth chwilio am eiriau
a chanddynt rythmau iau ar gof
a chanddynt had i hedeg.

LLYTHYRAU AT DEWI (8)

OFEREDD DAU TRAHAUS YM MRWYDR HYNAFOL Y CORFF A'R YSBRYD

Y Corff a'r Ysbryd sy'n awr yn gytûn
a'u hagos fodolaeth heb ateb yn flin.

Ymchwydda'r un rhithiol am na welwn un gwall;
ond methu â gweld 'wnawn fod un yn y llall.

Y ddau yw'r pechaduriaid nad ydynt yn well
na'i gilydd. Ni haeddant hwy heddiw ond cell.

Nid arian nac aur a rydd iechyd i'w hach,
ni thyn hyn byth 'deryn i ganu o'i sach.

Gwrandewch chi brydlondeb y tonnau ar fôr.
Mae harddwch eu hyrddio hwy'n eiriol ar Iôr.

Yr Ysbryd yw'r ffactor sy'n actio'n ddi-haedd.
Ond yntau mewn Corpws, – nid gweddi rhag gwaedd, –

gan eiriol am arddangos. Corff twp yw, na naid
drwy gylch-tân mewn syrcas uwch Enaid.

Dyw Corff ddim yn deilwng o dail nac o dant.
A sen ar ei Ysbryd yw gwisg sblennydd ar sant;

ond chi yr hen fynach, bwytwch nawr eich holl fwyd
tan geisio gwell ofnau na wyneb llwch llwyd.

LLYTHYRAU AT DEWI (9)

PAM Y METHWYD MEWN UN CERDYN BLWYDDYN NEWYDD

Mae yna rai pobl
na allan nhw ddim sgrifennu
atoch chi mwyach.

Ofer disgwyl i'w bysedd
gyfansoddi cerdyn byr
i esbonio'u habsen.

Bu'n rhaid dychmygu
gweld cyfarchiad 'Tomos'.
Eleni ni bu'i flwyddyn yn ddiwrnod.

Bu absenoldeb ei eiriau ef gymaint,
roech chi'n ofni y bydden nhw'n
rhy drwm i'r postmon,

a'th dagrau yn yr ardd ddibetal
wedi disgyn am ei ymadawiad
wrth redeg at y drws fel bwled.

LLYTHYRAU AT DEWI (10)

DEUOLIAETH GWANWYN 2016

Hen ac ifanc, heb fod yn siŵr fel ysgolhaig 'diduedd'.
All neb lai na chyd-deimlo ag ef. Onid oes yna filltiroedd
o dir-neb tywydd yn ei bontio? Mae'n cymryd ychydig
iawn o law (ceir llwyeidiau o'r peth hwnnw yng Ngheredigion)
wedi'u chwythu o gyfeiriad Pumlumon i enfysu'r
Athro, a chyfaddawdu ei lyfrau niwtral. Nid y lluosï a fu,
felly, – camre ymwybodol trwsgl sy'n deuol wadu
gwynder gwir a phob un rhinwedd, – y golled o gredu,
a chymedrolder hefyd pan fo gwerth yn grwn, – sy'n fagl
i'w fyd, ond yn ymwared â pherfedd – gan arswydo hefyd
rhag ei rym, – ond ystrydebedd tan ddaear – oedfa'u hadfyd.

Sych a gwlyb, druan. Dyw'r naill hanner anwadal ohono
heb y llall ddim yn hyderus elastig. Sgeptigrwydd ansicr
yw ymuno mewn pendilio bonheddig, ddigon i beidio
â gwneud dim. Chwithdod yr hen ysgolhaig tymhorol
yw ei olwg marw ar fywyd, a chysga'n ddifreuddwyd,
gan ei ailadrodd yn ddeuol ei efelychiad, o sylu
drwy ddau wydr ei sbectol yr un pryd. Mae'r trwyn
ar ei wyneb mor sefydledig â Chôr y Cewri cymylog, heb haul,
yn colli arwyddocâd fel calendr, ac eto mor bert-a-hynod-hyll.

Ŵyr yr ysgolhaig ddim bod ysgolheictod yn llawn rhagdyb.
Dych chi'n nabod dau hanner cymeriad gwanwyn:
yr oer a'r cynnes, yr hir a'r byr, yr anghwrtais a'r bonheddig.
Maent wedi dod er mwyn mynd. Ac eto, Dewi,
allan nhw ddim dianc rhag ei gilydd. Rywfodd, eleni,
maent yn ofni'i gilydd. Maent hwy'n debyg i linell feirniadol
gan edifeiriwr o fardd, wedi'i hawntio gan gyfaddawd byw.

LLYTHYRAU AT DEWI (11)

TRAWSNEWIDIAD DANIEL OWEN

(traethodl)

1

Drwy Daniel y daw pob un
cymêr yn dorf o gyd-ddyn.

Gwna o'i gymeriadau wlad
ddwyster yn ei gariad:

treflan a choedlan ynghyd,
gaeafol hafaidd hefyd.

Dwg bawb i mewn i fywyd, –
heb arddangos – y creu byd.

2

Rhys, ymostyngi fel Abel;
ac Wil rwyf hefyd yn hel
direidi i'r achub parchus,
a gwaredu nofelydd llys –
Daniel. Dyna dy deyrnas –
bywyd yn aileni'u tras.

Chwyth yr asbri dawelwch
i fynwes sy'n cludo trwch:
yntau, drwy fwgwd clown caeth
anadla greadigaeth.

Dywed wrth fron 'cura'
mewn brest oer caled o îâ.

Ymetyl rhag rhuthro
mewn tyrfa a'i thyrfa'u'n glo
drwot: tawela'i ddychymyg
yn fyfyr sy'n faeth i'r plyg.

Mae'i feddwl yn dethol
cyneddfau: y doeth a'r ffôl,
pregethwr ac artist
ac amllder gweld drwy glust,
y dwys a'r dwl yn adfyd –
gwau pob person ynghyd,
dyn a merch gyda'i gilydd
yn ffoi, drwy'r cynllwyn, i'w ffydd.

Meddylia fydysawd yn deg
a'i droi'n ucheldrom alcemeg.
Yn gymeriad sy'n awdur stori,
drwy foes creu y'th gafwyd di.
'Iaith heb arddull' meddid dro,
a thithau'n geinder yno;
o ran addurn, cyffredin –
ond gwastadedd rhythmau'n rhin.

Nid drwy foeseu y'th drowyd
yn Rhys, yn llefaru llwyd
dy fawl: dewisodd dy fynwes,
Daniel, gyfeirio dy wres,
fel y'th gonsuriwyd yn fawr
dy fyd mewn model deulawr.

LLYTHYRAU AT DEWI (12)

CYSYNIAD

(i) Ei brofi

Trefn bydysawd yw ymuno'n
un wrth un sy'n fwy na deubeth.
Dyna'r gweld a grea bopeth –
pleth mewn mydr, a phleth mewn odlau.

Daeth heb ddisgwyl, daeth yn wylaidd
gyda chapan mewn deheulaw,
daeth yn glau tu ôl i lasglawdd
i gofleidio teithiwr di-hid.

Nid oedd ffurf ac nid oedd synnwyr
yn y geiriau heb y rhywbeth
arall, rhywbeth dynolhaniaeth.
Yn yr awyr, yr oedd 'syniad'
bach yn hofran, ac roedd digon
i'm cwmpasu fel fflach sydyn.
Ond yng nghanol dyddiau diddig
neu anniddig, fe heddychwyd
yr holl adar yn fy ngloddiau.

Na, ni welais debyg iddo.
Fe'm harswydai'n lendid rhyfedd,
glendid llondeg un nas gwelswn
na'i amgyffred, fel y mae-hi
gan y rhai sy'n gweld drwy'r nefol
anesmwythol gread daear,
ac o'r braidd yn gweld yn loyw.

Dim ond mymryn mân o antur
oedd yn iawn i anfodloni
neu fodloni trachwant pryder.
Antur oedd (ac yw) fy mywyd
hwn yn aros yn fy nghalon
ar yr ymyl i'w hanwesu.

Fe ymesyd rhyfeddodau
yn fy mhen yn syniad mynych.
Yno dônt yn glamp o gampwaith,
a chynigiant law i'm dwylo
yma i dywys dros y niwlen
oedd yn gapan ar Lanbadarn.
Trônt o'r haniaeth i'r diriaethol.
Disgyn wnânt hwy fel maddeuant.
Dônt yn dyner dros y gorwel
i dirioni ac i lonni, er fy ofni,
un nad oes rhith cyffro ganddo
oni cheir y cwestiwn-ateb,
a chael ynddo wybod olaf ynddo nawr.

* * *

(ii) Ei syndod

Mae yn cynnwys adeiladwaith
syniad sydd yn ffinio'i gwllwm –
eilio hyn ac eilio arall
gan gyd-ddod o sawl cyfeiriad.

Y mae'r tamaid o wahanu
drwy wahuno yn ddewinol.
Chwarae plant, rhy ifanc ydyw

hyn, i fod yn hen lwydedig.

Wrth gysylltu â'r amgylchfyd,
y mae cysgod yn cyd-dyfu
yn gorfforol. Y mae'r ysbryd
yn cael cluniau ac yn cerdded.

Ond drwy ricyn bach â'r siswrn,
fe gaiff awdur hwn hen linell
nad yw'n bod. Y pwytho yno
'una'n anodd. Tyn y frawddeg

at un arall. Yna, derfydd.
Hyn, ni falia. Naid. Ailgydia
mewn ysgolion dirifedi
fel pe basai'n fân fôr-leidir

o bry-copyn yn ymestyn
hongian acrobataidd hiraeth
am y llam i'r cyd-fod arall
uwch y môr. Ac yna, (Dewi),

gyda'u geiriau'n gorfoleddu
-lynu wrth eu ddannedd clymgain,
llunnir trosiad a delweddaeth
nes bod rhyw gysyniad arall
ddaw i gwlwm mewn un eiliad.
Ond does dim sy'n syniad newydd.

[Cyfuniad yw 'gwahuno' o'r geiriau 'gwahanu' ac 'uno', sef y clymiad o'r ddau symudiad sydd y tu ôl i gyfundrefn, i ddadansoddi, ac i holl ffurfiau iaith a meddwl: gw. *Beirniadaeth Gyfansawdd*, Cyhoeddiadau Barddas, 2003]

LLYTHYRAU AT DEWI (13)

PORTREAD O CHWAER NAS CAFWYD

Lawer tro ar ddiwedd ei fywyd fe fyddai'n hiraethu
am y chwaer nas cafwyd, yr un a ddisgwyliwyd
na ddaeth. Yn fach, roedd ef wedi gofidio amdani
ac wedi pendroni, tybed, ble'r oedd hi a beth oedd
ei rhinweddau. Roedd hi'n debyg i gyfrol nas darllenwyd
ond y gwyddai'i hanturiaeth oll. Gwyddai ei thema.

Dymunai garu'r chwaer hon heb iddi fod, a dyrchafai'i
statws hi yn ei fywyd. Byddent weithiau'n ymneilltuo
i gornel, ac yno mewn dirgelwch – fe gaent y gwyliau
nas cawsant wedyn gyda'i gilydd. Âi'n ôl dros ei sgysiau
a'i syniadau hi, a'i dadleuon. Y wlad nad ymwelsai â hi,
yn ei chwmmi roedd hi mor eglur ei ffiniau nes
ei bod yn cael ei goresgyn ganddi. Cymerai arno'i fod
yn ei chyflwyno i'r gerddi lle y gorweddent ochr yn ochr
yn smala eu sgwrs. Rhoddai ef lyfr iddi am ferched
a'u grasusau, a rhithiai'i chwmmi benywaidd yn efaill iddo.

Yn ystod ei blentyndod cynnar, cymerai hi'n ganiataol,
neu'n hytrach fe'i teimlai'n golled fel llanc a gollai'i goes,
ond er hynny a deimlai yn y bwlch a adawsai'r clwyf
y cyhyrau a'r croen yn crafu. Roedd hi yno o hyd.

Doedd e byth ar ei ben ei hunan gan eu bod mor debyg.
Roedd hi'n wahanol i mam. Iddo ef roedd honno yn hen byth;
yn oedolyn byth; yn grair. Roedd honno'n ddiblentynod!
Gyda'i fam, allai fe ddim dweud celwyddau; ond gyda hon
gallai raffu celwyddau'n gysurus fel crafat. Roedd ei fam
yn gyd-gysgod â'i dad, er yn meddu ar awdurdod meddal.

Ond gwyddai ef fod mam wrthi'n hiraethu am hon.

Roedd ei chwaer yn hoffi storïau bechgyn, a heb fod yn ddof ferchetaidd, a gallai fe ofyn iddi beth oedd ei hoff liw a dwli felly, pa fath o beth oedd marw, beth a feddyliai am eu rhieni, beth yn y byd oedd eu heneidiau. Gan nad oedd ar wahân, roedd ganddynt ddigon o wyliau i'w bwrw mewn segurddod ar lan afonydd. Gallai sgrifennu llythyr ati pan âi hi bant ambell dro i ymweld â'u modrabedd.

Eithr gwelai ef ei cholled bellach. Ac fe'i daliwyd ef gan mam ar un o'r achlysuron hyn pryd y bu'n llefain yn fewnol amdani, ac yn hiraethu amdani. Erbyn ei briodas ef, roedd hi ar ryw ystyr wedi marw – yn gynnar – a llithro i ffwrdd, i wyliau hwy braidd, a chiliai'i chysgod. Ymneilltuodd ef felly rhagddi ar y ddaear, a bu'r golled hon a gafodd yn loes dros ei oes heb ei deall. Eithr, fel gwir frawd, âi weithiau i ddodi daffodiliau led ei bedd.

LLYTHYRAU AT DEWI (14)

YMWELIAD GAN FY MRAWD IAU, KEITH – ADEG HENOED

Dyw gwahaniaethau ddim yn atal dim.
Chwipiwyd dy gorff prydfferthwch gan bob haint
a ddyfeisiodd bywyd. Rhoddwyd pellter rhyngom
gan leoliad yr amhosibilrwydd ymweld o'm tu corfforol i.
Ond crafangai cariad eithafol dros bob barn wleidyddol
neu grefyddol neu ieithyddol rhyngom; ni lwyddai dim
i'th atal di; mynnet ti, fy mrawd, heb fymryn
o nerth, eu lladd i gyd er mwyn ymweld â mi
drwy'r amhosibilrwydd ymweld o'm tu corfforol i;
ac fe'n sicrhawyd ni yn y canolbwyntio. Ti a ddaeth
yn dy boen i fyny i'm gweld am dro.

A'n sgwrs? Dyna un elfen nad oes diwedd arni
Llifa rhieni clên plentyndod dros greigiau canrif.
Tasg-gludent fadau brau drwyddynt drwy'r glannau cyfyng,
dyma ni'n ôl o flaen y tân yn chwerthin c'lonnau,
heb ddim i'n clymu, dybiem, ond yr amhosibilrwydd
i'n gwahanu'n ddau, fel yr ymaflwyd codwm o aelodau
annatodadwy ar y mat. Daethom o hyd i ni'n hunain
bob amser ar y diwedd... Ond ninnau dros lif yr ymweliadau,
cawsom glebran am eiliad i gasglu'r rhoddion glân,
y gwragedd hardd, a'r trysor amser, a'r plant, fel nant
a olchai'n llygaid ...
inni weld yn awr ein gilydd mewn cornel clebran yn ôl.

Gallwn eistedd nawr gyferbyn â'n gilydd o flaen y tân, heb ddweud
dim oll. Roedd y ffordd y sefydlwyd dy wên gynt
cyn pymtheg oed a'r ffordd y codai dy law wrth adrodd stori,
oll yn perthyn inni'n frawdol, d'ymroddiad i waith, d'ystumiau,

Darganfyddwn o'r newydd yn wyneb y crwt o henwr hwn
wedi'r pedwar ugain, fy wyneb fy hun, (ond yn llawer mwy
hawddgar), – y byd ohono a nythai yn fy meddwl –
bob blwyddyn pan gyfarfyddem yn llon. Roedd rhaid
croesi ffin od. Y cymhlethrydd hwnnw oedd tristwch
y cyfnod prysur na fuom gyda'n gilydd, yn dwf ar wahân
cyn ymuno. Roedd hyn wrth gwrs yn brofiad ar y cyd;
ond ymddangosai ei ddatod yn newydd. Gefaill di-efaill od
o bell oedd profi'r un dieithrwch agos yn rhuthro'n ôl,
arwahanrwydd yr un pryd gyda'n gilydd, yn yr un gwaed
yr un lle. Un cyfeiriad syth, heb droi'n ei ôl, un bywyd.

Eto'n rhieni, (y dyddiau braf coll mewn amser), yn garcharorion
gyda ni'n dau'r ail ryfel byd, y crynu mewn cyrch-awyr bomio, y chwarae
â srapnel mewn strydoedd, – popeth a ysgythrwyd ar ein hymennydd
a gadwyd. Hwyl hefyd oedd yr elfen barhau. Y tawelwch gyda'n gilydd
un noson ger y tân, roedd hyn yn ddigon i dynnu dagrau: y byd hwn
a'r rhagor o frawd sy'n aros, yr un person y tywalltwyd fi i mewn
i'r llif o'i drem, ac na allwn ei golli, O! fel yr hawliai dynerwch gennyf.

Gwahanwyd ni – heb ein gwahanu byth gan y lleoedd na welwn
byth eto. Ond sleifia cwch o fath a rwyfa ymlaen ar yr afon hon,
i mewn i lyn Parc y Rhath. A phan gawn gerdded hyd y glannau hyn –
mewn unrhyw le, – ni allwn byth fod yn unig ddi-orffennol
nac yn ddigyfaill, heb golli dim o'n bywyd, yn llawn o oriau
pryd y llosgwyd ynom hwyl atgofion. Gwna'r un afon (gofiwch?)
y tro ar gyfer llifo ar gof drwy'n gwythiennau ni'n dau gartref.

Ond, mae'r hyn sydd ar ôl yn ormod inni lefaru amdano heno.

LLYTHYRAU AT DEWI (15)

PORTREAD O

Roedd Gwilym yn ei wely tan naw o'r gloch
fel pe na bai dim wedi digwydd iddo. 'Brecwast!'
gwaeddai'i wraig i'r llofft. Codai ef wedyn. Eisteddai,
heb godi'i ben. Gwenai'r diddim-o-ddyn-hwn un o'r gwenau
dioglyd yna, sy'n bradychu'i fod ef yn barod anorffen
i fynd yn ôl i'r gwely. Ni wyddai'i wraig ddi-hid, –
beth oedd y pwl na'r sŵn, – ar amser fel hyn.
Swniai fel rhywun yng Nghantre'r Gwaelod yn garglan
dan y dŵr. 'Ei unigedd? A'i ffwdan am funudau'
meddai hi wrthi'i hun, gyda'r teledu'n breffu
yng nghefnidir ei anfod anherthnasol. A'i gais i dynnu sylw.

Ond ei galon ef oedd yr hyn oedd ar galon Gwilym.
Eto, gwyddai'i wraig y byddai Gwilym yn gwneud tipyn mwy
o ffwdan na hyn pan sylweddolai'i fod ar orffen.

Ni phryderodd hi. Penderfynodd hi nad oedd dim
yn mynd i redeg ato pan ddechreuai ef fflapian ychydig.
Rhagwelai ofnau gorliwgar y gŵr dychmyglon. Ond yr haul
ar gefn y dail coch syrthiol a raddol bigai'i chydwybod!

Rhy rwydd oedd ei beio'i hun am ei feiau rhwydd ef.
'Paid â chredu dail hydref,' meddyliai'i wraig wrthi'i
hun. Gwaedai symbolaeth eu cochni y tu allan hwnt i ffwdan.
Dalai'r haul ati'n oediol i regi'n welw ynnddi ohono.
Ond roedd y dail o ddifri. 'Cer ma's am dro, ddyn,' meddai
hi'n gysurus ddifater, heb wybod ei fod mor ddifrif.

A chwiliai ef – ei gapan, a'i galon, y ci a'r wlad –

am y drws. Ond doedd dim mor fân â symbol yn medru
cysgodi Gwilym rhag cochni amser, na dim i leddfu
ei bryder, ynghylch cyrraedd y drws, na dim i atal
haul y bore rhag dod i

* * *

Beth ddwedodd hi ar ôl iddo farw
neu fath-o-farw yn yr ymadael mud?
Dim. Yr un pryd, dylai'r Beibl,
wrth gerdded yn ein plith, fod wedi
gyrru allan ohoni'r bwystfileiddiwch
sydd wedi gwyrddroi'r deall a'r düwch
sydd ynom oll. Cerddodd o ystafell
i ystafell i gasglu'i gweddwdod unig,
mewn dicter at bentwr o ragluniaeth
neu'r mwy na gweddwdod a lynodd ynddi hi.

Crwydrai a chrwydrai gan siglo clychau
er mwyn y diddeffro, ac allan â hi o'r tŷ.
Ceid, fel petai beunydd, rywun nawr
sy'n sbio drwy'r glaw ac eisiau cyfarfod
â hi a sgysio, y math o ddyn-clebr-ben-stryd
sy'n hel gweddw newydd mewn dawns.
Yna pan gyrhaedda adref, gwybydd hi
hunaniaeth y cyfan, fel silff ben tân
a gafodd ei chlririo odani heb un fflam
fel adlewyrchiad ohono'n chwilfrydig
am farworyn o gusan heno ar oerni'i gorff.
Ymwahanus i aros, heb neb yn sylwi arni,
heb neb a allai ddeall ffordd mor rhwydd,
bu'r grât o'i blaen yn chwerthin ei fflamau yno
i weld yno'r un a fugeiliai'r gwacter yn y tŷ.
Ond! Maldod mwyach oedd pob difaru gwyn.

LLYTHYRAU AT DEWI (16)

CANAF BETH YW HUNANIAETH LLEIAFRIF

Dere, orffennol, gyda fi i ymdrybaeddu yn awr drwy'r dryswch. Dichon y rhannwn gyda'n gilydd gyfrinach welw. Hanes a'n gwnaeth ac a roddodd ar ein hysgwyddau fath o orfodaeth, a'r un peth hwn a wnaeth hanes hwnt i hawntio. Does dim diflannu ar orffenolau. Mae gan rai plastai eu seleri defodol a'u coridorau. (Wel, mae gan bawb bwy gilydd seleri a choridorau.) Fe'u darganfyddir gan lanciau wedi'u sgrifennu mewn catacwmau diddatrys.

Mae bod yn lleiafrif Cymreig yn un o'r ysgogiadau sy'n meithrin yr hunaniaeth israddol a diddorol. Pa werth yw cywilyddio am fod yn lleiafrif? Tipyn o gywreinder yw, i'r astudiwr academaidd.

Daethom yn bwnc academaidd y gellid eu dadansoddi i'n cymharu ag eraill. Rŷm yn rhan fach o batrwm clasurol. Syndod ein bodolaeth archolledig mewn protest anhyglyw a'n gwnaeth ni'n wahanol. Ac eto, nid am mai amddiffyn lleiafrif ydym. (Na: lleiafrif yw'r dewrion sy'n lladd eliffantod). Rheitiach yw tyrchu yn llwch yr amser a fu yn y gofod a fu. Gwiw yw'r ymchwil am gyndadau gwir a dderbyniodd eu gorchfygiad gydag urddas. Rŷm yn fwy cymhleth nag y dylem fod ar fore syml.

Allan o'r rhain y cripia rhywrai i'n concreto, ti yn 'hunan', allan o'r difancoll peryglus. Allan o'r llestri clai y cripia gwin dieithrwch. Nid o lestri aur sy'n suro'u cynnwys,

ond o'r piseri brau y gellir eu torri, y daw'r gwin
gorau heb suro... a rhai meddwon. Rŷm oll yn anorffen.

Awn yn ôl i Gymru. Awn i godi cloriau'n hymenyddau.
Canwn felly Hunaniaeth. Canwn y mewn a'r ma's.
Ddarllenydd hoff, yr wyt ti'n cyflawni tipyn
o gamp ymhlith darllenwyr wrth ddarllen hyn
o Lenyddiaeth Gymraeg nawr. Eto'r un pryd,
rwyt ti'n darllen hefyd Lên Drefedigaethol,
rwyt ti'n clywed y neges leiafrif am gario angau o gwmpas
yn dy gorff. Mae'r llythrennau rhyngom yn bont.

O dan yr ynof diddorol ac erydedig,
mi ganwn felly hunaniaeth...
Na, ni wn mo'r 'gân Brydeinig negyddol'.
Ni wn yr Ôl-drefedigaethol chwaith
heb gydnabod ar 'ôl' dim.
Mae yna le ac amser i bob dim o dan yr haul, meddant.
hyd yn oed, er ein gwaethaf, i ymerodraeth fawr.

Rhoddwyd inni ystyfnigrwydd ynghylch ysfa
am gydwybod, hyd yn oed mewn labyrinthau oer
ac unig, lle y llecha'r cyneddfau rhag wynebu'r
tywydd oeraf yn llwnc y diwedd..

LLYTHYRAU AT DEWI (17)

CLWB CYD HEOL Y WIG ABERYSTWYTH 2016

Cusanwyr yr iaith sydd ar waith
ambell waith o flaen coffi.
Pe gofynnid imi lunio
plot i bontio dysgwyr diwyd
hyd a lled y wlad â'r Cymry
rhugl, (lle hoffir cwmni'i gilydd),
fe'u lleolwn hwy mewn coffe
mewn cwmni deg neu bymtheg
sydd o ewyllys rhydd yn clebran.
Hyn yw adfer hyn o adfyd.

Dim ond coffe yw, heb fod
ar gefnau meirch; anwrol tost,
heb fod yn Arthur a'i wyrthiau,
heb fod ben ffordd, yn uchel
eu clychau hwy'n protestio.
Yng nghorneli'r byd, fe guddir
rhyddid oesoedd lle bu natur
mewn gaeafau yn gorchuddio
diwylliannau annhrefedigaeth.

Pontiant hwy â blas segurdod
uwchben hylif, ar bwys cwpan
sydd yn llawn o optimistiaeth.
Sipiant yno'r cadarnhaol;
a phob tro enilliant hyder.
Adfer fydd eu ffordd o ennill
brwydr oesoedd. Dônt at ei gilydd
yn Aberystwyth ar echel y byd

o Groesoswallt, Aberaeron,
Bangkok, Rhydypennau, Llydaw,
Pwyl, a hithau Aberystwyth
hi ei hunan (bûm i gynnau
bron â phallu'i chrybwyll hithau),
Borth, Penparcau draw, siaradwyr
fydd yn achub iaith wrth beidio
byth â meddwl am yr aberth
amser 'geir ym mhleser orig
cyfeillgarwch, (nid am 'statws' –
gair gwleidyddol – ar ffurflenni
a phosteri'r waliau amlwg),
yma'n gudd o wirfodd calon.

Eithr protest anweledig yw'n
ostyngedig, hwyliog, annwyl,
yr union un sy'n claddu cosbi
dwl cyfreithiol, na chymerir
dull mor ddi-fudd byth. Ceir adfyw
drwy gariad. Dowch, siaradwyr
cynorthwyol yn wythnosol. Dowch:
a dygwch iaith o'ch daear,
iaith a ddaw'n wirfoddol fywiol,
gyda'ch cyd-ddibynnu taclus.

Llanwa hyn bob awr o'n henwlad.
Ble mae'r Cymry rhugl? Agorwch
eiriau. Dewch i ddathlu'r gwanwyn;
a chewch sythu'n ddwys i'r cwpan;
yng nghornel ambell gwpan
fe geir staen o ôl dyfodol.

LLYTHYRAU AT DEWI (18)

PORTREAD O FAM FARW-WRTH-ESGOR

Rhod dai hi'r bywyd iddo, ac wedyn roedd wedi mynd
wedi cyflawni'i swyddogaeth fam leiafswm;
ac yn greulon, ffarwelio â'i fodolaeth lon.

Hiraeth oedd ganddo amdani. Myth oedd y ddedfryd
arni. Diflannu, na! Gwyddai; hiraethai'r bychan am
ieuenctid ei haros, a ceisiai feddiannu'i chroth foment pellach.

Eto, 'lawr yn y groth, gynt bu ef yno mor unig.
Alltudiwyd hi'n bell eisoes rhag cael ymwybod iawn.
Nid oedd yr arall ynddo a chwaraeai'r anwes

yn bod heddiw ond drwy unigrwydd. Dewisodd hi gefnu
â'i gwmni drwy gwsg. Ond heb roddi bwlech arferol i'r
hun iawn, ffodd hi oddi wrthi'i hun i wlad nas hawliai.

Wedyn safai'r mab uwch had anwyldeb ei bedd hi
yng Nghymru. Di-werth fu nerth ei gofal gynt.
Nid arhosai dim o'i gwaed, dan hyn o bridd, wrth ei draed.

LLYTHYRAU AT DEWI (19)

EI FFRIND, YR AWEN

Yn y frwydr olaf yn rhyfel bydolrwydd, yr Awen yw'r un
sy'n amddiffyn y galon rhag ei phoblogi gan unigrwydd.
Crwydrodd y bardd yn ei henoed i mewn i'r goedwig
ac fe'i collodd ei hun drwy sgysio ag ef ei hun drwy'i ffrind.

Yr hyn y gellir ei ddweud a ddywedir yn lluosog mewn tri.
Y bardd, y thema, a'r gwrthrych. Yr enw, y ferf, a'r ymadroddi
adferfol a sicrhâi fod ganddo gymuned ynghyd i'w mynegi ar draws
y bont a'i llifddorau o ystyron odani, a thonnau bach hapus

i lenwi stori'i gân, fel y gall weld brawddeg yn y llu a geisiai
bendrawdod, yn ei law sy'n gafael mewn coedwig rydd a choelio
mai mwswg yw hwn sy'n feddal ac yn ymaflyd yn gudd (bun
brydferth yw ei hystyr). Rhennir hithau'n frau o briodi eginyn.

Ond weithiau petrusa'r pedwar. Heb un i mewn i'r dre'n rholio
a'u cipia hwy y tu hwnt i'r hyn, y mae'r ddaear yn ei rwydo.
Fe'i rhwyda ef yn hyrddiad cainc neu ynteu drwy frigau'r
geiriau a hoffa'i faglu wrth stryffaglu at y frawddeg union.

Weithiau anadla un arall yno i ordoi coridorau'i goedwig.
Och! Brensiach y synnwyr lluosog. Yn y cwlwm daeth pedwerydd:
mae'r bardd yn eistedd yng nghwmni chwa o wynt, yna'n oer
(fel pysgodyn) y cenfydd y gwir. Y mae'n chwerthin yn unplyg

ac yn aberthol yn rhwygo'i fron ar allor y tewi mewnol
sy'n ei ddarbwylllo i gripian at ei gyfaill henaint ger y lan
nes ei drechu'i hun, wrth gyflwyno'i ffrind, i'w ddail,
gwywedig, syrthiedig, melyn, wedi ymadael mewn plymiad i'r afon.

LLYTHYRAU AT DEWI (20)

HUNANGOFIANT DAEAR

I (Y Creu)

Dyma fi'n hen ddaear, yn ystod un o'm mynych wyliau,
yn eistedd i ysgrifennu hyn o eiriau. Gwyddoch
wrth gwrs fod fy meistr llenyddol Moses, yn gadael
i mi fraenaru'n segur y seithfed flwyddyn (fel Sul).
Ac yna, mae'r gweddwon a'r amddifad a'r tlawd
yn cael eu gwyn a'u gwala. A finnau'r pridd,
mewn hamdden, yn ystod y rhyddid hwnnw,
yn mynegi wrth ysgrifennu â'm tipyn pin sylwadol
y drafferth ganlynol ar dir mewn geiriau perffaith
nad oes mo'u gwell. Dywedaf galon y gwir
am y crwydriaid 'gaiff fwyta ohonof yn fy llaid.

Dechreuais i'n Dohw-Na-Bohw o ddaear
yn gwneud fy ngorau i edrych o gwmpas y lle
heb lygaid namyn rhai dall, yn wag
ac yn ddi-ffurf.

Pe bai gen i enw,

'Dim' fuasai'r enw hwnnw. Ond cynenwol
oeddwn, heb ddim yn fy mhocedi,
heb bris tocyn i fynd o gylch y byd hyd yn oed,
pe bai 'na fyd.

'Hyn yw dy hanes,' heriai El fi
â'i lygaid mewnlol, –

y Dechreuwr Mawr diddechrau
wedi'i orffen eisoes, yr Eisoes Mawr,
yn Oruwchnatur o raid.

'Ac allan o'r diddymdra hylaw hwn

fe dynnwyd popeth ohonot – yn llinyn o ran amser
sy heb fod yn gylch, yn ddiwedd (i ddechrau)
a phob dim wedyn heb ynot yr un pen-blwydd mewn amser ar gyfer pawb.

'Myfi'r lluosog o fewn yr unigol!' Tynnwyd o bob dim alaethau
rhif y tywod allan, allan. Profwch fel arall!

Geilw Ef bob enw yn brydlon:

'Dydd!'

'Yma, syr.'

'Nos.'

'Yma.'

A rholiodd fy Mater ac Ysbryd ger Ei fron,
o'r un Un sy'n dda'i bresenoldeb ym mhridd y ddaear.
Ni ddeallwn, fwy na'r ddynoliaeth wedyn
pam yn y byd y deuthum. (Ond dywedir paham.)

II (Y gorchymyn diwylliannol)

Fe ddywedodd El: 'Nid gwyliau yw dy nod.

Eto, mwynhad a gei. Eto, mae traeth o dir
y tu ôl i'r tŷ i ti balu'r tywod oll
â bwced a rhaw dlawd, cyn belled
ag rwyd ti'n gallu'i weld.

Dy bleser yw hynyna. Yno ffrwythwch ac amlhewch.'

A hyn oedd yr ufudd-dod o ogoneddu Duw mewn rhosyn
a phren. 'Mewn pren?' atebwn. 'Ie, fy mhren, – nid pob pren. Ceir
dethol led y cread gloyw yn yr amllder. Ond yn fy naear
mae yna werthuso i fod; ansawdd braf ar llinyn byw'r pren iawn.

Pren yr ufudd-dod yw hwn, pren y dynolrwydd afiach.

Peth arall sy yma heblaw'r pren ei hun –

mawr a bach, –

gan mai dyn yw'r brenin bychan –

a'i stiward hoff ei drefn, –

'Y Ddeddf. Hyn o'i hanfod llawn yw'r Iawn.'
A mwynhaodd Adda fod yn fyw
yn un (gyda'r tywydd)
o dîm garddio Duw, o ben hael bore tan brynhawn.

III (Hi)

Ac yna hi,
y frenhines fechan,
yr hi gyfareddol ddi-nam
yn ei chnawd gorau, Efa,
yr hi, i'm daear i bawb gael cwmni,
mynyddoedd o gwmni naturiol, mynyddoedd o lendid
fel gwawr yn torri'r du yn seren fore
o freuddwydion a'u gliniau'n crynudo yn y gwres
– doedd dim angen diemyntau –
mynyddoedd o afalau'n chwerthin-balu twll
i guddio'r oerni marwnad yn y nos.

Yn sgil ei gwyndra da, i lawr ar ganol fy naear,
yn genedlaethau coll, gwrandawodd hi
o'r pwll o wahardd chwilfrydig
a'r hollt
ac eigionau o edifeirwch call ar ddec y Glec
a luniodd wisgoedd y byd yn y dydd gwyn golau hwn.

IV (Cwyp)

Chwyrliodd pechod i mewn i'm calon i ac i fyny ac allan
heb reswm. Dim ond daear fach ddiniwed oeddwn i.
Allan o'i diffyg rheswm y dringais i.
Dyma o'm cwmpas y Cwyp a gynhwysai o'i herwydd
Remp. Yn yr anghredu, mynyddoedd o hunan-dwyll,
a'r mynyddoedd o falchder yn cynnwys angau: 'Nid fy mai i!'
Er mwyn anghredu popeth, rhaid oedd yn hytrach
ei wneud ei hun yn ymchwydd. 'Meistr Nid-fy-mai-i, i ganol

y creithiau a'r cornwydydd, y cancr a'r crach, a'r criw.'

Doedd arnaf fawr o waith i ddyn
ei wneud ond gardd bleserus arnaf yn y salm iddo Ef:
hyn dwi'n ei gredu.

Er mwyn credu popeth, rhaid oedd i Adda
gwrthod Paradwys am y nesaf peth i 'ddim'.

Trefnodd dyn felly fy nghwmp priodol daearus,
a'r cwbl o'r Cwmp gerbron llygaid Cariad
a bysedd Trugaredd yn eu cynnig eu hun
â'r gair Ysigo.

Dim ond dweud 'Ysigo' dros ben y sarff
ar slent a wnaeth
fel y bydd cusan serch,
ac i maes o'i boen y llifodd barn
a phroffwydi, salmau, a Christ
yn rhaeadr caru trochionog geiriol
ar lawr beudy'n
dragwyddoldeb bychan
o Wirionedd mawr yn dewis dioddef a marw er mwyn
i bechaduriaid fwynhau Cyfiawnder drwy ddolen â Duw,
(y marw sy'n atgyfodi eraill o'r marw), â'i orfoledd ef o ymostyngiad.
Gyda'r cwestiwn o'm blaen yn hollt,
fe roddwyd ynof hefyd awch i uno ac i anuno.
Fe roddwyd addewid lawn i urddo iawn y ddaear.

V (Deddf)

Ni chrewyd y Ddeddf ynof: fe'i datganwyd. Fe'i cawd yno eisoes.
Ef oedd y Ddeddf. Fe'i cafwyd erioed ym meddwl y Deddfwr
cyn fy mod. Cafwyd ei gynllun yn anghreedig drosof,
nes ei rhoi ar femrwn. Yr un pryd
fe'i dodwyd ym mhob modfedd wledd o'r ddaear.

Arweiniodd y gyfraith arwyneb at – 'Nid yw'n gyfreithlon

i mi (Peilat) roi neb i farwolaeth' drwy anwiredd. Fe welodd wyneb
o'i flaen ar lun Gwirionedd. Mor brydferth oedd deddf,
emyn i ddaear fyw. Diben deddf oedd ein dal wrth ein gilydd,
yn ddyn wrth ddyn, a dyn wrth Dduw, drwy Moses, gread.
yn barhad i'r drefn wahunol ym meddwl Duw. Dyn oedd deddf.

Canwyd y patrwm ym meddwl Adda,
gyda hwnnw'n cysgu'n hwyr yn ei wely prysur o ddaear.
Cryfder y Ddeddf, a ymddangosai i'r byd yn elyn o fyddin,
oedd cariad ac ymostyngiad gorfoleddus triw i'w ddeffro.

VI (Y Genedl Israel)

Enaid cenedl a dyn yw'r hunaniaeth: y peth sy'n byw
mewn corff, y peth sy'n lliw neu'n friw i'r bod, sef ein gwahuniaeth
creedig, yr amryw mewn un, yn gorff-enaid-ysbryd trionglog.
I Israel, bu hyn o hynod eiddo'n drysor, yn ddyletswydd i'w chadw,
ond yn beryg bywyd. A chrinodd ei choron. Ildiodd i bydredd y fi.

Hyn, ar ben Tŵr yn Sinar, oedd y pechod balch ac anghrediniol –
gwanc – y canoli

mewn iaith a thir, – yr hunan dynol, yn meddu erw ar erw,
yn ymffurfio-anffurfio-ac-unffurfio'n ymerodraeth
o ganoli trahaus. Ewylllys Duw oedd prydfferthu'r bodoli hwn
ar fy nghefn i genhedlu cenhedloedd lu
ag amrywiaeth o fewn unoliaeth:

dyn rhydd gaed yn lle'i undonedd.

Ac unffurf gnawdol oedd;

ond cripiodd y bwystfil ohono o fewn y Tŵr i ddweud wrth Dduw
'hunanddigonol wyf.' Adeiladodd Babel yn uwch uwch uwch
fel pe bai am goncro'r nefoedd. Rhaid oedd manylu i'r gwalch
bellach am gynllun gwasgaru dros wyneb fy holl ddaear,
yn genhedloedd diwylliedig bendigedig a'u hadeiladau'n solet.

Beth felly oedd y gwahân rhwng dyn a Duw?

Yr hunan. Yr isel yn uwch na'r Goruwch... Bid siŵr, rhaid
adeiladu'n uwch eto, a'r uchafwydd yn ein meddiannu ni.
I lawr hyd ein dringo ingol yn awr, o un pegwn i'r llall
mae ein pobloedd yn ymestyn-dynnu.

Os gwrandewch yn ostyngedig
fe glywch y mawl yn malu grawn yn lawn o fron i fron
i droed y mynydd, – wele Seinaï'n seinio Salem yn y tŷ anwel.
Wele, yn y llaca mae'r tŷ anweledig yn ymddangos ledled byd;
drwy'r adnabod anferth yn ein gilydd, dan ddaagrau llawen,
ar ben bryn arall – Calfaria, teg o uchder, llonder yr holl bridd
yn genedl goruwch cenhedloedd ar y copa crin.

VII (Moses)

Fe'i ganwyd ef mewn 'celwydd'. Nid mewn gwir y bodolai'n gyntaf.

Yno gyda babandod cafodd ef nofio ar afon Nil
a'i enwi'n Moses, oherwydd

'Tynnais ef allan o'r dŵr.'

Yn fyrbwyll ei dymer, fe ffodd oherwydd llofruddio Eifftiwr,
'Dieithryn ydwyf mewn gwlad ddieithr,' meddai Israel
a Chymru ynddo.

Ond galwodd Duw arno o ganol y berth,

'Paid â dod ddim yn nes;
tyn d'esgidiau oddi am dy draed,
oherwydd y mae'r llecyn yr wyt yn sefyll arno
yn ddaear sanctaidd.' Y Myfi mawr ei hun oedd hwnnw.

O bob myfi-hunan a oedd i'w gael,

dim ond y Myfi hwn uwchben sy'n werthfawr.

Roedd nam ar leferydd yr un bach, yr un mwyaf anaddas
i gyflwyno'r efengyl i holl blant y ddaear.

Arhosodd yr Arglwydd gant ac ugain o flynyddoedd
yn ei atal-dweud,

Cyn caniatáu i Moses orffen ei waith gwleidydd: creu Israel.

Rhoddyd ef gan Dduw i dywys y bobl

fwyaf gwargaled a gwrthryfelgar i groesi
cefn y ddaear erioed, ond wedyn
ni chaniatawyd iddo fynd drosof i mewn
i'r ddaear-amcan, Israel. Llwyddodd ef yn y methiant hwnnw.

VIII (Eseia)

Esboniodd yr Arglwydd i mi fod yr Ysbryd
yn corffori ar gefn hanes fy mhridd
gysgodion i bresenoldeb, ac ystyr fy mod,
mewn dyfodiad brenhinol. Gweld hwnnw yw proffwydo:

'O'r cyff a adewir i Jesse fe ddaw blaguryn'
mewn doethineb a deall, mewn cyngor a grym,
yng ngwefr gwybodaeth ac ofn
i ymhyfrydu yn yr ufudd-dod i'r Arglwydd ein Duw.

Ac yn dyrfaoedd o fendithion, O! edrychwch
ar y tai yn rhodio mewn dillad sanctaidd
ac elyrch yn golchi'r wybrennau, yn hedfan drosof
drwy'n llygaid oer; a gweiddi'r bechgyn wedi blino
yn cysgu cyn cyrraedd eu gwelyau breuddwydiol.

'Dyma fy ngwas, yr wyf yn ei gynnal, f'anwylyd,
f'etholedig mewn tir, yr wyf yn ymhyfrydu ynddo.
Drwy lwch fy naear y cymysgir yr Ysbryd.
Drwy gysgodion y'i gwelwn yn awr.'
Y gweld goruwch gweld hwnnw
mewn priddgist darllen.

Ond cyn hir, wyneb yn wyneb deffrôf : fe'i gwelwn
fel y mae. 'Teg o uchder y llawenydd
i Gymru, yn f'anrhydeddu i.'

'Y mae ysbryd yr Arglwydd Dduw arnaf.
Y proffwyd blaenaf, Eseia'r eneniog. Ow! Y mae llwyddo

i ddweud y llawnder hwn o'i brydferthwch yn pwyso
ar ofnau fy mhoen garedig a'm diolchgarwch.'

Ow! Wele ei wyneb Ef yno'n disgleirio ar fy mhridd.

IX (Dafydd Frenin)

Roedd Dafydd yn writgoch, a chando lygaid gloywhardd lawn ei olwg.
Trechodd Dafydd y Philistiad ffôl-anystwyth â ffon-dafll-â-charreg
a'i ladd am iddo fe heddiw herio byddin fach y Duw byw.
Er gwaethaf ymosodiadau gan lewod di-boen, cawsai o'r diwedd
ei rasmus tirion i amddiffyn yr oen: medrai ganu'r delyn,
y salm sy'n cyfeirio'i edifeirwch, yr haul teg sicr yn ei neges,
hudolaidd y'i hadeiladwyd, lliw goleuddydd serchiadau yn y gân.

A phan welai'r fun, adwaenai'r llan a adwaenai brydferthwch, a chanai:

'Caraf yr un sy'n caru cariadon y ddaear,
yr un sy'n cario cysgod i ddilwch ddiddanwch y byd.
Molaf ei gwên hi am fod honno'n gartrefol ar liniau
ac o'r nefoedd fochgoch, yn och-garu'r holl hyllwedd di-hud.'

A hwnnw'r hydeiml a addolai'n ddolurus gysgodol
drwy ysbryd teg, hyfryd dueddfryd bendigaid o'i grud,
allan o'i Hen Destament hwn y rholiodd yn araf drwy hanes
holl ryfeddod cyflawniad yr Oen a'i ffrwd o gorffori clyd.

X (Testament Newydd)

Fel y mae Lladin yn Sbaeneg, neu'n Ffrangeg, neu'n Eidaleg
yn yr unfed ganrif ar hugain, felly Iddewiaeth y ganrif hon
yw Cristnogaeth, wedi'i dryllio dros bridd gan efengyl:
cripiodd Iddewiaeth o aeaf fy mhridd
a chlofffi'n gyfan tua'r preseb o farw:
yr Un ofnadwy na ellir ond ceisio Ei foli –

Y gweld, y clywed, a'r cyffyrddiad ei hun oedd syndod Luc.
Daeth Goleuni i ymyrryd yn ei anadl, yn ddisgybl i Ioan Fedyddiwr,
wedi ymprydio yn f'aniawch. Dyma sefyll mewn capel bach
cefn-gwlad a thrydanu'r awyr â Maniffesto Nasareth: 'y mae
Ysbryd yr Arglwydd arnaf.' Dyma raglen waith ei ddyfodol
ar y degfed dydd o'r seithfed mis – drwy utgorn o lais yn ysgwyd
y waliau tan gyhoeddi rhyddid (Onid hwn yw crwt bach y saer?)
i dlodion, i garcharorion, i ddeillion, i'r gorthrymedig, yn berson.
Fi a ddarparodd yr unigrwydd i Hwnnw fy nhrechu i.

Nid mewn 'geiriau'. Siaradai weithredoedd. Hyn oedd ei ffydd yn ffrwythau
gwrthryfelwr blwyddyn ffafr yr Arglwydd drwy'i ddweud wrth yr hunan
nad mewn pridd, yn dy lannau o hyd, y dathlai'r
Jiwbilî, wedi'n rhyddhau rhag ofn marwolaeth. Yr ateb gogoneddus yna
ei hun mewn ffydd allan o'm daear sigledig, yng ngwisg tir brodorol Cymru.

XI (Paul)

Ar Areopagus ymhlith y methwyr meddwl, y rhai
a ymunai yn erbyn y llais a ddaliai i lefaru yma,
yr Epiciwriaid a'r Stoiciaid ar y pryd – a phob pryd –
dathlwyr pleser di-ffrwyth a'r goddefwyr realedd Ffawd –
daeth brawd pob ystyr gyda llais a glywai'r Llais.

Roedd Paul wedi holi yno beth oedd eu meddwl: roedd
wedi'i ddiogelu yn ysglyfaeth gan yr Un a oedd bob amser
gydag ef: ni ddaeth ar ei ben ei hun. Clywsai utgorn yn hytrach
o ateb i'w bob pendroniad, yr anffasiwn a safai ar wahân
iddo ef, yr ymennydd mwyaf a welwyd gan ein daear ni erioed.
Daeth wedi'i ddiogelu wrth herio pob ffasiwn nad âi'n uwch
na natur gan y Bywyd perffaith a geid yn yr Un gwahân.

Hyn oedd ei gân yng nghalon y Gair a wnaed yn ddaear.
Crynai wrth ei chodi goruwch y problemau cyfoesol di-droi.

XII (Mawl i)

Pan gilia'r nos, bydd gyda mi O! Arglwydd.

Goleua'r llwybr o dan fy nhraed i ti.

A bydd dy draed yn gogoneddu'r llwybyr

i dragwyddoldeb ein cwmnïaeth ni.

A bydd y sêr yn tiwnio'u tannau tirion

i ganu am waed harddach na'n holl fri.

Bydd hwnnw wrth fy modd yn golchi'r trothwy

trwy angau rodd i'r llawen gôr a'i ddawn.

Pan fydd deniadau amherthnasol daear

i'w gweld yn gliriach, a'r holl le yn llawn,

cawn daflu'r gadwyn, cawn fwynhau'r ffynhonnau

o fawl i fendith Iesu cu a'i Iawn.

XIII (Mawl ii)

'Credaf' y ddeddf a'r maddau

a gafwyd yn Ei air

ym myd o ryfeddodau

gogoniant Duw a bair

i lewyrch Bethlem aros

uwchben Meseia Mair.

Ymlaen rwy'n canlyn Iesu

ar daith i'w fynwes Ef

drwy gors tywyllwch dieithr

i dŷ angylion nef.

'Ymlaen' y geilw'u cytgan,

a fi ar frys i dref.

Cyfamod oedd ei gynnig,

cyfamod Tri yn Un.
Priodas wedi'i gwirio:
cyfamod Duw yn ddyn.
Unwyd y nef a'r ddaear,
a marw a byw'n gytûn.

XIV (Datguddiad i)

Ehedodd un o'r seraffiaid hynaf ataf
a dwyn yn ei law farworyn
oddi ar yr allor,
ac fe'i rhoes i gyffwrdd â'm genau ecolegol.
Dyma wyrth y pridd a'r Ysbryd yn gweithio drwy fy nghnawd
a'm gwneud yn ddaear newydd.

Yr oedd Alfa ac Omega, y cyntaf a'r olaf, y dechrau a'r diwedd,
Un fel mab dyn a'i wisg yn cyrraedd hyd ei draed,
a gwregys aur ar eira, a'r llygaid fel fflam dân.
Daeth ataf i briodas yr Oen a'r Ddaear, Nef newydd a Byd newydd.
Daeth ataf i'm medi, myfi na ddylid torri'i enw ar lyfr y bywyd.
Agorodd ddrws agored na fedr neb ei gau,
yr hwn oedd, a'r hwn sydd, a'r hwn sydd i ddod,
a chenais, 'Teilwng wyt ti.' Deui at yr un annheilwng
oherwydd ti a'm creodd a phob peth,
a thrwy d'ewyllys y deuthum â'm cynhaeaf i'w faddau,
a medi o'm daear wael, gan fwrw dy gryman i'r fedel
i gynaeafu fy niddymdra, fy mhriddgarwch, fy ngwag
yn ffrwyth gwinwydden i'n dadbechu'n Ddaear Newydd.

XV (Datguddiad ii)

[traethodl]

Un llynges o angylion:
Bu'r paratodau i hon

yn glau. Dynesai'r hirnos
yn ddu ar draws dŵr a rhos.
Acw y diffoddai'r dref
ei goleuadau crochlef.
Fe gâi'r annealladwy
ei ddeall; a'r di-ddweud mwy
ei ddweud. Ni cheisid gan neb
gyfle yn unlle i ateb.

Yr oedd hyn yn ddatguddiad
i lygad, i waith, heb wad.
Ac yn bur, fe gaed bwriad
heb ddiwedd, a nod i'r gad.

Ar draws y moroedd a'u cri
wrth farw, fe geid geni
draig wen a'i hadenydd tân
a'i chrib wâr a'i phig arian.
Ni bydd neb mwy yn gofyn
pwy yw Hwn a beth yw hyn.

Gofyn sy'n bygwth cariad
sy'n ateb priddlawr gwlad.
Does dim ymguddio mewn twll
hyd yn oed o fewn trobwll.
Mae'r Brenin ar orsedd llys
uwch yr olaf o'r rasys
byw, cof a grym mewn arfer
yn plannu ein barn ynom
a'r farn honno'n dodwy bom.

Aur fydd yn nabod arian;
a gwybod byd yng nghof man.
Mynnir anadlu'i ddedfryd

dros holl wacterau y byd.

'Myfi' mewn gweddnewid fydd

yn nwfyras Daear Newydd.

Wele! Blodeua cariad.

Diflanna cerydd yn rhad.

LLYTHYRAU AT DEWI (21)

LLE I GOEDEN NADOLIG

Yr ochr fewnol i'r ffenest, roedd coeden annigonol
yn ymddangos yn 'gosmetig', a heb y galon
i dyfu,
heb blant,
heb ffynhonnell i egin.

Ond o'r tu allan i'r ffenest, syllai coeden arall, un go ddi-ffws
a go iawn
i mewn gyda pheth dirmyg a llawer o dosturi
tuag at yr un a throsti
geriach o dinsel, –
heb ddwyn dail.

Y fath fywyd difywyd i'r naill, heb ddidwylledd, mewn
mwigwd, yn llefaru'n huawdl heb ystyron na chynnwys cudd
wrth yr un byw, yr un â'r gwynt yn rhewi yn ei chynffon.

Roedd y tywydd
y tu gwyllt a'r tu poen
yn golygu rhywbeth dilys
i'r syllwr syn y tu allan a brofai falchder ar ran ei hil; parhâi,
tra nad oedd y cuddiwr di-waith o'r tu mewn
ond yno am wythnos
fer o jolihotio
o fewn ystafell.

Eto, trosiad oedd hi
gyda'r anrhydedd o ddwyn llawenydd am un wythnos i blant.
Fe'i lluniwyd i'r tu mewn er mwyn llonni'r rhai bach dros dro

drwy fod yn ffrind iddynt

heb ronyn o elyniaeth.

Doedd hon yn neb

o bwys. Ond ni waeth am hynny. Fe gafodd gyfle
i lefaru am wythnos, yn nifrifoldeb craceri a siocledi.

Ac yna, fe'i tynnwyd i lawr.

Dim ond dameg

ac iddi le,

yn drempyn pren

wedi dod ar ei dro i hau hedyn od o fach, ac eto i fynd
oddi yno yn sbri syml wedi cogio ymddwyn yn Fynydd Mawr,
ac wedi gallu yno, er mynd i'r fasedd, ddathlu gogoniant y Nadolig.

LLYTHYRAU AT DEWI (22)

Y GOEDEN WAHARDDDEDIG YN HANES ADDA

Doedd hi ddim wedi gwneud drwg arbennig yno
heblaw mynd am dro yn symbol. Ond roedd
gan Dduw feddyliau eraill. Persbectif yn un peth.

Gwyddai hi mai'i dyletswydd oedd ei bunio'i hun,
y cwbl. Dylai wisgo cloch y gwahanglwyf.
Gofynnodd i wraidd dant-y-llew dan draed:

'Mae'n debyg, nad ydych chi ddim eisiau dilynwr arall?'
Roedd hi'n eirlysiog o chwyn, heb allu dal ei phen
i fyny'n syth. Pwy fyddai'n sgubo'r llawr ar ei hôl?

Gwyddai am yr ymwadu gan Adda amdani
wrtho'i hun, a'r cuddio, a'r celwydda, y byd
yn y mymryn hwn o frad – yr hunan-dwyll.

Gwyddai'r galar dwyfol, ym mhen draw edifeirwch.
Stiwardiaeth heddiw lai annheilwng, bur debyg
(ceisiai'i hanghofio). Ond dan draed crwydr Adda

garddiai un o'i hegin, wedi dod ag un o'i phechodau
lleiaf – hi ei hun, i'w blannu'n ganclwm Japan
mewn un lle bach cysgodol; ac oddi yna, cripi'ai'n araf

ddiniwed dros yr holl ardal, gyda llond bol
o hunandosturi yn ymlusgo wrth ei chwt,
heb adnabod eto yr Un a ysigai ben y sarff

a'i dihuno hithau mwyach o'i chwsg daearol.

Ac wedi i'r awel lân ddangos yr addewid i Adda,
torchodd hwnnw ei lewys... Dechreuwyd chwynnu.

LLYTHYRAU AT DEWI (23)

YR HEN WŶR YN GWYLIOR CRWT

Wrth fynd am dro drylliodd corff yr hen wŵr yn wllith
wrth weld y rhith yn ymddangos yn sydyn o'r ddaear
yn egino'n ffres o'i flaen yng ngwib y canllath cyntaf
o sandalau haf. Safodd yr henwr ar ganol ei wâc
i wylled y crwt hwn yn ymestyn. Nid y ras dwt
oedd yn cyfrif, ond yr esgyrn noeth, ac eiddigedd ei hun
mewn llygaid hen yn mesur cyflymder yr ifanc cyson
dyfal cymedrol bêr yn cyflwyno breuddwydion iddo,
gan roi'r cwbl i'r ras (er yn arafach bellach), ei lygaid yn cochi'n
sêr ond yn paratoi ar gyfer cwblhau'r cwrs mewn harddwch.

Plygai ymennydd y crwt ei war, a'i wên wedi'i gwreiddio
mewn hen chwerthin. Llesgâi'r hen wŵr wrth gyd-deimlo
ag ymlâdd gwallgof, y diferyn gorffwyll hwn o fachgen
yn yfed dŵr o'r botel ar ôl neidio wow! dros y sticill.

Ymgollodd y crwt yn ei ageru gonest agored:
nid y ras oedd yn cyfrif i'r hen wŵr, na thwyll y glaw,
ond ei feddyliau cloff (O! Fel yr hoffai orwedd ar wely'r clai),
ond gweld y crwt yn tynnu'i sgidiau-rhedeg wrth groesi'r
pwll brwnt.

Gadawodd y crwt ei drywydd i chwarae yn y pwll hwnnw wrth frysio
yn ei flaen, ugain o foroedd ymlaen o gwmpas cylchred pen rhy hen
yr hen wŵr lle yr oedd y llyswennod yn cicio fel mellit od ar ei bwys.

Nid y ras oedd yn cyfrif i'r crwt, ond yr oedi eiliad hapus olaf
dan y brigau oer, cyn y diwedd a'r gawod, – oedi ar y ffordd
wedi'r gylchdaith – cyflawni glas ei oed ar droed mor driw

heb sylwi bod yno hen ŵr hapus wedi ymgolli mewn gwên gerllaw...

LLYTHYRAU AT DEWI (24)

PORTREAD O HEN GYDNABOD NA CHANIATÂI IMI SWITSIO'R GOLAU YMLAEN

Roedd hi'n weddol dywyll.

Â'i gefn yn blwmp at y goleuni,
anodd oedd gweld ei wyneb.

'Peidiwch â rhoi'r golau ymlaen,'
meddai fe. 'Dowch o'na,' meddwn i,
'eisteddwch.' Ond 'wna-i ddim,'

meddai, 'gwnewch'. Dyna hefyd y cwbl
o'r sgwrs. Allan o'r dyfnder hwnnw
ymdrybaeddai'r ymwelydd yn ei eiriau'i hun.

Hwnnw oedd y diystyr i bawb:
yr hiraeth am ragdybiaeth
a greai dipyn o 'ddim' ynghylch byw.

Ymgreiniau mwy na geiriau drwyddo;
ymlafniau'i felltith deuluol drosom;
ac ymchwyddo hunaniaeth drwy'r lle.

Ymosodai'i gywirdeb politicaidd
yn llysnafedd dros fysedd oer nos
fy nhraed, ac i mewn i'm llygaid.

Roedd y gwrth-unigryw'n orfodol;
a hynny a ballodd dderbyn y swits.
Er gwrthod derbyn croesawu sedd,

ef hefyd oedd y byd a fynnodd

fy nghofleidio i. Y mae pawb
(yn arbennig fi) yn awchu am nos.

Ac aeth hwn un dydd yn oer, a mynd
gan adael hyn o gysgod mewn cadair
a'i anadl mewn awyr am byth.

[Rhan o gynnwys o gyfres ynghylch yr un ymwelydd hwn mewn hanes gwir.]

LLYTHYRAU AT DEWI (25)

DYDD YN DIOLCH AM ROD

Yn dawel ar ei liniau ger y gwely
mae'r tawelwch nosol yn treulio'r
tawelwch yn ei fol – taranau o dawelwch,
aroglau yn disgyn oddi wrtho fel coedwig
hydref.

Heb drachwant am dawelwch
daeth y Nos i wneud ei waith; ac yna
wedi cilio a'th adael yn heddwch cwsg, fe eir
ar ei hôl i goedwig, mae carpiâu'r
tawelwch yn chwifio yn y gwynt o'i gwmpas, ac wedyn
yn gorffwys ar frigyn.

Deil y canghennau
yn llonyddwch esgrynog gan ddatgan
gorfoledd Duw fel kannwyll. Dyma'r diffodd
a ganfyddir yn yr orig hwyr.

Wele'r Dydd
yn olynu... ar ei fol. Nos-ddydd, tyrd eto ar fôl.

“Beth yw dy gyfrinach di, Ddydd,
dy fod yn codi bob tro mor brydlon,
a'th droed mor sionc?”

Dim ond diolch
i'r Crëwr am ymwared drachefn, ac
addo iddo na bydd arnaf eisiau
addunedu dy ddal yn gariadus
cyn ffarwelio â thi heno,
fanwlyd, a diolch rhag llaw am Nos
a'r tawelwch a brofwyd ynddi am ddim.

Ust! Ddydd, gad dy gymar yma ar ei rod.

LLYTHYRAU AT DEWI (26)

Y GOFALWR

Chwarddaist ti ddim wrth ddod i weld yr hen,
ac erfyniais arnat ti am beidio byth
â pheidio â chwerthin am fy mhen.
Dihysbyddais y jôcs i gyd; fe drois yn jôc
fy hun. Y tro cyntaf i mi fy ngwlychu
fy hun, fe chwerddais. Ond byth wedyn,

na, chwerddaist ti ddim o gwrdd â mi,
yn hen heb y rheolaeth 'ddylai fod
ar fy mhledren amhriodol. Dyna yw ffrind,
mae'n debyg: trugarhau drwy ddwyster
pan fo eisiau. A'r un pryd doet â bendith
cyfeillgarwch. Gwaceaist fy mhot
a minnau'n ddihaeddiant, yn weiniad dy hun.

Gwyddet ynot fod yn fregus wrth gyd-deimlo. Ond
yn fendith chwim, y gwastraffu egni a bontiai'r
arwahanrwydd sydyn lle yr oedd math o bresenoldeb
yn dwyn canlyniadau – angen ar bob
blewyn o'm gwallt, dy gariad oll-yn-oll,
gyfaill pêr yw methu â chwerthin llawen.
Maddeuwyd am dderbyn esgusodion o'm deutu.

Ni haeddais y digwyddiad. Haeddiant ein cyd-Gyfaill
oedd: yr Ysbryd gyda ni. Roeddwn i'n well
wedi iddo fod yno, a gadael peth ohono'i hun:
nid dod ag ef ei hunan yn unig. Heuai ysbryd
nes bod credu ei hun yn hurt amhosibl, oni
ddaw'n dôn bêr dosturiol o fewn cwmni'n cerddorfa.

LLYTHYRAU AT DEWI (27)

AR YR HEWL

Drwy'r dydd mae hi ar yr hewl.
All hi ddim goddef aros
yn y tŷ. Paham?
Ef sy'n ei lenwi.
Ef a gyffyrddodd â phopeth,
ac ef a dreiddiasai yno
drwy'r dodrefn a'r carpedi a'r pwdin.
Allan ar yr hewl agored y mae hi'n gallu
cuddio, a cherdded o stryd i stryd, a cherdded.

Ond pan fydd hi wedi ymlâdd
allan, all hi ddim dianc mwyach,
ac fe ddychwela yno'n droetrwm
yn ôl i'w haelwyd, i gysgu.
Eto, yn ei breuddwydion drwy'i llwnc
a tharanau'i phen, drwy ddodrefn
ei chof, mae ef yn para o hyd
yno i ddatod waliau ffyddlon ei chalon.

LLYTHYRAU AT DEWI (28)

CROESAWU CWSG YN OFN YR ARGLWYDD

Ofn aros ar ddi-hun yw mynd i'm gwâl
heb fwyniant cwmni'r Arglwydd.
Dygodd Ef ofn i mewn i'm tŷ
lle yr oedd dod o hyd i gronfa
o gysgodion du a'u casglu
nes eu gwneud yn fall, ac felly
wrth eu hel ar ben ei gilydd –
yn gymylrwm ddiwreichionen –
gwnaeth ohonof ofn creulonach.
Ymhyfrydwn, meddwn innau,
yn ofn Un iawn, sef ofn ein Harglwydd.

Daeth Ei fwynhad fel gwynt drosof.
er nad oedd ond ar neges ganddo.
Ysai honno dro hyd wythiennau
fel nad oedd un siawns camddeall.

Heb Ei wahodd, taenodd Yntau
wely i mi i orwedd ynddo.
Beth oedd gennyf i'w wneud yno
ond breuddwydio am fodolaeth?
Eithr honno a'm cysurai yn fy ngwâl.
O fewn cell, dan lwyd barwydydd
dawnsiai nwyd. A dysgais innau
nad yw dyn yn ennill golau
mwy'r nef heb ofn yr Arglwydd,
yr ofn glân, yr ofn sy'n carthu,
gan felysu pob calon ofnus.
Diolch iti, Ofn. Mawrygaf

garedigrwydd Nef dy wefus.

LLYTHYRAU AT DEWI (29)

PWYSAU TUSW O FWG

Fe ddaeth 'dieithryn' ataf i a'm cyfarch
wrth groesi'r cae, a sawr y gwair lladdedig

ar gefn y gwynt. Heb iddo gynnig pasio
fe fynnodd siarad amdanaf fi â fi. Yn anghwrtais

stiliai am fuchedd... Nis gwahoddwyd. Daeth
i'm gwawdio'n unswydd fod fy swydd i gyd

yn seithug. Y drwg oedd 'mod i mor gytûn.
Un peth 'ddangosodd gŵr i mi oedd bod

fy nghred yn brin. A siŵr oedd hwn fod hyn
o fyw yn wacach lawer nag a dybiwn i.

'Cwypmp ges i,' ddwedwn. O dan gae canlyniad,
marw oedd dwyn fy ffrwyth yn helaeth brin.

Modd oedd y 'gŵr' i'm lladd i. Ac yn wir
daeth mellt ohono. Ymledai'n bwdr o'm mewn.

Cyneuai dân a fwriadwyd i'm difetha.
Anadlai fwg yr angau yn f'anadlu.

Cred'swn fod baw yn ddrwg i'm ceg; ond mewn
rhagluniaeth troes y mwg a bwysid yno

yn dardd drachefn... 'Dowch eto elyn cu
am dro drwy 'nghae. Bu melltith y prynhawn

yn well o wir.'... Beth bynnag, yn fy nannedd
er fy ngwaetha, ac yn fynych yn y cae

fe gwrddwn i â thalp o'i atgof ef o fwg
a heb ei wahodd ar gefn y gwynt fe drôï

ei oslef ef yn sydyn, – heb fy nghyfarch, –
eto ar draws fy nhro, yn gerdd o felyster.

Dôï'r ymwelydd diwahoddiad a huddyg-fryd.
Fe geisiai'r mwg. Fe fynnai'i ledu drosaf:

bu'n canu drwy fy myfyr gan adael sawr
ond trôï ein tro tragywydd yn funud gwawl.

[Gwelir y 'mwg' a darddodd o'r ymweliad hwn hefyd yn *Bratiau Budron 4*: e.e. mewn manau megis 'Addysg Anhygoel nas Gwahoddwyd', 'Peidiwch â Bod yn Ddieithryn', 'Portread o ryfelwr egwan', ac yn y gyfrol hon yn 'Portread o Hen Gynabod na Chaniatâi imi Switsio'r Golau Ymlaen', 'Wrth Groesi'r Cae', a 'Croesawu Cwsg yn Ofn yr Arglwydd'. Seilir y mwg hwnnw yno i gyd ar brofiad go iawn a dychrynlyd-bêr.]

LLYTHYRAU AT DEWI (30)

SEDD YN PHILADELFFIA

(i ddathlu gwyliau)

Lluniwyd ni'n ddau frawd, Dafydd,
yn efeilliaid Siam teimladol: ni allem
o'r herwydd oddef bod byth ar wahân.
Priodaist dy wlad a'th wraidd yn ormod.

Pan oeddech chi i ffwrdd, Dafydd,
Nid ymadawodd Philadelffia:
roedd yna garu mawr yma o hyd.
Roedd pob un o hyd, y naill yn rhoi
blaenoriaeth i'r llall, yn cyd-hiraethu
am fod ar Ei ddelw Ef. Gwadau pawb
nad nhw a enillodd eu hiachawdwriaeth.
Mawr yw ein braint i drigo o fewn
y ddinas ddisglair gariadus hon.
Cymuned y Sul a phawb yn caru'i gilydd.
Hwn yn chwilio am daith gymwynas.

Hynny yw, roedd y Cristnogion yn dal
yn Gristnogol, a'u ffydd wedi'i lledu
ar seddau'r capel, nes goferu ac ymledu.
Doedd neb am 'chwarae â Christnogaeth'
na 'thrafod' y pwnc yn hamddenol
fel hobi. Roedden nhw'n coleddu odrwydd
arferol byw'n anghyffredin, ac mewn sêl
am ei rhoi i'r rhai a oedd hebddo, –
yn fynych y rhai heb gyffro amgyffred.

Pobl oedden nhw o fewn waliau

wrth gwrs, ond heb fod ar wahân
yn cyflenwi'r angen gan eraill, heb
holi. Cymdeithas mewn maddeuant
oedden nhw dan warchae, (mae cariad
yn dysgu casáu hefyd) ond yn peidio
â bwrw'n gas. Yn ymostyngwyr, cymuned
oedden nhw o hyd ac Iesu wedi'i argraffu
arnyn nhw, wedi cael y peth ei hun,

hyd yn oed y clwyfo ei hun, hyd yn oed
y gwadu arferol, a'r gwawdio am fod
o fewn y gymuned leoledig hon
yn deithwyr trugarog; ond yn ddysgwyr
gwael ac yn fethwyr cariadus bythol;
beunydd yn gwahodd Crist i'w cartref
gwael. Ond pan oeddech chi i ffwrdd, Dafydd,
roedd yna un sedd wag. Pan ddaethoch
yn ôl, – bu yna wenu mawr... a mwy.
Ein hiraeth fu drwy'r amser ichi lenwi sedd.

LLYTHYRAU AT DEWI (31)

Y GWŶR CERWCH EICH GWRAGEDD
(cân ffeministaidd)

I

Bu rhaid i mi 'beidio', dros rai bydoedd,
cyn imi ymostwng i fod yn barod
i farw dros fy ngwraig. Bu rhaid
rhwygo'r anhrefn yn gymen.

Dechreuai fy neisyf bach yn yr erfyn
mawr. Dechreuai fy mywyd yn ei farw
ef, a diwedd diwedd (megis dysgu
marw wrth ei erchwyn anunig)

oedd pan blygodd ef ynof. Ni ellid
oeri nghnawd heb fod y fflamau
o Uffern yn peidio hefyd imi,
a llusgo ddringo 'lan o'th herwydd Di.

Bu rhaid i mi beidio â bod ar wahân
dysgu ymgolli yn dy gusan sanctaidd.
Gweddïaf i'm gwaed fy ngwrthod
ac Ow! Wedyn Dy groesbren cusan.

II

Ni ellir haerllugo dibyniaeth, dim ond ei derbyn.
Ystrydeb fyddai gafael yn ei gwar, a'i phlyg
heb ddilysrwydd dweud y gwir i gyd, heb gydnabod
nad oes y tu ôl i bob ffeministiaeth ystrydebol
weld dim ond gwrywod hawliol hapus.

Fel y cerddi nas ceir yw'r rhieingerddi
anghlywadwy, sef y rhai
nas dywedir gerbron amser. Fel y cerddi na ddywed
llwnc anadl am eu bod
yn gudd ond yn onest, felly'r ffeminist sy'n dymuno
chwerthin am ei phen
ei hun. Math o oedran yw 'heb fuddugoli', a'r ddau ryw'n
cystadlu am ras ymostwng.

Pres yw'r cwbl, medd y soffistigedig,
fel gyda chaethwasiaeth,
yr esboniad sydd heb ymwybod mai menyw
sydd yno, blith (mewn cyfartalrwydd)
draphlith gan ganfod rhinweddau neu namau'r merched
yng ngwraidd bodolaeth.

Yn ganlyniad i swyddogaeth Crist,
'byddwch ddarostyngedig i'ch gilydd... y gwŷr,
cerwch eich gwagedd,
fel y carodd Crist yntau'r eglwys hyd at
farwolaeth...' gyda mwy byth
o ymostyngiad wrth gwrs na chariad gwagedd.
Ein dyletswydd yno yw bod yn llawen yno.
Ond llawen yw'r ffenest am ein bod i gyd
yn ymestyn i gyd-edrych
drwy fod yn byw yn ein cyrff gwan y tu allan
i ni'n hun, eto'n cadw ein dynoliaeth
a'n gwendid a'u codi o'r gwaed hydeiml
mewn tragwyddoldeb: ti a fi heb gloddiau
tan gael tragwyddoldeb ynghyd yn y baw-a-gras.

LLYTHYRAU AT DEWI (32)

CANU YNG NGHALON Y FERCH

Rwyt ti'n canu yn fy nghalon
a'th lais oll yn ddiliau melys.
Hen yw dy nodau yn fy nghlustiau hen.

Heuaist ti, yn fân, dy hunan
o'm tu mewn, mewn perfedd tywyll,
ac fe dyfais heb un ddyfais.

Tua dyfnder uwch cyfeiriwn
fel balŵn a gollwyd ohono
nen serennog. Ac yn fellten
ddisglair yno, hofranwn innau'n
hen, yr hynaf uwch Llanbadarn.

Sut y gallaf beidio ag adfer
drwy'r fath gwmni sbri-fy-mywyd?
Ond ni wna. Ynot ti fe drigaf innau
fel ffynhonnau'n fryn mewn teyrnas.

A disgwyliwn weld fy nghamre
fel pererin nen sy'n cludo
rhaeadr sêr i'w tywallt drosot,
ti, fy merch, dros ben fy mynydd
uwch y ddaear a wrthodais.
Hyd y gorwel, bron yn curo –
na, ni welwyd storm fel honno –
uwch ac uwch, i guro'n serch fel honno.

Dysgi imi gainc uchod ar hud y delyn.

LLYTHYRAU AT DEWI (33)

YR WŶYR, Y FI, A'R ANIMEIDDIO AR Y TECLYN

Yn y dyddiau digidol hyn, ces brofi byd newydd,
drwy daclau y tu hwnt i ddirnad tad-cu:
dyw dyn anghallach na'i gilydd ddim
yn gallu dilyn y crwt golau sy'n gosod
fforest o symbolau cyfrifiadurol ar sgrin, –
(lled-gysgod am ben cysgod ôl-troed,)
nes llunio cartŵn o fwnci'n cerdded
tuag atom. Ond dirnadodd ef frwdfrydedd
y gweplyfr; ac yn y brwdfrydedd hwn y fflam
yn ymestyn amdanom yn sbort. Y math
hwn o declyn mwyach sy'n codi byd. Y math
hwn o declyn sydd hefyd yn difa preifatrwydd
yr aer; ond hwn hefyd, yn ein cornel ni sy'n
ein llyncu ni'n dau wryw yn gyd-afiaith.

Heb imi ddirnad, yr wyf i a'r wŷyr
ynghau yn fystafell dwp i yn cyd-hwyllo,
a finnau'n dysgu wrth ei draed heb gysgu.

Ac o godi, â allan i ganol y gelyn,
fy ffrind ifanc, a'i wreichion yn iach
(allan i'r pres a'r gwter), gan gario miwsig
ei galon, i'r oes a'i gloes a'i chleisiau,
â ar ei ben ei hun, a finnau'n diymadferth
aros. Ei ôl-troed acw'n awr sy'n siarad
yn uniongyrchol, wedi dychwelyd i dref
go iawn (y llygaid coch, y clustiau gwyrdd)
y cysgodion a'r mwncïod o'i gwmpas –
a'r golau a wasgarodd yn friwsion i ddod

allan o'i fforest. Mor fregus yw gwneuthuriad
plant heddiw, meddan nhw. Ond ar y llawr
mewn oes lle mae'r real mwyach yn afreal,
a digon o betalau cen ar ar ben tir Cymru
fe gluda'r hyder swil ar ran ei oes
i dystio na raid i hyd yn oed ei dad-cu ofni.

LLYTHYRAU AT DEWI (34)

O ANGHYFFELYB FLAS! O AMRYWIOLDEB LLIW!

(Cân yr Efengylau)

1

Mae'r Awdur sy'n gwreiddio'i lyfrau yn y ddaear
yn gallu'u gweld nhw'n tyfu.

Maen nhw'n lledu'u dail egwan ac yn sugno'r glaw
perylus. Maen nhw'n yfed yr awyr.

Mae gan lyfrau'u gaeaf yn ogystal â'u gwanwyn.

Ond yn wahanol i'r 'byd go iawn',
fel y dywed llythrenolwyr, ffrwytha'r gaeaf hefyd
a phrydfertha alar a'i dyneru.

Ac ow! Pan dreigla gwanwyn ar hyd y brigau
a chwarae llithren ar hyd canghennau,
y pryd hynny, maen nhw'n treiddio hyd at waelodion
y ddaear. A diylch y 'pethau' am brawf hyn.

Clywch lais y pren. Beth mwy 'fynnwch? Llenwch
eich meddwl â'r twf. Mae'r llenor
sy'n croesawu amhosibilrwydd credu, wedi clywed
nawr dwf er ei waethaf, yn ei ben, drwy'r glaw.

Ac os yw'n clywed y ddaear yn dweud y gwir,
ac yn ymestyn at ei gilydd,
yna, mae'n gwybod dilysrwydd y meddalwch caled,
ac felly y gŵyr mai gwybod ydyw'r Gair.

2

Ni oedd Ei ardd ger afon
yn disgwyl bod yn ffrwythlon.
Ond wylodd drosom.

Ni wnaethom namyn helbulon
yn Ei galon.

Daeth ef i lawr. Ni allem ddringo
o'r byd iddo weithio ynom,
a'i ddafnau cochion
mewn drysi drosom
ar Ei ben yn goron greulon.

Daeth Ef i'r ddaear,
yr unig Un a allai'n caru –
a ni'n ddihaeddiant, – plannu
ynom yn gymodlon
Ei hunan yma'n dirion.
Daeth Ef i lawr fel glaw,
a thyfodd pawb.

LLYTHYRAU AT DEWI (35)

DATHLIAD Y BEDDROD GWAG

Pan gyrhaeddais waelod dyffryn,
gwyddwn i mai dyma'r fangre
ddistaw 'oedd i fod. Roedd yno
awyr lân yn gorwedd drosti
yno'n iachach. Codais lygad
i'r mynyddoedd. A diolchais
i'r hen gyfaill a'm harweiniodd
â'i lais eglur yn ôl camre
hyd yr oesoedd 'lawr i'r groesffordd.

Yno roedd yr un 'ddisgwyliwyd
wedi codi. Brau yw'r plisgyn
yn ei grud; a gwag fel ogof,
waliau cryf i'r wy yfory.
Hyd ei waliau, ceid graffiti
gan yr Ysbryd Glân. Nid unrhyw
eiriau, ond rhai gŵyl yr eglwys,
geiriau gwledd mewn crud, o'r gwagle –
gwag oherwydd un a godo
fy ngwacter yn dilyn Ei wacter Ef.

Dringo rhyfedd oedd o'r plisgyn
gan Dywysog Bywyd yno
(i loddesta arno rwan) yn ein derbyn
heb syndod i mewn i'w babell:
dyma'r fangre a ragluniwyd.
A chodais i yn brydlon i'm swper olaf.

LLYTHYRAU AT DEWI (36)

PERSBECTIF CYWIR ATHRO-WEDDW

Yma'n erbyn wal o blantos
taflai'i galon. A nhw, mwynhaodd
pob un ganddo yno heb wybod
dim am drymder paratoi'r dysgu.

Prynodd fôr o Wyddoniadur
Britannica drud; meistrolodd englyn;
pysgododd ef yn od ar Sadwrn
normal, a llyncu natur hendref.

Dysgodd ef mewn dosbarth chwerthin.
Roedd ef wedi cael ei hyfforddi
ar *un* pen i ffrâm y fantol, i ddodi'i
boen i gyd; ac *acw* gyda'r plant.

Gosod pwysau pryniant llawen
sydd i fod, a bod yn debyg
i Iesu'i hun, wedi'i weddnewid
yn ogoniant o'i wallt i'w bigwrn,

Gwyddai ef am boen ddirdynnol
dioddefaint gau a ffyddlon
cegin gefn, y lle na lwyddai
i wasgu'r un yn ôl o'i ddagrau.

a'i adgenhedlu'n rhan o harddwch
pen y siwrnai – gwers mewn miwsig
yn y nefolion leoedd a'r clychau,
i fod yn union barod iddo.

LLYTHYRAU AT DEWI (37)

AR DDARLLEN LLYFR Y DATGUDDIAD

Gofynnodd y crwt i mi, 'Ond sut mae darllen?'
Edrychais arno, ac ar ei lygaid awyddgar, heb ateb.
Edrychais yn faith gariadus, edrychais yn araf
nes iddo holi drachefn gan feddwl nad oeddwn
wedi'i glywed. Ond edrychais yn ôl, ac ymhen yrhawg
'yn araf' meddwn, a gwenwn. 'Mor araf ag y gelli,
mor araf ag rwyt ti'n gallu sgrifennu cerdd.
Paid byth â gwibio. Mae hi megis teithio'r byd.
Os wyt ti'n mynd ar wyliau, cymer nhw'n araf deg.
A cher yn ôl drachefn a thrachefn i'r un hen le
a'i odro i'r gwaddod cyn iti dychwelyd adref.'

Araf hefyd dy daith o gylch y tŷ, o gwmpas
un ystafell seml, a'i haroglau a'i silffoedd, a'r ardd.
A! Yr ardd! Dyna i ti wyrth, mae'n union fel darllen
cerdd. A'th fywyd? Paid di â gadael i hwnnw frysio
drwy dy wythiennau beth bynnag mae'n ei ddweud
wrthot ti. Dwed wrtho, 'arafa'. Ac os deui di o hyd
i un ffrind da, yna mi gei di wybod, os arefi, beth
yw pobl... os hoffi eu llais a'u llawysgrifen. Mae gen i
gyfaill dysgedig a ddarllenodd ei bentref ei hun yn araf,
yn well na neb ym Mhonciau. A'i gyfrinach ef
wrth ddarllen pob dalen o fricsen o wynebau'i gymdogion
gyda gofal, wrth ddarllen pob sill ar eu clustiau,
yw hyn: 'Arafwch piau hi.' Mwy yw dyfnder dyn
na'i hyd. Mae'r byd ar ei hyd ar ei lawnaf mor swta
o fach. Ai'n araf, araf, araf yr ymlusgi i'r lan, drwy d'anadl,
holwn i fy hun, gan mor syml yw cân drwy lwnc, ond nid
simplistig. Araf yw imi beidio â deall byth mo'r cwbl.

LLYTHYRAU AT DEWI (38)

YNGAN S MEWN SYNDOD

Nid pawb sy'n dechrau ag S
sy'n synnu dyn.
Ond felly roedd Saul.
Yn sgil ei syndod fe ddaeth
yn Paul, a daeth
atom ni, oherwydd nynti fu'r
cenedloedd, ac ef
oedd ein hapostol ni'n cic-gychwyn
Sul. A beth oedd syndod y Sul
newydd Cristnogol hwn?

Saul a syfrdanwyd ym mhopeth
wedi dod yn Paul.
Nid oedd dim ond syndod
yn strach o heddwch
i ni. Hyn a'n syfrdanodd
ar ganol y byd yn Swper ein Harglwydd.

* * *

Felly y bydd hi wrth droi pob dyn
yn ei dro.
Ar ôl ei dro daw'r gŵr newydd-eni
adref at ei wraig bell â'i ddarganfyddiad
a'i thynnu'n syndod ato; neu ddieithrwyd
y ferch wedi dod adref o'r Coleg
â syndod ei thystiolaeth newydd;
neu'r gymdeithas addolgar gyfoes a gaiff
ddathlu amhosibilrwydd maddeuant.

Pwy yw'r rhain? Hwyl yw'r saig
i'r Arglwydd. Hwyl yw iau newydd,
llawenydd, bywyd, gogoniant
ar y bwrdd gwag. Hwyl sy'n digoni
oherwydd yr alwad syn i swper.
Saul ei hun fu'r rhain ynghynt.

* * *

Does dim bai ar henaint
am feddwl am angau.
Does dim bai ar angau
am feddwl am bechod.

Does dim bai ar bechod
am feddwl am gyfraith.
Does dim bai ar gyfraith
wrth ffarwelio â theulu.

Ond meddai'r gyfraith newydd:
chwythaf i esgyrn y bobl
a deuaf drwy gamlas y geni,
ac fe'm chwythwyd yn ddau.

Cryn chwythu! Ni haeddais ddim –
dim, dim o'm herwydd i.
Pob, pob graslonrwydd oedd
y rhodd – fy ngwraig, ein plant,

rhodd yn unig oedden nhw,
a'r machlud, yr adar, y Gymraeg
a'i llên. Offrymwyd i'r ddaear. Nid
oherwydd ein bod ni'n nefol;

ond oherwydd ein caru ni heb ganiatáu

inni fynd ar goll o fewn ein gilydd
y naill yn y llall. Y rheidrwydd atgoffa
beunydd mai Iesu yw'r Arglwydd,

a'i reidrwydd i roi'r cwbl yn syndod.
Gymaint o frifo yw bod
bob dydd y cnawd yn llithro'n
ôl. Gymaint o syndod oedd rhod

y gwynt i'w bilio nes cilio'n ôl.
Gwn mai gogoneddu Duw yw'r nod.
Ond rwyf bob dydd yn yr ysgol
elfennol. Dw i eisiau'r gwynt drwy'r dail

o hyd. Ond does dim diwedd ar y rhai
sy'n disgyn ar y llawr, y llawr bendigaidd,
ar wasgar, heb fod yn grin gan henaint,
oherwydd nerth y gwynt diddiwedd hwn

yn chwythu drwy'r berllan ryfeddol.

LLYTHYRAU AT DEWI (39)

CAR NEWYDD

Mae gen ti gar newydd,
a thithau'n un o'r gyrwyr ifainc
nad yw'r Cwmni Siwrans
ddim yn eu hoffi ryw lawer.

Ac wele, tithau a'th briodferch
danlli grai yn dyhefod wrth
dy ymyl wrth iti ddangos
dy ddiffyg synnwyr wrth hedeg

dros dy berswâd mor daer dy fod
yn ei charu am byth, nad oedd
dim mwyach a safai rhyngoch
a't tŷ bach ar ochr y mynydd,

y teulu clyd newydd, a'r gwyliau hir
a'r ddadl faith gyda Chwmni Siwrans.
'Wow!' Roedd honna'n un agos.
Yna, trodd i'w gweld hi yn pasio,

dim ond troi tuag i fyny, ychydig
bach, fel gwynt wrth gyrraedd fforest,
fel llygad hamddenol yn dal
smic o lwch yn dy lygad chwith,

sef symudiad esmwythach chwyth
olaf. Nodir gan y papur-newydd
ddau waed, dwy geg, dau gôl,
dau fedd, un afon fechan i'w chroesi.

LLYTHYRAU AT DEWI (40)

HAMDDENA'N GYSGLYD AR LAN Y MÔR

Roedd hyd yr haf mor estynedig
doedd dim angen i'r hwyr ddod mor glau.

Llithrodd ar hyd ymyl y caeau,
a'i enw'n wenynen feddw'n
canu ar ganhwyllbren petalau.

Pe baech wedi cysgu am un funud, buasai
wedi mynd â'th gysur hun ar y cae
yng nghesail ei hesgyll. Doedd dim diben
iti ddeffro sut bynnag. Peth fel hyn
yw chwyth ochneidiol
iâr-fach-yr-haf ar gefn awel
sy'n wanllyd hefyd. Hynyna yw
wyneb dy bresenoldeb yn gorwedd
yn ddisiarad wrth f'ochr heno,

f'anylyd, a bysedd gwefusol
y môr yn gadael y pysgod
drwy rwydi dy gwsg, drwy ddistryw
rhwygo hiraethlon, a chrafu'n
wyllt ddisyfyd rychau hir
hir a darfodol denau ar gusan
hardd dy fôr, wrth i'th afael lithro
yn dyner i farwor dy hun.

Mae'r amser yn brin i gysgu
ond un funud yn ddiderfyn.

LLYTHYRAU AT DEWI (41)

DA BO!

Mater o drowynt amser yw popeth henoed.
Tabyrddau dathlu gyferbyn am drigain gwanwyn
oedd dy lygaid. 'Da bo' yw'r hyn a ddwedwn i
pan fydd fy ngolwg yn pallu ychydig bach.

Rhyw damaid o hapusrwydd aeth ar goll.
Ac yna un aelod o deimlad a'i lliniarai.
Ffarwel wallt â blew ar draws yr ysgwydd taclus.
Niwlia llygad. Y mae rhes o breswylfeydd amynedd
yn crintachan, ac yna'n difaru.

A daw'r wŷyr bach atom mwyach i geisio dy lyweth yn dyner denau.
Hwn yw dy feistr, hwn mor feidrol sy'n dy hoffi.
Casgla dy ddychryn wedi dy ddal di yn ei fasedd fegin
tan ein codi'n rhydd drachefn i wybren ryddid.

Mae rhyw utgryn o'r goedwig bell yn hedfan drosaf
a chlywaf ddifaterwch pibau bedd o waelod
y dyffryn dagrau, lludw'n cwyno
yn sodlau'n ceffylau. A daw cwsg o'r diwedd.

Os ânt ymhellach, gwn o'r diwedd y dringaf
i'r mynydd uchaf i weiddi'n anfodlon 'Da bo.'

LLYTHYRAU AT DEWI (42)

MAE'R MÔR HEDDIW'N BWYTA TAMAID

Mae'r môr heddiw'n bwyta tamaid
o fara i frecwast. Ac os deil
i'w gnoi, bydd yn galw am fy nhrwyn
erbyn amser cinio. Bydd ddim eisiau halen.

Pwy sy'n gallu amddiffyn y fath loddest lladron
heb ddim ond bys bawd? Faint o weithiau
y buost ti'n crwydro'r strydoedd heb wisg
ond walts yn dy nghalon? Pa fath o ddyn
sy'n gadael ei blentyn ar ganol ffair?

Neb ond angau diyngan,
y pryfyn sy'n hoffi bod y tu mewn
i foncyffion blinedig. Ofna hwnnw
wlithyn, ofna linyngwddf tŵr
eglwys, a chloch a lanwodd
Afon Ystwyth â cherrig-camu canu
yn gydymaith iddo gyrraedd yn llawen
yr ochr draw, ym mherfedd nos.

Myrddiwn o flynyddoedd
yw hyd gloddest pob cariad triw. Pa lud
sy'n rheitiach mewn gwlad mor euog?
Cusana fi, felly, fôr i fwydo'n gybydd yfory.
Ond dringa i fyny i mewn, a bant â'th gwch.

LLYTHYRAU AT DEWI (43)

YMWELIAD BACH AG ABERYSTWYTH

Ymdyrrai'r byd oll ymlaen ar lan clogwyn ansad.
Beth welai yn y twll? Fe wthia'i ddiymadferthedd ymlaen
mewn cadair olwyn. Tybiai'r meibion y dylid ei helpu
a gwthio'i ddiffyg deall digerdded ymhellach i weld
yr hyn a'i harhosai fan yna yn nirgelwch y twll.

Beth welai yn farw-ddeall yno? Brwydrai gwên yn swil
o gylch ei geg. Ni ddwedai ddim. Ymunodd yr ymennydd-goll
â diffyg perygl yr awyr wag. Hyn oedd y tro cyntaf iddo fentro deall
y tro olaf. Ond â gwên o anrheg olaf ac atgof olaf

am glogwyn cof bythol, doedd dim pryder mor oer â gwely,
yn gyd-faen-un â'r meini a oedd eisoes wedi ymwithio gyda'i gilydd
i gyd-chwerthin mewn cwmni mentrus, a chwerthin
am 'ddibyn' y tawelwch torfol, am y camyngan cuddiedig:
a'u 'diben' oedd? Doedden ddim ond wedi dod i weld y môr.

LLYTHYRAU AT DEWI (44)

YSBRYDOLIAETH

Er mwyn rhoi pin ar bapur
ni raid i leuad oleuo bob amser.
Eto, fe ges heddiw lond cylla
o synnwyr cyffredin. Yn nyfnder
dy fochau rhoddaist bluen
eira o heulwen. Fe'i cesglais
rhwng bysedd fy llaw. Mewn
cartrefi eraill mae plu-eira'n
diffygio hyd yn oed mewn oerni.
Maen nhw'n afrillad dieneiniad.

Ond yma yn nwensiwn henaint
mae'r byd yn lle llawen o belydrau
eira'n sbortian fel cewri bach
yn trochi'u traed yn y lleuad wallgof, –
yn ddrych bach o leuad sydd
yn ei hedmygu'i hun (cogio)
yn well na gwell yn y pwll. Dwyt ti ddim
i fod i wrando arni, bid siŵr,
ar adegau fel yna. Mae hi'n gallu
dweud 'gwawr' *in extremis*, (ond
ni raid), fel awenyddes yn casglu
ing a'i afoni drwy adeilad nen.

Mae hon hefyd yn esgus bod yn haul.

LLYTHYRAU AT DEWI (45)

MOSUL

Drwy geisio peidio ag edrych
ar y diblentyndod blant
nid ânt i ffwrdd.

Ond ein dyled gyntaf iddynt
yw edrych i lygad eu ffynnon.

Mae'r strydoedd dall yn gwranddo,
ond heb na siw na miw.

Er mwyn peidio â dysgu gan anhunedd
bradychwn eu hwynebaw hwy.

Drwy'r ymerodrol gredu ac addoli
beddau potensial y llwydda
Isil isel i'n tröedigaethu
i mewn i ymennydd ddagrau.

Sawl gwaith y mae uffern
yn gorfod dweud ffarwél?
Sawl dilledyn gwag sy'n agor llaw
am gymorth mewn twneli?

Marwddianc a wna'r cyn-blant hyn
i'r amyneddgar gyn-ddaeaw heb eu clwyfau.

LLYTHYRAU AT DEWI (46)

CHWILIO AM AMSER

Pan wyt ti'n hen, mae'n hawdd iti fynd ar goll hebdo.

Mae casglu colledigaeth yn arferiad sy'n blodeuo mewn gofod.

Collaist Amser wrth ochr y lludw, a buost yn chwilio amdano.

Ai ef oedd yn dod yn ingol i lawr rhwng y goedwig

fel hen ŵr ar grwydr? Ynteu'r Amser oedd ers tro wedi preswyllo

yn y Cartref Henoed. Does neb yn ei weld ond y rhai

sydd wedi bod ar wastadeddau yn casglu eu hadau.

O Amser! Fe ges f'ymrwymo yn dy deimlad

yn ben-noeth ledled dy goedwig. Teimlwn yn ddigon

diniwed a llond fy mod a'm cyfrifoldeb, fel pe bai'r amser

wedi'i ymddiried i fi fynd a dod â thi am dro ymhlith yr atgofion. Roeddwn

yn ddyn cartrefol. Y tro diwethaf y gwelwyd fi roedd det ti'n

twymo fy nhraed wrth y tân yn y parlwr, heb sylwi fy mod,

wrth gwrs yn pasio he3ibio. Oherwydd y toriadau, doedd dim

o'r staff i atal colli angorfa: Ow'r ysbyty i fi. Ac yn y nos mae

pawb yn wylo yn ward Hiraeth lle y ceir gorwel hir, hir, hir

yn addewid i gyd, a dilysrwydd yn cael ei eni. Wedi bod

gydag amseroedd eraill yn chwarae, ac ieuenctid arall, er pan

grewyd y ddaear, dyw hi ddim yn deg fy nod yn cael fy nhrin

fel hyn mewn ofn ar ôl ofn, a'r cwbl a wnes fu codi llygaid

ac edrych ar ferch ifanc a weithiai yn y gegin, ond a ymunodd

yng nghriw'r ymchwil seithug. Fuont hwy ddim yn cusanu pob dolen

o lyffetheiriau Amser. Buont hwy'n cerdded a cherdded nes cylchu
dan yr haul, ac yr oedd pawb yn gobeithio y byddai hi'n bwrw
glaw. Disgynnodd un diferyn, ac un arall, a dim mwy, nes inni

sylwi ym mhen draw'r sychderau dan yr haul ffyrnig, fod pawb
yn gweddio y byddai hi'n bwrw. Disgynnodd diferyn tew,
ac yna dechreuodd popeth fwrw hen-wraig-a-ffyn

a phorfa'n tyfu. Yna, ymddiheurodd pob un ohonom fel crancod
yn ymwared ar y traeth â'u crafangau. Ac yna, gorchmynnodd
yr hen wŷr ar goll. 'Yma, gyfeillion, yr awn ati i adeiladu gwlad newydd.'

* * *

Mae fy meddyliau'n

dadlau

â'i gilydd yn y drych meddylgar

o weld eu bod wedi llwyddo

i lynu'n dynn dan y glaw sâl-o-serch

tan y funud wirion hon.

Diolch am hyn o olwg

yn y llyn

sy'n lledu adlewyrchiad y lleuad

yn y dŵr i berfformio yno'n blentyn

ail-blentyndod wedi syrthio o'r awyr

i dasgu a thaflu

i mewn i'r dŵr dal-ati

fy ngolau gwelw.

Croeso hwyliog i'r flwyddyn newydd

felly'n syllu'n

hyll yn ôl

ar y gwth gwyllt.
LLYTHYRAU AT DEWI (47)

CAROL NADOLIG

Roedd y preseb yn cynnwys bydysawd –
y mawr yn y bach,
fel manwaith ymennydd mewn penglog,
a chysylltau nerfau'n
ymdyrru'n fanyn cyfannol gan roi
cartref i Faddeuant anferth,
a hynny mewn crud, y byd yn y bach
ar Wyl Nadolig i ti.

Rhyfeddod yw gwefan y meddwl
yn cofleidio DNA milflwyddi:
rhyfeddach eu golchi ym mychander gwaed.
Cerddodd ar y ddaear, – waed
pitw a brwnt – yr wybren obry wedi
ymostwng i fracsan –
y delach nag ymgnawdolion – drwy'r
pyllau dagreuol,
bomiau ar y grisiau er mwyn bod gyda ni.

Diffoddai'r melltithion-mellt-eithaf.
Roeddent i gyd yno:
y blacs anghofiedig wedi cofio (bob
Nadolig a phob eiliad
rhyngddynt i gyd) sipsiwn a siprys bach,
cŵn a chwningod cwteri,
llygaid a saethwyd allan, gwenwynau
a ddychrynwyd i lawr
y tyllau dan ofal angylion, a bugeiliaid
a ragwelai'r mawl tragywydd

ar Wyl Nadolig isod i ni.

LLYTHYRAU AT DEWI (48)

Y DAITH HIR

Ymdeithiodd yr wy o dan gynhesrwydd glwyb ei bol.

Torrodd ei mab y gragen. A chripiodd y cynnwys
allan o'i thywyllwch meddal. Nid oedd hi'n barod
fel adar eraill i hedeg hyd yn oed troedfedd
dros bellter ei ddydd. Yn ei gwtsh, ofnai'i fam ei gropian
lleiaf. Aroglai hi ef. Ac felly am faldod blwyddyn
o ofn ei gofal, y disgwyliai ef yr aeddfedrwydd o
lywodraethu'n oedolyn yr holl ddaear ar ei ben ei hun.

Wedi stablan am hanner-can-mlynedd yn blentyn o'i ddeutu
ar gainc, llaciodd cyswllt y fam ryw fymryn o lysnafedd
mêl chwarennau'i cheg. Ar baith, mae e'n eigion agored
mewn hiraeth am ddrysau caeedig. Ac yna, hwn yma a ddaeth
ar y gwastadeddau milflwydd mewnol. Daeth hwn wyneb
yn wyneb â hi. Pe bai ef wedi gwybod y byddai'n gorfod
cyferbynnu â'r dychryn hwn, ni byddai wedi cripiant allan.

Yn awr, er ei swildod, mewn amffitheatr o affwys
dros fenter y gragen dwym oddi uchod dros ymyl y clogwyn
serth, ffarweliodd yr un bach hwn yn ei dro ar ei ben ei hun
mewn fflapian adenydd. Ac yn ei lopanau anystwyth,
hardd yw ef a chanddo big go iawn, a chanddo glustiau gystal
â'r adar go iawn eraill, a gynullai o'i ddeutu mwyach
i glebran. A cherbron dibyn eu tragwyddoldeb, ehedodd.

LLYTHYRAU AT DEWI (49)

CODI CAPAN EUOG DIOLCHGAR

Gyd-deithiwr, fy nghapan cu, cofia di
fel y buom yn sgwrsio dim ond ni'n dau
mewn mannau sydd wedi fy nhroi'n galon.
Cysgodaist fi rhag ambell haul, a'm celu'n
glyd rhag llawer eirlaw. Sefaist ti
ar gopa rhyngof a theimladau gwamalaf
ieuentid y flwyddyn. Ni syflaist ti.

Diolch i ti am daflu cantel sy'n amgau
fy mywyd i mewn helynt. Diolch am lynu.
Arhosaist ti'n ddiogel gyda mi, gyda
theyrngarwch i fuchedd na fu'n fawr o werth.
A'r prydiau hynny gwelsom rai oriau'n nesu
atom pan wyddem fod yna drydydd a lefarai
mor llawen. Roedd Ef yn gynefin â chapan.
Gwyddom yn burion am atsain munudau aur
fel ffenestr fach yr eir trwyddo yn y to.

Ef oedd y gwenith sydyn. Ti oedd yr ogof,
i fridio cysur. Ef oedd y llaeth, yr Un
a ddôl â'r ysbryd distaw drwy'r caddugau.
Deui di'n ôl. Beth gaf ei roi'n ddiolch iTi?
Os byddaf wedi treulio capan, labrwn
beth a hoffai Ef gennyf heno? Tydi dy hun
yn codi'n ufudd dy wybod i obaith-faddau,
a chodi'n weddus i goron Mab gwylaidd Saer.

LLYTHYRAU AT DEWI (50)

TRI LLYTHYR AM ALEPPO

RHEIDRWYDD

Roedd y gyllid wedi'i neilltuo ar gyfer
ymladd, yr hyfforddwyr rhyfel yn ysu mewn segurdod,
a'r dibynnwyr mewn gwledydd bach yn erfyn inni
amddiffyn yn ymosodol. Ond ein gelynyon oedd y ddwy
ochr yno. Pa beth a wnawn? Penbleth i wlad fawr
yw gwybod yn erbyn pwy i ryfela pan fo'r ddau
elyn i'w gilydd yn gyd-elynyon i ni, ac nid oes
modd i'r naill ochr na'r llall ddirwyn y peth i ben.

DRWY GAMERA'R BYD

Mi wyddai'r meddygon, pan âi'r dynion camêrau i ffwrdd,
fel y llithrau'r gwylwyr oedd ar eu glythau, ac na fyddai neb
ond hwy i weini'n ffyddlon i'r llu a fyddai'n marw,
neb i aros nac i beidio ag aros gyda'r rhai heb obaith.
Rhoddai'r meddygon eu tipyn cariad yn yr agen yn y wal o leiaf
gyda llond gwniadur o'n dynoliaeth i gyd, fel y bo rhywun
yn gwmni i'r farwolaeth blant yn y cyfwng hwn, er nad oedd
yna wella na thystion i'r offer i wella yn hyn o ward.

Y GŴR YN EI WELY

Yna, yng Nghymru wele fi'n cwyno'n bwysig ar fy nghefn
mewn ffwdan am nad oes eiliad heb fath o boen gefn.
Ac yng nghysur y tipyn tosturi hygryw hwn, ni wn
ddim oll. Ni wn y diymadferthedd o fod yn berchen
ar grefft iacháu, wedi'r hir astudio tawel mewn ysbytai

glân ac ystyrion meddygol gorllewinol tawel, heb ward
a'r ôl gweithredu mwyach. Ni wn ond gorwedd mewn dolur bod
heb wneud ond y lleiaf syml, ynghyd â'r cywilydd o fod yn fod,
yn dalp o bechod yn achwyn am na all y presennol byth ddianc rhagddo.

LLYTHYRAU AT DEWI (51)

Y MERCHED A GAMDRINIWYD

Tan chwilio'n ofer am y lle i ddechrau bodoli

mae'r caethferched i dristwch yn cael eu dileu
gan offeiriad y plwy, nad oes angen iddynt dalu
neb; ond eu tâl yw'r tân i'r babanod bach di-wên.

Ni all y merched byth gerdded eto. Cerddwyd yn rhy bell
i'r lleoedd nas gwelir, lleoedd wedi plymio i wlybaniaeth
sych yn chwyrlïo byw mewn gwagle o gylch eu habsen.

Agored fuont ymhlith yr awdurdodau a guddiai.
Brysiat'r drafnidiaeth ar hyd eu hwylybren danddaear
o loches fertigol saff i'r blodau'n crio.

Mewn distawrwydd am ben distawrwydd, gan ddiddymdra,
ceir distawrwydd arall maith a colledig
mewn pyllau adlais lle nad oes neb oll eisiau siarad.

Mae'r perchnogion yn symud ymhlith y merched-gerrig
a'r plant hynny, nid dof ond marw, wedi'u poblogi
gan ystlumod: 'gweision Duw' yng ngloddest eu Corpus Cristi.

Dyma hwy'r hen fabanod, merthyron yn sibrwd 'Mam'
wrth seleri sâl. Ac uwchben, y glaw yn chwerthin, a'r dyrfa
o wÿn yn neidio, a'u caneuon-baban yn dechrau preblan,

ac uwchben y rheini eto, mae'r llawfeddygon yn rhoi'u horiau
dysg i gadw'r babanod trais yn fyw, a'r babanod hyn yn hyddysg
yn y nos a luniwyd gan gysgodion llithrig o'u deutu

o fewn cysgodion prudd yn ceisio'u cwsg bob heno
diderfyn, unig, oer. Mae'n gwyllt-fforio am gusan lludw.
Dyma ymweliad ag eiliad gwywedig. Yn bell bell o'r lle

y bydd pobl yn siarad â'i gilydd; cigfrain nos yw'u cwmni
yno, fel 'gweision Duw' mewn du, yn pigo'u cnawd a gollodd
ddegawdau o efrydu'r grefft o gasáu'u haelodau eu hunain

gan ddisgwyl glaw i'w glanhau. Danodd mae truenusrwydd
yn dawnsio, gyda'r partner-o-offeiriad Uffern, heb y gallu
i gredu, heb y dychymyg i sylweddoli iddo roi'r gorau

i gariad. Wyr neb am unigrwydd y merched hyn, ond yr Un
sy'n gwmni drwy fod yno, a'i ddwylo'n greithiau, a'i wallt
yn waed canrifoedd amynedd – y Person hwn gyda'i Gariad-Ddialedd.

LLYTHYRAU AT DEWI (52)

ENNILL YW COLLED

Collwr yw angau wedi rhyfel da.

Ond mae pob brwydr yn dda. Mae collwr byw
dros dro yn dda pan fyddo'r wobwr fawr
yn gymesur â'r Rhoddwr. Un frwydr a ges erioed
oedd caru erlidwyr. A dysgwn edifarhau
am y creulonderau a wneuthum i.

Athro bob amser yw blasu lludw angau
am ei fod yn pwyntio at y da nas gwneuthum.
Yn llygad angau'r oes does neb arwyneb,
dim chwarae, pawb o ddifrif, pawb bob munud
yn paratoi; ac wedyn, aros. Dichon
mai byr iawn fydd yr afrad gweddill, tywallt
cwta-waeddedig rhoi'n ôl i Dduw'r hyn a roddwyd.

Nid, nid ein ffydd ni, a fu farw drosom ni. Ni chawn
ni fyw heb rywbeth bach i'w wneud. Y mater
i'w wneud bob amser, a roddir i ni gan Grist,
a ddychwelir mewn ofnus-ddiniweidrwydd iddo Ef.

LLYTHYRAU AT DEWI (53)

DIC YR HENDRE

Bydd Dic yn dal i weld padell lem yr haul
yn troi beirdd cefn-gwlad yn ei grochan.

Does dim ond proest ac odlau yn sail
i wreiddio clustiau Cymru. A phriod anian
yr haul yn y wlad hon yn sicrhau
eu bod bendramwnwgl yn y berwedydd
– pryderon, gwenau ysgolion, gwyliau poenau
– blith dra phlith ymysg bwydydd.

Ac mae Dic yn gorwedd ger tân ei aelwyd nawr
fel cerdd o gawr gan adael i wres ei hen ysgol
ei droi'n lludw. Hai! Groen dan hud,
fe wnaethpwyd Dic er mwyn gadael ar ei ôl
rawnwin y grochan, rhes o henffrwyth gwaedlyd.

LLYTHYRAU AT DEWI (54)

IACHÁU'R DYN DALL O'I ENEDIGAETH

Gymaint o felynau, gymaint o wyrddau sy'n ffrwydro
fel esgyll parotiaid, heb ailadrodd byth gynifer o heuliau.
Yma gallwn rollo ynddynt led gardd y bore, hyd nes
dros dro ddychwelyd, fel pe bai am ein hatgoffa'n hun
am y blodau du yn y nos sy'n cau ryw ychydig.

Dyma ti'n hen sowldiwr, frawd, wedi dod i'th ateb.
Yma lle buost ti'n breuddwydio am beidio
â gwisgo gwaeddau. Aros ychydig. Eistedda. A sylwch
fel y mae dy ddellni wedi d'arwain yn hyderus at ffynnon
i glywed clebran gwan y tlawd, a'r sawl sy'n alarus.

Buost ti erioed yn breuddwydio am beidio â gwisgo gwaeddau
y tu ôl i'r diffyg gweledig. Gallet oddef salwch heintus
dy hynt – yr haint sy'n hawntio fel môr hir yn cyrllo
o gylch dy wddf a'th glustiau tenau. Ond Ow! Hen fôr
fel y dihengi rhwng dy fysedd! Clywaist 'ddechreuad
doethineb' gan y llais a'th adwaenai. Ac yr oedd yna Ofn.

Dywedai Paul fod rhaid i bawb ddiodeff ofn, a myn
ein bod yn gwneud safiad o blaid aberthu pob calon.
Erlid oedd y norm, a hwnnw'n ddigywilydd yn ogoniant.
Ni byddai'r gwas Paul byth mwyach yn heneiddio.

LLYTHYRAU AT DEWI (55)

Y BABI SWCI HIRAETHUS

Pan oeddwn yn blentyn, fe gadwn i lemon.
A phob noson deuai'r hadau rhoddedig i guro
ar y weiren bigog: 'Peidiwch â chyffwrdd â'm gwallt
gorau,' meddwn. Ond collwyd yr holl obeithio ar ymylon
disgyniad y cymylau. 'Mae gen i hawl i fod yn ddi-hwyl.
Nid arna i mae'r bai. Nid fi ddwedodd nad oedd gen i
ddim cyfrifoldeb. Plentyn oeddwn i. Lol botes lemon.'

Symudiad cadarnhaol yw cymylau pan fo'r byd crwn
yn llawn tincod ar ei ddannedd, pan fo dweud y gwir
am uffern yn rhy gysáct. Cerddwn yn hyderus
hyd at silffoedd llyfrau llonydd yn llyfrgell yr Hen Goleg,
fel ped arhosit am fabanod ar eu bronnau
wrthi'n fforio'n ofer am ddaioni bywyd. Af atynt. Yng nghadernid y Graig
cânt ymgeledd ond mewn petruster ansicr, gan fater hiraethus.

LLYTHYRAU AT DEWI (56)

Y NEFOEDD SY'N DATGAN

Mae yna gymaint o bobl
nad wyf yn eu deall;
ond gwiw yw cofio
nad arnyn-nhw mai'r bai.

Rhy iach yw fy darpar
fy nghwpan
a hyd yn oed
ffolineb fy nialedd –
dan sarhad sy'n arnofio oddeutu

ysgolheigion di-weld deallus
fel plant yn y baddonau
yn defnyddio cynorthwyon nofio.
Allwn i ddim ymesgusodi
drwy'r Pechod Marwol yw eu bai
gan fod
y Greadigaeth oll yn pwyntio tuag at y nefoedd
ac mae bodolaeth y byd hwn
yn gallu bod mor rhyfedd o garedig –
dŷn ni ddim yn haeddu'r holl arwyddion hyn.

LLYTHYRAU AT DEWI (57)

GWAELOD Y MYNYDD I GOMER

(Joseph Harris 1773 – 1825)

Roedd e'n meddwl ei fod wedi dod o hyd iddo'i hun
ar waelod y mynydd.
Ond na, disgyn oedd wedi digwydd i'r mynydd ei hun.
Ef oedd y llawnder a'i gwacaodd ei hun.
Lleihâi ef yno
fel mewn byl.

Mae 'na gnoc ar y drws.
Wyt ti'n ateb. Ac mae yna un yno
na byddet ti wedi edrych arno ddwywaith
pe baet ti wedi'i weld o sêr gefn China St... Ac eto,
roedd e wedi dod yno
– yn ddisylw,
yn ddibwys yn ei garpiau budron
– yn unswydd i daenu'i gariad-waed drosot ti.

Wele, yn Heol Gefn Abertawe
roeddwn i Gomer wedi dod i adnabod
Hosea,
wedi ei gynhesu
yn niwygiad Cas-mael.
Dy Seren oedd yr wythnosolyn cyntaf
lle y cyffesaist dy buteindod cyfrinachol a ffiaidd anffyddlon,
ac y mwynhaist ei glwyf.

LLYTHYRAU AT DEWI (58)

GWAWR Y CYNTEDD

I

Ceiliog yn dihuno
yw Pedr,
Mae'i blu yn ei sicrhau deirgwaith
fod y forwyn fechan
yn gwir ffrwydro
dros hyd ei fywyd
ac yn ei hongian –
ben i waered
er clod
i'w edifeirwch.

II

Pan gawn ein codi o ddŵr
bae Ceredigion fan hyn, a'r simneiau'n
gollwng y dŵr o'n hysgyfaint edmygus,
heb weld erioed o'r blaen
y fath hyfrydwch,
byddwn yn synied ein bod
wedi hwylio o gwmpas y byd i gyd,
er mai dim ond Ynys Wales
sydd wedi gafael a hel
yn ein gwallt
a rhoi yn ein calonnau
friallu a mêl a phopeth
sy'n datrys pob siom.

III

Os cewch freuddwyd go dila
peidiwch â'i gwastraffu.

Trochwch hi yn yr anadl

a'i rhoddodd.

Nid meddwi a wna na gwallgofi

Lluoswyd hi yn hytrach

yn ddarnau o wenithfaen

adeiniog, a gododd

uwchben y stormydd hyd at yr wybren

wag dangnefeddus.

LLYTHYRAU AT DEWI (59)

DYN WEDI'I OLLWNG YN RHYDD WEDI CYFNOD HIR HIR O GYFFURIAU

Yn annisgwyl, diflannodd cawod o ryddid.
Yr oedd yn debyg i wledydd agored i'r mynyddoedd
yn lledu'u pen amdanaf ac yn pibellu blodau'r
bore-a-chroeso'n fendithion. Eto, roedd deffro'n

llawer mwy cadarnhaol na hynny. Er nas gyrrai,
i mewn y ddi gan wasgar glesni anghwypadwy,
llongau arian, llygaid gwllith yn chwerthin am nad oes
dydd arall fel hyn. Cwmpai mor-ewyn gwynnach
na gwallt a'm derbyn i'w hawyr a'u pyllau'n gwingo –

bwganod wedi cyrlio yn fy nghalon dawel i'w geirio hi –
amenau'n ffrydio heb draed ac yn dysgu tympanau astud.
Molwn syndodau wedi'u lapio mewn noethni hapus yn un ac un
wedi'u casglu'n ofalus mor ddoeth. Gallwn ddod yn ôl i'w casglu'n

ofalus mor ddoeth. Gallwn ddychwelyd i gyd gan fod y balchderau
wedi cilio. Dim ond gwastraffu eiliadau sy ar ôl;
ac nid iawn yw hyn – blodau, blodau mewn gwin-dim-byd-tebyg.
Dônt o'r nos mae eiliadau blinedig nas rhoddwyd ond gan Dduw

gan lusgo'u wagenni Duw Duw y bydd-gyda-mi-Dduw, yr un a
dywalltodd ei syrur ar farf Abraham nes ei diferu ar y llawr
yn fendithion i'r had ond gan eu disgwyl. Ymestynnai
dros y farf – dim ond Duw ar gyfer cyfnod hir, ond nid o'r diffeithwch.

LLYTHYRAU AT DEWI

STORI FER I

ALLAHU AKBAR YNG NGHAERDYDD

Roedd Amil yn llechu ar bwys yr Eglwys, yn ceisio penderfynu ai yma, yn symbolaidd, y dylai chwythu'i fom, – yn awr, ynteu mewn safle lle yr oedd mwy o bobl, megis yn Stryd y Frenhines. Roedd yn lled amau mai ei lwfrdra oedd achos yr holl bendroni hwn, wrth ohirio'r weithred.

Fe enwaf Amil yn BEDWAR neu B o hyn ymlaen.

Nid rhyfedd ei fod yn gwisgo sbectol dywyll. Ymguddio yr oedd, onid e? Swildod ynghylch wynebu bywyd. Ofnai fyw. Dymunai'i ddringo drwy dwneli.

A'r Gymraes ifanc acw? A oedd hi wedi'i weld e? Pe gwyddai hi beth oedd ar waith yn ofn ei fryst, fe'i dirmygai hi ef.

Llund gwniadur o lofruddiaeth od a gorddai yn ei fynwes, dyna'r gwir. Gorweddai'i deimladau cynllwynog ar eu hyd ar y llawr neu ar y fainc ar bwys fel rhes o fabanod ar blanc, mor ddieithr yma â'i wlad ei hun yn y Dwyrain Canol, mor araf fanwl â llawdriniaeth, mor felys â chlwyf.

Rwyt ti, Branwen, wedi sylwi arno. Beth sydd y tu ôl i'r sbectol dywyll yna? Ai ofn ei bysedd gwyn hi? Ai hiraeth amdani hi? Ceisiai hi gael iawn olwg arno.

Roedd B yn symud yn awr, yn ansicr ac yn welw. Chwifiai'i ben o gwmpas ar echel ei wegil wrth geisio sicrhau bod y byd yn ddiogel. Doedd e'i hun ddim yn ddiogel. Doedd e ddim am edrych yn nrych y ffenest siop rhag ofn. Gwelai dreisiwr yn y fan yna, yn disgwyl amdano.

Symudai'n gyflym o'r ddau le, o'r Llan ac o Stryd y Frenhines, i gyfeiriad yr Amgueddfa. Doedd e ddim am fod yng nghanol y dyrfa hon. Rwyt ti Branwen am ryw reswm am ei ddilyn... Na: mae B yn mynd i gael coffi nawr. Na: mae'n ailystyried ac yn ymgyfeirio nawr tuag at y Gofgolofn i'r Rhyfel wedi'r cwbl, ac rwyt ti'n ei ddilyn. Mae e'n mynd yn gyflymach, a thithau'n cyflymu'n gyfartal.

Chwilio am sedd y mae B. Os wyt ti am siarad ag ef, rhaid iti fod yn eofn, mor feichiog â chweryl, mor chwedlongar â mwyalchen. Rwyt ti'n hofran o gwmpas y fangre, yn bruddach na phriodferch mewn dawns o amgylchfyd. Troi di o gwmpas un ochr i'r sê, gan geisio gwneud hynny'n ddisylw.

Mae B ar un ochr. Rwyt ti ar yr ochr arall.

Rych chi fel pâr o sgidiau.

Mae gen ti ddwy goes. Mae ganddo yntau ddwy goes.

Beth yw e? Beth wyt ti, ti dy hun, Branwen?

Mae e fel pe bai wedi cael ei ysgrifennu ar un ddalen, a thithau ar bapur arall.

Mewn dwy golofn. Yn un esboniad.

Syrthiodd ei sbectol dywyll oddi ar fwa'i drwyn. Daethai fe allan o'i ogof, er ei waethaf. Roedd e ar chwâl, a gallet ti ei weld ef. Doedd dim angen cywilydd arno, mor hapus â draenog, wedi diffygio'n bersonol efallai, ond mor chwâl â llawenydd.

'Sut mae?' meddi di wrtho. Gwena. Efallai'u bod nhw wedi cwmpo mewn cariad. 'Dw i wedi bod i lawr yn y dref,' meddi, 'i brynu crib, a dau – na, un wy.'

Gwena ef.

Mae'n peidio ag agor ei geg, o fwriad. Ym mhob man mae yna heddwch, gormod. Ymhen munud, trugarha. Dyw'r fainc hon ddim yn gysurus. Y peth olaf roedd e am ei wneud ar fainc oedd dechrau perthynas fel hyn, neu achwyn.

Doedd y ddaear dano ddim yn gysurus.

Doedd iaith ddim yn gallu cyflawni'r hyn a dybiai ei bod yn ei wneud. Cynrychiolydd oedd iaith. Dyna'r cwbl. Ond ar goll ôl yng nghrychau'i feddwl, roedd y gwir ystyr, y corddi teimladau cudd, heb ymuno â'i gilydd. Doedd y meddwl a fwriadwyd byth yn dod allan mewn gwirionedd. Beth roedd e'n synied oedd yr hyn y tybiasai fod – drwy eiriau – yn ei olygu? Ffansi oedd. Roedd y ffurfiau cyn-eiriol yn bwrw'n erbyn ei gilydd fel sbiwy'r yn ei feddwl ieithyddol araf. Arhosai'r rheina yn ôl ac yn ôl o'r golwg ac eplesu am ryw ychydig. Hwyl oedd y cyfannau, cyn iddyn nhw gael eu poeri allan yn ditbitlyd, allan i'r awyr noeth i wylo yn y lle yr oedd eu ffurf nhw'n cyfarfod. Ond ysywaeth, roedden nhw eto yno, bob amser, yn gorffen mewn penderfyniad. Roedd hyn yn gyfrwys o greulon. Nid dyna oedd i fod.

Chwiliai am y diwedd arall, y diwedd penderfynol. Ond hwn oedd yr unig un. Roedd un arall draw acw. Na. Dyma oedd yr *unig* un.

'Amil!' meddai B yn sydyn, i'w gyflwyno'i hun.

'Branwen,' mentri di.

Roedd e'n dechrau dychmygu'i fod yn ceisio anghofio pam roedd e wedi dod yma â'i fom. Ac ar hon roedd y bai, yn gogwyddo'i feddwl oddi wrth ei nod amgen.

Gwenodd hi'n betrusgar. Rwyt ti, Branwen, yn siŵr fod gen ti orffennol gyda hwn rywsut. A dyfodol hefyd. Gwenodd hi eto, ond heb ymateb. Roeddet ti'n disgwyl diolch, o leiaf. Ond dim, dim yn y golwg o leiaf. Dylet ti ei adael. Hyn oedd dy ddyletswydd, sef peidio â disgwyl mwy. Ond byddai hynny'n falchder, ac yn ymgais i'w ddirmygu, a'th gyfrif dy hun yn well nag e. Doedd dim hawl gen ti i ddisgwyl y fath beth. A fyddi di'n ddigon cryf i godi a mynd, serch hynny? Dyna oedd

eisiau i ti ei wneud. Gweddïo'n dawel drosto a mynd. Ond i ble? Wedi mynd, byddai'n rhaid iddo fynd ymlaen hebot ti wedi hyn. A hithau ymlaen hebdo fe. I Ynys Manaw, hwyrach; dyna dy Ynys Noddfa di.

'Gwell imi fynd,' ddywedi di, heb syflyd.

'Ga-i eich hebrwng chi? medd B.

'Ble?' meddi di.

'I gael coffi?' medd B.

'Na,' meddi di. 'Dwi wedi blino. Gwell imi droi tua'r llety.'

'Ble mae hynny?'

'Yn Nheras Cathays,' medd hi.

Roedd e'n llwfr, ac yn fwy llwfr nawr. Ac wedi'r cyfan, roedd e eisoes wedi gwthio'i amcanion yn y fan yna'n amlycach, a'r ffordd yn gywilyddus o dan y fainc (yn feddylol). Roedd e'n llwfr, ac wedi ceisio alltudïo'i amcan, a cheisio'i fodloni'i hun gyda hon. Dyma fe'n meddwl mewn sloganau: 'Allahu Akbar,' syniai. Doedd e ddim yn corddi ystrydebau, does bosib. 'Angau i Gaerdydd! Buddugoliaeth i Isis!' Roedd e'n marchogaeth ar draws y peithiau gorwelgar, yn awr, a'i ben yn y cymylau a'i draed yn yr ysbardunau. Cododd ef oddi ar ei eistedd felly. Cafodd ei fod wedi troi i siop lyfrau yn Park Place. Roedd e ar ei ben ei hun yn awr yn chwarae gêmâu ar y wyneblen ar gefn ei geffyl; roedd y llyfrau ar y silff wedi niweidio peth ar ei ymennydd wrth gwmpo, peth ymennydd ar y placard, dros ei ffedog, mewn goleuadau, cludai 'IESU GRIST DDOE HEDDIW AC YN DRAGYWYDD'. Codaist ti (Branwen) aelïau ychydig uwchlaw'r placard i'w holi ond heb agor ei cheg: 'Sut mae'r dyn acw yn ennill ei fywoliaeth tybed?' Cogydd o bosib, yn arbenigo mewn pwdinau rhiwbob a nectarîn. B yw hwn yn ddïau.

Fe wrandewi di, Branwen, ar ei feddylïau yn gweithio'n dawel yn y fan yna. Dyddfreddwydio yr wyt ti am eich baban chi'ch dau. Ond rwyd ti'n colli'r pwynt. Nid ceisio ymadael â thi y mae e, er gwaetha'r hiraeth.

Ynteu, a yw e'n teimlo rhyw fath o foddhad a'i lygaid yn gweiddi, 'Allahu Akbar?' Ef oedd cell Caerdydd yng ngolwg yr heddlu lleol. Roedd yna gyswllt posibl iddo yn Nheras Cathays, ac roedden nhw wedi bod yn cadw llygad ar hwnnw ers talwm byd. Petaen nhw'n gallu'i ddala fe ar fedr gweithredu, caent ryw gyfeiriad perthnasol a agorai eu harchwiliadau i fannau eraill, does bosib, i bob math o gliwïau newydd sbon danlli grai. Sylwon nhw fod adroddiad gan un gohebydd yn yr *Eco*, yn datgelu tystiolaethau gwrthddywedol i'w gilydd, am ryw reswm dirgel.

Rwyd ti, Branwen, yn llechwraidd, yn ceisio'i ddilyn yn ddisylw.

A oedd hi'n hiraethu amdano fe, a chysidro'r holl beryglon hyn? Cyd-fod dynol peryglus oedd e yn y byd unig hwn, yn rhannu'r glôb gyda hi. Dacw hi, bellach, yn nesu ar hyd y llwybr at

fainc gerllaw ei gysgod ef. Mae hi'n eistedd acw ar ei phen ei hun, ar y sêd agosaf at Gofgolofn Goffa'r Arwyr. Wrth ei hochr, wrth eistedd, gollyngodd wy i'r llawr.

Beth oedd ystyr hyn iddo fe? Onid symbol o fethiant eu priodas ddarparedig? Awgrym oedd, wrth reswm, iddo fe ei wenwyno'i hun. Roedd e'n coelio ei fod eisoes wedi'i ladd ei hun yn feddyliol, bron yn anfwriadus, a heb fod yn ymwybodol. A dyw hynny ddim yn cyfri, fel lladd go iawn, ydy hi? Beth fyddai ei farn e amdani – nawr yn y munudau olaf hyn?

Beth fyddai dy farn di, Branwen, amdano yntau?

Yn syml, ac yn ddidrugaredd, penderfynu wnaeth hi ffoi: 'Ynys Manaw mewn distawrwydd.' Ymchwyddai gyda chynnwrf o bwysigrwydd. 'Byddet ti yno'n peidio â bod o gwbl, felly, a phawb yn y gymdogaeth yn chwilio amdanaf fi, fel y mae ysgrifennu cerdd yn ffordd o ymguddio wedi'i orlwytho â distawrwydd.

Mae yna lawer ffordd o fynd yn wallgof. Fe ellir mynd yn gyfan-gwbl yn jibidêrs fel Aleppo. Ond fe ellir mynd yn rhannol, o fewn cyrraedd i'r lan. Ond os sibrydaist ti Branwen wrtho dy fod ar dir y byw ac yn meddu ar ryw glem o hyd, gwiwer fyddai dy stori fechan fewnol ynghylch 'diflannu.' Teithiaist ti drwy chwedloniaeth afreal er mwyn bod yn rhywun arall. Sylwodd hi nawr ar ei thewder yn y drych, a rhaid oedd chwerthin... ar ôl prynu'r dillad diweddaraf yn rhy ddiweddar rai misoedd yn ôl, ar ôl yr amser yr aethai hi'n dew. Ar y ffin symudol rhwng maint a gofod, rhwng tywyllwch a goleuni, y tynnai ei synnwyr cyffredin o ddillad oddi amdani yn breifat rhwng y dydd a'r nos er mwyn dyddfreddwydio unwaith eto, ac er mwyn ymguddio rhagddi'i hun. Roedd Branwen wedi penderfynu'i bywyd, ar ôl y siom o golli anwyldeb Amil.

Ynys Manaw amdani, felly, sefydlu caffè yn y brif dref, Douglas, arbenigo mewn hufen-iâ rhiwbob a gwymon. O'u paratoi, âi'n gorfforol ddihyder ei seicoleg. Maes o law diflannodd hi'n gyfan-gwbl, heb fod Caerdydd yn gwybod dim oll ei bod erioed wedi byw yna. Enw hyfryd ar fachgen oedd Douglas; caed un felly yn yr ysgol gynradd. Yn y fan hon yn awr, drwy ddamwain, fe gyfarfu hi â rhithgof o grwt felly o'r enw hwnnw yn pontio ac yn dawnsio yn y strydoedd o ynys i ynys gerllaw fel hadau blodau'r haul.

Pwy ddaw, pwy ddaw trwy bont y seiri?

Myfi, myfi, a'm holl gwmpeini.

Yn ôl yng Nghaerdydd yn awr, nid oedd ond B ei hun yn ailgydio yn ei fywyd o ferthyrddod.

Roedd yn sicr y gallai anghofio sut un o ran golwg oedd Branwen, heb gofio namyn ei phersawr.

'Edrycha-i ffordd arall tua'r gwallt gwyrdd a'r pabiod llafar a thros frigau pinwydd oren.' Roedd Amil yn benderfynol o fod yn ferthyr ac yn dreisiwr o ddifri, yn un a fyddai'n gallu gwneud y mwyafswm o gamarwain i'r heddlu ynghylch Isis ac eto'n dal i fod yn Isis ei hun yr un pryd.

Dechreuodd sgrifennu dogfennau ffals, a'u gosod ar wasgar mewn llyfrgelloedd rhwng Merthyr ac Aberafan, llwyddodd i dwyllo'r Heddlu a'u harwain ar bob math o helpa drwy actio math o droseddau dychmygol yma ac acw. Aeth i ymweld ar ei union â'r Heddlu Lleol yn gludwr clecs a datgelu iddyn nhw'i fod wedi ffeindio rhai o'r dalennau hyn. Ymchwyddodd yn gorfforol wrth weithredu'n effeithiol fel hyn i 'yrru troseddwy'r allan o'r Deheubarth'. Rhoddwyd OBE iddo oherwydd ei wasanaeth o ddychrynu un criw (o Yemen a Somalia). Naill ai roedd gormod o ofn arnyn nhw i herwa mwyach yn eu misdimanners, neu roedden nhw wedi ymfudo i America. Beth bynnag, fe ddyfarnwyd iddo gan lywodraeth Iraq ddiolchgar yr anrhydedd a oedd yn gyfartal â bod yn Farchog gartref. Ac aeth ar daith drwy Libya, yr Aifft, Yemen, a Saudi Arabia, a dod yn ôl yn llawn gwybodaeth i ddarlithio yn y Babell Lân yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar egwyddorion cymharol tafodieitheg Arabaidd. Dyna uchafbwynt cwbl naturiol i'w gais am gyfrinachedd. Gwenodd yn isel am ben diniweidrwydd Branwen, Wrth wneud hynny, dangosodd ei ddannedd melynlas. A phenderfynodd hi'i fod yn anaddas.

LLYTHYRAU AT DEWI

STORI FER II

GWELYAU

Roedd ef wedi naddu, ebillio, llifio un gwely, y gorau erioed.

'Gwna fe 'to, un yn union debyg,' meddai'r gŵr bonheddig, Dr Gwenallt Davies-Jones.

Cododd y saer ei ben yn araf yn wyneb yr her. A allai ailadrodd y gamp eto, ac yntau wedi gwneud un mor union berffaith? Safodd yn ôl i syllu ar ei waith. Fe'i hanwesodd ag ystwythder ei fysedd. Mor ofalus oedd ef i gadw'i fysedd mor lân. Mor benderfynol oedd i sicrhau cryfder ei arddwrn a'i benelin. 'Mae gen i reswm da', meddai Dr Davies-Jones.

'O'r gorau,' meddai fe. 'Alla-i ddim ond gwneud y ngorau.'

Nid edrych ar y cynllun a wnâi ef wrth wneud yr ail y tro hwn. Na! Ond edrych ar y cyntaf a orffennwyd, er mwyn cystadlu â'r hanfod dilys a phersonol a wnaethai eisoes. Fe wnâi bob dim arall, gyda'r un nod â'r un profedig, gan gynnwys ei galon, mor uchel ag yr anelai saeth i'r awyr.

Roedd yn ddiwrnod cynnes iawn, a'r cacynnod yn cwyno o'r herwydd.

Cystadlu ag ef ei hun! Dim ond ag ef, yr un ffaledig. Ond roedd y cyntaf o'r gwelyau hyn a wnaethai wedi'i wreiddio yn y cynllun. A dodrefnu'r nefoedd oedd ei amcan. Roedd hyn mor fonheddig, ac yntau yn ei swydd o fonheddwr diwylliannol a sanctaidd.

Dôl teimlad balch drosto ef gynnu wedi naddu'r sedd gyntaf. Roedd y teimlad wedi bod rywle yn well na'i gilydd.

Gweddiodd ef: 'Helpa fi gyda'r her, Arglwydd!' Torrai'r pren hwn megis clod i'r Arglwydd, fel pe bai'n torri corff, yn y dirgelion hyn. Cydiodd yn ei offer – y gyllell, yr ebill, a'r llif. Ac aeth ati: o leiaf, gallai yn ei wendid dawn ddygnu arni. Erbyn y diwedd, roedd y ddau wely'n gorwedd yn gyfochrog, gyda'r cynllun perffaith ynddynt. Tywynnai'r goleuni cynnar drwy'r ffenest. Peraroglai'r pren yn awyr y bore, fel pe bai'r wawr wedi bod yn ei goginio i swper. Byddai'r gwelyau hyn yn barhad pellach tra parhâi amser. Chwarddodd y saer ychydig bach yn ei lwnc heb ddangos hynny ar ei wyneb. 'Arglwydd, diolch!' meddai. Cododd a chiliodd, a nesaodd y gŵr bonheddig, a'i harchebodd yn wreiddiol, at y dodrefnyn i'w edmygu.

'Da was. Da a ffyddlon.'

*

*

*

Roedd gan y gŵr bonheddig ddau nai. Iddynt hwy yr oedd y gwelyau.

Gomer oedd y naill, a Mathew oedd y llall, ond doedd neb heblaw'r rhieni, ddim hyd yn oed yr ewythr, yn gwybod y gwahaniaeth rhyngddynt. Pan oeddent yn 53 oed, collasant eu rhieni. A

doedd neb ar ôl i wahaniaethu rhyngddynt. Roedd eu tad wedi gweithio mewn siop flodau ar hyd ei oes, a'r fam wedi aros gartref. Yn eu ffordd naif, roeddent hwy'r plant ill dau wedi anadlu ysgrythurau drwy gydol eu bywyd. A bu hynny'n gysur ar 1 Ionawr 2000, pryd y bu eu rhieni farw oherwydd anwydyst, un yn y bore a'r llall yn y prynhawn, y tad yn 79 oed a'r fam yn 73.

Roedd y ddau fab yn efeilliaid union debyg. Bellach, byddai'u cymdogion yn dweud eu bod yn edrych yn hŷn na'u hoed. Ond doedd y naill na'r llall byth yn ystyried y fath beth: roedd gormod o bethau eraill i'w gwneud, megis pendroni.

Mor debyg i'w gilydd oeddent, fe barai gymhlethdod a dryswch difyr pan ddô'i'r amser i'r naill neu'r llall chwilio am wraig. Roedd y ddau wedi anelu at yr un ferch. Un fer gochwallt oedd hon, gyda llygaid synhwyrus a gwefusau pwdlyd. Roedd yn dduwiol, ac roedd ei gwallt wedi'i ddilladu gan salmau. Roedd gofod ac amser wedi cyfarfod yn daclus ynddi hi fel y deg gorchymyn. Fuasai neb yn gallu dyfalu pa un o'r ddau oedd yr un a ymserchodd fwyaf ynddi. A chât Esther hithau'r un anhawster, gymaint felly nes ei bod hyd yn oed wedi derbyn y gefaill anghywir ar gyfer priodas. Eto, nid edifarhaodd hi am y fath gamgymeriad ymddangosiadol chwithig. Doedd dim cenfigen.

Eithr, gwaetha'r modd, roedd Mathew ac Esther wedi dewis Dinas Mecsico ar gyfer eu mis mêl; a'r noson gyntaf, diffygiodd ysgyfaint Esther oherwydd uchder y ddinas, ac er gwaethaf gwaith rhagorol gan y staff yn yr Ysbyty Anglo-Americanaidd moethus yno, methodd hi â byw mwy na phedair awr ar ôl y trychineb. Dychwelodd Mathew adref â llwch Esther.

Roedd Gomer yntau wedi ymadael â'r cartref noson y briodas, ac wedi cynnig am swydd cyfreithiwr yn bell yn Efrog Newydd. Dychwelsai'r mis wedyn i Abermaw, heb ystyried am eiliad ardderchoced oedd y swydd a adawsai yn gynamserol. Aeth Mathew yn ei gar i Heathrow i gwrdd â Gomer, ond ar y ffordd adref, cafwyd damwan reit erchyll, a brifwyd cefnau'r ddau efaill, fel ei gilydd gyda'r un ysictod.

Gallent gerdded yn weddol ar ôl rhyw wythnos, ond ni allent eistedd o gwbl bron (ond am ryw chwarter awr anghysurus ar y tro), ac ni allent sefyll yn hir yn yr unfan chwaith (ond am ryw ddeng munud) pryd roedd yn rhaid symud. Cerdded oedd orau i'r ddau am droeon. Ac felly y caent ystwytho'r awyr o'u cwmpas. Bellach roedd y ddau fini-wely, a gawsent gan eu hewythr Dr Gwenallt Davies - Jones, yn galw amdanynt am chwech bob nos.

A gorwedd a wnaent yn rheolaidd o flaen y teledu. Gomer fan hyn a Mathew fan acw.

Felly y dechreuwyd ar raglen o fyw'n gymharol unffurf. Math o reoleidd-dra syml oedd fel nad oedd angen meddwl amdano.

Er gwaethaf y niwed i'w cefnau, sefydlasant batrwm cyson. Yn y boreau codent yr un pryd, a byddai Mathew yn coginio a dwstio, a golchi dillad, a Gomer yn siopa (roedd y nwyddau'n cael eu

cludo gan y siop er hwylustod i gwsmeriaid na fyddent yn gallu cario pethau â gormod o bwysau ynddynt). Câi ef hefyd ddyletswydd i ymdroi a chwynnu am ryw ugain munud yn swildod yr ardd.

Yn y prynhawnau, byddai Mathew'n darllen, a Gomer yn barddoni neu'n darllen. Gorweddent ar bwys ei gilydd ar welyau yn yr ardd, yn gytûn am oriau o dawelwch, a chusanau'r amser yno yn chwerthin yn eu heneidiau. Roeddent yn mwynhau peidio â siarad, a'u tawelwch fel ynysoedd dienw.

Yn yr hwyrnosau eto, doedd yna fawr o sgwrs rhyngddynt. Edrych ar y teledu a wnaent y pryd hynny: 'Heno' a'r 'Newyddion', 'Masterchef', a sianel CNN (Fareed Zacharia); ac yna edrych yn ysbeidiol ysgwydd-yn-ysgwydd drwy'r ffenestr ar y pellter dydd a ddiflanasai; neu glywed y cŵn o'u ffos yn cyfarth ar y lleuad aur.

Wedyn, ddiwedd y dydd, noswylient yn union am ddeg o'r gloch. Cusanent ei gilydd. A dringent y grisiau, Mathew'n gyntaf, Gomer lathen ar ei ôl; Mathew i wely ei ieuentid yn yr ystafell gefn am mai dyna'r ystafell dawelaf i'w anhunedd, Gomer i'r ystafell ffrynt am mai dyna'r ystafell fwyaf, a'r ystafell a gâi'r olygfa olaf o'r haul yn machlud.

'Does dim eisiau mwy na hyn, nac oes?' meddai Mathew.

'Nac oes.'

'Neb arall.'

'Na.'

'Mae'r greadigaeth i gyd i'w chael fan hyn, mewn gwirionedd. Mae'n rhyfedd o wir, on'd yw hi?'

'Ydy.'

* * *

Roedd yna grwt tair ar ddeg oed yn byw drws nesaf iddynt. Dafydd John-Gwenallt oedd ei enw. Ar y Sadyrnau, byddai'n ymweld â nhw ac yn cynnig gwneud ambell dasg, neu'n eistedd gyda nhw i roi newyddion am yr ysgol a'r tîm rygbi. Roedd geiriau'r plentyn yn disgleirio yn y goedwig gyda dyfodiad rhaglen y dydd, er na ddwedai byth wrthyn nhw mai dyna oedd ei nod. Gallai wneud ambell dasg chwithig megis glanhau'r draen; ac am ei fod yn gryfach wrth blygu nag roedden nhw, byddai'n cario dŵr i ddyfrhau'u blodau ac yn plygu i chwynnu.

Ar y Suliau, byddai ffrindiau o'r eglwys yn ymweld â nhw, – heb wahanu – mewn car i'w cludo i weld y wlad. Y rhain roedd y ddau'n eu caru. A gwyddai pawb yn burion eu bod yn caru'i gilydd.

Roedd y math o dawelwch a gaed rhyngddynt nhw yn wahanol i bob tawelwch arall, fel pe baen nhw wedi'u gwneud yn gytûn i osgoi'r symudiad lleiaf a oedd heb ei wneud yn rhan o'u rhaglen 'swyddogol' fel petai. Ar eu cefnau, yn ddisymud, heb siarad, roedd ymenyddau'r ddau

wedi'u llunio yn eu ffordd eu hunain, i droi, ambell waith, i feddwl gyda'i gilydd am siâp eu bywyd, a sut roedden nhw'n symud ynghyd tuag at farw, a beth a wnaen-nhw wedyn. Ni bydden nhw byth bythoedd yn meiddio brolio bod eu bywydau'n grwn. Ond hynny a ddymunen-nhw, nhw, ar eu cefnau, yn ddiog yn aml, yn anabl i godi teulu, a bod yn grwn. Fe glywsen nhw un pregethwr un Sul yn hawlio nad oedd neb yn gallu byw bywydau crwn nes eu bod wedi cyfarfod â Duw. Dyna a wnaethan nhw gyda'i gilydd un Sul yn yr adnod: 'Gwasgarodd ei roddion ymhlith y tlodion, y mae ei haelioni yn para am byth.' Ac roedd hynny o leiaf yn wir fel y buasai i'w rhieni, heb beri iddyn nhw deimlo'u bod yn well na neb, nac o dan orfodaeth, na'u bod wedi gallu osgoi'r cynnig. Daethan nhw i lawenhau'n dawel wedi derbyn y tro hwn i'r ddau yr un pryd.

Bedair blynedd wedyn, fe ddechreuodd Gomer beidio â chysgu'n dda yn y nos. Taerai nad oedd yn becsan o gwbl, a'i fod yn hapus iawn. Eto, gwaelu a wnâi. Roedd ef yn colli'i anadl fwyfwy. Rhwystrwyd ei gwsg yn fynych gan felyster tawelwch siglad y dail y tu allan i'r ffenestr.

Ond Mathew a fu farw, a pharhaodd Gomer yn lledwan am flynyddoedd wedyn. Ni bu farw ond yn hiraethlon feddyliol.

Dechreuodd cyn hir farddoni'n hiraethus am ei frawd. Ac wrth farddoni, roedd Gomer bellach yn dod i adnabod ei frawd ymadawedig yn well. Deuai i sylweddoli mai barddoni y bu Mathew gynt wrth arddio, a dyfined roedd ef wedi credu yn Nuw. Tawel fu ef nawr. Allai Mathew ddim siarad ei feddwl mor llawn â chynt, wrth gwrs. Ond annealladwy o ddirgelwch oedd holl gyngor Duw.

Cofiai Gomer bellach am Mathew wrth fynd fwyfwy am wibdaith mewn car gyda ffrindiau cariadlon eraill o'r eglwys. A pheidiai â bod mor dawel ag y bu yn nyddiau Mathew, enillai feiddgarwch, teimlai'r ysfa i siarad am obaith, nad angau oedd y diwedd, a methai â gwneud ond diolch. Hynny yw, ceisiai Gomer ddweud y geiriau cudd roedd Mathew wedi methu â'u dweud. 'Peidiwch â gwneud nef o'r byd hwn', meddai Gomer wrth rywrai weithiau. 'Cadwch eich llygad ar y pen draw,' meddai wrthyn nhw'n gyfrinachol. 'Wedi gweld Crist yn y pen draw, does dim modd gweld dim na neb na dim heblaw drwyddo Ef.' Gwawriai hyn ar Gomer yntau o'r newydd fel pe bai'r geiriau'n neges o'r bedd. Allai fe ddim bod yn ddibechod anymarferol. Ond treiglai'i frawd yn ôl o hyd drwy'i atgof. Bu'r atgof hwnnw'n fodd iddo sionci fwyfwy o'i lesgedd. Ac roedd ei glust a'i esgyrn yn cyffwrdd a'i frawd anweledig. Ni allai ddeall diddirwydd pobl eraill, yn dal i siarad â'i gilydd heb agor eu cegau yn enwedig yn y nos ar eu gwelyau. Roedd y brawd anwel yno yn afon yr hwyliai ef ar hyd-ddi bellach a rhwyfai dail sych arni.

Heddiw, yr oedd yn 80 oed, yr un fath â'i ewythr, Dr Gwenallt Davies-Jones. A gofynnodd Gomer i'w frawd anwel wneud rhestr o chwech o'i gyfeillion gorau yn ei freuddwydion, yn ychwanegol at ei chwech ef. Bwriodd Mathew olwg dros restr ei frawd, a dwedodd – 'Ie! Yr un fath

yw fy rhestr i. Does 'na neb arall, oes na?' Fel yna y treiddiai Gomer yn ôl i gymdeithasu'n ddistaw gyda'r un 'oedd yn ddau. A gwyddai Gomer y byddai'n methu â chadw'i frawd rhag diflannu pe na byddai'n dal ati i ymarfer â meddwl amdano fel hyn.

A hynny a wnaeth ef yn awr, drwy farddoni weithiau. Dyma'r gerdd a ganodd drosodd a throsodd er cof amdano:

MEWN YSTAFELL FECHAN

Mae yna dawelwch y gellwch ei ennill o drïo
yn ddigon caled. Mae'n dechrau mewn gweddi. Ond cewch chi
harddach syndod, oblegid gall beidio â digwydd
eto ond ar ganol stŵr teledu.

Neu'r syndodus mwyaf fydd y llond sedd o wynebaw rhyfeddus
plantos, fel blodyn yn ymguddio mewn llawer o gorneli.

Dyw'r wybren ddim yn gallu siarad, meddan nhw i mi.
Ond mudenir pob llygad pan fydd yr Arglwydd
yn gwneud hynny mor ddistaw, stwffir pob gwên i angof
i ledi'i orchudd gwyn ar draws y diddiwedd ddiwedd.

Ond O! na bai cegau cu doe yn sŵn anialwch hiraethus
mewn un lle heddiw'n cau cegau'r ifanc ysbaid i yfory.
Welais i erioed gynifer o drympedi'r tangnefedd yn cadw'u
neges ddeffro i'm hen frawd 'fynnai o hyd lefaru ynof.

LLYTHYRAU AT DEWI

STORI FER III

Y CORWYNT ARAUL

Roedd pawb yn ei hoffi.

Roedd yn araul ei dymmer, bob amser yn dawel ei olwg a'i sgwrs. Er mai swil oedd ef yng gŵydd merched, roedd yn rhwydd fwynaidd gyda gwrywod, a rhywbeth haelfrydig a bonheddig ynglŷn ag ef, yn barod i weithredu fel ysgrifennydd i'r clwb golff, er enghraifft. Os gallai wneud tipyn o gymwynas i rywun, fe'i gwnâi.

Byddai niwl ar y tyle'n llyncu pob smotyn o anwiredd a ddô'i'n agos at ei feddwl.

Gwisgai gôt glaw a'r gwddf yn uchel yn cuddio'i geg pan âi allan, rhag annwyd. Crychai'i aelïau a'i dalcen ar y chwyth lleiaf o'r gwynt. Ond cysgod gwên oedd peth o'r crych hwnnw ar y talcen. Ac ni theimlai neb y byddai'n gwgu nac yn gallu cweryla yn go iawn â neb. Pan oedd unigedd yn caniatáu iddo, roedd e'n pwysu a mesur argyfyngau bywyd yn ddiraffferth araul.

Pan oedd yn ifanc, cerddai'n gyflym i bob man, gan synied bod angen iddo wneud llawer mwy o waith nag a wnâi. Ei gydwybod araul oedd hyn. Roedd y bôs wedi'i rybuddio y gallai gael traw ar y galon oherwydd yr ysfâ i odro pob munud. Ond oherwydd ei arferiad o nofio am saith o'r gloch yn y baddonau lleol, cadwodd ei iechyd drwy'r blynyddoedd ifainc ac ymlaen i ganol oed. Y pryd hynny, yn hanner cant oed, arafodd yn anfwriadol isymwybodol. O ganlyniad, roedd popeth yr oedd yn cyffwrdd ag ef yn troi'n haul.

Dyma'r pryd y cyfarfu â Eunice, gwraig hŷn nag ef o ddwy flynedd. Roedd ef yn bum troedfedd naw modfedd o daldra, a hithau'n fodfedd yn dalach. Dô'i Edward i ymserchu ynddi yn gymedrol araul. Un a hoffai ymweld ag amgueddfeydd oedd hi, amgueddfeydd ac orielau paentiadau Cymreig o'r ugeinfed ganrif – fel Evan Walters, Vincent Evans, ac Archie Rhys Griffiths. Dyna'r pethau a ddaeth i'w ran, er nad oedd ef ddim yn chwenychu eu perchnogi.

Gan ei fod ychydig yn dywyll ei olwg, yr oedd mewn gwirionedd wedi dewis yr hoffter lleiaf addas i arbenigo ynddo. Roedd ef wedi osgoi mynd i weld yr optegydd am na syniai fod sbectol heb ei siwtio o ran delwedd. Ond yn gyfrinachol, gwnâi ymarferion – gwisgo gorchuddion lliain dros ei lygaid yn y nos, crychai'i amrannau gan ei aelïau'n gwasgu er mwyn ymarfer ag wyneb y cornea. Yr hyn a chwenychai oedd ystwytho'r medrau golau a oedd ganddo. Ond nid effeithiai fawr.

Doedd Edward ddim yr un fath â dynion eraill. Ni wyddai Eunice beth oedd arno. Allai hi ddim rhoi ei bys ar y drafferth. Ond mae gan fenywod synnwyr pan fo rhywbeth yn bod. 'Mae e'n

cuddio'i salwch, dw'i meddwl, ac mewn poen,' meddai hi wrth ei fam. 'Mae ef bob amser yn cuddio'i anhwylder,' meddai'i fam, 'er pan oedd e'n ddim o beth. Ffeindiwn ni becyn o Baracetamol yn y cwpwrdd. Ac fe gymera-i nhw fy hun yr un pryd. Fel yna bydd e ddim yn synied ein bod ni'n ffwsan.'

Dyfnhaodd a dyfnhaodd y gwaeledd heb ddeall bod Edward, y tro diwethaf y bu'n defnyddio Paracetamol wedi'u rhoi nhw'n ôl yn y botel anghywir. Gwellodd Edward maes o law. Ond tua'r pryd yma, a'i fam hithau heb fod yn ei llawn hwyliau, derbyniodd hi alwad daer gan ei brawd ifancaf hi yn Califfornia. Nid esboniodd hwnnw'r rheswm. Felly rhaid bod yr angen yn ddifrifol. Gartref yr arhosodd Edward. Doedd dim hanes beth ddigwyddodd wedyn. Ond ni chlywodd ef ddim ganddi am sbel. Roedd ei fam wedi meddwl cymryd y botel Paracetamol gyda hi. Ond roedd hi wedi'i chamddeall, fel potel y gwenwyn llygod. Roedd honno'r un lliw â'r botel Paracetamol, a gallai'i fam fod wedi gwaelu'n ddiwybod, a dyna pam yr oedd hi'n methu â chysylltu. Hefyd, meddai Edward wrth Eunice, roedd yr un rhifyn o'r *Western Mail* wedi sôn yn awgrymus am haint ar drot drwy orllewin Cymru a gariwyd gan adar gwyllt. Daeth giang o weithwyr i mewn i ymennydd Edward, i forthwyllo atgofion annifyr, uwch, uwch ar y bryniau fforestog, rhwyfus.

Felly y bu; ond yn araul yn y diwedd. Hiraethai'r môr am dynnu dŵr ffres o'r manau gwynion a cherfio allan ohonynt adlewyrchiad o'r llwyn, tan chwilio am un wreichionen sengl o lotws: ar ôl hynny doedd dim ond mygydau distawrwydd.

*

*

*

Ond yn yr un rhifyn o'r *Western Mail*, ymhlith y marwolaethau, gwelodd Edward gyda sioc fod Catherine Morgan wedi marw. Ei hen gariad yn yr ysgol oedd hon, a chododd yn ei feddwl liaws o ddigwyddiadau lled-garwriaethol, degau o droeon ar lwybr Ponterwyd.

Llethwyd ef gan hiraeth. Gwrthododd fwyta'i ginio y diwrnod hwn. A gofidiodd Eunice amdano. Yn ofer y chwiliai am y llais i'w gwmpasu – y geiriau melyngoch, y sillafau gwyn tirion, cysurlon.

Yna, cafodd Edward air gan ei fam, o'r diwedd o Galiffornia. Roedd hi, yn wir, wedi dechrau teimlo'n od. Yna, fe'i dilynwyd hi gartref gan Eunice. Bu'r tri, wedyn, yn wirioneddol sâl. Daeth y fam adref ar frys.

Felly y buont yn gwaelu'n waeth waeth am dair wythnos.

Yna, dechreuodd waliau'r tŷ bilio ychydig. Craciodd un o'r ffenestri heb reswm mewn tri lle.

Dechreuodd cymeriad y cartref oll newid. Gwnâi synau bach disylw fel aderyn bach, fel pe bai ei gnawd ei hun yn cael ei ogrwn. Collai pob un o'r tri phreswlydd bethau amlwg a oedd yn rhan o'u bywyd bob dydd. Ond doedd dim ots. Doedd neb yn hidio'n ormodol.

Ymhen hir a hwyr, gwellodd y tri o fewn dau ddiwrnod, yn weddol sydyn. Teimlai Edward

yn gwbl wahanol mwyach, yn barod i ailgydio yn ei waith. Ond nid yr un Edward oedd ef. Roedd rhywbeth wedi digwydd iddo.

Ni sylwodd y gymdogaeth fod Edward wedi prynu car newydd. Doedd fawr o wahaniaeth rhwng hwnnw a'r un a brynodd ryw ddwy flynedd yn ôl, o ran lliw nac o ran siap, ond bod ychydig mwy o le yn y gist. Doedd Eunice, ei wraig, ddim wedi sylwi ar y newid. Ond doedd ganddi hi ddim diddordeb mewn ceir.

Rywsut, roedd popeth pwysig a ddigwyddodd i Edward yn awr wedi digwydd oherwydd prynu neu newid car. Yr oedd ef mewn ffordd ddiymhongar eisiau'i ddangos ei hun. Gwyddai Edward fod rhaid iddo guddio hyn. Ei oedran oedd hyn, mae'n sicr. Nid busnes ysgafn yw bod gwallt amser yn llwydo. Drwy wasgaru'r blynyddoedd mae gennym y deunydd i broffwydo. Math o frolio dirgel oedd hyn. Ond nid dyma'r math o beth yr ymfrostiai amdano ym mryd Edward, sut bynnag, a dechreuai barcio'i gar newydd y tu allan i'r Swyddfa Dreth Incwm ar y sgwâr. Dyna'r lle mwyaf amlwg yn y dref.

Mae'n wir mai dyna'r lle y gweithiai. Ond y lle arferol i'r car oedd rownd y gornel o'r golwg. Yn awr, dyma fe yn union gyferbyn â drws y ffrynt. Clepiai ddrws y car yn arddangosol amlwg, nes bod pawb yn deffro. A cherddai i fyny i'r fynedfa i mewn gyda rhyw sicrwydd newydd yn ei gerddediad, heb fod yn ymwybodol o'r gwahaniaeth o gwbl. Gostyngeddwydd rywfodd oedd nodwedd ei swydd, yn ei syniad ef amdani.

Gwawriodd cywilydd arno. Efallai'i bod hi'n bryd iddo newid ei gar eto, nes mynd yn ôl at gar mwy hen ffasiwn a llai sbonciol ei liw. Ond na: fel arall. Dylai beidio â newid ei gar – neu ei swydd – mor aml.

Anghofiais ddweud.

Siop Ianto oedd y man y dechreuodd ef weithio ar ôl gadael Ysgol Trefenter. Dyrchafiad arall i Gymro fu ei symudiad terfynol i Swyddfa Dreth Incwm.

Yn awr, beth bynnag, cysylltai Ysgol Trefenter â 'throseddu'. Fan yna y dechreuodd smygu, y tu ôl i'r Toiled. Wedyn, o flaen Siop Ianto roedd wedi prynu'i gyffuriau'n gyntaf. Ac yn awr, ac yntau wedi cyrraedd pegwn ei yrfa yn Swyddfa'r Dreth Incwm, roedd wedi mynd o fewn rheswm – ac yn gymedrol yn ôl ei reddf – yn gaeth iddynt.

Cafodd ofn o'r herwydd, llawer o ofn, a dechreuodd chwilio'r We Ryngwladol.

A chafodd wybod am Ysbyty Talaith Arbenigol yn San Ffransisco, a oedd yn addo'n ddiffael y gellid iacháu'r cyffuriwr caeth mewn tri mis. Er tloted oedd ef, gyda chytundeb Eunice, penderfynodd fuddsodi'r gweddill o'r arian yn y lle neilltuedig hwn, a gynigiai'i fywyd yn ôl.

Rhybuddiwyd ef ymlaen llaw ni châi gyfathrach â neb o'r tu allan i'r Ysbyty drwy gydol yr amser, ac wrth jocan ynghylch hyn gyda Eunice, dywedai ei fod yn aelod llawn daledig bellach o'r

Maffia. Felly y dechreuodd Eunice a'i Fam ddisgwyl yn amyneddgar. A disgwyl. A disgwyl.

Bu Edward heb ei wraig a heb ei fam am leuadau lawer. Teimlai Edward radd o fuddugoliaeth felly, a'i fod yn gallu taflu'i grafat, dihatru'i fenig clai, a gadael i'r corwynt gael rhwydd hynt ar ei war.

Ond parhâi Eunice a'i Fam i ddisgwyl. A disgwyl. A disgwyl.

'Mae ef wedi dod o hyd i fenyw,' meddai'i fam.

'Na', meddai Eunice. 'Byth.'

Er hynny, penderfynodd Eunice ymadael yn awr, yn union syth, a ffoi i Galiffornia. Ar ôl cyrraedd, cafodd nad oedd yna Ysbyty Talaith Califfornia i'w gael. Yn wir, wrth holi yn yr ardal, cafodd Eunice, mai'r hyn a atebai yr ymchwil oedd llofft tŷ adfeiledig mor breifat ag y disgwyliai pe bai hi wedi pendroni uwchben y sefyllfa. Dyna o leiaf y cyfeiriad gohebu, a ddefnyddiai'r cwac lleol er mwyn ei fusnes twyllodrus,

Toddodd Eunice yn ddagrau. Toddodd yn sop yn siom y twyll. Gyrodd allan i'r wlad mewn car heiriedig i ryw bentref ugain milltir i'r gogledd o Los Angeles er mwyn cael unigrwydd digonol i fyfyrion'r busnes. Dechreuodd gerdded a cherdded. Ac fe welodd ŵr pum troedfedd naw modfedd o daldra, gŵr a allai fod yn wyn ond mewn rhacs budr a'i wyneb heb ei olchi ers tri diwrnod, ac yr oedd dau warder carchar talgryf yn cydio yn ei glustiau ac yn plygu ei ben tuag i lawr yn giaidd, mewn llyffetheiriau. Roedd e'n gweiddi, 'Ble dw'i mynd?' ... 'Pwy ydw i?'

'Neb,' meddai'r Wardeiniaid.

'Edward!' waeddodd Eunice, 'Fy Edward i'. Ond roedd Edward gyda'r Wardeiniaid.

Penderfynodd Eunice aros ychydig, a gweld a fyddai caniatâd i ymweld â'r carcharorion yn ysbeidiol. Cafodd wybod gan un o'r wardeiniaid a oedd yn cydio yng nghlustisau Eunice fod ganddo westy bach llewyrchus yn gymharol agos a roddai arhosfa gyfleus i berthnasau'r carcharorion. Penderfynodd Eunice aros yma. Gwnaeth Eunice ffrindiau ymhlith yr ymwelwyr eraill, rhai a barhaodd yn ffrindiau oes.

Pe bai hi'n gwybod yr holl wybodaeth, buasai'n sylweddoli bod y tŷ adfeiledig yn union uwchben mwynfa gudd drigain troedfedd odano, a bod ei Edward hi, ynghyd â rhyw chwech o garcharorion eraill – a oedd yn cael eu trin yn ôl y dull diweddaraf i'w gwella o'u caethiwed cyffuriol – wedi'u gorchymyn i weithio'n feunyddiol ar eu cefnau i chwilio am ddiemyntau. Roedd Edward yn gweithio gyn galeted â neb i hel y cyfoeth a gynhaliai't Ysbyty. Ond dysgodd ef yn fuan y gallai adennill egni a chynyddu'r ymroddiad wrth ymatal bob hyn a hyn, a chanu pennill traddodiadol Cymreig megis 'Rwy'n caru merch o blwy Penderyn' o'r galon. Hyn a wnaeth, a chafodd felly ollyngfa wych oddi ar straen y gwaith. Ac roedd pawb yn hoffi'i glywed. A bu ei fas persain yn atseinio felly drwy goridorau'r fwynfa fel corwynt araul.

LLYTHYRAU AT DEWI

STORI IV

Y COLLWR DA

Cadw garej oedd gwaith cynhaliol bob dydd Cad. Ond dau ymroddiad hollol wahanol oedd ei waith bob dydd. Mewn sied y tu ôl i'r garej byddai'n gwneud arbrofion a oedd yn estyniad i'w waith bob dydd. Dechreuodd hyn drwy gopïo cerbydau hunanegniol oedd ar y cyfrifiadur. Roedd y rhain yn welliant trydanol ar y modelau cynharaf gynt a ddibynnai ar fodolaeth amlwg a chryf yr heulwen; a gweithient ar draul y golau dydd yn unig.

Meistrolodd Cad y gelfyddyd hon, ac estynnodd yr egwyddor hon i adeiladu ceir hunanlywiol, ac yna i laddwyr-gwair yn yr ardd, ac yna yn y tŷ i beiriannau a allai lanhau carpedi gan osgoi bwrw yn erbyn dodrefn, yn ogystal ag i gymysgwyr a chynllunwyr bwyd cinio a'r golchwyr llestri hen ffasiwn wrth gwrs.

Wrth reswm, ceid llawer o ddamweiniau. Ond yr arbrofi oedd y nod, ac estyn peirianeg arbrofol.

Hanner cant a thair oedd oed Cad. Collodd ei wraig a'i unig ferch mewn damwain car, wrth geisio arbrofi gydag un o'i geir hunanlywiol. Roedd hyn wedi'i sobri ef. Trodd yn fewnblyg ac yn hunanlywiol. Sylwodd ei fab (ei unig fab) ar hyn o ddistawrwydd, a phenderfynodd ei bod hi'n bryd iddo ymadael â'i brifysgol a dod adref i lywio ychydig ar y busnes. Perswadiodd ef ei dad iddo yntau gymryd drosodd fusnes y garej ei hun, ac i'r tad ymglyfyngu i'r sied a'r arbrofion.

Cytunodd y tad i ymgilio. Cytunodd hefyd i'w fab ddod yn gyd-berchen ar y busnes oll. A gosododd uwchben ffenestr ffrynt y garej y geiriau balch:

GAREJ OWEN – sef AP-CAD – A'I DAD CADWALADR OWEN

(Glanhawyr trydan, Lladdwyr-gwair arbrofol, Robotiaid a Dronau ar werth yn y Cefn)

Roedd y Dronau a'r Robotiaid arbrofol hyn yn falchder go arbennig. Ond hyd yn oed dyfnach ei her na'r beirianeg faterol hon oedd y gwaith arall a feithrinodd ef oddi ar ei ieuenctid: sef ei gasineb bythol a ffyrnig yn erbyn Cymru, y Gymraeg, a phopeth a ymw'nâi â Chymreictod, megis y Cynulliad, addysg, deddfau o blaid yr iaith, arwyddion Cymraeg, S4C, yn ogystal â llais prif weinidog Cymru. Gwrthgymreiciwr oedd y tad ar egwyddor ddofn.

Ymgrychai Cad ar y We a'r E-byst, i hel pob dadl a allai danseilio'r iaith. 'Hyn yw fy agwedd dywyll', meddai ef wrtho'i hun, tan synied fod y negyddiaeth hon yn ei wneud yn bersonoliaeth ddiddorol, yn ei ddangos ei hun bron 'DAFYDD DDEL' oedd ei ffugenw ar gyfer y cyfraniadau

ebychol hyn ar Weplyfr. Heliai restrï o ganlyniadau addysgol negyddol yn unig, a phob cŵyn gan bobl a oedd am beidio â gwario arian ar unrhyw gadarnhad mewn unrhyw fodd ar Gymreictod. Casglodd bob dadl a hawliai fod yr iaith bellach ar ben. Ymatal oedd y ffordd ymlaen yn y maes bach hwnnw. Porthi cymhleth y taegog a wnâi bodolaeth yr iaith. Tynnu'i wreiddiau oedd negyddu go iawn yn hyn o fyd.

Yma yn y sied, sut bynnag, yr oedd yn frenin. Breuddwydiai yma am ryfeddod ei deyrnas: byddai gwledydd newydd yn Affrica yn ffynnu oherwydd medrusrwydd ei arbrofion. Safai ar ganol cymhlethdodau'i ddyfeisiau. Roedd dronau fel eigionau o heulwen yn osgoi'i gilydd fel drwy hunanegñion, syrthiai amdano lond dyfodiad o ffarwelau, wedi codi i'r awyr allan o'r carcharau oesol, dagrau'r canrifoedd wedi hir ddisgwyl am aeddfedu i'r presennol. Ymadael a wnâi rhai yn ei feddwl er mwyn i rai newydd gymryd eu lle. Roedd pawb yn chwerthin, a'u calonnau di-losg yn llamu i'r fflamau wedi bod yn fflyrtian gyda bywyd.

'Paid â dod i mewn,' gwaeddai ar y Mab.

A gwyddai'r Mab fod meddyliau ei dad, y pryd hynny, yn cael eu cipio i fyny gan rywbeth.

'Iawn, nhad.'

Ac wele ar gefn hir y gwynt, dyma lais gwefreiddiol a distaw main yn dychwelyd heb ei golli. Roedd y gorwelion anwel mewnol yn disgwyl amdano.

*

*

*

Soniais yng ngwyll dechreuadau'r sylwadau hyn am ddau ymrwymiad gyrfaol oedd gan Gad. Y dronau, y robotau, a'i gariad arall oedd un. Roedd y honno yn fwy tywyll, ac yn fwy sinistr. Dyna'i ymrwymiad dirgel, er nad oedd dim cywilydd ganddo amdano. Dyma'i adain wleidyddol fel petai. Yn y gornel lle yr oedd lleiaf o olau, ar y wal, uwchben ei gyfrifiadur, hongiai Swastika.

Felly, o dan gochl y tywyllwch hwn, caed ganddo deyrngarwch mwy cyrhaeddgar na hyd yn oed peirianeg yn eplesu yn ei enaid.

Buwyd ers canrifoedd – cyn i'r byd ddysgu hedfan, yn wir, – ryw bobl o hyd yn dychmygu byd y dyfodol. Ond ymddengys, yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf, fod yna ddifrifoldeb diriaethol newydd wrthi'n ein harwain ymlaen yn anochel yn y gorllewin at gael ein hamgylchu gan batrymau o ddelfrydau mytholegol hudol megis robotiaid a dronau. Lle y bu ceir a'u gyrrai-eu-hunain yn freuddwyd gwyrach gynt (drwy groen eu dannedd), daethant bellach mewn un neu ddau le yn ymarferol i'w gwneud bron i yrru yn iawn mewn sawl lle. Cafwyd glanhawyr trydan yn gyffredin yn osgoi'r celfi wrth yrru ar hyd y carped. A mwyach, fe geir prydau-bwyd yn cael eu cymysgu yn y gegin a'u cyfrannu. Gwasgai'i athrylith allan ohono, nid er mwyn gwneud enw iddo'i

hun, ond i'r rhyfeddod o ddatguddio gael lle i fyw. Dyma oes pryd roedd peirianeg yn meddiannu'r awyrgylch.

Gyda chryn hyder gellid disgwyl y byddai'r defnyddiau hyn yn ymledu ac yn gwella o fewn blwyddyn neu ddwy bron i berffeithrwydd. Gan fod gwres yr haul bellach yn ymledu hefyd, gellid gweld eisoes y ddrudaniaeth gynt yn y gost yn disgyn yn gyson o bunt i bunt. Doeddid ddim mor ddwl â tybied y byddai hyn yn arwain at Eldorado nac at Baradwys Newydd. Pechod yw pechod. Mi fyddai annigonedd o fwyd a dillad a chyfoeth yn gwneud rhai gwledydd yn enbyd o dlawd o hyd. Ac nid oedd Cad yn credu y byddai hyn yn cael gwared â rhyfel chwaith. Fe allai rhyfeloedd amlhau, yn wir. Byddai bob amser angen amddiffyn a threfn. Ysbryd dyn yw'r gwall. Ond fe allai'r segurddod newydd bydru rhai bywydau ar y naill law ac annog creadigrwydd a'r celfyddydau neu addysg yn atebol ar y llall.

Roedd marwolaeth ei wraig wedi dysgu iddo beidio â bod yn ddall o optimistaidd. Ac eto, yr oedd yn siŵr y byddai datblygu dronau'n dwyn canlyniadau syfrdan o annisgwyl. Er ei fod yn cydnabod fod rhai gweddau ar gynnydd yn gallu methu'n farwol, onid oedd gwella'r cyflymder ar lythyrau-post yn anochel bron yn y cario breuddwydiol heb orfod dilyn ffyrdd trafndiaeth isod ac osgoi mynyddoedd a threchu lleiniau o fôr?

* * *

Ond pendronai y bu Cad, er ei waethaf. Sut y byddai hyn yn effeithio ar ffyniant y Gymraeg yng Nghymru a'r gweddill o'r byd o fewn fframwaith gwyddonol newydd? Fe anesmwythai. Yr oedd y cariad at wyddoniaeth yn trechu hyd yn oed ei reddfau cynhenid yn erbyn goroesiad yr iaith.

Hyn, yn y bôn a'i llywiodd ef.

Roedd Cad yn teimlo yn awr fod yr argyfwng hwn wedi'i fwrw ef yn gorfforol ac yn feddylol. O flaen ei lygaid, roedd ef ei hun wedi newid. Nid Cad oedd ef. Yr oedd wedi newid iddo ef ei hun, fel pe bai'n pregethu iddo ef ei hun. Siglwyd ef gan fanylder y ddisgyblaeth wreiddiedig wyddonol ynddo.

Credai rhai pobl heddiw eu bod yn rhag-weld yn ddi-os dranc yr iaith yn fuan. Ond anwybod oedd hyn i'r call, er bod yna bobl o'r fath i'w cael bob amser. Eithr, drwy ystyriaeth gariadus fe ellid ei chanfod yn cylchu am rai calonnau yn gynnes. Drwy hynny fe ddô'i'n fyw o'r newydd. Iddo ef roedd meicrocosm o gydymdeimlad hollol wrthun yn criplan i mewn i'w farn. Felly, wrth gwrs, y ceid cysylltu cyfeillgarwch technegol rhwng pobl a'i gilydd: nid yn ôl y dulliau a hyrwyddid ac a noddid gan wleidyddion: lle'r oedd gorfodaeth a deddf yn annigon i adfywio'r un iaith, ac felly'r

protestio am bobl eraill, ynghyd â'r ymddiriedwyr optimistaidd mewn addysg. Dôl dallineb dyfodol gobeithiol o'r llwyn, ar ffurf grwpiau o wirfoddolwyr oedolyn i gyfarfod â'i gilydd o'r neilltu mewn caffe i gloncian, ie, dim ond torri geiriau gyda'i gilydd. Dim ond gwastraffu amser mewn llawenydd.

Gallai Cad ystyried bod y bobl dawel hyn yn chwyldroadwyr o blaid gwareiddiad.

Ac eto, gwyddai fod rhywbeth wedi digwydd iddo. Aeth yn berson arall. Roedd daeargryn wedi cydio yng ngwar Eryri a'i hyrddio draw i mewn i Afon Menai, a'r dyfroedd wedi dilywio ar draws Ynys Môn nes peryglu'r Wylfa. Nid fe oedd ef yn hyn o beth. Roedd rhywbeth i tu mewn iddo'n pregethu'n goch. Yn lle troi i fod yn bleidiwr ysgolheictod a chywirdeb academeidd-dra yn syml; allan o'i droedigaeth ymlusgodd Cad newydd, un a ymlynai wrth egwyddorion a gwerthoedd purach na dim a ddisgleiriodd dros ogledd Cymru ers tro.

Dichon yn wir, gyda'r amlhau ar amser rhydd, fod hamdden newydd yn botensial bellach ar gyfer ailadeiladu y wedd wareiddiol a'r ffordd o fyw. Gwirionedd yn ei drechu ef oedd hyn.

Ni wyddom, yn wir, pa effeithiau a gaiff amlhau peirianwaith modern ar ddyfodol hamdden. Ni ddigwyddodd hyn i neb erioed o'r blaen. Ond nawr eisoes mae estyniad yn ein hamser hamdden mewn rhai gwledydd yn dechrau carlamu-esgor ar bosibiliadau annisgwyl. Addewir cysuron rhatach a lletach.

Gwydn yw'r cariad gwirioneddol at fywyd, yn ei ystyr letaf a chudd. Dyrys, ond mentrus. Mewn hamdden bellach mae'r angen am waith newydd, ac ymgymhwysu i'r dyfodol yn tyfu eisoes yn ddiwydiant newydd yn y presennol. Cawn bellach wyliau o astudio: rhai gyda gwaith artistig, eraill gyda llyfrau taith, eraill gyda pherfformiadau gan gerddorfeydd clasurol ar Ynys Afallon. O leiaf mae ystyr gwaith yn wahanol. Ac yn yr ystyron newydd danlli grai hyn i fywyd, mae geiriau ynghyd â'r cariad hwnnw wedi cerdded atom ni, i'n byseddu'n llythrennol, â menig gwynion y labordy, ond nid dan gloeon haearn, eithr yn llythrennol amlwg. Darganfyddwn ynom ni'n hunain bosibiliadau newydd y bodau a fuasai gennym o'r golwg rhagom ni ein hun.

Deuai'n fath o Gymro nas adwaenai.

Cafwyd llawer o broffwydo negyddol ynghylch ymarfer â'r Gymraeg gan elynion yr iaith. Ond peth sy'n ei ddistrywio'i hun yn syml yw negyddiaeth. Yn wir, ymdeimlwn eisoes ag ymysgwyd newydd sy'n datod drysau. Daw amser yn ffenomen newydd wrth ei ryddhau. Daw sgyrsiau i adeiladu presennol yn ddiymwared a gweddnewidiedig, ac yn y nos Gymreig seinia calonnau ffres y cadarnhaol ar adenydd newydd. Croeswn foroedd ar gefn y calonnau hyn.

Hyn oll a'i gorchfygai.

Ac felly, gyfeillion, trowyd tynged yr iaith ben i waered, yn din dros ben. Ofnai edrych i'r drych rhag iddo weld yn ei lygad ei hun holl wae y byd. Barddonwyd ef. Mewn un person i

ddechrau, ond yna, ar garlam, wrth reswm, mewn dau, ac yna drwy'r sir. Wedyn tan gamu ar draws sianelau a moroedd, trowyd yr hen drefedigaethau damhegol oddi ar ein meistri imperialaidd gynt i chwerthin ymhlith y siroedd gartref. Wele mae'r diniweitiaid oll yn gweld hapusrwydd o bell bell.

Chwerthin? Do. Ond a ddaeth heddwch i'r eneidiau a ddisgwyliai mor amyneddgar?

Do; ond erys dyn, o leiaf, am ryw hyd; a thrwy drugaredd erys dau lwybr-dewis.

LLYTHYRAU AT DEWI

ADOLYGIAD

The Poems of Dafydd ap Gwilym, Joseph P. Clancy, Brown Dog Books, 2016 tt. 389 £17.50

Ganwyd Joseph Clancy yn Efrog Newydd yn 1928, lle y daeth yn ddiweddarach yn Athro Saesneg a Drama yng Ngholeg Marymount, Manhattan. Ef bellach yw'r cyfieithydd mwyaf cynhyrchiol a chyson, dros gyfnod hir iawn, a gafwyd yng Nghymru erioed.

Mae swm ei waith yn syfrdanol, yn arbennig o waith yr ugeinfed ganrif. Digon fyddai'r gwaith diweddar hwnnw ei hun, heb ddim arall, er mwyn sylweddoli ei flaenoriaeth; digon yn wir pe na soniwn ond am ei bedair cyfrol *The Plays of Saunders Lewis* (1965-6), lle y cafwyd tair ar ddeg o ddramâu Saunders Lewis, a'r gyfrol sylweddol *The World of Kate Roberts* (1991), a gyhoeddwyd gan Temple University Press. Ar ben hynny, sut bynnag, roedd ef wedi mynd ati'n systematig i gyfieithu ein barddoniaeth o'r chweched hyd yr ugeinfed ganrif. A'r hyn sy'n ganolig i'w ragoriaeth gyson yw mai bardd gwirioneddol wreiddiol, catholig, gonest a chynnes yw'r cyfieithydd hwn. Nid oes neb tebyg iddo. Mae yna wir ddisgleirdeb ac egni dychmyglon yn pefrio drwy'i waith.

Bellach y mae Joseph Clancy yn wanllyd iawn mewn cartref gofal yn Glasgow o fewn deng munud i gartref ei fab, yr Athro Thomas Clancy, sydd yn y Gadair Geltaidd ym Mhrifysgol Glasgow. Ond cyn hynny yr oedd wedi cwpla'r gwaith presennol.

Dechreuwyd hanes *The Poems of Dafydd ap Gwilym* mor bell yn ôl â 1959, mewn gwirionedd. Gwaith oes yw. Roedd Joseph Clancy ar y pryd yn chwilota yn llyfrgell y coleg yn Efrog Newydd. Ac yn sydyn darganfu gyfrol Gwyn Williams, *Introduction to Welsh Poetry*. Cafodd dröedigaeth fechan. Darganfu gerddi Dafydd ap Gwilym, ac fe'i cyfareddwyd ef. Eisteddodd i ddal ei anadl. Eto, ni allai fod wedi dychmygu y byddai hyn yn ei arwain at gyhoeddi yn 2016 y cyfieithiad hwn o waith cyflawn y fath fardd. Byddai'r un digwyddiad hwnnw yn llyfrgell y coleg yn ei osod ar lwybr a'i harweiniau yn fuan at y ffordd drwy *Medieval Welsh Lyrics* (1965), ac wedyn drwy *Medieval Welsh Poems* (2003) ac ymlaen hyd at y gyfrol hardd hon.

Dyma benderfyniad ac ymrwymiad rhyfeddol i gyfieithydd. Yr oedd hefyd yn ymrwymiad a datblygiad personol iddo fel bardd, o ran testun a chreffft. Fe'i meddiannwyd ef gan Ddafydd mewn ffordd fel y byddai'i feddwl am Gymru a'i thraddodiad, a'i ymwneud cyson ag arddulliau amryfal, llyfr a llafar, yn ei arwain at weledigaeth Dafydd o ryfeddod y greadigaeth yn ffurfio'i brofiad ei hun yn barhaol.

Mae'r gyfrol o waith Dafydd ap Gwilym yn ffenomen. Dyma'r gyfrol gyntaf i gynnwys yn gyflawn gyfieithiad o'r cwbl o'i waith hysbys fel y'i cyhoeddwyd, yn safonol newydd, yn ôl y golygu ysgolheigaid mwyaf datblygedig gan dîm Canolfan Uwchefrydiau Cymraeg a Cheltaidd dan arolygiaeth yr Athro Dafydd Johnston. Mae'n cynnwys rhai cerddi nas cynhwyswyd gan Thomas Parry yn ei olygiad meistraidd. Gwrthodir neu adferir rhai darlleniadau, yn arbennig yn yr atalnodi. Ond dyma hefyd gyfieithiad gan wir fardd eithriadol o rymus, y cyfieithiad agosaf lle y daethpwyd erioed i ddal ysbryd, afiaith, ac athrylith barddoniaeth Dafydd ap Gwilym. O holl gyfrolau Joseph Clancy, dyma'i gampwaith pennaf. Mae yn wir awenyddol yn ôl ei hawliau barddonol ei hun. Ac anodd rhoi'r llyfr i lawr wedi cydio ynddo.

Mae yna ddehongliad disglair o waith Dafydd, – dros 150 o gerddi ysbrydoledig, o ran testun manwl wrth gwrs, ond heblaw hynny, ceir rhagymadrodd thematig, mewn dosbarthiad gweledigaethol o'r cerddi, a nodiadau defnyddiol hefyd. Ac fe dynnir sylw at unigolyddiaeth gwicsotig Dafydd, ei ddeallusrwydd a'i hunanfeirniadaeth, ei goegi a'i ffrwythlonrwydd, ei sangiadau bythol a'i gynghanedd lawn asbri, a'r gymdeithas ddynol, adarol ac anifeilaidd o'i ddeutu, – a'r coed mawrhydig ymhobman.

Fe'i cyhoeddwyd gan Clancy yng Nghaerfaddon ar ei gost ei hun, yn dra phroffesiynol – ac fe huriodd y Wasg eu darllenydd Cymraeg eu hun, un cwbl ysblennydd.

Y modd mwyaf priodol i gyfleu rhywbeth o fawredd y cyfieithu hwn fyddai drwy ddyfynnu telyneg gyflawn (coeg o hunan-chwarddol) o'r gyfrol, sef 'The Girls of Llanbadarn'. Efallai y dylwn nodi fod dysgwr Cymraeg arall, neb llai na'r Tywysog Charles, yn 1969 wedi dod i'r un dref sef Aberystwyth ac wedi dysgu tipyn o Gymraeg, a chyn ymadael wedi rhoi araith yn yr iaith Gymraeg yn Eisteddfod yr Urdd. Yn ystod yr araith yna, fe gyfeiriodd at ferched teg Llanbadarn, a chyfaddef ei fod yntau'n darllen Dafydd ap Gwilym yn ei wely bob nos. Dyma'r cywydd:

Passion doubles me over,
Plague take all the parish girls,
Because, frustrated trysting,
I've had never a single one,
No virgin, tender pleading,
Not a wench or witch or wife.

What's the hindrance, what mischance
What flaw, that I'm not fancied?
What harm if a slim-browed girl
Has me in dense dark woodland?

No shame for her to see me
Lying in a bed of leaves.

Not a time I wasn't loving,
There's not been so fast a spell
Surpassing Garwy's passion,
Either one or two a day,
And for all that, no closer
To finding a friendly one.

No Sunday in Llanbadarn
I'd not be, and others condemn,
With my face towards a graceful maiden
And my nape towards gracious God.
And when I've had a long look
Over my plumes at my parish,
The bright clear-voiced dear whispered
To the other, sassy and shrewd:
'Lascivious is the look,
His eyes know to hide his evil,
Of the pale-faced flirt of a lad
Decked in his sister's tresses.'

'Is that what he has in mind?'
Says the other beside her,
'He'll never have an answer:
Devil take him, dafty thing.'

Cruel the radiant girl's curse,
Small pay for bedazzled passion.
I'm compelled to call a halt
To these ways, frightful nightmares.
Best I become like a man
Turned hermit, outlaw's condition.

Too much looking, strict lesson,
Behind me, a sorry sight,
Has left me, fervent song's friend,
Head bent, with no companion.

Diddorol yw pensynnu uwchben mydryddiaeth y cyfieithiad o waith Dafydd, wrth sylwi hefyd ar gyfrol graff Clancy o feirniadaeth lenyddol *Other Words*, University of Wales Press, Cardiff, 1999. Yma, y mae'n trafod y cysylltiad rhwng ei dasg o lunio'i gerddi personol ei hun a'r dylanwad a gafodd cywyddau Dafydd ar ei fydryddiaeth. Mae Clancy yn wir fardd ynndo'i hun. A llinyn di-dor yw ei farddoniaeth wreiddiol a'i gyfieithiadau. Fel hyn y disgrifiai ef un wedd gyfyngedig ar ei fyfyrdod eithriadol o amlochrog yn y gyfrol honno. (Sôn y mae am gerdd am Gastell Caerdydd, a luniodd ym 1975): 'It demanded the use of what I have elsewhere called a quasi-cywydd, an adaptation of a Welsh verse-form I first used in translating Dafydd ap Gwilym and employed for most of my own poems over a dozen years or so. This particular poem uses not only seven syllable lines in couplets that alternate stressed and unstressed endings but also radial structure and, very extensively and perhaps bewilderingly on first reading, the systematic side-steps known as *sangiad* and *trychiad*.'

Pan dderbyniais y gyfrol hon, felly, fe ddigwyddodd dau beth. Yn gyntaf oll, bu'r gyfrol wrth fy ochr am wythnos, a'i darllen yn ddi-baid. Dyma Ddafydd wedi dod yn gyfoeswr, yn fodern, ynghyd â bod yn ganoloesol gyfun newydd. Mae'n llefaru fel yr oedd yn ei gyfnod, ac yn union fel y gwnelai pe bai'n sgrifennu yn yr unfed ganrif ar hugain. Ac yna, am fisoedd, bûm yn troi'n ôl ac ymlaen i'w flasu'n achlysurol: cefais fy llyncu. Mae'r rhagymadrodd yn feistraidd, yn gwlychu'r chwit, ac yn dweud popeth sy'n angenrheidiol am gefndir cofiannol y ffenomen Dafydd ap Gwilym, am gyd-destun cymdeithasol y cyfnod, ac am y fframwaith ffurfiol ym mydryddiaeth Gymraeg; yna, gan mai amhosibl yw dyddio'r rhan fwyaf o lawer o'r cerddi, mae'r golygydd wedi esbonio sut y mae'n trefnu'r olyniaeth yn thematig ddadlennol ac yn ôl eu llenddull.

Gyda'r gyfrol hon, sut bynnag, yr ydym o'r diwedd yn gallu syllu ar banorama cyfraniad Joseph Clancy i Gymru, ac felly i'r byd i gyd. Dywedodd yr Athro Idris Foster, Rhydychen un tro: 'I well remember when an old friend, a former President of the Classical Association and of the English Association, greeted me with a joyful declaration that he had discovered why I considered Dafydd ap Gwilym to be a major poet, for proof he held aloft *Medieval Welsh Lyrics*'.

Y gyfrol honno ar y pryd yn 1965 gyda'i rhychwant amrywiol o ran awyrgylch, testun, ffurf ac arddull yw'r gyfrol gyda *Medieval Welsh Poems* 2003, sef barddoniaeth c. 575 – c.1525 (a seiliwyd ar ei ddwy gyfrol *The Earliest Welsh Poetry* 1970 a *Medieval Welsh Lyrics* 1965) a fu'n

baratoad gan Clancy cyn i'r gyfrol bresennol *The Poems of Dafydd ap Gwilym* 2016 gael ei golygu yn awr. Yr wyf yn ceisio dadlau bod y gyfrol olaf yn ganlyniad i gwmpasiad Clancy o broses arolygu holl rychwant cyfoeswyr a rhagflaenwyr Dafydd. Ffrwyth pennaf oes yw.

Ond mae holl beirianwaith cyfieithu ei hun yn berthnasol inni wrth arolygu camp Clancy. Fe'i hamlygir fel crefft unigryw ysbrydoledig cyfoes. A chrwydrwn o'r herwydd i'r oes bresennol yn arbennig. Fe'm gyrrwyd yn awr i ddarllen ei waith cyfieithu o'i gwr o'r newydd. Ac yna symudais i ddarllen ei waith personol creadigol ei hun, a'r holl feirniadaeth lenyddol ganddo sy'n canolbwyntio ar dechneg cyfieithu fel y cyfryw. Sylwch ar y panorama cyfoes a daenodd ger ein bron inni orfoleddu ynddi. Hynny yw, dengys y gyfrol fod cyfieithu yn gelfyddyd mor arwyddocaol fel y gall gyflwyno'n rymus wareiddiad barddol mawr i fyd cyfoes na wŷyr odid ddim am fodolaeth y fath ddiwylliant cyfrinachol mewn gwlad fechan ddiarffordd y mae ei thraddodiad proffesiynol, nid yn unig yn ymestyn yn ôl i'r chweched ganrif, ond sy'n arwain yn ddi-dor drwy'r Prifysgolion cudd barddol ymlaen i'w huchafbwynt, naw can mlynedd wedyn yng ngwaith y bardd anghyffredin o gosmopolitaidd hwn. Ac yna, saith can mlynedd ar ôl hynny, arweiniais at fardd o gyfieithydd, yn yr un ardal â chartref Dafydd (sef Aberystwyth) i'w gyflwyno o'r newydd mewn ffresni syfrdanol i gynulleidfa drwy iaith fydeang.

Cyhoeddodd Clancy Flodeugerdd sylweddol o'r ugeinfed ganrif, *Twentieth Century Welsh Poems*, Gomer 1982. Mae'n cynnwys 218 o gerddi gan ddechrau gyda T. Gwynn Jones a chan orffen gyda Nesta Wyn Jones, (merch, sylwer ar y diwedd fel yr oedd yn gweddu wrth ddibennu canrif â'i gwth ar ei hyd a fu tuag at gynnydd merched). Y gyfrol honno yn 1965 gyda'r rychwant amrywiol o ran awyrgylch, testun, ffurf ac arddull ynghyd â'r gyfrol gyda *Medieval Welsh Poems* 2003, sef barddoniaeth c 575 – c 1525 (a seiliwyd ar ei ddwy gyfrol *The Earliest Welsh Poems* 1970 a *Medieval Welsh Lyrics* 1965) oedd y paratoad pennaf gan Clancy, cyn i'r gyfrol bresennol *The Poems of Dafydd ap Gwilym* 2016 weld golau dydd. Mae Clancy yn meddwl am bob barddoniaeth arwyddocaol fel rhywbeth sy'n gyfoes, hynny yw fel rhywbeth sy'n llefaru yn bwrpaslawn wrthym ni heddiw. Mae'r gorffennol bob amser yn ffitio i mewn i brofiad ac i idiom cyfoes o'r awen Gymraeg. Cafwyd cyfrolau ganddo i rai beirdd unigol o'r ugeinfed ganrif, megis ei gyfrol nodedig *Saunders Lewis, Selected Poems*, University of Wales Press 1993, sef y cwbl o farddoniaeth y bardd hwnnw heblaw hepgor ei gyfieithiadau wrth gwrs, a'r emynau. Yna, *The Light in the Gloom, Poems and Prose*, Alun Llywelyn-Williams, Gee, 1998, a detholiad dwyieithog o waith Gwyn Thomas, *Living a Life*. Rhwng yr Oesoedd Canol (o'r chweched ganrif hyd yr unfed ar bymtheg) a'r Cyfnod Modern, (sef yr ugeinfed ganrif), cafwyd cyfnod o bedair canrif. Tybiaf y byddai Clancy wedi llenwi'r bwlch hwnnw. Lluniodd gyfieithiadau o gyfres hir o'r Hen Benillion Serch, *Where There's Love*, Welsh Folk Poems of Love and Marriage, yn ogystal ag wyth o emynau gan Bantycelyn a

naw gan Ann Griffiths. Roedd ef fel pe bai'n awyddus i lenwi'r bwlch; ond ni chafodd gyfle llawnach.

Roedd ganddo wir hoffter at ddramâu. Lluniodd un ei hun nas cyhoeddwyd, a threfnodd berfformio cyfieithiad o un o ddramâu Gwenlyn Parry yn Efrog Newydd. Bu'n fwriad ganddo gyhoeddi casgliad o waith y dramodydd eithriadol o bwysig hwnnw. Ond roedd ef ei hun yn fardd gwreiddiol: *The Significance of Flesh*, (1984) yw'i gyfrol sylweddol gyntaf. Fe'i dilynwyd gan *Here and There, Poems 1984-1993*, ac yna *Ordinary Time*, (2000).

Yna am ryw reswm, rhy ddwfn i mi geisio'i ddyfalu, fe gyhoeddodd gasgliad o storïau byrion dan y ffugenw P.G. Thomas, *The Retired Life*, Northgate Press, 1997. O'r un hen wasg ddirgel, a leolwyd yn agos i ogof yn Heol y Gogledd, Aberystwyth, cafwyd (gyda chydweithrediad ei wraig Gerrie) stori dditectif a leolwyd o ran amser yn 1387, ac o ran lle, ar bererindod i Eglwys Caer-gaint, gyda Geoffrey Chaucer yn dditectif sy'n datrys dirgelwch llofruddiaeth a gyflawnwyd yn ystod un arhosiad ar y ffordd. Meddai'r *New Welsh Review*: '*Death is a Pilgrim* is a tremendously readable book in which the pilgrims' tales are their evidence given to an inquiry into the death, a device which nicely echoes the original.'

Math o ddweud diolch am waith mor aruthr fu ei anrhydeddu heddiw gyda'r cyfieithiad cyhoeddedig hwn, peth a wnaethpwyd hefyd wrth ethol Joseph Clancy yn Gymrawd er anrhydedd o Brifysgol Aberystwyth ac yn DLitt er anrhydedd gan Brifysgol Cymru, gan gydnabod yn syml ei waith personol gwreiddiol yn ogystal â'r cyfieithiadau. Ond mae ef wedi'n hanrhydeddu ni oll yng Nghymru – boed yn Gymry Cymraeg neu'n Gymry di-Gymraeg, a'r byd oll, ag oes ffrwythlon o gynhyrchrwydd cawraidd, gan gynnwys ei lafur yn y gyfrol hon, na byddai neb – rwy'n sicr – wedi'i mwynhau'n fwy na Dafydd ap Gwilym ei hun.

Bobi Jones

[Troednodyn personol i dderbynnydd y llythyrau hyn:

Annwyl Dewi,

Nid amhriodol yw bod yr adolygiad hwn yn cael ei gynnwys yn y gyfres hon o lythyrau atat ti, gan fod Joe yn ei ragymadrodd i'r gyfrol o waith Dafydd yn nodi'i ddiolch i'r 'poet and critic Dewi Stephen Jones for his constant interest and encouragement'.]

LLYFR Y DATGUDDIAD

LLYTHYRAU AT DEWI (2)

RHAGARWEINIAD

Iesu Grist ei hun yw awdur y *Datguddiad*.

Datgenir, yn y frawddeg gyntaf yn *Datguddiad*, y wybodaeth honno yn y Cyfarchiad gan Ioan ar ran Iesu Grist. 'Dyma'r datguddiad a roddwyd gan Iesu Grist. Fe'i rhoddwyd iddo ef gan Dduw, er mwyn iddo ddangos i'w weision y pethau y mae'n rhaid iddynt ddigwydd ar fyrder. Fe'i gwnaeth yn hysbys trwy anfon at ei was Ioan.' Fel arfer, ystyriwn mai'r Ysbryd Glân yn benodol sy'n ysbrydoli neu'n 'anadlu' llyfrau eraill y Beibl. Ond mae proses cynhyrchu *Datguddiad* yn wahanol. Ceir plethwaith o dri – Iesu Grist yn ffynhonnell ac yn awdurdod, Ioan yn was ufudd o ysgrifennydd, ac angel sy'n fath o gennad ar ran yr Ysbryd Glân sy'n bresennol, fel y mae drwy gydol yr Ysgrythur. Adleisir y ffeithiau hyn ar ddiwedd eithaf y llyfr. Felly, rhydd Iesu ei drwydded o fendith ar y sgrôl, fel y bydd Paul gyda'i lythyrau. Dat. 22:16, 'Yr wyf fi, Iesu, wedi anfon fy angel i dystiolaethu am y pethau hyn i chwi ar gyfer yr eglwysi...' Dat. 22:18-20, 'Yr wyf fi'n rhybuddio pob un sy'n clywed geiriau proffwydoliaeth y llyfr hwn: os ychwanega unrhyw un ddim atynt, fe ychwanega Duw iddo yntau y plâu sydd wedi eu hysgrifennu yn y llyfr hwn. Ac os tyn unrhyw un ddim allan o eiriau llyfr y broffwydoliaeth hon, fe dynn Duw ei ran yntau o bren y bywyd, ac o'r ddinas sanctaidd, y pethau yr ysgrifennwyd amdanynt yn y llyfr hwn. Y mae'r sawl sy'n tystiolaethu i'r pethau hyn yn dweud, "yn wir, yr wyf yn dod yn fuan." Amen. Tyrd, Arglwydd Iesu!'

Wedi clywed yr hawliad yna, mae yna rai pethau sy'n amlwg eisoes, a rhaid i Gristion eu derbyn. Fel pob llyfr arall yn y Beibl y mae a wnelo'r *Datguddiad* â'r Goruwchnaturiol a'r Naturiol: lluniwyd y llyfr drwy law'r apostol Ioan er gogoniant i Dduw. Y mae felly yn anffaeledig ac yn cael ei gyflwyno i bawb drwy'r Ysbryd Glân. Duw sydd yma ar ei orsedd, ac yn frenin. Ond mae dyn yma hefyd, wrth gwrs, yn amherffaith ynddo'i hun (megis yr apostolion eraill), ac yn bechadur o fewn amser a gofod, yn ffiniedig, ond yn cael ei ddiogelu gan yr Ysbryd. Oherwydd hynny, y mae popeth goruwchnaturiol mewn gwirionedd y tu hwnt i *lawn* ddeall y Saith Eglwys, Dat. 3: 10-11. Ni all darlennydd ddeall dim o'r llyfr hwn yn gyflawn yr ochr hon i'r bedd. Er hynny, rhaid bod yr Iesu wedi ewyllysio gosod gerbron pethau fel y maent. Ac am eu bod yn bethau goruwchnaturiol yn eu llawnder, y maent y tu hwnt i ddeall o fewn cyd-destun naturiol cyfyngedig ffaeledig. Roedd dweud y gwir yn yr union eiriau hyn, er gwaethaf ffaeledigrwdd y darllenwyr, yn angenrheidiol.

Dyna'n man cychwyn. Dyna ddechrau gyda rhyfeddod. Yn nes ymlaen, gorffennir y Beibl gan yr Ysbryd Glân mewn dadleniad sy'n datgan y Ddaear Newydd a'r Nefoedd sydd eto y tu hwnt i'r llen, ond yn gysur i'r eglwysi. Mae'n ymddangos i ni fod y llyfr hwn yn benodol wedi'i ysgrifennu mewn cywair unigryw. Mae'n anodd yn unpeth, am ei fod wedi'i ysgrifennu mewn iaith ond o'r tu hwnt i'r llen. Mae'n amlwg fod yr iaith hon wedi'i bwriadu i'w deall gan gredinwyr o'r tu yma i'r llen. Dyma iaith i'r ymostyngwyr gweddill. Dyma, mae'n amlwg, iaith gyflwyniadol i'r Ddaear Newydd, iaith o'r orsaf olaf.

Lluniwyd y llyfr gyda phwrpas. Yn wahanol i bob llyfr arall yn y Beibl, dyma un y mae pob llyfr arall yn ei ragflaenu. Fe'i rhoddwyd yma fel clo. Mae'n ben draw i'r llyfrau Beiblaidd eraill; ac o ran cynnwys ac ystyr, y mae'n dod ar ddiwedd Amser a Gofod eu hun, ac ar ddechrau goleuni dinos. Dyma safle unigryw.

Dyna grybwyll perthynas *Amser* i Iesu Grist a'i lyfr. Rhoddaf lythyren fawr Amser – A – fel yna oherwydd ei fod bellach yn ffenomen mor arwyddocaol. Hoffwn ymdroi gyda thema Amser am ychydig gan ei fod wedi bod yn ffactor mor amlwg ym mywyd a hanes dynoliaeth a'r Beibl. Mae'n asgwrn cefn i ffurf y Beibl, wrth gwrs. A'r ffaith y mae'n rhaid ei sylweddoli yw bod Amser wedi 'cwmpo', fel pob dim; mae Amser eisoes wedi newid yn awr o fewn y ddaear hon. Ond bydd yn newid eto. A'r newid nesaf hwnnw yw'r un yr ydym yn ei wynebu yn *Datguddiad*. Dechreuodd Amser fel y gwyddom amdano ar hyn o bryd gyda'r cwmp, ac yn awr drwy law Ioan yr ydym yn gweld beth sy'n ei wynebu yng ngoleuni *Datguddiad* a'i weledigaeth: sef gweld Amser fel y saif Duw yn eglurach fel Alfa ac Omega, y dechrau a'r diwedd. Gwyddom fod ansawdd Amser i gyd, yn Nhragwyddoldeb, yn 'bresennol' yr un pryd: i dragwyddoldeb bydd gorffennol a dyfodol i gyd yn digwydd yr un pryd. Ac fel yna y'i gwelwn ni ef wedi dirwyn i gyd i ben mewn barn.

Dyma ddistryw Amser drwy fynd yn wrthdrawiad â thragwyddoldeb. Diflannodd Amser byd methodig i ddifancoll.

Mi all y Cristion honni – fel y gwneuthum – fod Amser yn yr ystyr naturiol, syrthiedig, adfeiliol a threuliedig wedi dechrau gynt gyda'r cwmp. Cyn y cwmp yr oedd dyn (Adda) gyda Duw yn nhragwyddoldeb. Dyma hefyd oedd yr un olwg a gafodd Ioan yn ei *Ddatguddiad*.

Ond beth yw tragwyddoldeb Duw? Mae'n ffenomen sy'n bodoli fel popeth yn berffaith. Ni all dyn yn awr ystyried hyn ond o bell, yn dywyll. Ond i Dduw sy'n gwybod pob peth fel pe bai ar gael erioed cyn y dechrau, ac esgor ar fodolaeth nefoedd a daear, bydd tir a môr ar gael i'w feddwl, – goleuni a thywyllwch di-gwmp, y 'dydd' cyntaf a'r ail 'ddydd', ac yn y blaen nes cyrraedd y cwmp, a'r Waredigaeth a'r Croeshoeliad (i'w gweld yn ôl Amser Duw) – felly ymlaen hyd ddiwedd Amser daearol. Ceisio yr wyf ddisgrifio amgylchfyd diamser y tu hwnt i'r hyn sy'n normal yn awr. Mae'n ymddangos bod hyn oll wedi bodoli ar ryw bwynt mewn modd mesuradwy, heb Amser

mewnol, i gyd yr un pryd mewn cynllun cyfan; ac fe eglurir hynny oll i ni eto yn glir maes o law. Datguddir y dirgelwch oll inni ar hyn o bryd yng ngeiriau'r Duwdod yn *Datguddiad*. Hynny yw, am y tro cyntaf, cyflwynir y trosgynnol mewn modd uwch-dynol; ac mae cymhelliad Iesu Grist yn helpu'n uniongyrchol mewn modd nas gwnaeth ynghynt nac wedyn. Os cawn y llyfr yn anodd neu'n ddieithr, y mae'n naturiol inni geisio ymholi ym mha ffordd.

Mae'n ymwneud â'r Greadigaeth oll, a'i thynged, a hynny dan arweiniad y Crëwr ei hun. Rhaid bod ganddo bwrpas eglurhaol arbennig.

Sonia gwyddonwyr diweddar yn hyderus, wrth gwrs, am Glec fawr tua'r 'dechrau', ond nid oes ganddynt unrhyw brawf am unrhyw sŵn ar y pryd; a rhaid i ninnau, os ydym yn onest, ddechrau ymchwilio gyda'n hamgyffrediad deallol ac o ran ymarferoldeb – ymhell cyn y Glec fawr gyda chwestiwn ynghylch achos treiddgarwch i'n daear, a chydag ateb y cyngor Tri-yn-Un. Beth oedd achos y Glec Fawr? Er mwyn i'r gwyddonwyr gael seiliau diogel i'w damcaniaethau diweddar roedd angen casglu'r ffeithiau caled i gyd, ond ni wnaethant hynny. Dychymyg fu pob damcaniaethu hebddynt ar sail rhagdybiau parod. O'u safbwynt hwy, roedd 'Cyn y Glec Fawr' yn broses, proses na wyddent ddim amdani drwy ddulliau gwyddonol dychmygol. Gwasgent hwy'r cwbl o fewn rhagdybiau dychmygol annigonol. Yn wir, ar y ddaear ni bydd yn bosibl amgyffred hynny am ein bod yn gorfod aros yn awr y tu mewn i ddimensiwn a methodoleg naturiol. Ond caiff Cristion fynd yn y man drwy ddrws sicr *Datguddiad* a gweld y diwedd yn bresenoldeb diogel: dadlennir Daear Newydd a Nefoedd Newydd. Yno bydd gennym bethau eraill mwy gogoneddus i feddwl amdanynt. Gwell yw cydnabod dau gyflwr – y Naturiol cyfyngedig a ffaeledig, a'r Goruwchnaturiol diamser. Hyn, gredaf i, yn ôl yr wyth adnod gyntaf yn y bennod gyntaf yw cefndir anochel Llyfr Datguddiad.

Eto, y mae yna ffactorau eraill y gallwn sôn amdanynt ar y dechrau oherwydd y Weledigaeth a rydd Datguddiad am y diamser sydd yno, ac o fewn Amser ymarferol bob dydd yn y Saith Eglwys. Dyna'r pethau a oedd mewn golwg gan Iesu Grist yntau – y dyndod perffaith o fewn gofod ac amser, a'r Duwdod effro yntau o fewn Gofod ac Amser – y tu hwnt i gyfyngiadau y dyn marwol. Ef, yn anad neb o'r Duwdod, a gafodd y swydd arbennig i bresenoli o fewn corff ac eto heb bechod, oherwydd ei gariad at y 'byd'. Y ddeuoliaeth bontiol hon oedd yr hyn a bregethwyd yn y swydd hon i'r Saith Eglwys yn *Datguddiad*.

Esgusoder 'crwydrad' ymddangosiadol yn awr, ar sail fy nghefndir mewn Ieithyddiaeth Guillaumaidd. Hoffwn drafod **diwinyddiaeth Amser**, yn arbennig fel estyniad ar fyfyrdod hirfaith Guillaume ynghylch y ffenomen honno, er na ddewisodd ef ymwneud â'r diriogaeth honno sydd gennyf innau mewn golwg.

Gwelodd Guillaume ferfau yn enghraifft sy'n cynnwys potensial Amser. Y mae 'fi'r presennol (gofod ac Amser) yn sefyll felly **i rannu Amser**. Sefyllfan allweddol yw'r **Presennol**. Yn

awr y mae'n gosod ffiniau. Bu popeth sydd yn awr yn bresennol rydd mewn amser, yn agored ac yn ddiffiniau ar yr adeg cyn y Cwmp, cyn cwmp Amser. Newidiodd natur y 'fi' ei hun gyda'r Cwmp. Cwmpodd oddi wrth normalrwydd iach. Ceisiodd ei sefydlu'i hun yng nghanol popeth. Bellach yn y presennol hwnnw, y presennol-hunan-bwysig a disodlol, cafwyd rhyw fath neu fathau (o **Amser darfodol**), yr ydym ni drwy gydol Amser (bellach) yn eu casglu yn y cof, sef y **Gorffennol darfodedig**. Hefyd, o ymddangosiad Presennol cwmpedig ymlaen, ceir cyflwr heb feddu dim ohono yn y presennol, lle yr ydym yn cael **Dyfodol**. Bydd gwahanol ieithoedd yn dyfeisio, yn isymwybodol ac yn anfwriadus, ddadansoddiad gwahanol o Amser, oherwydd yr her. Mae'r nifer o dympau (*tenses*) yn amrywio o iaith i iaith ynglŷn â phwynt, neu safle, neu yr agwedd (*aspect*) y siaredir amdanynt, ac o'r ddelwedd o'r 'cyfeiriad' (yn ôl neu ymlaen) y canfyddir yr Amser yn cael ei gyfleu. Gellid ystyried Amser gyda'r cwmp yn broblem i'w dadansoddi a'i mynegi. Ac nid oedd yr Amser hwnnw'n dwt, berffaith, unplyg. Aeth yr ieithoedd ati i'w amgyffred mewn ffyrdd gwahanol. Yn y Gymraeg, ceir gwahaniaeth rhwng 'bu' ac 'oedd', rhwng 'do, oes, ac ydyw', a rhwng y defnydd o'r parhaol a'r cymalau israddol sy'n cyfuno Amser drwy eiriau o fewn Amser, bob un yn chwilio terfynau'r tu yma, bellach, bob un yn dyfeisio problem mynegi.

Mae Guillaume yn trafod rhyfeddod ymffurfiant gwahanol o'r 'Gair' o iaith i iaith, mewn gwahanol Ardaloedd ledled y byd (neu, fel y'u geilw, 'Aires' meddyliol wrth ffurfio iaith). Ond bob amser, ysgogir y broses neu'r system (neu gyfundrefn) o lunio cyfanrwydd 'Gair' drwy bedwar cam ffiniedig: (i) Rhaid i'r ysgogiad i 'ddweud' ddigwydd mewn Ystyr neu Syniad Mewnol; (ii) Cyn cael Gair yn ymarferol ddefnyddiol leisiol, ni ellir osgoi Ffurf o ryw fath – cnawd corfforol. [Dyna ddeunydd a ffurf i ddyfais newydd iaith, yn esgor ar y cynrychioliad.] (iii) Mae yna bont neu drothwy, o raid, sy'n cymhell neu'n cysylltu'r ddwy ffenomen hyn o fewn gofynion bodolaeth, mor benodol o wahanol ac amhendiant – , sef yr hyn sy'n gyrru'r Syniad cychwynnol i feddiannu ffurf ar y pryd, hyd at (iv) Mynegiant, y Disgwrs.

Rhaid oedd cael trefn yn gyfundrefn er mwyn dweud. A hyn a ganiatawyd i ddyn gan Dduw drwy Ras Cyffredinol.

Bellach, o ganlyniad i'r gwaith dadansoddol (isymwybodol) hwn, deuir i ymwybod neu i geisio'r ffurfiau'r anweledig meddyliol. Dyna yw system.

Mae'r broses hon yn cymryd Amser i'w llunio'n ddefnyddiol, o raid, y rhan leiaf o chwinciad ar y pryd er mwyn mynegiant. Ond eiliad yw y gallwn ei fapio ar hyd echel.

Yn awr, wedi'n harfogi â'r myfyrdod hwn, gallwn ddychwelyd yn fwy parod i ymwybod â thasg Ioan o roi adroddiad yn *Datguddiad* am berthynas gyferbyniol diflannu Amser i Gristnogion ar ddiwedd y byd: y ddaear newydd a'r nefoedd newydd.

Amhosibl yw geirio'r aneiriadwy. Ond mynnodd Iesu Grist ei wneud oherwydd cariad

trefnus at y byd. Derbyniodd offer dynion pechadurus. Roedd eisiau geirio llawer o'r amhosibl-eigredu syrthiedig ar gyfer dynion meidrol. Mae'r gwirionedd ysgrythurol felly ar gael. A'r cam cyntaf yw derbyn cymorth a goleuni'r Ysbryd Glân. Nid eir cam hebdo. Ond drwyddo eir i ganol y Greadigaeth. Mynegir hyn yn *Datguddiad*: y Deunydd a Ffurf, drwy'i Gymhelliad.

Drwy'r Ysbryd Glân, mewn perthynas newydd a bywyd newydd, ceisir mewn trefn olau ogoniant Duw drwy iaith dyn.

Dyna pam y ceir y fath ddieithrwch heddiw yn llyfr *Datguddiad*. Y mae mor anodd i'r dyn meidrol, y mae'n gofyn iddo ddibynnu'n llwyr ar eiriau'r llyfr, ei dreulio, ei ymwneud â dimensiwn arall. Yn y fath sefyllfa ni fedr ddeall ei hymhlygion. Ar hyn o bryd, edrychir drwy wydr a gweld yn rhannol, ond y pryd hynny (sef y tu hwnt i amser) wyneb yn wyneb, – mewn tragwyddoldeb cyffredinol.

Llyfr i bawb yw *Datguddiad*, serch hynny, ac yn swnio i'r crediniwr ac i'r anghrediniwr yn aneglur. Ond gall hyd yn oed anghredinwyr ddarllen y llyfr hwn ar yr wyneb. Gall anghredinwyr ymateb i foesoldeb ac estheteg y testun. Gall eu teimladau gael eu hysgogi gan feddwl drwy iaith. Gallant hefyd ymgynnig i efrydu trefn gywrain a dirgel yr ystyr. Gallant 'geisio' osgoi ateb o ryw fath i'r gyfrol. Felly nid oes esgus dros osgoi gan neb. Mae'n cael ei gynnig i bawb.

Ac eto, erys rhywbeth heb ei ddadlennu'n llawn eto. Yr ydym oll mewn rhyfel goruwchnaturiol. Ymgais dyn i reoli'r byd, a'i wneud ei hun yn dduw, yw'r rhyfel. Ond nid felly yr ochr draw, nid oes cecran yn y Deyrnas; ac eglura Act. 17: 26 y rheswm am yr heddwch newydd: 'Gwnaeth ef o un dyn yr holl genhedloedd, i breswyllo ar holl wyneb y ddaear, gan osod cyfnodau penodedig a therfynau eu preswylfod.'

* * *

Mae'r myfyrdod hwn ynghylch diflaniad Amser yn bwysig oherwydd ei fod yn ffenomen sy'n cael ei drechu a'i feistroli yn newydd ddilys yn *Datguddiad*.

Ond mae trefn y llyfr hwn yn unigryw.

Y drefn hon a'r adeiladwaith hwnnw yw'r pwynt nesaf y ceisiaf eu hesbonio. Mae dyn yn wynebu'r dasg oherwydd ei fod mewn sefyllfa baradocsaidd, Fe wneir hyn yn feidrol ffaeledig ar sail y gorchymyn diwylliannol yn Eden sy'n ein procio ni i ddefnyddio'n cyrff a'n meddyliau a'n dychymyg a'n rheswm hyd yr eithaf i ddeall cymhlethdod y ddaear a'i diwyllio a'i defnyddio er clod i Dduw. Mae'r cyneddffau cyfyngedig hyn bellach yn ffinedig yr ochr hon i'r terfyn (a heb fedru honni'n ystyrion unrhyw awdurdod na phendantwydd). Ond mae'r gorchymyn diwylliannol yn ein herio ni i wneud ein gorau. Defnyddir offeryn seico-systemateg gennyf i, sy'n gyfundrefn feidrol, yn syml am iddi fod yn rhan o'r addysg a ddaeth i'm rhan. Ceir peth lleddfu ar ddeall y gwirionedd gan bob ceisiwr ffaeledig. Bydd eraill yn darllen llyfrau cynorthwyol ar sail y llwybr addysgol a ddaw

i'w rhan hwythau, o fewn cyd-destun Gras Cyffredinol. Pob un yn ôl ei sefyllfa. Ceir peth lleddfu ar ddeall y gwirionedd gan bob ceisiwr. Ond y gorchymyn diwylliannol hwnnw yn iaith a llên, y cefndir mewn **Systemateg** a'm harweiniodd i, yn fy nyddiau cynnar gynt, i lunio fy llyfr academiaidd cyntaf-i'w-gyhoeddi (yn Saesneg er mwyn ei drafod ar dwf gyda'm ffrindiau a'm mentoriaid ym Mhrifysgol Laval, Québec), sef *System in Child Language*.

Mae yna systemau ym mhob man ac ym mhob peth. Yn Québec, gyda chymorth fy nghyfeillion Valin a Hirtle, ceisiais ymarfer â'r cysyniad o system a darganfod drwy ddisgrifio trefn ac olyniaeth orfodol ac offer pob iaith fel y'i hadeiledir ym meddwl y plentyn, yn ôl y tri cham a enwais uchod – (i) sylweddoli amser, (ii) mabwysiadu ffurf seiniol 'ddamweiniol' i'w gynrychioli, (iii) gymhelliad i'w corffori. Efrydais dwf iaith fy merch – gan nodi rheidrwydd i fabwysiadu olyniaeth benodol strwythurau yr oedd eu heisiau yn ddi-osgoi o fricsen i fricsen. Yn gyntaf, byddai'r plentyn yn meddiannu un gair. Byddai hynny'n digwydd o fewn fframwaith enwi nad oedd hi'n ymwybodol ohono, ond a oedd yn isymybodol ddisgybledig iddi yr un pryd o ran adeiladwaith oherwydd sylwi ar ei hamgylchfyd dynwaredol. Ond yn ei thasg o ddysgu Cymraeg, yr hyn a roddodd olyniaeth adeiladwaith i'm cyfrol *System in Child Language* oedd cyfundrefn y Rhannau Ymadrodd Traethiadol (*Predicative Parts of Speech*). Hwyl, fel pob cyfundrefn arall, yr un mor anfwriadus eu bodolaeth, oedd y trefniant sy'n dal pob disgwrs wrth ei gilydd. Ychydig a feddyliwn ar y pryd y byddai'r fath ymhél â strwythuraeth yn gymorth ryw ddiwrnod wrth geisio efrydu'r drefn ddirgel o dan weledigaethau Patmos. Mae yna gyfundrefn i bob adeiladwaith meddyliol, megis i Lyfr y *Datguddiad* ei hun. Cyfundrefnwaith oedd ffordd Duw o adeileddu'r bydysawd hwn ei hun – o'r bach i'r mawr – yn undod i drefn. Rhoddai hyn Systemateg ddeall. Dyma i mi gyfle i ddysgu beth a wnâi bob 'gair' sengl a phob 'brawddeg' sengl o fewn cyfanwaith cymdeithasol: y broses gyfundrefn.

Dywedaf hyn oll oherwydd bod y ddaear wedi'i chreu ym mhob man mewn trefn (neu gyfundrefn); ac y mae'n amlwg bod yna drefn (neu ddeddfau, er nad deddfoldeb) yn y Ddaear Newydd.

Pwrpas yr astudiaeth bresennol yw olrhain adeiladwaith Llyfr y *Datguddiad* sydd oherwydd adeiladwaith iaith ei hun yn dwyn nodweddion cyffelyb, ac eto'n gorfod wynebu'r amgylchfyd y tu hwnt i amser.

Yng nghyfnod cynnar bywyd, ceir brawddeg gyflawn yn yr un 'gair' sengl cyntaf a yngenir. O sain i air yr eir, fel i bob dim drwy'r Cread, ceir cyfundrefn. Mor weddus yw hi bod yr Ysbryd Glân yn cyfeirio at Iesu Grist fel y 'Gair'. Felly hefyd ceir strwythur amser a deall bydol gan bob un o'r Saith Eglwys yn *Datguddiad*. Fe geir strwythur hefyd yn nisgrifiad pob digwyddiad a sefyllfa a gyflwynir gan Ioan o broblemau ac adeiladwaith deall bywyd y lleoedd hynny. Wedi meistrolï'r

gychwynfan o un 'gair' sengl, fe gaiff pob bod dynol yn hwnnw y *cynheilydd cyntaf* i estyn y profiad o feddwl, neu o gynnal gair i gynnal gair wedyn (yn esgorol) sy'n mynd i lunio 'brawddeg' mewn ffurf y gellir dibynnu arno, *yn ail brop*. Wedyn, symudir at y trydydd prop tebyg ond nid yn union-debyg sy'n gynheilydd angenrheidiol i ffinio ac i lunio'r frawddeg neu'r cymal cyflawn lawnddatblygedig. *Tri phrop yn unig sy'n angenrheidiol i frawddeg mewn iaith Indo-Ewropeaidd, fel yr oedd tri phrop mewn undod yn angenrheidiol i'r cnewyllyn gair a ddisgrifiwyd mewn cyfundrefn uchod.*

Rhannau Ymadrodd Traethiadol y frawddeg elfennol gnewyllo hon, tri-un-un, yw ffrâm pob meddwl. Wedyn gellir cymryd y frawddeg sylfaenol gyfan honno a'i huno hi drwy botensial creëdig mewn cyfuniad â brawddeg arall. Felly y ceir cymal isradd neu gymal gydradd yn ddatblygol (eithr nid yn esblygol). Ymledir, fel yr ychwanegwyd elfennau creëdig at ei gilydd gan Dduw, bob amser yn gyfanwaith sy'n llawn o *ddibynolrwydd*, yr amryw at yr undod rheolaidd wrth adeiladu'r holl fydsawd, o brop i brop. Bydysawd trefnus unedig wedyn sydd, yn gyd-gynhaliol, bob dim yn dibynnu ar ei gilydd.

Crynhown. Eir yma o Enwi syml yn gyntaf felly – y prop meddyliol *hunan-ddibynnol* cyntaf I, a all sefyll ar ei ben ei hun. Yna'n ail, eir ymlaen i'r prop sy'n *dibynnu* ar hunan-gynhaliol, II. Wedyn yn olaf – ceir prop sy'n *dibynnu ar ddibynnwr* (nid ar yr hunan-gynhaliol), III. Bob amser, y '*ddibyniaeth*' yn y rhain yw *hanfod yr holl iaith a'r holl greadigaeth*. (Ac wrth gwrs, perthynas ddibynnu a gaiff berthynas pob peth gwneuthuredig â Duw.) Dyna olrhain y Frawddeg hanfodol oll yn undod mewn amryw, cyd-offeryn diriaethol gyda mewnlrwydd y Gair ym mhob iaith Indo-Ewropeaidd. Ac yn y fan yna, gwelir perthnasoldeb un dull o ddarganfod trefn i broblem amgyffred *Datguddiad*. Dyna ddarganfod trefn gyffredinol, heb wybod ymlaen llaw gan ddyn beth oedd y 'drefn' tri yn un: cyd-ddibynnu neu berthyn. Cawsom oll gyfle, felly, i ddysgu sut, ac yn y pen draw, yr ydym yn gallu gogoneddu Duw, wrth *ddibynnu* yn ôl cyfarwyddyd y Beibl.

Yn *Datguddiad*, gymaint o wrthrychau a chymeriadau sy'n dod i'r golwg fel petaent yn weddau, ond gweddau ydynt ar banorama gweledigaethus.

Gymaint o wirioneddau a ddaw i'n sylweddoliad yn is-ymwybodol. Bu angen enghreifftio 'Gramadeg' fel hyn er mwyn pwysleisio bod Trefn fel y cyfryw yn gyfan-gwbl anochel. Amhosibl ac annealladwy yw iaith heb drefn gynhenid. Offeryn i drefnu'r meddwl yw iaith. Nid oes un rhan o'r corff heb fod ar lun Deddf anedig. Mae deddfau ym mhobman. Yn wir, dewisodd Duw Drefn berffaith a chyflawn yn ei Gynllun o'r greadigaeth: dyma wedd ar ei Ogoniant. Ac wrth astudio *Datguddiad*, gogoneddu Duw yw'r hyn a geisiai'r Saith Eglwys yr ysgrifennodd Ioan atynt, a'r hyn a geisiwn ninnau yn yr unfed ganrif ar hugain.

Felly, yr oedd Duw yn gyfundrefnus ym mhob dim, o'r galaethau i'r meicrobau lleiaf dan y

ddaear. A dewisodd Crist yntau ddull alegoriaidd a barddonol mewn iaith i gyfleu'r cwbl yr oedd ef yn dymuno'i gyfleu yn y fan hon: dyma ris arall mewn iaith, a ganiatawyd i ddyn drwy Ras Cyffredinol Duw, yn offeryn hwylus i ddeall a mynegi hyd ddiwedd amser.

* * *

Ceisiwn yn awr ddarllen ei ddisgrifiad o strwythur ystyrlon Saith Eglwys, wedi'u harfogi ag arfogaeth elfennol o'r fath, ac yna o bennod i bennod ceisiwn ddeall ei fwriad wrth sôn am y meirch, y dreigiau, ac Oen Duw, y cymeriadau, y gwyrtiau, a'r lleoedd a ddisgrifir, er mwyn dweud wrth ddynoliaeth am yr hyn a oedd yn digwydd.

Mae'r Beibl oll yn ddisgrifiad o gynllun mawr Duw yn creu, adeiladu, a pherffeithio mewn cariad y greadigaeth gyflawn. O *Genesis* i *Ddatguddiad* mae'n addysgu dynolryw gan bwyll, i'w adnabod Ef a'i ogoneddu. Y mae i lyfr y *Datguddiad* yn ei safle tra hanfodol, bwrpas yn y broses hon. Dyma'r pen draw iddi. Y diwedd. Cydiwyd gan yr Ysbryd Glân yn Ynys Patmos un diwrnod, a'i thrawsffurfio o gwmpas Ioan i fod yn weledigaeth ddi-ben-draw o'r Farn. Hynny oedd ym mhobman yn weledigaeth iddo.

Lluniwyd yr llyfr hon gan Iesu Grist ei hun yn bersonol – yn awdur i'r weledigaeth – i orffen y dweud amdano'i hun, pwy oedd Ef a pham yr oedd erioed wedi dod. Rhydd y cwlwm hwn arolwg aruchel o ddisgleirdeb casgliad a barnedigaeth ddiwethaf i'r cyfan. Bellach, wedi cyrraedd y terfyn, yr oedd Duw wedi gorffen datguddio pwy oedd a beth a wnâi. Dyma hyn o hanes oll yn gorffen mewn Creadigaeth Weddnewidiedig, gan gynnwys addysg y credinwyr cyfyngedig (o fewn y Rhyddid mawr) a'r anghredinwyr cyfyngedig hwythau, bob un yn ôl ei haeddiant yng Nghrist. Dyma'r Hen Israel a'r Ddaear Newydd yn dod i gwllwm yn y testun hwn. Y weledigaeth yw canlyniad dibyniaeth lwyr ar Iesu Grist; a rhodd helaeth fu'r adnoddau oll i gyflawni hyn.

Y *Datguddiad* sy'n cadarnhau ac yn clymu'r terfyn. Tyn y cynghorion a'r cyfleoedd i ben draw. Cafwyd pob posibilrwydd teg eisoes ei esbonio. Dysgwyd drwy Gwmp ac Adferiad werth Crist i'r Eglwys o fewn amser. Bellach, ar ddiwedd y Beibl, i'n dealltwriaeth naturiol, tynnodd amser yntau oll i ben yn ei undod.

Mae *Datguddiad* yn gyfrol hanfodol bwysig i'n haddysgu ni ynghylch Amser fel ffenomen greëdig ond dros dro. Yn *Datguddiad*, yr ydym o fewn 'rheolaeth' tragwyddoldeb ar Amser chwâl. Ymddangosodd drwy gydol yr Ysgrythur fod dyn yn methu o hyd. Ond er gwaethaf eithafrwydd pechod a Satan yng nghalonau pawb, gellir yn awr ddathlu buddugoliaeth derfynol i Dduw yng Nghrist. Cafodd Amser ei hun dröedigaeth yn y fan hon i fod yn dragwyddoldeb am byth; cafodd y ddaear ei hun ei newid, o amser pechadurus, i fod yn Ddaear Newydd dragwyddol, a gweddill y greadigaeth hefyd fel yr oedd i fod o'r dechrau: hynny yw, corfforwyd buddugoliaeth ynddynt. Adenillwyd paradwys wedi colledigaeth hir pechod a'r Cwmp. Dyma'r hen Wyrth fwyaf a gafwyd

erioed – Gwyrth y gwyrthiau oll. Dyma gyflwyno'r sefyllfan i weld popeth o du tragwyddol.

Hynny yw, gwelwn daith yr anialwch i gyd – dechrau a diwedd Hanes – mewn ystyr olau mwyach: y Dechrau yn y Diwedd. Gwelwn y Waredigaeth yn awr o fewn rhod y Greadigaeth orffenedig, a natur lawn y berthynas rhwng Duw a dyn gyda statws egwyddor yr Iawn o fewn egwyddorion 'yr Angen/, Disgwyl yr Hen Destament (yn Llyfr Daniel)/ a Chyflawniad y Testament Newydd yng Nghyfanrwydd y Datguddiad': Gras Arbennig o fewn ffrâm Gras Cyffredinol. Ceir llawer o'r digwyddiadau a chymeriadau yn y llyfr yr un pryd yn gwlwm o olyniaeth *Datguddiad*. Ni ddeëllir Cynllun y llyfr heb sylweddoli'r math o ymdrin ag Amser a geir ynddo. Trefn oruwchnaturiol sydd i'r drefn (y Goruwchnaturiol ar waith yn ddigyfnewid ym mhob man). Ystyr dweud bod cynllun y llyfr yn un diamser yw dweud nad oes un digwyddiad yn ymddangos ar ôl un digwyddiad arall yn llythrennol. Heb Amser, y maent yn cyd-fod yno ger ein bron. Llefaru'n rhydd o fewn dimensiwn tragwyddol y mae'r awdur. Y maent yma yn ar waith yr un pryd – y pryd tragywydd drwy lygaid anffaeledig. Y mae cwmp Babilon a Jerwsalem yn ddigwyddiadau sydd wedi bod eisoes, ac na fyddant yn gallu bod eto. Ac y mae Babilon yr Hen Destament yn rhaglunio Rhufain y Testament Newydd, fel y cawn weld y ddau Destament yn gwau drwy ystyron ei gilydd yn *Datguddiad*.

Mae'r ymwybod hwn o Amser, felly, yn golygu bod Iesu Grist yn mynegi popeth sy'n digwydd fel pe bai yn awr – y lleol a'r cyffredinol, y gorffennol yn y presennol, a'r uwchnaturiol yn y naturiol, fel yr oedd iddo ef mewn gwirionedd.

AILDDYFODIAD

O'r bennod gyntaf yn *Datguddiad*, ymlaen hyd y bennod olaf, fe geir cyfeiriadau clir at Ail Ddyfodiad Iesu Grist: Dat. 1: 4; 1: 7-8; 3: 11; 16: 15; 21: 12-13; 22: 20-21. Y mae'n naturiol fod chwilfrydedd ynghylch Amser y fath ddigwyddiad pwysig wedi tyfu. Ond fe welwyd yn yr Hen Destament y byddai Crist, nid yn unig yn marw ac yn atgyfodi, eithr rhwng ei farwolaeth a'r esgyniad yn treulio peth Amser ymhlith pobl, llawer o dystion, cyn esgyn at Ei Dad; eithr hefyd y byddai maes o law yn dychwelyd, cf. Job 19: 25; Dan. 7: 13; Mal. 3: 3. Wedi'r esgyniad fe gaed llawer o arweinwyr eglwysig a Christnogion cyffredin. Ond o'r Diwygiad Protestannaidd ymlaen, fe geid llawer o gredinwyr y Beibl yn chwilota am brofion ynghylch dyddiad y fath beth pwysig, ac yn cyflwyno llawer o ddamcaniaethau. Roedd Iesu Grist ei hun ym Math. 16: 27; 24: 36 wedi addo'r fath ddigwyddiad. Ond pa mor fuan? Mae'r *Datguddiad* yn defnyddio'r termau hyn i'w fynegi: '1: 1; ar fyrder; 1: 3 oherwydd y mae'r amser yn agos; 1:8 yr hwn sydd a'r hwn oedd a'r hwn sydd i ddod ar ôl hyn; 22: 20-21 Wele yr wyf yn dod yn fuan.'

'Yn fuan?' I'r ifanc a'r anaeddfed, mae amser yn ymestyn, fel pe bai'n ddigon. I'r hen mor fyr

yw amser.

Beth mae hyn yn ei olygu? Yn gyntaf, mae'n sicr mai'r 'amser dwyfol' a fyddai'n briodol i amodi geiriau Iesu Grist; ac iddo ef roedd canrifoedd megis eiliad. Ond yn ail, mae'n sicr o olygu yr un pryd 'amser dynol' – y ffaith fod amser dyn megis glaswelltyn: byddwn oll yn dod i ben yn fuan, ti a mi, ac wedyn y farn. Yn y bwlch rhwng y ddau ddigwyddiad yna, bydd yr amser megis dim. Pan gyrrhaeddir y pwynt hwnnw, cawn ddweud wrtho, 'Wele heddiw yr ydym gyda Thi ym Mharadwys.'

Yn llyfr y *Datguddiad*, bydd natur y digwyddiad hwn a'i ddatliad yn uno â'r proffwydoliaethau yn yr Hen Destament, yng nghân newydd Ioan. Yr hyn sy'n newydd hefyd yw gwawriad dydd newydd o ran cynnwys, sef yr Arglwydd yn cwpla'i fuddugoliaeth. Dyma'r dydd y bu plant Duw yn hiraethu amdano o ddydd y Brenin Dafydd hyd ddydd y Brenin Iesu: yr amherffaith yn hiraethu am y perffaith, yn undydd i Dduw. Fe'i cysylltir â chân Moses (Dat. 5: 9; 15: 3-4) ac Ecsodus 15: 1-5. Yma, tanlinellir mai Duw ei hun yw'r Sanctaidd sy'n sancteiddio; a sonnir am bobl a alwyd allan neu a ddewiswyd: Dat. 17: 14. Dethlir y fuddugoliaeth anochel yng Nghynllun Duw, bellach yn tynnu i'w derfyn, yn *Datguddiad 2: 7* a gysyllta'r rhod sydd wedi troi yn grwn ynddo'n Dri-yn-Un.

Fe wyddai'r Saith Eglwys bellach fod rhaid canoli'r meddwl a'r ymrwymiad wrth ei Berson ef – Pwy oedd Ef? Beth oedd ei Enw? Dweud hynny'n awr oedd gwaith y Saith Eglwys a phob eglwys drwy'r byd, dweud am Ei ddyndod ond hefyd am Ei Dduwdod aruthr.

Iago o bosib yw'r cynharaf o'r ysgrifeniadau yn y Testament Newydd: fe'i hysgrifennwyd o fewn ugain mlynedd i'r Atgyfodiad. Ac roedd Iago yn 'hanner brawd' i Iesu: hynny yw, Mair oedd ei fam, a rhoddwyd DNA iddi hi gan yr Ysbryd Glân, a Joseff oedd ei dad. Roedd Iago'n medru defnyddio'r term 'brawd' amdano heb fod yn drosiadol. Mae ef yn enwi Iesu'n Arglwydd: Y Sieceina. (Iago 5 : 7-10 'yn enw'r Arglwydd'), 'Rabbi.' Abba Dad ei hun oedd y Mab iddo. Mae'r Beibl yn amrywio'r dull o'i enwi, neu o alw arno. Sonia Thomas amdano fel 'fy Arglwydd a'm Duw'.

Yr Enw hunan-ddibynnol hwn yw yr un y dibynna popeth arno (o ran strwythur), sef ar ei Dduwdod ef.

Roedd Ioan yn ymwybodol iawn o un math o Arglwyddiaeth i Israel yn y diwylliant Rhufeinig, 'despotos', sef y berthynas gwas ac Arglwydd, ac ohono'i hun fel caethwas. Ond mwy oedd yr Arglwydd a ddaeth, am i hwnnw ddod yn unswydd fel gwas, ac a gyflawnodd y ddealltwriaeth o'r Duw Mawr neu o'i benaethdod, a'i darostyngodd ei hun, ac a ddaeth yn dlotyn i gerdded yn ein plith. Dyma'r Creawdwr-Waredwr a ddôl â Daear Newydd a Nefoedd Newydd, ac a 'gyflawnai' amser yn amser dwyfol. Dyma unbenaethdod trugaredd yn codi o lesgedd y preseb.

Roedd dynion yn cael anhawster i amgyffred llawnder Gwirionedd yr Un yma yn

Datguddiad. Sut y gellir mewn ymennydd meidrol ei ddeall a dweud dim amdano? Byddai hyn yn anhawster bob amser mewn cenadwri. Roedd yn rhaid cael llais o'r Nef, y cyntaf a'r diwethaf.

Os ceir anhawster, hyd yn oed i gredadun, i egluro athrawiaeth mor 'syml' ag Etholedigaeth heddiw, yng nghyd-destun rhyddid a chyfrifoldeb dyn dyweder, does dim eisiau ond cofio gallu goruwch gofod-ac-amser y Goruwchnaturiol sy'n cyflawni ac yn cyfannu ac yn uno Alfa ac Omega i wybod pam. Yr Un sydd goruwch pob bywyd, ac eto o fewn pob un, ac yn estyn help bob amser i'r rhai a'i cais, does dim yn rhy anodd nac yn rhy bell i'r fath berson, yr unig Dduwdod sydd i'w adnabod. Ac felly y mae'n dangos pwy yw Duw, a ninnau wedi ymgolli mewn rhyfeddod, cariad a mawl. Amllder yw Ef ac Un. Ef sy'n ein bwydo. Dyna'r ffordd hefyd i sôn amdano. Dyna ran o'r rheswm pam y mae corff y *Datguddiad* yn cael ei gyflwyno'n alegoriaidd, oherwydd un o hanfodion alegori yw ei fod yn symud drwy'r meddwl ar ddwy lefel, tuag at Undod mewn Amryw; a gall Iesu ei ddefnyddio er mwyn ein helpu i dyfu o'r naturiol i'r goruwchnaturiol.

Ef yn y *Datguddiad* hwn yn awr yw nerth pob arwr cadarnhaol. Ef yw'r marchog gwyn a welir mor odidog.

ALEGORI YN RHODD IEITHYDDOL

Defnyddir yr enw bach 'alegori' gan feirniaid weithiau i ddisgrifio Llyfr y *Datguddiad*. Ond beth yw alegori o ran diffiniad?

Stori, cerdd, neu ddarlun yw y gellir ei egluro neu ddadlennu ei ystyr yn y golwg, ond a adeiladwyd yn gudd: dywedir bod hanes y cymeriadau neu'r digwyddiadau ynddo yn symbolau sy'n cynrychioli bywyd dynol megis trosiadau estynedig.

Er bod alegori yn defnyddio symbolau, mae'n wahanol; mae'n ffenomen sy'n fwy ac yn llai na symbolaeth.

Ai alegori 'yn unig' yw Llyfr y *Datguddiad*, felly? Nage, ddim yn hollol: yr hyn sydd ynddo a'r nod sydd ganddo o'r dechrau i'r diwedd yw bod yn rhodd bersonol allan o'r diddymdra: Dat. 22: 16-17. Fel hyn, y mae'n ei gynnig ei hun: 'Myfi yw Gwreiddyn a Hiliogaeth Dafydd, seren ddisglair y bore', seren fore gobaith wedi nos. Mae'n dechrau yn y ddaear yn Wreiddyn i dyfiant pob peth, a'r un pryd y mae'n ymgawdoledig yn nhreftadaeth Dafydd. Trosir Iesu i fod yn oleuni ar ddechrau pob dydd, ac ar ddechrau cyfnod newydd ym mywyd y Greadigaeth oll. Sonia'r seciwlaryn yntau am 'oleuni naturiol' ond sonia'r nefoedd am 'oleuni tragwyddol'. Fel amser dwyfol, felly y mae goleuni o ansawdd dwyfol.

Mae'r sêr hyn yn cynrychioli'r rhai sy'n tywynnu'n ysbrydol olau, yn weledig ac yn anweledig. Yn Llyfr y *Datguddiad* 12 mae'r sêr yn cynrychioli'r deuddeg apostol yn Jerwsalem lle y bydd y wal yn meddu ar ddeuddeg sylfaen, ac ynddynt ddeuddeg apostol yr Oen.

Yn *Datguddiad* 1: 20 cynrychiola'r saith seren weision arbennig Eglwys Crist: 'Dyma ystyr ddirgel y saith seren a welaist ar fy llaw dde a'r saith ganhwyllbren aur'. Hynny yw, dyma (yn y Saith Eglwys) gynnwys haniaethol i'r diriaethau hyn. Diriaethau y gellir profi eu bodolaeth sylweddol deimladwy yw'r rhain, sef y Saith Eglwys hanesyddol a gyferchir yn ystod y llyfr (Dat. 8: 2) 'Gwelais y saith angel sy'n sefyll gerbron Duw; a rhoddwyd iddynt saith utgorn.'

Undod ffrwydrol yw Llyfr y *Datguddiad*. Ysgrifennwyd y llyfr cyfan yn genadwri i'r Saith Eglwys, a hynny sy'n benodol ym mhenodau 2 a 3. Cânt y neges yr un pryd. Nid penodau ynysedig yw'r ddwy hyn chwaith ar wahân i'r gweddill o'r llyfr, wrth symud ymlaen at y gyfres 'Y Sgrôl a'r Oen', 'Y Seliâu', 'Yr Utgym', ac yn y blaen mewn gorymdaith. Unedig ydynt yn y gweddill ffyddlon. Nid olyniaeth yw'r ddolen rhyngddynt, gan fod y cwbl yn dechrau yn awr; mewn amser a'r tu allan i amser y maent yn plethu drwy'i gilydd. Ac fel y maent yn derbyn negeseuon yn y Testament Newydd, felly y derbyniwn ninnau yn yr unfed ganrif ar hugain, yr unrhyw neges.

Priodol ddigon yw holi ai 'symbolaeth' yw asgwrn cefn Llyfr y *Datguddiad* oll? Os felly, pam? Digon yw gosod y cwestiynau hyn ar bapur i Gristion ymateb, 'Wel, na, wrth gwrs: Iesu Grist yw asgwrn cefn y cwbl; ac mae ef yn wahanol i bawb.' Ef biau'r symbolau fel gweision: gwasanaethant, fel cynrychiolwyr, fel y mae'r 'gair' yn gorfod ei wasanaethu yn Gymraeg. Ac eto, mae enw'n fwy na chynrychiolydd i'r Oen, fel y mae gair yn fwy na gair yn unig pan enwir Iesu Grist: mae'n fwy dwyfol nag oen *llythrennol*. Dyna iaith drawsffurfiol felly. Wedi'r cyfan, yr Iesu a greodd bob oen a phob seren a phob utgorn a phob sêl. Yr oedd ei fodolaeth ynddynt erioed, yn wrthrychau daearol a nefol.

Dichon y dylid synied am y symbolau ysgrifenedig yn *Datguddiad* fel gweledigaethau iaith newydd.

Math o gydatebiad deuol a chyfartal mewn iaith yw 'symbol' ac 'alegori'. Arwyddion ydynt sy'n synhwyrus a diriaethol yn y glust, ond mae eu bodolaeth yn cynnwys ystyron. Maent yn cynnwys gwrthrychau cwta a thwt; ond arwydda 'symbol' ac 'alegori' fath o synnwyr haniaethol o gyfeiriad dealltwriaeth fewnol ysbrydol. Felly, mae 'oen o symbol' yn oen hefyd, yn cynnwys oen; ond diriaethol yw 'oen' sy'n alegoriâidd, nid felly alegori o raid bob amser, megis dyweder 'balchder'. Math o farddoni yw alegoriō sy'n diriaethu teimlad weithiau. Ni raid alegoriō 'oen' yn rhy anwrthrychol fel na fyddo'n ymoeni. Megis gydag 'elyrch' Yeats neu 'eos' Keats yn eu **cerddi**: fe ellir eu dal hwy yn y galon – mewn ansawdd o ystyr annelwig ac amryfal felly – nes eu pweru â grym cyfareddol. Mwy o beth yw **cerdd Duw**. Math o 'air mwys' yw 'oen' gan fod Duw yn aberthu'i Oen, fel Abraham yn ei gyfnod; dyna a wnâi'r Tad yntau gyda'i Fab; a hefyd am mai arwyddlun o 'burdeb' a 'diniweidrwydd' llwyr oedd Oen: megis cyfochredd meddyliol i'w gilydd, Hen Destament yn y Testament Newydd.

Mae Llyfr y Datguddiad ar ei hyd yn ddathliad wrth weld cyflawniad y Nefoedd Newydd a'r Ddaear Newydd i ni (gyda'r 'Nefoedd' yn golygu'r gofod sydd i'r galaethau yn ogystal â'r Nefoedd sy'n real ac yn weledig i Dduw, ond yn anweledig i ni: mae'n drigfan dragywydd i Orsedd Duw). Mae'r Farn gyfredol i'r dathliad hwnnw yn llenwi'r bydysawd (Salm 35: 24, 'Barna fi yn ôl dy gyfiawnder, O Arglwydd, fy Nuw, ac na fydded iddynt [sef y gelynyon] lawenhau o'm hachos i.')

Mae Seremonïaeth neu Sagrafennaeth ffurfiol yn ein dyddiau ni yn gallu bod yn Addoliad o goffâd tra threfnus a chyfreithiol yn yr Eglwys Rufeinig o flaen yr Orsedd; ac felly hefyd, y gweddau eraill yn *Datguddiad* megis datod y Seliau, a hyd yn oed y Rhyfel. Mae ein byd materol yn ddrych gweledig gan ymestyn i'r byd ysbrydol. A'r gwir realiti ydyw'r cyflawniad (aeddffed, yn y nefoedd) i'r cysgodion ydym ni ar y ddaear. Felly y closia'r ddau: yn gyfredol, y mae'r frwydr hon yn digwydd rhwng y Nef a'r Ddaear, a'r un pryd yn y dimensiwn moesol. Mae yna foesoldeb seciwlar, a moesoldeb Cristnogol.

Paradocs yw *Datguddiad* o ran llythrenolrwydd (*literalism*) sy'n dweud math o ddilythrenolrwydd mewn trosi (ond yn wirionedd yr un pryd) wrth feidrolyn er mwyn cyfleu gwirionedd mwy pwerus. Tyn ei hun yn ôl, ychydig neu'r cwbl, allan o'r tywyllwch emosiynol neu resymol sydd mewn mynegiant yn cael ei ddweud. Gafaela mewn golwg arall arno. Mae yna ddimensiwn ganddo yn gyfredol mewn safle o agosrwydd neu mewn cymhariaeth ystyr. Chwyldro yw fel pob creadigaeth. Fel y dywedodd J. Keats mor groyw mewn llythyr at G. Keats, 'A man's life of any worth is a continual allegory – and very few eyes can see the mystery of his life – a life like the scriptures – figurative.' Mae popeth yn fwy nag y mae'n ei ddweud.

Mathemateg ac Addoliad (Penodau 7 – 14)

Meddylir am Fathemateg fel math arall o ddyfais ar gyfer mesur amllder o bethau. Dawn yw i weithio'n ymarferol drwy fywyd, teclyn defnyddiol ar gyfer gwaith pob dydd; gwyddor fydol resymegol, gyda rhifau trefnol ar gyfer pethau. Rhydd wybodaeth i'n helpu ni i fyw. Mae rhai wedi etifeddu gallu meddyliol mwy na'i gilydd i'w 'gwneud'. Ond mae Mathemateg 'ddwyfol' yn perthyn hefyd fel cyfrwng i bawb ar gyfer canfod gwerthoedd goruwchnaturiol 'cyfrinachol' yn y cyd-destun Hebraeg a'r byd Groegaidd clasurol. Felly, y mae Mathemateg wedi camu'n ddirgel fel blodau i mewn i lwch bywyd, a chyflenwi anghenion na byddai rhai'n eu cysylltu â ni. Dyry syndod fel trosiad. Eto, mae Mathemateg (o bethau'r byd) yn gallu bod yn annwyl (oherwydd cyfrannu o'r nef).

Meddylir am ddirgelwch 144, 000 (Dat. pennod 14), a'i gysylltiadau, sydd wedi bod yn her i lawer darllenydd a geisiai ddyfalu amseriad diwedd y byd.

Buom ni eisoes yn trafod amser a thragyddoldeb. Nid cam mawr nawr yw symud ein meddyliau i ganfod adeiladwaith neu fframwaith mesur a threfn arall ddigon perthynol, o dan ein

croen. Mae rhifolion hefyd yn symbolau. Ond yn ysbrydol, yr ŷm ni'n edrych o gyfeiriad newydd. Mae rhifau yn arwyddocaol yng nghymeriad rhywun: Dat. 15: 2, 'Gwelais ddelw, a rhif ei enw.'

Mewn cyfnod cynnar yn ffurfiant gwledydd a diwylliant Môr y Canoldir diau yr ymagweddid at rifau fel math o ddewiniaeth a oedd yn perthyn i gyfnod cyn-wyddonol, ac yn fath o hocws-pocws, ac nid yn rhywbeth i ni heddiw. Ond y mae Rhifyddeg yr Ysbryd yn perthyn i'r Beibl ac yn soffistigedig iawn. Perthyna hefyd i Lyfr unigryw y *Datguddiad*, – y llyfr clo, y casgliad sobr lle y mae'r rhifau'n arwain i ddatrysiad ysbrydol – mewn cysylltiad ag Iesu Grist yn arbennig.

Ymddengys Mathemateg yn bell ddigon oddi wrth safonau moesol a chydwybod. Ond mae'r rhifau hyn sydd yn *Datguddiad* yn datgan neges. Mae a wnelo â threfn, ac felly ag Arglwyddiaeth Duw a'i ddaioni. Mae'n canoli'n sylw ar Iesu Grist. Iaith yw sy'n cael ei defnyddio gan yr Ysbryd Glân i siarad â ni am neges a glyw-wyd gan yr Apostolion.

Beth sydd a wnelo hyn â bywyd bob dydd? Beth sydd a wnelo hyn â bod yn dad ac yn ŵr mewn oed? Beth sydd a wnelo hyn ag ymgawdoliad Iesu Grist? Beth sydd a wnelo hyn â geni Crist yn y galon? Popeth.

Mae'r Beibl yn gyfrol hir; ac yn y gyfrol honno mae cymhlethdod hanes maith a syml, a bywyd amlochrog, ac y mae'r cwbl oll yn arwain yn araf tuag at ddathliad aruchel. Dewch ar y daith hon gan ddechrau yn y diwedd. Sylwer ar fodolaeth arwyddion o'n cwmpas ym mhobman, ym mhob sill. Mae'r geiriau ar bapur, sy'n darfod, wedi troi'n ddwyfol. Arwyddion diolch ydynt i Greawdwr y byd; mae a wnelont â'i dduwioliaeth: ac mae ganddo Ef dair swyddogaeth odidog, – mawrygir Ef yn broffwyd, yn offeiriad ac yn frenin. Mae hyn yn gywir fel y rhif cant. Mae'r offeiriad yn gweini i bawb yn berffaith, ac nid yw'r brenin yn gwneud nac yn dweud dim o'i le. Mae ei Benarglwyddiaeth ar fywyd yn gyfryw ichi fwynhau'i gymdeithas, a rheolir drosoch yn addfwyn. Mae gan ei eiriau awdurdod yn y tair swyddogaeth hyn: credwch felly yn yr ateb rhyfeddol. Plygwch i'r ateb hwn i fyw gydag ef am byth, ac nid yn atodiad canghennog o'ch dynoliaeth. Cewch eich cau yn gariadus o fewn y drefn hyfryd hon a'r groes hon, o'i myfyrio.

Nid â neb yn bell iawn yn *Datguddiad* heb sylweddoli bod rhywbeth wedi digwydd i Fathemateg ynddo oherwydd y golwg alegoriol: mae'n cael tröedigaeth. Mae Un ac Un yn gwneud Un. Ymhlith yr Iddewon, yr oedd y dull o rifo, cyn belled ag y gellid ei olrhain yn ôl, yn ddegol. Credir mai deg bys y ddwy law a ddarparodd y gychwynfan i'r gyfundrefn seml hon. Cyfrifid y rhain yn declyn ymarferol 'seciwlar'. Ond ceid hefyd ddefnydd cysegredig a symbolaidd o rifolion. Ceid saith yn benodol o rifau symbolaidd, sef 3, 4, 7, 10, 12, 40, 70 a'u lluosolion, er bod rhif 3 yn destun dadl i rai ysgolheigion. Fe'u gwasgerir hwy drwy gydol yr Hen Destament, ynghyd â rhifau lawer eraill.

Yn Llyfr y *Datguddiad*, y rhif 7 yw'r un blaenaf. Mae'n digwydd 54 o weithiau. Anerchir 7

eglwys, a gynrychiolir gan 7 ganhwyllbren. Mae'r 7 seren yn cynrychioli'r 7 angel, sy'n gofalu am yr eglwysi. Cynrychiolir 7 o ysbrydion Duw gan y 7 llusern. Wedyn, ceir 7 sêl ac Oen a chanddo 7 lygad a 7 corn. Fe chwyth 7 angel 7 alwad ar y cyrn. Mae 7 angel arall yn tywallt cynnwys 7 bowlen sy'n llawn o 7 bla. Mae 7 taran yn lleisio. Mae gan y bwystfil, sy'n codi allan o'r môr, 7 pen. Ceir 7 fynydd, 7 frenin. Cyflea'r rhif 7 'gyflawnder', a chyfeiria at 'egwyddor trefn' mewn gweinyddiaeth Ddeddfol. Mae 7 felly yn wefreiddiol ym mryd yr awdur.

* * *

Mae'r cynllun perffaith sydd i Lyfr y *Datguddiad* o ganlyniad yn un nodedig o gywrain i'r darlennydd. Mae'r cyfanrwydd cydgysylltiol yn drawiadol o gynyddol. Mae cydnabod harddwch syml y drefn honno yn wedd ar Fawl i Dduw; a rhed yr adrannau sydd ynddo ar batrwm o gydrediadau cylymog tua'r fuddugoliaeth odidog fel a ganlyn.

Dyma amlinelliad o'i batrwm cain. Rhed gerbron llygaid y meddwl megis sleidiau darluniol o gymeriadau, digwyddiadau, ac egwyddorion:

Rhagymadrodd (1:1-3) [Teitl, ac awduraeth awdurdodol: Duw – **Iesu Grist** – angel: y gwas Ioan]
Ceir llawer o drafodaeth ymhlith ysgolheigion ynghylch Ioan. Ai'r Apostol oedd? Nid yw hynny o bwys o safbwynt yr astudiaeth hon. Ymgais yw'r llyfryn hwn i wybod yr hyn a ddywed Iesu.

Gweledigaethau Gras (1:4 – 3:22) [Llythyrau at saith eglwys yn Asia]

Gweledigaeth o Grist (1:4-20)

Safle Crist (1:4-6) [y tyst, y cyntafanedig oddi wrth y meirw, llywodraethwr brenhinoedd y ddaear]

Pwrpas Crist (1:7-8) [dyfod fel y bydd pawb yn galaru]

Rhagluniaeth Crist (1: 9-11) [pawb yn cyfranogi o'r 'gorthrymder a'r frenhiniaeth a'r dyfalbarhad'] cf. Ann Griffiths: Mewn gorthrymderau, llawen fyw.

Person Crist (1:12-16)

Gallu Crist (1:17-20)

Y Negeseuon at y Saith Eglwys (Penodau 2 a 3)

Amgylchiadau ar y pryd: Amgylchiadau sydd yma o hyd

Gweledigaeth Lywodraethol (Penodau 4 – 20) cf. Ann Griffiths, O'm blaen mi wela ddrws agored.

Dechreuad Gofidiau (Penodau 4 – 11)

Gorsedd Gallu yn y Nefoedd (4 – 5)

Gofidiau Gallu ar y Ddaear (6 – 11)

Torri'r seliau (6 – 8)

Manylion a roddir yn benodol

Patrwm o sylw a roddir fel pe bai'n gromfachol

Chwythu'r trympedau (9 – 11)

Manylion a roddir yn benodol

Patrwm o sylw a roddir fel pe bai'n gromfachol (h.y. yn esboniol neu'n sylw estynnol). A yw rhai darluniau o'r Iesu'n bwysicach na'i gilydd mewn rhai cyfnodau? Diau mai angen yr unfed ganrif ar hugain (megis cyfnod Patmos) yw mawredd y Barnwr yn fwy blaenllaw nag agosrwydd Mab y Saer.

Bwystfilod y Ddaear (Penodau 12 – 18)

Rhagolwg o'u daear (12)

(aeddfedrwydd y cynllun)

Difodiant y saint

Gorfoledd Satan

Uwcholwg o'u daear (13 – 16)

Y Bwystfilod (13)

Yr Oen a'r Prynedigion: Barn a Thrugaredd Duw (14)

Y Ffiolau (15 – 16)

Adolygiad o'u teyrnas (17 – 18) Cwmp Babilon neu Rufain (yn y cyfarfyddiad rhwng Amser Duw ac amser cynt)

Dirgelwch y Tywysog

(17: 1-6) cf. Ann Griffiths, Rhyfeddu a wna'i â mawr ryfeddod, Pan

ddêl i ben y ddedwydd awr/ Caf weld fy meddwl...

Dirgelwch Personol (17: 7-13)

Meistrolaeth Economaidd (18: 1-24)

Rhyfel Armagedon (19 – 20)

Llawenydd y dathlu yn y Nef (19 – 20)

Ysblander moesol yr Arglwydd (19: 1-6)

Swper priodasol yr Oen (19: 7-10)

Barnedigaethau terfynol ar y Ddaear (19: 11-20)

Marchog ar y Ceffyl gwyn mawr (19: 11-20)

Mae'n codi (19: 11-16)

Mae'n dychwelyd (19: 17-21)

Mae'n teyrnasu (20: 1-10)

Y Pennaeth ar yr Orsedd wen fawr (20: 11-15)

Gweledigaethau Gogoniant Y Nef a'r Ddaear Newydd (21: 1-22)

Datganiad ynghylch y Jerwsalem Newydd (21: 1-8)

Disgrifiad o'r Jerwsalem Newydd (21: 9-22) cf. Ann Griffiths, O ddedwydd awr tragwyddol orffwys/ Oddi wrth fy llafur yw fy rhan. Casgliad (22: 6-21) Rhybuddion ac Arfaethau

* * *

I EFFESUS (2 : 1-7)

Hanes dwy genhedlaeth oedd y neges ar gyfer Eglwys Effesus ar y pryd.

Breintwyd hwy yn fawr gan gyfres o genhadon megis Priscila ac Acwila, Apolos, a Paul. Bu Paul yno yn hyfforddi'r gynulleidfa leol yn Ffordd Dduw a dysgeidiaeth derbyn yr Ysbryd Glân. Am ddwy flynedd bu'n ymresymu â'r bobl, a chan gyflawni gwyrthiau (Actau 19:11). Yn ystod ei garchariad cyntaf yn Rhufain, anfonodd Paul ei lythyr at yr Effesiaid tuag O.C. 60-63. Ar ôl ei ollwng, ymwelodd eto ag Effesus, gan adael Timotheus i ofalu am yr Eglwys (1 Tim. 1: 3).

Galwaf y cyfnod hwnnw, yn Effesus, yn gyfnod y Genhedlaeth Gyntaf. A go brin fod yr un Eglwys erioed wedi profi'r fath bresenoldeb gan genhadon dawnus ag a brofodd Effesus. Bellach, erbyn ail hanner y ganrif, pryd yr oedd yr Arglwydd Iesu Grist yn anfon drwy Ioan ei lythyr cerydd a chariad at y saint yno, yr oedd y sefyllfa wedi'i gweddnewid bron yn llwyr. Erbyn hyn, yr oedd yr Eglwys tuag ugain mlwydd oed.

Os gofynnir pam y sgrifennodd Iesu'r llythyrwaith hwn, y rheswm yw bod angen cywiriad, calondid, a chefnogaeth. Ateb cyfyngedig oedd hyn, wedi'i dorri yn union i'r brethyn hwnnw, y lle a'r cynnwys. Ond hefyd, mae'r neges yn fwy na lleol berthnasol i'r Eglwys yn gyffredinol. Ar ôl pob cyfnod llewyrchus, y mae'r oeri yn dechrau cydio. Mae'r Eglwys yn llithro'n ôl tuag at hen eilunod o'u dewis eu hun (megis heddiw yma yn yr unfed ganrif ar hugain, symudwyd tua hunan-ganolrwydd a llacrwydd credu a dyngarwch gwrth-oruwchnaturiol). Cafwyd peryglon mawr a pharod yn Effesus, ond nid peryglon cwbl unigryw, ac nid elfennau dros dro y pryd hwnnw. Diau y bydd rhai ar ganol cyfwng o'r fath heddiw yn synied eu bod yn ddifefl. Ond mae angen dweud wrthynt sut y mae hi arnynt hwythau yn blwmp ac yn blaen.

Does dim llythrennol, o'i ganfod yn llawn. Mae gan bopeth ystyr gudd; ond roedd Iesu'n gweld popeth mewn ystyr olau. Roedd Iesu'n gweld diben pob dim; a dywedai'r hyn yr oedd angen ei ddweud.

Cafodd yr eglwys yn Effesus ei thrafferthu gan 'apostolion' gau (Dat. 2:2). Roeddent o'r herwydd wedi ymadael â'u cariad cyntaf. Collasant y brwdfrydedd cynnar, a'r awydd i adnabod

Crist yn iawn. Mae'r gymhariaeth â phrofiad cariadon daearol yn taro i'r dim: bu llawer o'r aelodau megis cariadon ifainc unwaith, ac wedi mopio'u pennau ar eu Gwardedwr, ac yn dangos eu serch. Erbyn hyn, roeddent yn ei gymryd yn ganiataol, roeddent yn 'gyfarwydd', ac yn dechrau oeri. Yn ôl pob golwg, yr oedd rhywrai o blith yr Eglwys (2: 6) wedi cyfaddawdu drwy fod o blaid anfoesoldeb ychydig bach – Pa mor bell y gallent fynd? Roeddent ychydig yn epiciwriaid. A gwyddom yn burion am eglwysi lle y mae cyfaddawd â rhyddfrydwyr caeth yn rhemp yn yr unfed ganrif ar hugain mewn modd nid annhebyg. Teimlent y pryd hynny y gallent fyw fel paganiaid am eu bod wedi 'credu' neu o leiaf wedi credu 'digon'. Cyfaddawdwyr oeddent. Byddent yn ceisio ymddangos fel pe casáent y cableddus a'r anfoesol, ond ceisient amddiffyn eu gwyradau'u hun. Eto, dyma'r dull a ddewisodd Crist i gyfeirio at ei le ef ei hun yn hyn o gyfwng: 'Dyma y mae'r hwn sy'n dal y saith seren yn ei law dde, ac yn cerdded yng nghanol y saith ganhwylbren aur, yn ei ddweud.' Mae'r 'saith ganhwylbren aur' yn cyfeirio at wir ffyddloniaid yr Eglwys. Gŵyr Iesu am y rhain, ac y mae ef yn cerdded yn eu plith. Fan yma, y mae am ddechrau o'r newydd, a'u galw'n ôl. Eu galw i frwydr a wna, eu galw i goncro. Caiff y concwerwr fwyta ffrwyth pren y bywyd (Dat. 22: 2, 14), yr adnod a ysbrydolodd deitl cyfrol Waldo – 'yr oedd dail y pren er iachâd y cenhedloedd.'

II SMYRNA (2: 8-11)

Dyma Eglwys a ganmolwyd i'r entrychion, ac ni chafwyd bai arni yn y gwraidd. Eglwys o ddiodefwyr oedd. Dyma'r hyn y soniai Iesu amdano'n benodol yn llythyr Ioan: dyma iddo Ef oedd yn anad dim yr eglwys o ferthyron. Dinas nodedig o hardd oedd Smyrna. Dinas wychaf Asia Leiaf oedd hi. Ond mor dueddol yw i'r ffydd wanychu ynghanol moethau: crefydd y 'cwrdd a'r poced.' Fe froliai mai hi oedd 'y Ddinas flaenaf o ran ei sblander a'i maint.' Priodol oedd y disgrifiad hefyd gan y gellid ymffrostio oherwydd merthyron fel Polycarp, eu hesgob a losgwyd wrth y stanc yn O.C. 155. Dyma'r amgylchfyd cyson dros flynyddoedd lawer yn y ddwy ganrif gyntaf. Erlidiwyd a lladdwyd nifer o'r credinwyr unionged. Gwyddai'r eglwys hon nad oedd y driniaeth ofnadwy hon ond yn ras, ac na chyfrannai'r gweithredoedd personol ddim oll o drefn rhagluniaeth, sef eu hiachawdwriaeth. Dysgai Paul nad oedd eu holl waith dros Grist namyn mân lwch. Adeiladai Crist ei eglwys â brics ei ddiferion gwaed ei hun yn rhodd rad ddifedur, a hwythau heb haeddu ond uffern hebdo – ffenestri i'w bywyd tragwyddol.

Bellach, roedd Iesu drwy'i was Ioan yn anfon ei gerydd a'i gysur iddyn nhw: *Datguddiad*. Dim llai na Datguddiad o'i Ogoniant heddiw. Nid dangos iddynt ddyfodol rhyddieithol cyffredin yn y gwter, lle y buont, nid cerdded rhagddynt drwy ddyfal-barhad. Ond roedd Duw wedi'u dewis hwy ac wedi dewis y Saith Eglwys hyn ar gyfer pethau mawr ac anghyffredin: fe'u hachubwyd ar gyfer bywyd aruthr a neges aruthr.

Yn y weledigaeth hon, fe gafodd Ioan ei lyncu a'i lenwi â syfrdandod gweld gwledd fawr. Roedd Iesu gyda nhw yn Smyrna, a'r holl bobl roedd yn ymwneud â nhw yn cael profi deinameg ei gariad ef. Gwelent y merthyron, y lladdedigaeth greulon, ac yng nghanol y fflamau y safai Ef yn ei ogoniant, yn eu gogoniant hwy. A'u hangen nhw nawr oedd 'gweld' hyn. Dyma'r gweld. Diolchent – O! Mor dyner yr oedd Ef. Caed gwefr y rhyddhad ynddo Ef. Eisoës roedden nhw wedi cyrraedd bywyd y tu hwnt i'w ddweud: Dat. 2: 10, 'Paid ag ofni'r pethau yr wyt ar fedr eu dioddef. Wele, y mae'r diafol yn mynd i fwrw rhai ohonoch i garchar er mwyn eich profi, ac fe gewch orthrymder am ddeg diwrnod. Bydd ffyddlon hyd angau, a rhof iti goron y bywyd.'

Dyma daerineb a gofal dros y praidd ar y pryd mewn cyfyng gyngor.

Ond darparwyd y llyfr hwn ar gyfer Cymru, a'r byd heddiw. Na chamgymerer yng Nghymru mai dof yw'r erledigaeth yma heddiw: dyw hi'n 'ddim byd', yn ôl pob golwg, ac eto, mae'r Diafol yr un mor ffyrnig a'r un mor beryglus a ffaidd. Y dynganologrwydd o'n deutu, y llacio ar gredoau a'r ailwampio addfwyn. Dyma'n dioddef ni: ein merthyrdod cudd araf. Mae holl ffyrdd Duw yn arwain drwyddo i Ogoniant, y cwbl nad oeddem yn ei haeddu. Meddai Spurgeon: 'Nid y dŵr tu allan i'r llong sy'n ei suddo, ond y dŵr sy'n dod i mewn.'

Ym marwolaeth y merthyron ceid marwolaeth yr Iesu – ar raddfa dyn. Ac roedd pobl Dduw yn Smyrna yn diolch i Iesu, estynnent eu dwylo i'r tân – diolch Dduw... Dowch ataf i bawb medd ef.

Roedd yr eglwysi hyn yn ddiolchgar ar y pryd, ond fe'i triniwyd gan Iesu Grist yr un fath bob un, ac eto'n wahanol yr un pryd, tan gefnogi a cheryddu, a'r un pryd mewn modd a oedd yn helpfawr ar ein cyfer ni heddiw. Y broblem gyfoes yw diogelu i ba raddau yr ydym ni'n cael rhan iachus mewn cymdeithas; ac i ba raddau y mae'r gymdeithas yn cael rhan ynom ni.

III PERGAMUS (2 : 12-17)

Calonogi a bendithio a chynghori oedd cenadwri Iesu i Pergamus. Er ei fod yn sôn am y peryglon, cysuro ac arwain drwy'r anialwch oedd ei bennaf pwrpas. Yno yn Pergamus addolid Aesculapius, duw iechyd y plygid iddo o dan arwydd y sarff, a chredai'r credinwyr mai'r symbol am Satan oedd hwnnw ac mai yn hwnnw yr oedd ef yn trigo – yn 'iach', fel petai. Peth modern iawn yw dwyfoli iechyd, ac fe'i dilynir mwyach yn ein dyddiau ni, mewn deiet, drwy ymarferion corfforol, drwy dylino cyhyrau, cwsg, a chymryd fitaminau, ond hefyd drwy osgoi rhai bwydydd. Roedd y Cristnogion mewn amgylchfyd paganaidd, lle yr addolid Balaam gan rywrai. Gan eraill dilynid 'athrawiaeth y Nicolaiaid'. Erlidid y Cristnogion hwythau hyd at farwolaeth. Roedd Antipas, 'a fu'n ffyddlon i mi' (adnod 2: 13) wedi'i ferthyru 'yn eich mysg chwi'. Drwy waed y merthyron yr heuwyd had Crist drwy'r canrifoedd ledled y byd, hyd at Gymru a John Penry, Robert Jermain Thomas, ac eraill. Bu swyddogaeth a phrofiad merthyrdod i ddynion meidrol yn fodd i rai detholbrofi

agosrwydd i'r Aberthwr mwyaf.

Llithrai rhai yn eu mysg serch hynny; a gelwid ar Gristnogion i edifarhau os oeddent yn cael eu denu i gyfaddawdu, ac yn 'goddef' lle yr oedd angen sefyll. Cymysgent, cyfaddawdent, heb hidio digon am les yr eglwys, a heb genhadu ymhlith y gweiniaid. Roedd rhai 'chwilfrydig' neu ddihangus yno, yn fodernaidd iawn. Ond y mae gwir edifarhau yn golygu bod eu meddyliau wedi 'gorchfygu': (2 :17) 'I'r sawl sy'n gorchfygu, rhof gyfran o'r manau cuddiedig, a rhof hefyd garreg wen i'r rhai sydd yn ei derbyn.' Mae hyn, yn gyfredol, yn golygu ymatal neu ymgaledu tuag at y rhai a fydd yn gwybod ac yn deall ac yn derbyn dirgelwch y ffydd. Mae'r sôn am 'garreg wen' bellach yn ymddangos yn 'ddirgelwch', ac yn golygu gwneud gweithred 'gyfriniol', yn y 'samantiaeth' gyfoes.

I drigolion Pergamus, yr oedd temlau wedi'u 'cysegru' i addoli Cesar. Roedd rhai a brofai 'chwilfrydedd' yn mynychu gwyliau paganaidd, sef unrhyw wyriadau 'deniadol' megis yn yr unfed ganrif ar hugain i hel cywreinerwydd ymarferion ac addurniadau i'r corff. Roedd Crist yn caledu rhai ac yn amddiffyn rhai eraill.

A dyma ni'n crybwyll 'garreg wen'. Yn wir, mae'r lliw gwyn yn cael ei grybwyll dro ar ôl tro ar ôl tro: Dat. 1: 14; 3: 4; 4: 4; 7: 4; 14: 14; 15: 16; 20 :11. Dyma'r llyfr sy'n defnyddio'r lliw gwyn yn fwy nag unrhyw lyfr arall yn y Beibl. Gair mwys gydag amryw awgrymuseddau yw'r gair 'gwyn'. Anodd gennyf synied nad oedd yna gyfeiriad at y sôn yn y fan hon gan Ioan am Josua 4: 19-24. Y pryd hynny roedd rhywbeth mawr iawn wedi digwydd yn hanes Israel, a gorchmynnodd Josua i ddeuddeg llwyth Israel a'u harweinwyr i goffáu hyn. Cofio yr oeddent am *ddigwyddiad a ffaith*, nid *dysgeidiaeth* yn gyntaf. A hyn sy'n wir am y genadwri Gristnogol y dydd heddiw. Athrawiaeth yw Cristnogaeth; ond nid hynny yn flaenaf. Digwyddiad yw: rhywbeth yw a *wnaethpwyd* gan Iesu Grist dros ei bobl.

Croesi Iorrdonen a wnâi Josua, fel yr oedd Moses a'i genhedlaeth yntau wedi croesi'r Môr Coch. Nid gweithred ddynol yn syml oedd hyn, ond gweithred a achoswyd ac a arweiniwyd gan Dduw. Yr oedd a wnelo â Gwaredu (allan o gaethiwed), nid â'r Greadigaeth, ie, gwaredu corfforol heb feddwl bod hyn yn eu gwaredu o afael y Diafol. Beth oedd y garreg wen hon felly? Pan fyddai cenhedlaeth Ioan yn dod mewn cenhadaeth i Pergamus, wedi cenhedlaeth Josua, wedi cenhedlaeth Moses, (megis atat tithau yn yr unfed ganrif ar hugain), a thithau yn dod ar dy daith ac yn gweld carreg wen, stopia, a hola 'beth yw'r garreg hon' (megis yn Josua)? A dyna fyddai yna: yr Arglwydd fyddai'n dweud, wrth ein cenhedlaeth ni, fod yna frwydr gyson arwyddocaol wedi bod fan hyn, ond fod yna gadwedigaeth. Ym mhob cenhedlaeth y mae yna hereticiaid, duwiau eraill, sef rhai a chwenychai roi heresi yn lle Cristnogaeth. A'r pryd hynny, bydd yna arwydd gweledig diriaethol – carreg wen, (h.y. darpariaeth gan yr Arglwydd) a rydd gyngor ac atgof yn dy gyfnod, megis arwydd: byddai'n dweud wrthyf fod yr Arglwydd gyda thi. Rwyt ti'n eiddo heddiw i un sy'n dy garu di, a

gellir cael cymdeithas ag ef ar dy daith. Un yw sy'n ceryddu yn ei gariad, mewn deddf ac mewn rhyddid. Mae Arch y Cyfamod yn cynnwys dau dabled o faen a'r Deg Gorchymyn arnynt. Ond mae Gair y Bywyd yn fwy na phwysau papur-newydd cyffredin, ac yn fwy na llais dynol. I agor y llyfr hwnnw fe ddaeth Penarglwyddiaeth drwy gymdeithas yr Ysbryd Glân ynddo i'r galon. Ac yna, beth bynnag a ddywed hereticiaid, y mae Cyfiawnhad yn cyd-gamu o hyd, ymlaen ac ynghyd â Sancteiddhad i blant Duw.

IV THYATIRA (2: 18-29)

Erbyn cyrraedd Thyatira, mae'r Arglwydd Iesu Grist wedi dechrau egluro thema am batrwm i gyflwr yr eglwysi (yn nyddiau Ioan, ac yng Nghymru heddiw).

Ceir brwydr rhwng teyrngarwch i Iesu Grist a theyrngarwch i eilunod.

Mae'r eilunod yn cymryd amrywiol ffurfiau, boed yn eiconau i'r gwahanol grefftau neu'n ddulliau masweddus o ddiddanu.

Ond yr un yw'r ymateb – cyfaddawdu â duwiau anfoesol, dynganolog, sy'n cydweithredu â ffasiynau'r amseroedd – boed yn feddyliol neu'n ymddygiadol. Mae'r pwysau mor drwm i gydymffurfio â'r dymuniad i gadw safle mewn cymdeithas.

Roedd Jesebel yn gwybod sut oedd ei gwneud hi heb fawr o bechu, sef drwy blygu i'r gwleddoedd rhyw-ffieiddiol ac aros yn 'Gristion': yn wir, sut i fod yn 'well Cristion' felly. Druan o Jesebel.

Roedd yr Iesu'n cymeradwyo ac yn cadarnhau pob mân arwydd o ddaioni. Cenfydd ef rai sy'n ymatal rhag godinebu, ac yn aros yn ffyddlon i Grist. Bydd y wobr yn fawr ac yn werthfawr. Ac fe roddir iddynt 'seren ddisglair y bore' (Dat. 22: 16). Dyna yn ddiâu ysblander Iesu Grist ei hun.

V SARDIS (3: 1-6)

Pobl orhyderus a haerllug oedd trigolion Sardis. Roeddent wedi ymgartrefu mewn dyffryn diarffordd diogel. A theimlent nad oedd dim a'u gorchfygai. Ond erbyn amser y *Datguddiad*, roedd y sefyllfa wedi dirywio. Difethwyd rhyw faint o'r ddinas gan ddaeargryn. Cyfeiriai'r Arglwydd Iesu hwy ato'i hun, wrth sôn amdano'i hun: 'yr hwn sydd ganddo saith ysbryd Duw a'r saith seren yn ei ddweud.' Nid dieithr inni heddiw yw clywed fel y mae saith seren yn wedd ar y dieithrwrch a fabwysiadodd Iesu yn *Datguddiad*. Mae'r math hwn o ddisgrifiad golau yn amlhau wrth ddarllen ymlaen. Bu gan Sardis enw da, ond nid oedd ganddi hawl i'r fath ddisgrifiad. Roedd digon o anffyddloniaid yn eu plith i dderbyn cerydd Iesu: 'Ni chefais dy weithredoedd yn gyflawn.' Dyna'r elfen farwaidd yn yr eglwys. 'Ond y mae gennyt rai yn Sardis nad ydynt wedi halogi eu dillad.'

Ym mhob un o'r Saith Eglwys, ceir rhai yn 'rhodio gyda mi mewn gwisgoedd gwynion.' Ym mhob un o'r Saith Eglwys y mae Iesu'n nodi'r gobaith a all arwain yr eglwys i fod yn fwy llwyddiannus. Mae yna gysondeb a thebygrwydd ac undod rhwng pob un o'r Saith Eglwys â'i gilydd mewn deuoliaeth drugarog.

VI PHILADELFFIA (3: 7-13)

Canmola Crist Philadelffia yn anad dim,
'yr hwn y mae allwedd Dafydd ganddo,
yr hwn sy'n agor, ac ni fydd neb yn cau,
ac yn cau, a neb yn agor.'

Sylwer sut y mae'r Arglwydd Iesu yn cyfleu hyn mewn ymadroddion ar-slent, yn symbolaidd. Er gwaethaf gwendid, 'ni wedaist fy enw.'

Mae Duw'n arwain rhywrai croes (a ddaw o synagog Satan) yn fwriadol i'r lle, ond gŵyr mai plygu a wna'r rheini oherwydd cryfder ffydd a buchedd y Philadelffiaid.

Mae eu siampl i'w clywed o hyd, gan fod y neges, i'r Saith Eglwys hyn, yn neges i'r unfed ganrif ar hugain. 'Y sawl sydd â chlustiau ganddo, gwrandawed beth y mae'r Ysbryd yn ei ddweud wrth ei eglwys.'

'Purdeb calon yw dymuno un peth,' meddai Kierkegaard yn yr ugeinfed ganrif. Ac addawyd gan Ioan i'r Philadelffiaid y caent hwythau weld pregethu'r Gair yn y fath fodd sy'n dwyn bendith i'w gwrthwynebwy. Yr arwyddion o eglwys fyw yw credu cychwynnol ynghyd â thyfiant a chydymdeimlad ac undeb gyda'i gilydd mewn emosiwn.

VII LAODICEA (3: 14-22)

Mae'r termau 'Laodicea' a 'Laodiceaidd' yn dermau cyffredin i'r boblogaeth yn gyffredinol ar gyfer diffyg hwyl neu frwdfrydedd glastwraidd. O'r holl dermau disgrifiol yn *Datguddiad*, o safbwynt y byd, dyma gyflwr a ddirmygir – yn ddjarhebol felly – hyd yn oed o du anghredinwyr ynghylch rhai sy'n llugoer neu'n glae ar ynghylch rhyw hobi neu chwarae neu ddaliad gwleidyddol. Roedd Laodicea yng nghyfnod Ioan yn enwog am ei golud. Pan gawsant ddaeargryn ni fynnai'r trigolion ofyn am gymorth gan y llywodraeth. Ymffrostiai'r bobl ynghylch ymgyfoethogi fwyfwy. Gorweddent yn ôl mewn hunanfodlonrwydd.

Pobl heb argyhoeddiad o bechod oeddent. Gall fod yn haint eithaf cyffredin ymhlith aelodau eglwysig o hyd. Yr oedd y rhain yn wrthun i Iesu.

Eto, ni chaent eu damnio yn dragwyddol. Ni wyddent pa beth a wnaent: adnod 18: 'Felly, cynghoraf i brynu gennyf fi aur wedi ei barnu drwy dân...' [ymlaen i] adnod 20: 'Wele, yr wyf yn

sefyll wrth y drws ac yn curo; os clyw rhywun fy llais ac agor y drws, dof i mewn ato' [ac ymlaen i] adnod 21: 'I'r sawl sy'n gorchfygu y rhof yr hawl i eistedd gyda mi ar fy ngorsedd megis y gorchfygais innau ac yr eisteddais gyda'm Tad ar ei orsedd ef.' Ym mhennod 20: 12-13, mae Duw yn meddu ar ddwy orsedd, un yn y nefoedd uchaf, a'r llall yn y galon iselaf. Mae sôn am 'orsedd' yma mewn iaith syrthiedig ac annigonol yn llythrennol od, mae'n amlwg, gan fod 'gorsedd' yn air sydd wedi'i fathu ar gyfer gorseddau bydol – o bren ac aur daearol a maintioli a 'gogoniant cyfyngedig', ac yma mae'n sôn am beth rhyfeddol o wahanol. Mae yna naid. Yr unig gasgliad sicr y gellir ei ddweud o'i blaid yw bod yr iaith ddaearol hon yn atebol ac yn gwbl ddigonol drwy nerth yr Ysbryd Glân i oresgyn anawsterau'r llawr. Ceidw rhai o hyd wefr dechrau'r Cristion newyddeni.

Drwy gydol y ddwy bennod hyn, mae patrwm agwedd ac ymarfer Iesu'n gyson faddeuol. Gwna ef ei orau o fewn posibiliadau rhagluniaeth i drugarhau. Ar hyn y seiliodd ef ei ymgnawdoliad a'i groeshoeliad. Agorwyd y drws. Meddai Meirion Ll. Davies un tro, 'Ni ellir prynu maddeuant a gras Duw ag arian na dim arall – nid â gweithredoedd da, hyd yn oed.'

Y Saith Eglwys hyn sy'n crynhoi'r holl wir am fywyd eglwysi Cristnogol drwy'r canrifoedd, y frwydr rhwng y Cwmp a'r Cadw, y daith rhwng bywyd a'r Bywyd. Beth a wnaeth Iesu Grist â'r Laodiceaid? Eu caru.

GOLEUNI CRIST

Crist yng nghanol saith ganhwylbren yw prif thema *Datguddiad* 1 – 3. Ef yn ffigurol, ond yn llythrennol hefyd (yn ôl testun *Datguddiad*), yw 'goleuni'r byd'. Ni chredaf y byddwn yn deall goruwchnaturioldeb gwir y *Datguddiad* heb sylweddoli bod symbolaeth goleuni Crist yn sylfaenol lythrennol. Rhaid yw deall o'r newydd y gweld a gaed mewn gweledigaeth gras arbennig a'r saer a gâi oleuni celfyddyd mewn artistwaith drwy ras cyffredinol, 'Wele, yr wyf yn gwneud *pob* peth yn newydd.'

Ef oedd Crëwr goleuni. Ef oedd Goleuni'r Byd. Allan ohono Ef y daeth pob goleuni. Defnydd o'i wneuthuriad Ef, a'i adlewyrchiad Ef, lle bynnag yr oedd, oedd Goleuni.

Yn y Byd Newydd a'r Nefoedd Newydd, (22: 5) 'Ni bydd nos mwyach, ac ni bydd arnynt angen na golau lamp na golau haul, oherwydd bydd yr Arglwydd Dduw yn eu goleuo, a byddant hwy'n teyrnasu byth bythoedd.' Mae hyn yn llythrennol wir. Ansawdd Iesu Grist yw treiddio'r tragwyddol â'i hanfod diriaethol: goleuni fydd ei ymddangosiad. Drwy fethodoleg 'llythrenoli' y sylweddolwn beth y mae Ioan wedi'i dderbyn fel datguddiad awdurdodol ysbrydol.

Mae'n rhaid i feddyliau'i ddarllenwyr er mwyn meddiannu'r Ddaear Newydd a'r Nefoedd Newydd drosi trawsffurfiad Armagedon yn ôl ein geiriad ni i gyrraedd gwlad Tangnefedd goleuni pur ac effaith goleuni: y gelyn olaf ar y daith yw marwolaeth. Swyddogaeth Ioan yn ei *Efengyl* ac

yn y *Datguddiad* (pâr y goleuni) oedd cyflwyno Iesu Grist fel y'i profodd (Ioan 1: 5): 'Ynddo ef yr oedd bywyd a'r bywyd, goleuni dynion ydoedd. Y mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef.' Yn llythrennol, mae'r deall wedi cael tröedigaeth wrth ganfod hyn. (Dat. 21: 24) 'A bydd y cenhedloedd yn rhodio yn ei goleuni hi.' Yn fwy na'r un efenglydd arall, swydd Ioan oedd tanlinellu'r rhinwedd hon ym modolaeth Iesu.

Hynny yw, y mae Iesu yn dysgu inni yn *Datguddiad* fwy amdano'i hun a'i nodweddion personol fel mae yn awr, yn fyw, ac fel y'i profwn ef yn llawn maes o law. Mae yna berygl ar hyn o bryd o feddwl amdano, dan dywyllwch ein pechod, mewn modd cwbl anghywir. Rhaid inni ymddihatu. 'Bydded goleuni' oedd y dechrau yn *Genesis*; ac adferir hynny'n ddaearol fydol (i raddau) i'r Cristion, ond yn llythrennol effeithiol yn y nef. Rhan o'r goleuo ar y ddaear yw goleuo'r galon, ond yno fe'n troir yn oleuni dwyfol gwybod yn ganlyniad anochel. Pan gwmpwyd, effeithiwyd ar wneuthuriad ecolegol y ddaear. Ond yn *Datguddiad*, ceir daear newydd oruwchnaturiol o ran ystyr a phrofiad. Ac fe'i gwelir hi yn glir.

Ni welaf y bydd angen 'cwsig' ar y ddaear newydd. Canlyniad y Cwmp yw blinder y corff. Ond ni chwsg Duw. I'r corff dynol, mae yna fethiant i fod ar ddi-hun o hyd. Felly yn *Datguddiad*, 1:12, y mae Ioan yn troi 'i weld pa lais oedd yn llefaru wrthyf; ac wedi troi, gwelais saith ganhwyllbren aur, ac yng nghanol y canwyllbrennau un fel mab dyn...' Dyna'i ganfodiad. Ac roedd yna reswm am y canfodiad. Eto, ym mhennod 2: 'dyma y mae'r hwn sy'n dal y saith seren yn ei law dde, ac yn cerdded yng nghanol y saith ganhwyllbren aur, yn ei ddweud...' Fe gawn fynd yn *Datguddiad* 21:2 i mewn i'r 'ddinas sanctaidd, y Jerwsalem newydd, yn disgyn o'r nef.' *Datguddiad* 21:19: 'Yr oedd ei llewyrch fel llewyrch gem dra gwerthawr, fel maen iasbis, yn disgleirio fel grisial,' ac yn adnod 21:23: 'Nid oes ar y ddinas angen na'r haul na'r lleuad i dywynnu arni, oherwydd gogoniant Duw sy'n ei goleuo, a'i lamp hi yw'r Oen.' Efallai mai dyna uchafbwynt llawnaf yr eglurhad hwn o effaith Goleuni dwyfol Crist.

Dyma, wedi holl drafael y byd tuag at Ddaear Newydd a Nefoedd Newydd, brofiad newydd i gorff newydd y Cristion, ac ni ellir ei ddisgrifio'n well nac yn gywirach. Creder hyn yn union fel y mae. Mae'n dweud yn gywir llythrennol. Ni cheir goleuni o unman arall.

GORSEDD GOGONIAINT Y NEF (4: 1-11)

Drwy gydol y *Datguddiad*, cyfeirir at nifer helaeth o wrthrychau, anifeiliaid, a sefyllfaoedd sy'n diriaethu canolbwynt sylw.

Y symbol gwrthrychol cyntaf a enwa yw Gorsedd Gogoniant Duw. Hyn sy'n arwain drwy ganolbwyntio, yn rhagflaenol, ar yr holl symbolau sydd ynddo Ef ei hun. Felly y nodir mai Duw sydd yng nghanol bodolaeth, ac allan ohono Ef y mae pob peth arall yn tarddu.

Teyrnas Dduw sydd dan sylw drwy gydol y llyfr: ei Ffurf.

Sut Dduw yw hwn? Gallai anffyddiwr synied a honni mai Unben yw. Onid yw'n hollalluog ac yn hollwybodus? Iawn yw cyfrif ei fod yn ofnadwy ac yn ddychrynus, a'i ewylllys ef a wneir. Eithr twpdra ac anwybodaeth sy'n cyfrif am gamsynied ynghylch hynny. Fel y dangosir yn fuan (4: 9), mae'r Brenin tlawd hwn bellach yn derbyn ymostyngiad ei bobl. Dyma'r Gwas Dioddefus, sy'n ei roi ei hun i'r eithaf hyd at farw i'n cadw a'n diogelu ni. Bu'n gwasanaethu dyn! Bellach Penarglwydd yw wedi'i drawsffurfio.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng gostyngeddwydd a thaeogrwydd? Calon lân. Gall Cristion fod yn falch o'i ostyngeddwydd. Nid yw'n ymffrostio mewn dim ond yn Iesu Grist a hwnnw wedi'i groesheolio.

Nid cael ei ladd a ddigwyddodd, yn hollol. Fe'i rhoddodd ei hun er ein mwyn. Roedd yn gwybod yn union ymlaen llaw beth y byddem yn ei wneud iddo. Yn wir, daeth ef yn fodlon ac yn unswydd i fynd i'r eithaf er ein mwyn ninnau oherwydd i ni gael ein derbyn ganddo drwy'r Ysbryd Glân, ond inni ei dderbyn ef.

Hyn yw teyrnas Crist – o dan goron ddrain. Dyma'i 'wleidyddiaeth' ef os liciwch. Dyma'r ffordd y llywodraethai. Edrychwn nawr o'n cwmpas ar lywodraethau'r byd hwn, ac fel Cristnogion ymholi beth yw gwleidyddiaeth y byd i fod, beth yw'r patrwm yn nheyrnasiad Crist? A all hyn o weledigaeth o'r ddaear newydd yn *Datguddiad* fod yn gymorth ac yn gyngor i ni iawnsynied wrth wleidydda'n seciwlar? Yr ateb yw – mae gwleidyddiaeth ddaearol yn bod ac yn ei haddasu ei hun i un angen a gwasanaeth yn benodol – sef pechod gerbron perffeithrwydd llawn Duw. Mae felly'n gwbl wahanol o ran ein dealltwriaeth o ddaioni'r ddeddf. Pawb a bechodd, ac sydd yn ôl am ogoniant Duw. Ni byddai angen cyfreithiau a rheolau bydol oni bai am bechod. Pan soniwn am wladwriaeth Duw, soniwn am y math o batrwm a geir yn *Datguddiad* ac yr ydym yn gwleidydda mewn cyd-destun goruwchnaturiol mwyach, a rhaid cymhwyso'n rhagdybiau i gyd-destun goruwchnaturiol, orau y gallwn ni, gan gyflawni'r dasg yn ôl y gorchymyn diwylliannol: (Gen.1: 28) 'Byddwch ffrwythlon ac amlhewch, llanwch y ddaear a darostyngwch hi; llywodraethwch ar bysgod y môr, ar adar yr awyr, ac ar bopeth byw sy'n ymlusgo ar y ddaear,' a hynny er gogoniant Duw.

Cysylltir gwleidyddiaeth â'r gorchymyn hwn, y gorchymyn dibennol, a'r gorchymyn cyntaf i ddyn yn benodol (nid y gorchymyn cyntaf oll i'r greadigaeth oll, sef 'bydded'). Ond fe'i cysylltir hefyd â moesoldeb sylfaenol y Deg Gorchymyn a'r Gwynfydau. A chyn belled ag y gall, heb ei dwyllo'i hun, wyneba dyn ei gyd-ddyn mewn trugaredd a graslondeb, gan wybod ei fod mewn rhyfel sanctaidd. Peth i'w fwynhau gyda llawenydd nefol, felly, fydd y ddeddf.

Myn realiti inni hefyd gydnabod, fel y dengys *Datguddiad* o fewn cyd-destun cosmig, fod

hyn oll yn arwain at Ddydd y Farn, lle y bydd pawb oll, yn gadwedig neu'n golledig, yn atebol o flaen y Duw aberthol sydd hefyd yn Dduw cwbl gyfiawn a glân a chariadus ym mhopeth.

ANIFEILIAID

Yn *Datguddiad* 4: 6 ymlaen sonnir am bedwar anifail mewn addoliad seremonïol. Dywedir am y pedwar: 'yng nghanol yr orsedd ac o'i hamgylch yr oedd pedwar creadur byw yn llawn o lygaid o'r tu blaen a'r tu ôl. Yr oedd y creadur cyntaf yn debyg i lew, a'r ail i lo; yr oedd gan y trydydd wyneb dynol, ac yr oedd y pedwerydd yn debyg i eryr yn hedfan. I'r pedwar creadur byw yr oedd chwe adain yr un, ac yr oeddent yn llawn o lygaid o'u hamgylch ac o'u mewn, a heb orffwys ddydd na nos yr oeddent yn dweud;

'Sanct, Sanct, Sanct
yw'r Arglwydd Dduw hollalluog,
yr hwn oedd a'r hwn sydd a'r hwn sydd i ddod.'

Mae'r holl bwyslais ar 'lygaid' yn yr adnodau hyn, a drafodwn nawr, yn awgrymu bod y nefoedd yn fangre lle y bydd popeth yn cael ei weld mewn modd eithriadol eglur, a bod hyn yn gyflwr gwahanol a rhyfeddol. Ar hyn o bryd, gyda phopeth, ni welwn ond o ran.

Pan holwn sut le yw'r nefoedd, gellid ateb yn deg: lle yw lle y try popeth yn addoliad heb chwys na blinder. Does dim sail dros honni nad oes dim gwaith yno; ond gwaith yw a gyfrifir yn addoliad oherwydd y ffordd a'r diben a'r pleser dros ei wneud. Bydd 'y creaduriaid byw yn rhoi gogoniant ac anrhydedd a diolch i'r hwn sy'n eistedd ar yr orsedd.' Rhaid bod hyd yn oed 'addoliad' yn wahanol. Gwaith yw a drawsffurfir.

Mae'n amlwg fod Iesu Grist am inni wybod rhywbeth am hyn. Mae'r ateb cryno, os dyrys i'w ddeall i'r meddwl dynol yn awdurdodol, a geir yn *Datguddiad*, ac yn gywir o'n blaen fel yr oedd o flaen y Saith Eglwys.

Fe all fod yn alegoriol neu'n drosiadol. A phan sonia am 'Oen Duw' (Dat. 5: 1-14) wrth sôn amdano'i hun, gwyddom nad siarad yn llythrennol y mae. Ond ni waeth am hynny, gallwn ei dderbyn i'n calonnau mewn ufudd-dod a bod yn rhan o'r darllen sy'n gogoneddu Duw heddiw, megis y gwnâi adeg Ioan.

Pan gyplysir y Llew a'r Oen, mae yna uniaethu annisgwyl. Nid grym a gorfod yw'r Llew, oherwydd dyma'r Oen i ddioddef mewn difrychni, megis Oen i'r lladdfa.

Fe ellir holi'n naturiol pa bryd y mae'r testun yn llythrennol a pha bryd yn alegoriol? Onid yw'n amlwg ei fod yn sôn am Ogoniant fel gosodiad llythrennol? Ac onid hynny yw diben ein hymholi? Drwy'r amser, sylweddolwn ein bod yn ceisio sôn am rywbeth y tu hwnt i iaith ddaearol alegoriaidd fel y mae. Ceisiwn ninnau ddefnyddio geiriau annigonol, daearol ond plwmp a phlaen,

er mwyn cyfleu rhyfeddod ofnadwy y dwyfol. Felly y bydd Cristion yn y bôn, a bod yn sicr yr un pryd fod Duw'n derbyn ein ceiniogau deall.

Pan fydd Iesu'n sôn yn y cyd-destun hwn am anifeiliaid, gall fod yn helpfawr inni sylwi bod yna dri cham wedi bod yn hynt a hanes yr anifail. Yn gyntaf, wrth gwrs, roedd yn rhan o'r greadigaeth ddechreuol: (Genesis 1: 20 ymlaen) 'Yna dywedodd Duw, "Dyged y ddaear greaduriaid byw yn ôl eu rhywogaeth: anifeiliaid, ymlusgiaid a bwystfilod gwyllt yn ôl eu rhywogaeth." A bu felly. Gwnaeth Duw y bwystfilod gwyllt yn ôl eu rhywogaeth, a'r anifeiliaid yn ôl eu rhywogaeth, a holl ymlusgiaid y tir yn ôl eu rhywogaeth. A gwelodd Duw fod hyn yn dda.

Dywedodd Duw, "Gwnawn ddyn ar ein delw, yn ôl ein llun ni, i lywodraethu ar bysgod y môr, ar adar yr awyr, ar yr anifeiliaid gwyllt, ar yr holl ddaear ac ar bopeth sy'n ymlusgo ar y ddaear. Felly creodd Duw ddyn ar ei ddelw ei hun, ar ddelw Duw y creodd ef, yn wryw ac yn fenyw y creodd hwy. Bendithiodd Duw hwy a dweud. 'Byddwch ffrwythlon ac amlhewch, llanwch y ddaear a darostyngwch hi; llywodraethwch ar bysgod y môr, ar adar yr awyr, ac ar bopeth byw sy'n ymlusgo ar y ddaear.'" Sef yr ail gam i'r anifeiliaid.

Sylwn fod y cwbl yn rhodd. Sylwch ar swydd frenhinol dyn. Nid oedd rhaid iddo wneud dim i gael y rhodd yma. Hynny yw, nid oedd dyn yn ei 'haeddu'. Cyn y cwmp yr oedd y cwbl ym meddwl Duw. Ond rhoddwyd iddo 'orchymyn' sy'n dangos ei berthynas ef â'r anifeiliaid eraill. Dyma'r ddeddf gyntaf oll i ddyn yn benodol. Fe'i gelwir yn Orchymyn Diwylliannol (*The Cultural Mandate*), a dyma ddechrau i'r deddfau ymarferol o'u cyferbynnu â'i ddeddf i'r Cread oll: 'Bydded goleuni.'

Ymhellach ymlaen, ar ôl y creu a'r tadogi enwau arnynt i'w dosbarthu, y trydydd cam yn hanes *anifeiliaid* fu Arch Noa. Credaf fod y paragraff a luniodd Thomas Charles yn ei *Eiriadur* meistraidd (tud. 60-61) yn grynodedb gwych o'r digwyddiad hwnnw, a'i ddsbarthiad pellach yn arwyddocaol wrth ddeall natur rhaniad y creaduriaid yng ngoleuni'r ddeddf seremonïol, wedi'r cwmp:

'Yr anifeiliaid dan y ddeddf a gyfrifid yn dri math:- 1. Y rhai glanaf a mwyaf buddiol i ddynion, hawsaf eu cael, y rhai mwyaf cymhwys i fod yn aberthau i gysgodi aberth Crist; sef ychain, defaid, colomenod, &c. Tebygol mai y rhai hyn a gyfrifid yn lân wth fyned i mewn i arch Noah. Gen. 7. 3, 8. a 8.20. Lef. 1. 3,10, 14 a 22. 18: 2. Eraill oeddynt yn lân i'w bwyta, ond nid i'w haberthu; sef y rhai oedd yn cnoi eu cil, ac yn fforchogi yr ewin. Ond os byddai i un o'r rhai hyn farw o hono ei hun, heb gael gollwng ei waed – neu gael ei ddryllio gan, ac felly, hwyrach, gyffwrdd ag anifail aflan, yr oedd yntau yn aflan hefyd. Deut. 14. 4-6. Exod. 22. 31. Lef. 9: 3, 9, a 22. 8. – 3. Y lleill a gyfrifid yn llwyr aflan, sef y rhai creulon, ysglyfaethus, adar y nos, &c. Lef. xi. Deut. xiv. – Yr oedd y rhai cyntaf yn gysgod o Iesu, ein Prynwr llariaidd, addfwyn, parod a digonol aberth. Yr oedd yr

ail yn gysgod o'r saint, y rhai sydd yn byw ac yn myfyrio ar iachus a phur air Duw, yn cael cymdeithas â Christ a'i bobl, ac yn nofio yn erbyn y ffrwd o lygredigaeth. Yr oedd y trydydd yn gosod allan y rhai drygionus, creulon, heb fod yr Ysbryd ganddynt. Dynion o dymherau tanllyd, creulon yn erbyn Duw a'i bobl. Lef. xi. Deut. xiv.' Dyma awgrym o natur foesol anifeiliaid.

Yn awr cyhoeddwn drydydd dosbarthiad neu ddehongliad o anifeiliaid – sef yr un a geir eto yn *Datguddiad*, sef : daearol a nefol.

Gwelwn gryn debygrwydd rhwng *Llyfr Eseciel* a *Datguddiad*. Ceir datguddiadau tebyg. Sylwer mai'r un anifeiliaid ag a geir yn *Eseciel* 1: 10, sef 'wyneb dynol, yna wyneb llew ar yr ochr dde, ac wyneb ych ar yr ochr chwith, ac wyneb eryr,' ag a enwyd uchod yn *Datguddiad* 4:7, sef anifeiliaid wedi'u dieithrio. Ymddengys fod yna elfen alegoriol i'r rhain. Cynrychiolent egwyddorion ysbrydol, cryfder yn y llew, gwasanaeth yn yr ych, cyflymder yn yr eryr, a deallusrwydd yn y dyn. A dyma'r pedwar ansawdd a briodolir i angylion (*Salmau* 103: 20, 21; *Daniel* 9: 21; *Luc* 12: 8; 15: 10).

Ochr yn ochr â'r rhain, nodir y bodau nefol, sef y cerwbiaid. Mae'r rhain hefyd (*Eseciel* 1: 28 a *Datguddiad* 4: 3) yn gysylltiedig â mawrygu'r orsedd. Yn *Genesis* 3: 24; *Ecsodus* 25: 20, hwy sy'n gwarchod pethau sanctaidd Duw. Ond nid alegoriol mohonynt. Bodau nefol ydynt, yn llythrennol, – angylion, trigolion hefyd yn meddu ar fywyd o ansawdd gwahanol i anifeiliaid a dynion.

Dyma hefyd ddisgrifio dynoldeb anrhydeddus ac ysbrydaeth botensial yr Adda Cyntaf.

Y SGRÔL A'R OEN (5: 1-14)

Dyma'r sgrôl awdurdodol sy'n cynnwys erioed y rhestr o fwriadau Duw. Mae'r adran hon yn cynnwys cyfuniad o athrawiaeth oruwchnaturiol ac uwchddynol a hanes ysbrydol Crist. Mae'n datgan er enghraifft fod etholedigaeth mewn llawn gynghanedd â rhyddid yn yr efengyl. Gras yw etholedigaeth. Dyma, wrth gwrs, un o bum pwynt Calfiniaeth a'r Efengyl Ddiwygiedig. 'Mae f'enw fry ar lyfrau'r nef,

Ac nid oes dim a'i blotia ef,'

meddai'r hen emyn. Ond dolen ddidorri rhagluniaeth yw'r hyn a lyna bob un o'r pum pwynt Calfinaidd hyn wrth ei gilydd. Iesu Grist yn unig a sicrha hynny, wrth agor y sgrôl:

(Dat. 5:9) 'Teilwng wyt ti i gymryd y sgrôl

ac i agor ei seliau,

oherwydd ti a laddwyd ac a brynaist i Dduw â'th waed

rai o bob llwyth ac iaith a phobl a chenedl.'

Dengys y drydedd linell nad 'llyfr llythrennol' sydd yma. Llyfr gwahanol i lyfrau bob dydd

yw, wedi'i newid a'i fywydu yw. Llyfr bywyd tragwyddol ei hun yw, a hynny ar gyfer y rhai a restrwyd yng ngwaed Iesu Grist, boed yn Iddewon neu'n genedl-ddynion. Duw, o'i ragluniaeth, a ddewisodd rai unigolion penodol, ac ysgrifennu eu henwau 'cyn llunio'r byd, cyn lledu'r nefoedd wen... fe drefnwyd ffordd yng nghyngor Tri yn Un i achub gwael golledig euog ddyn.' Felly, yn *Datguddiad* yn y diwedd fe ddatgenir yr Etholedigaeth 'wrthun' y tu hwnt i bob amgyffrediad dynol o'r dechrau ac yn cael ei chynnig i bawb; ac eto, nodir cytundeb a gwirionedd a chydabyddiaeth gan y rhai nas achubwyd:

(Dat. 13:8) 'Bydd holl drigolion y ddaear yn ei addoli ef, pob un nad yw ei enw'n ysgrifenedig er seiliad y byd yn llyfr y bywyd yr Oen a laddwyd.'

ac ymlaen ychydig:

(Dat. 17: 8) 'Bydd trigolion y ddaear, y rhai nad yw eu henwau'n ysgrifenedig yn llyfr y bywyd er seiliad y byd, yn rhyfeddu o weld y bwystfil...'

Gwelir yno ym mhennod 17 adleisio i bennod 13, a sut y mae gwahanol rannau o'r *Datguddiad* yn glynu yn ei gilydd i gadarnhau'i gilydd. Gweledigaethau cyfredol cyd-leisiol ydynt.

Dengys fel y mae holl wth athrawiaethol yr Ysgrythurau, a grynhoir ar gyfer y Diwygiad Protestannaidd yn y pum pwnc 'Calфинаidd', yn dod i'w cwlwm hardd olaf yn llyfr dathliadol olaf y Beibl. Mae gweithred y *Tad* wrth ethol yn perthyn i waith gwaredigol y *Mab*, wrth farw dros yr etholedigion, ac ar waith yn ymroddiad adnewyddol yr *Ysbryd* i ddwyn yr etholedigion i ffydd yng Nghrist.

(Dat. 17: 14) 'Fe ryfelant yn erbyn yr Oen, ac fe orchfyga'r Oen hwy, oherwydd y mae ef yn Arglwydd arglwyddi a Brenin brenhinoedd, a'i osgorddlu ef yw'r rhai a alwyd ac a etholwyd ac sy'n ffyddlon.' Hynny yw, mae galwad yr Ysbryd yn effeithiol a gras yn anwrthodadwy. Bu hyn yn dramgwydd o'r dechrau yn Eden, a dyn yn gwrthdystio ac achwyn gan hawlio'i fod yn cael cam ac yn annheg. Ond fel y dadleuai Paul wrth y Cristnogion yn Rhufain, (Rhuf. 9: 23): 'Ei amcan yn hyn fyddai dwyn i'r golau y cyfoeth o ogoniant.' Erbyn amser Patmos, yr oedd y dadleuon hen-ddaearol hyn oll wedi tynnu i ben, er bod yna elyn yn aros yn erbyn Iesu o hyd wrth gwrs. Eithr erbyn hyn, yr oedd 'dadlau' fel y cyfryw drosodd ac wedi troi'n 'rhyfel' ac yn 'ferthyrdod' ac yn 'glod' i'r Oen rhyfelgar.

Y CEFFYLAU A'U MARCHOGION (6: 1-7)

O fewn y blynyddoedd hyn o ryfel ac erledigaeth gan seciwlariaeth yn yr unfed ganrif ar hugain, trown o'r pedair sêl at symbolaeth y ceffylau a'u marchogion, gan ymgysylltu â *Sechareia* 1: 8 yml.; 6: 2-7. Yn gyffredinol (cf. Dat. 9: 7; 14: 20; 19: 11, 14), fe ddeallwn mai symbol o nerth a rhyfel yw ceffyl (cf. Eseia 30: 16); delwedd gyfan o feirch mewn rhyfel sy'n cyfleu'r gwirionedd

hwn.

Ond y mae'n amlwg fod Iesu Grist am danlinellu lliwiau'r ceffylau hyn. Roedd *gwyn* (Dat. 6: 2) yn arwyddo buddugoliaeth a llwyddiant; roedd *coch* yn arwyddo rhyfel (Dat. 6: 4) ac erledigaeth; roedd *du* yn arwyddo barn ac ofnadwyaeth (Dat. 6: 5): roedd *gwelw-lwyd* yn arwyddo newyn a heintiau (Dat. 6: 8). Doedd dim glastwreiddio ar ddychryn rhyfel y groes. Brwydr hagr yw, yn cyfateb i hagrwech y pechod a gosbir, ond daionus a glân drwy lygaid Duw. Dywed *Geiriadur* Thomas Charles (t. 315) am y lliw du: '*du* yng ngolwg y byd, ond hawddgar yng ngolwg yr Arglwydd.' (Mae dwyfoli a newid lliwiau hwythau yn gallu troi'r gwaethaf a'u gwêl.) '2 Cor. 4: 8-10; Salm 149: 4; Eseia 61: 10; Luc 15: 22; Rhuf. 13: 14; 2 Cor. 5: 21; Eff. 26, 27; Dat. 19: 7,8;' ond gwaredigol yn yr effaith ar y Ddaear Newydd.

Mae'r ddelwedd ryfelgar o Iesu Grist, drwy Ioan yn y *Datguddiad* hwn, yn ei gyflwyno mewn ymddygiad ymosodol a buddugoliaethus ac yn cyferbynnu'n anochel â delwedd Ioan yr apostol yn ei efengyl lle y mae'n cyfeirio at ddelwedd *Hosea* 14: 3. Ond yma, y mae hyn o gyferbyniad yn golygu llawer mwy na gwahaniaeth rhwng dau gyfnod. Dyma grynodeb o hanes Cynllun Mawrhydig Duw yn ei ymwneud â dynolryw i gyd. Fe ymostyngodd yn gynnar yn Genesis i ymrwymo i wasanaethu dyn. Pan ddaeth Iesu Grist i'r byd ar lun dyn bach i dlodi'r preseb a llaca'r gwartheg, fel *ffoadur* y daeth, yn yr un modd â channoedd o filiynau, ac nid yn unig o Ewrob, hyd yn oed cyn Hitler a Stalin, ond yn yr unfed ganrif ar hugain o'r Dwyrain Canol, o Fecsico a gwledydd De America hyd Affrica (yn anad yr un lle), hyd at Gorea, a'r Pilipinas, Indonesia, Tsheina, Bwrma ac yn y blaen. Fe gerddodd yr Iesu yn wylaidd ymhlith y cleifion a'r werin dlawd, ymhlith gelynyion ffaidd ac unbenaethol, drwy ferthyron, ac i oddef cosbedigaeth gwbl ddihaeddiant ar ran pechaduriaid gwrthun fel ni: Duwdod mewn un person a'n cofleidiodd ni mewn trugaredd a maddeuant. Ond yn awr, mae'n dod eto, a dod yn fuan, i farnu, a chyflawni'r glanhad olaf cariadus, ar gyfer pawb sy'n credu. Dyna'r pwyslais sy'n dod i gwlwm yn *Natguddiad* Ioan. Mae'r Cynllun wedi'i gwmpasu yn harddwch ofnadwyaeth y Crëwr. Mae Cynllun y cyferbyniad yn Ioan 16: 33: 'Yn y byd fe gewch orthrymder, ond codwch eich calon, yr wyf fi wedi *gorchfygu*'r byd.' Yn *Datguddiad* 3: 21, 'I'r sawl sy'n *gorchfygu* y rhof yr hawl i eistedd gyda mi ar fy ngorsedd, megis y *gorchfygais* innau ac yr eisteddais gyda'm Tad ar ei orsedd ef. 'Yn *Datguddiad* 5:5, 'A dywedodd un o'r henuriaid wrthyf, "Paid ag wylo, wele, y mae'r Llew o lwyth Jwda, Gwreiddyn Dafydd, wedi *gorchfygu* ac ennill yr hawl i agor a'i saith sêl". Ac yn *Datguddiad* 6: 2, 'Edrychais, ac wele geffyl gwyn; yr oedd gan ei farchog fwa; rhoddwyd iddo goron, ac fe aeth allan fel concwerwr i ennill concwest.' Teyrnas wedi'i gorchfygu, wedi cael tröedigaeth, yw'r Ddaear Newydd.

Yn *Datguddiad* 17: 14 crynhoir y ddelwedd yn fwy byth: 'Fe ryfelant yn erbyn yr Oen!' sef yn erbyn yr Iesu tyner a llariaidd, ac yna 'oherwydd y mae ef yn Arglwydd arglwyddi a Brenin

brenhinoedd, a'i osgorddlu ef yw'r rhai a alwyd ac a etholwyd ac sy'n ffyddlon.' Dyma'r cwblhad a enillwyd gan y Gwarddwr, ac a draddodwyd i ni fel y caem ninnau fod yn etifeddion i'w allu dwyfol.

Egwyddor Y Farn Olaf

Bwriedir i'r Unfed Ganrif ar Hugain (yn ôl ein golwg ni) heddiw i wybod am ffurf y Deyrnas Newydd. Teyrnas yn wynebu Barn yw. A bwriedir i'r *Datguddiad* lefaru wrth yr Unfed Ganrif ar Hugain o fewn cyd-destun Tragwyddoldeb – hynny yw yn awr – ac eto o fewn ffiniau Ôl-foderniaeth.

Mae'r sawl sy'n gyfarwydd â chefn gwlad Cymru y dyddiau hyn yn gyfarwydd â'r argyfwng cyfoes o gau capeli. Bydd rhai ohonom yn coelio mai hyn yw mater mwyaf ein dydd i'r unigolyn ac i'r byd benbaladr. Mae'r Efengyl ddigyfnewid wedi cael ei disodli gan Ddyneiddiaeth y Sefydliad crefyddol. Teyrnas y Pechadur o fewn Teyrnas yn wynebu Barn yw – er na wyddom y dydd. Ond fel yn nydd Ioan, mae'n agos. Dywedodd ef am achos y cau sydd eisoes wedi digwydd o'r tu mewn i'r capeli, a'r hadau yn y Saith Eglwys.

Priodol yw diffinio'n termau.

Golyga 'Dyneiddiaeth y Sefydliad' yn awr y greddo mai 'Dyngarwch heddychlon' yw nod pob dyn moesol. Gwasanaethu dynion eraill yw ei nod pennaf. Gall dyngarwch fod yn greddo hynod o glodfawr, wrth gwrs, ar lefel fydol. Ond gall gormes presenoldeb Dyneiddiaeth fod yn wenwynllyd i'r dyn naturiol fyr-olwg.

Wedi'r cwbl, beth yw *Cristnogaeth*? Dyma greddo gwbl arall a seilir ar ffeithiau hanesyddol ynghylch y Duw goruwchnaturiol, sydd wedi dod yn naturiol i'r byd syrthiedig hwn, i achub pechaduriaid, a phechaduriaid yn unig. Dyna'n syml yw. Mae pawb mewn angen am fywyd tragwyddol yn awr. Ond dyw pawb ddim yn gwybod am ddarpariaeth ddigonol Duw, ac yn sicr ddim am ei angen ei hun. Mae'r angen hwn yn datgan fod pawb yn cael y cynnig am iechyd ysbrydol er gogoniant i Dduw. Gogoneddu Duw yw nod pennaf credadun – os yn isymwybodol weithiau.

Yn y rhifyn cyfredol o *Y Farn Newydd*, Haf 2016, ceir ysgrif gan Gynog Dafis sy'n dadlau o blaid Dyneiddiaeth grefyddol. Crynodeb hwylus dda yw o greddo'r oes. Mae'n ysgrif ofalus a deallus, fel y byddid yn ei ddisgwyl. Ac mae'n werth ei thrafod gyda pharch. Mae'n amlwg bod eisiau ei darllen o gam i gam, gan fod y ddadl sydd ynddi yn dilyn camre sy'n arferol yng Nghymru yn ôl rhagdybiau Dyneiddiaeth, ac felly'n cyflwyno strwythur inni. Syniadau ydynt sydd bellach yn batrwm meddwl cyffredin yn y Gymru Gymraeg.

Gwiw yw oedi gydag un sy'n llefaru'n groyw ar ran llw o rai cyffelyb.

Mae ysgrifau crefyddol Cynog yn haeddu sylw gennym i gyd sut bynnag, nid yn unig oherwydd eu heglurder a'u cyffredinedd, ond oherwydd mai Cynog yw'r awdur. Cynog yw'r meddyliwr cenedlaethol craffaf sy gennym ar ôl cyfnod Gwynfor Evans, oherwydd ei gyfrifoldeb ideolegol a'i ofal deallus, ac mae wedi ennill clust y cyhoedd Cymraeg ei hiaith.

Mae'n bwysig dechrau, ac aros yn feddylgar, gyda'r rhagdybiaeth gyntaf a gyflwyna ef i ni yn wyneb dirywiad crefydd yn y cyfnod diweddar: dyma hi –

'Trwy ryw fath o ddyneiddiaeth grefyddol y mae modd dechrau o'r newydd – dyma fy marn i . . .

Yr hyn a agorai'r drws i drafodaeth grefyddol eglur fyddai cydnabod, yn blwmp ac yn blaen, nad oes unrhyw reswm i gredu bod y fath beth yn bod â'r Goruwchnaturiol, mai ffrwyth y dychymyg creadigol yw crefydd, ac mai creadigaeth Dyn yw Duw.'

Sylwer ar y naid, serch hynny. Allan o'r rhagdybiaeth bendant hon yn erbyn y Goruwchnaturiol 'afresymol', y mae'r cwbl o'r ddadl ganddo o hyn ymlaen yn tarddu, ac yn datblygu o gam i gam. Hynny yw, dyma gychwynbwynt a gymerir yn ganiataol. Dyma'n union yr hen gychwynbwynt i Adda ac Efa ar ôl y cwmp. Dyma'r Sefydliad bellach: Teyrnas ddyrn yn lle Teyrnas Dduw.

Gwell inni archwilio hyn. Dilyna'r camre oll o hynny ymlaen yn anochel. Mae un pwynt yn arwain at y llall. Ond un canlyniad sy'n bendant. Heb gael y rhagdybiaeth yn iawn, roedd y cwbl yn syrthio. Mae'n bwysig ei chael yn ei lle, felly.

Ond sylwer: rhagdybiaeth sy ganddo, yn unig, ddim mwy, heb sail. Does dim math o ragbrawf, ddim hyd yn oed un ysbrydol. Sonia'n syml 'nad oes unrhyw “reswm” i gredu Duw', heb sail, fel dogma diarchwiliad. Gallesid serch hynny nodi gyda'r un hyder yn union – a chyda'r un patrwm – 'nad oes unrhyw “reswm i anghredu Duw”'. Rhagdybiaeth ddi-sail ydyw sy'n hongian yn yr awyr, heb allu gwneud dim ond troi yn yr unfan ynddi ei hun. Mae'r ddadl yn afresymol wan, heb esbonio o ble y daeth mater, a beth oedd cychwyn na threfn na chyfundrefn, na datblygiad na tharddiad.

Dywed Cynog yn syml fod yn rhaid bod yn ddynganolog ar ôl dechrau o safbwynt dynol, er y gallai rhywun arall haeru yn yr un modd fod rhaid bod yn Dduwganolog, gan ddechrau gyda'r Goruwch.

Ni all awdur yn ôl fframwaith dyneiddiol namyn tystiolaethu i absenoldeb a phresenoldeb Duw fel ei gilydd. Pa sylfaen sydd o blaid dod allan ar un ochr yn hytrach nag ar y llall? Beth fyddai'r ffeithiau sy'n angenrheidiol i dderbyn ffeithiau cadarnhaol am Dduw o'r dechrau cyntaf?

Os dechreua y dyneiddiwr mewn dyn, bydd yn gorffen mewn dyn, heb unman arall i droi. Dyma ran o wybodaeth Ioan Patmos am yr Eglwysi. Roeddent yn gallu bod yn dda weithiau, ond yn 'farwol' dda. Os dechreuwch gyda gwrthodiad o'r Goruwchnaturiol, heb unrhyw sylfaen i'r

gwrthodiad hwnnw, yna fe ellwch fod yn ddyneiddiwr rhinweddol o fewn cyfyngiadau rhinweddau naturiol (sy'n ganmoliaethus; ond rhoddir y rhain led y bydysawd drwy ras cyffredinol, megis glawio ar y cyfiawn a'r anghyfiawn), ond fe orffennwch heb unrhyw fath o Dduw. Mae pob math o chwarae yn bosib, megis dweud nad yw'r gair 'goruwchnaturiol' yn digwydd yn y Beibl. Ond nid yw'n gallu esbonio sut y crewyd y bydysawd allan o ddim, nac o ble arall y daeth. Nid scientia yw. Nac o ble y daeth atgyfodiad Crist. Na Christnogion unionged.

Roedd llygaid yr Anifeiliaid yn *Datguddiad* yn arwain iddynt weld yn amgenach, yn fwy heriol, yn fwy atebol i'r cwestiwn.

Mae Cynog yn nodi bod yna dueddiadau eisoes yn y gydwybod ddynol i deimlo gwyrriad tuag at Gyfiawnder a Daioni fel dwy egwyddor yn bodoli'n gyffredinol y tu hwnt i bob amlygiad penodol. Hynny yw, maent yn rhyw fath o fodoli yn yr ymwybod cyneddfol, gyda llawer o egwyddorion eraill o ryw fath. Mae hyn yn 'adlewyrchu dyhead dwfn am safonau sy'n uwch, yn fwy cadarn ac arhosol, na'r rhai sy'n ddarostyngedig i hapddigwyddiadau'r byd.' Ond o ble y daeth y rheini yn y lle cyntaf? Dyma a gydnabyddir yn hen hen athrawiaeth gan y Beibl ynghylch Gras Amddiffynnol a ddiogelodd fodolaeth dyn wedi'r Cwmp.

All neb fod yn ddiragdybiaeth. Mae pawb yn gorfod byw yn ei groen, gan arddel rhagdybiau, efallai heb eu sylweddoli. Ond gwybod hynny neu beidio, mae ansawdd y sylweddoliad hwnnw yn cyflyru pob peth sy'n dilyn. Mae gofyn dechrau mewn man tröedigaethol.

Ceisias yn awr roi'r ateb Cristnogol sy'n datrys y gymysgedd ddyneiddiol hon, fel y gallwn symud ymlaen i feddwl yn fwy rhesymol-gynhwysfawr, yn lletach na'r naturiol. Dyma'r unig grefydd sydd lle y mae Duw yn dod i fyd sy'n ysbrydol farw, ac sy'n ymostwng i gymryd arno'i hun holl euogrwydd a chosb casineb dyn at Dduw, er mwyn i'r pechadur a garwyd yn angerddol ganddo gael bywyd a hwnnw'n dragwyddol. Dod i lawr a wna Duw, nid dringo i fyny yn ei nerth ei hun (yn unig) fel y gwnaeth tybiaeth dyn amdano'i hun, druan. Dyma'r bwlch mewn addoliad dyneiddiol.

Mae'r Beibl yn datguddio'r ffaith fod Duw wedi rhoi, drwy'i ras yn gyffredinol, lawer iawn o roddion i 'bawb' normal, ledled y ddaear: rhai pethau na ellir yn gall eu gwadu, ac na ellir bodoli hebddynt heb eu cael yn rhodd – megis bywyd, y tir, deddfau'r greadigaeth, cof, gallu ieithyddol a rhesymoldeb, lle ac amser, ac yn y blaen. Maent yn cael eu gwasgaru hyd y ddaear i bawb yn ddiwahân. Ar ryw olwg does dim camp anghyffredin ynglŷn â hynny. Ac eto, wrth gwrs, nid damwain yw hynny, nid damwain yw'r llygad na'r clyw, na'r gyfundrefn imiwneidd, na'r gyfundrefn galaethau, na'r D.N.A.. Mae yna drefn ryfeddol ar gael ym mhob man, heb yr un ddamwain.

O ble y daeth trefn?

Y term cryno a ddefnyddir mewn diwinyddiaeth am y ffenomen hon yw Gras Cyffredinol: mae yno ar gyfer pawb, o'r dechrau. Yn wir, yn ôl yr Ysgrythur (sef y datguddiad dwyfol), yr oedd

hyn ar gael ym 'meddwl Duw', sef gan y Cyngor Tri-yn-Un cyn y dechrau. Esboniad perffaith. Dyna hefyd y gydwybod sydd gan ddyn, heb fod yr un fath gan anifeiliaid.

Camgymeriad teimladol a rhamantaidd am ddyn yw osgoi'r ffeithiau hyn.

Oherwydd yr haelioni 'afradlon', gall rhai anghredinwyr dyneiddiol fod yn fwy dawnus fel meddygon, neu wyddonwyr, neu arddwyr, neu seiri, neu lenorion, na'r rhai sy'n gredinwyr tlawd.

Un o'r prif themâu y bûm yn troi o'u cwmpas ers deng mlynedd a thrigain yw arwyddocâd deuol perthynas y Greadigaeth a'r Waredigaeth (Gras Cyffredinol a Gras Arbennig): dau begwn y Cristion. Diau bod yr uniad hwn yn dod i'w anterth yn yr Ymgawdoliad. A chanfyddwn adroddiad am yr anterth hwnnw ar waith ac yn cael ei fynegi gan enedigaeth ac ar achau teuluol yr Arglwydd Iesu ym *Mathew* ac yn *Luc*. Dyma'r Hen Destament yn croesi drosodd i'r newydd fel y'i proffwydwyd ac y'i cysgodwyd. Drwy Ras Arbennig y daw Cristion i weld Gras Cyffredinol yn y fan hon yn y persbectif cywir.

Fe'i gelwir weithiau'n Ras Creadigol. Y mae i'w gyferbynnu'n ddiffiniol â Gras Gwaredigol neu Ras Arbennig, am nad yw hynny gan bawb ac mae'n brinnach felly.

Un o ddigwyddiadau mawr Cristnogaeth yw'r Creu, a geir oherwydd bodolaeth y Creawdwr. Dyma hanes Genesis. Ond y *Datguddiad* sy dan sylw ynghyd â'r Farn Olaf (yn fendithiol ac yn felltithiol). Ni fyn y Cristnogion ddewis ond o fewn cyfyngiadau dynol. Rhwng y ddau ddigwyddiad yna fe gafwyd digwyddiad mwy na'r naill a'r llall, sef ymweliad y Mab â'r byd. Fe ddaeth Iesu i'r byd i achub pechaduriaid, cyn y Farn, hynny yw, pawb a wrthododd gredu yn Nuw, sef fi a'm cymheiriaid anwybodus.

Does neb yn blentyn byw i Dduw heb gael ei aileni a'i neilltuo yn y Gras Gwaredigol. Mae'n rhaid cael gallu ychwanegol at yr un genedigol i ddatrys problem uwch-naturiol. Mae Gras Gwaredigol yn cael ei gynnig i bawb, ond cyfyngedig yw'r rhai sy'n clywed yr alwad effeithiol. Does neb yn ei haeddu.

Does neb yn Gristion *ysgafn*, ffwrdd-â-hi. Rhaid i galon Cristion sobri mewn modd arbennig. Tad aberthol yw Duw, ac ailenir iddo Ef. Dyma'r Gras nad yw'r Dyneiddiwr ffwndamentalaid yn ei groesawu, nac am ei drafod. Nid yw yn ei gredu. Ni wŷr ddim amdano. Ni wŷr yr angen beunyddiol am faddeuant. Ni wŷr ei fod heb un profiad o'r ffaith hon. Iddo ef, dyn sy'n dewis ym mhob dim. Er cymaint yw mawredd Gras Cyffredinol, nid yw ond megis 'dim' ochr yn ochr â Gras Arbennig a'r Ddaear Newydd. Fe dardd y Gras Gwaredigol yng ngwaed yr Arglwydd Iesu Grist. Mae hwnnw ar gyfer pechaduriaid ymwybodol. *Nid teimlad yw*, ond cyflwr gweithredol, rhan o gynllun (neu o ragluniaeth) cyflwr o gadw'r llygad ar Iesu, a chyflwr symudol yn y galon yw ac o hiraethu am ymddiried ynddo Ef yn gyfan gwbl gyda phenderfyniad i'w wasanaethu. Rhodd rad ac am ddim yw gan Dduw. Hyn yw gwir adnabod a llawenydd Cristnogol. Dyma weledigaeth

Patmos. O fewn hyn eisoes y mae'r Cristion yn byw: felly y mae wedi cael ei gadw, wedi'i adfer, wedi'i faddau, heb ddim drwy'i nerth ei hun.

Dyma'r ateb penodol i ffaith gyffredinol greulon golledig dyneiddiaeth yn *Datguddiad*: gorwedda dyn euog yn ei angau'i hun heb hynny. Pan enir baban, oherwydd y Cwmp, y mae eisoes wedi dechrau bodoli o fewn cyflwr marwol. Mae wedi cau'i feddwl yn erbyn Duw. Ond yn y bodoli hwnnw, fe all dderbyn ail-enedigaeth orfoleddus a Daear Newydd a Nefoedd Newydd sy'n glod i Dduw. A hyn yw'r patrwm Cristnogol, a'r newyddion da neu'r efengyl i bechaduriaid. All neb ei ennill ohono'i hun. Ac eto, fe gynlluniwyd y gwaredu cyn y Cwmp.

* * *

Math o gydwybod naturiol yw gwehilion y Gydwybod ddyneiddiol mewn dynoliaeth sy'n cydnabod bodolaeth gwerthoedd yn ôl gwahaniaeth sy'n bod yn ein bodolaeth. I'r dyneiddiwr, rhyw egwyddorion 'sy'n tynnu ar ryw linyddau' yw ein hymwybod a rhyw 'ddyhead'.

Mae'n ffaeledig fel na ellir cymryd yn ganiataol y gydwybod etifeddol hon yn ganllaw i fyw a marw, er y gall dyneiddiwr sylweddoli drwyddi fod dyneiddiaeth yn ddihangfa egwan.

Yn y Beibl Cristnogol, ceir cenadwri sy'n sôn nid yn unig am fyw'n foesol o ddydd i ddydd. Fe geir hynny, wrth gwrs. Ond fe geir gwybodaeth fwy seiliol na hynny. Fe geir datguddiad bod modd cael perthynas rhwng dyn a Duw, perthynas dragwyddol, a pherthynas bersonol yn awr o adnabyddiaeth o Grist fel y gall Cristion fyw yn Nuw.

Sonnir ers Genesis am Dduw'n dod i'r byd yn unswydd i adfer dyn syrthiedig a phechadurus. Dyma ffaith hanesyddol a adroddid ar hyd y canrifoedd hyd at *Ddatguddiad* ac mae'n hawlio ateb gwir ystyriol. Mae'n cyflyru'r *Datguddiad*. Pan fydd yr Ysbryd Glân yn arwain dyn yn ei angen i mewn i'r cyswllt hwnnw, mae'n fater hollol wahanol i'r dynganolog gan fod a wnelom â'r elfen, neu'r presenoldeb, neu'r amgylchfyd gwyrthiol.

Dyma baradocs, a rhaid i ystyfnigrwydd dyn brofi'r ysgytwad hwn. Daw'r byd gerbron Crist yn y diwedd ac yn awr, a gofyn, fel y gwnaeth Pilat, 'Beth yw Gwirionedd?' Ac yr oedd Gwirionedd yn sefyll o'i flaen – y Gwirionedd gwir a'r Bywyd – ar lun paradocsaid diriaethol person.

* * *

Dichon fod angen sôn (yn gynnil) am y syniad cyfarwydd cartwnaidd gan Ddyneiddwyr am 'Efengylwyr'. Yn ei ysgrif yn *Y Faner Newydd* dywed Cynog Dafis, fel pe bai'n diffinio'r gwir, 'Yn y traddodiad efengylaidd byddai, a bydd, y bregeth yn anelu at ennyn emosiwn dwys ac ymdeimlad uwch o gyflwr enaid y gwrandawr.'

Dim o gwbl. Dyma anwybodaeth emosiynol ronc am bregethu efengylaidd.

Yng Nghymru, mae'n wir bod yna fodd defnyddio'r gair wedi'i fewnforio yn ôl y traddodiad Ffinneyaidd neu Americanaidd, gan ganoli ar geisio ennyn ymateb emosiynol. Ond, nid dyna'r

Gristnogaeth yn y traddodiad Cymraeg, o Daniel Rowland, Williams Pantycelyn, ymlaen drwy Thomas Charles, Dafydd Morgan, Martyn Lloyd-Jones, a Mudiad Efengylaidd Cymru. Maent hwy yn nhraddodiad ymenyddol ysbrydol Lwther a Chalfin, ac yn nhraddodiad Paul a Patmos.

Mae diffiniad Cynog yn union groes i'r gwir. Sonia Martyn Lloyd-Jones, er enghraifft, am bregethu fel '*Rheswm ar Dân*'. Hynny yw – daw'r rheswm yn gyntaf (yn ffaeledig ac yn syrthiedig). Rhaid rhesymu am yr hyn a gredir, ac yna (wedyn yn unig), oherwydd rhyfeddod y rheswm ildiol yn clywed y gwir – neu'r gwirionedd ffeithiol a roddir yn groes i'r graen, – credir. Rhoddir y gair yng nghraidd ein bod. Trwy gredu ystyrlon neges Duw drwy'r Ysbryd Glân y daw rhyfeddod iachawdwriaeth, a phob ymateb difrif a chyflawn o'r galon, wrth gwrs. Nid cynnyrch cerddoriaeth na gwisgoedd, na chanhwyllau, na phlygu glin i'r Forwyn Fair yw hyn. Nid teimlad dychmygus na chynnes, na tân dyneiddiol ymroddedig ond dof. Nid clywed yn unig. Ond cynnyrch syml aberth iawnol Iesu Grist sy'n golchi'r beiau a'r clwyfau i gyd. Gwybod ffaith yw mewn rhyfeddod.

Os daw 'tân' o fewn hynny, daw mewn ffurf ysol a distrywiol hardd.

Weithiau, tybir bod yr efengylwr Siôn Calfin yn rhy 'resymegol' o lawer i fod yn efengylaidd tanllyd. Ond y Dadeni Dysg oedd yr hyn a geid yng nghyfnod Calfin o'i gwmpas, *yn ogystal* â'r Diwygiad Protestannaidd. Bydd rhywrai'n synied yn 'ddiniwed' fod yr hyn a elwir ers tro yn Bum Pwnc Calfinaidd yn arddangos oerni ei 'resymoldeb' ef. Ond y gwir yw bod pob un o'r Pum Pwnc yn bwnc paradocsaidd taniol sy'n syfrdanu rheswm meidrol, ac yn tystio i'r Un Pwnc creiddiol ac unol hwn, nas crybwyllir fel arfer gan ddyneiddwyr, ond sy'n gyswllt neu'n glymiadcyfannol o'r Pum Pwnc (a phob pwnc arall) – sef *Gogoneddu Duw yw pwrpas dyn*. Bwrir cywilydd y dyn meidrol dynganolog. Diolch am y nodweddion a'r Deddfau sy'n rhesymol oruwchnaturiol a wna'r Calfinydd – er mai paradocsaidd Feiblaidd yw'r argyhoeddiad hwn o bechod (ac euogrwydd o'r herwydd) ynghyd â'r gras gwaredigol digonol. Mae gan y dyn bach balch lawer i'w ddysgu. Ni chyflawnir pwrpas dyn nes ei fod wedi dysgu A. B. C. gogoneddu.

Paradocsaidd yw calon Cristnogaeth (cf. 2 Cor. 6:8-10). Tri-yn-Un yw Duw. Drwy ddiodeffaint Crist y cafodd Calfin ei wir hyfrydwch. Os na fodlonwch ar fentro i dderbyn paradocs eithafol, ewch chwi ddim yn bell iawn yn y Ddaear Newydd na'r Nefoedd Newydd. Drwy atgyfodiad Crist y cafwyd atgyfodiad dyn. Ac mae Crist yn adnewyddu ein dyndod edifeiriol bob dydd i'r statws a'n clyma yn y Duwdod nes ein bod yn berffaith ynghlwm yn y Natur Ddwylf, gan arfaethu corff newydd anweledig ac ysbryd tragwyddol. Fe'n gwnaethpwyd ni i fod yn fwy na'r holl fyd dyneiddiol. Drwy farwolaeth Crist y caiff pechadur fywyd tragwyddol.

Mae'r dyneiddiwr rhagdybiol mewn gwirionedd yn symleiddio'r anesboniadwy. Mae'n 'dileu' Duw cyn ei adnabod, oherwydd ei anallu ymenyddol syml.

Rhaid i'r Cristion ddefnyddio'i feddwl. Yn y *Datguddiad* 20: 11-15 ochr yn ochr â'r

llynyddiaeth boblogaidd ac amhoblogaidd a rydd wybodaeth ddyneiddiol i ni, fe agorir 'llyfr y bywyd', ac ynddo mae enwau'r rhai nas 'teflir i'r llyn o dân' fel dynion eraill. Ni fedr y dyneiddiwr ddeall hyn heb help yr Ysbryd awdurdodol ymostyngol. 'Ac yno cânt weld ei wyneb' (Dat. 22: 4).

*

*

*

Mae Cristnogaeth uniongred felly yn safbwynt sy'n apelio at reswm y rhai sydd yn y bôn yn maeddu'r dirywiad a gafwyd o fewn yr enwadau ymhlith y modernwyr a'r ôl-fodernwyr, a phopeth seciwlar a dychmyglon gau, gan gynnwys seciwlariaeth ymosodol y capeli dirywiol yn 1859 – 2016 a phob crefydd gymedrol 'gyfartal'.

Wrth gwrs, diolch i Dduw, cafwyd gweddill ffyddlon glew a dewr o fewn yr enwadau gydol yr amser. Ond ar draws hen enwadau Cymru, fe darddodd *rigor mortis* mor sylfaenol oer y 'modernwyr' a'u hystyriai eu hunain yn ddyneiddiol. Mae anghrediniaeth yr enaid neu chwarae gyda 'chrefydd gymharol' – y llwybrau gwahanol i fyny'r mynydd – yn methu heb fedru cyfathrebu ynghylch tarddiad gwrthrychau'r cread ond ar sail gwybodaeth am y ffeithiau Cristnogol anghymharol.

Yn Ymgawdoliad y Mab y dechreuwyd amlygu 'hanes' y Duw nad oes iddo hanes. Dyma Drindod a safai uwchlaw'r canrifoedd, y tu hwnt i bob dim, yn y Tragwydd wedi dod i mewn i gyfyngder y dydd. Fe'i darostyngodd ei hun ar lun y Mab i fod yn gorff ffaeledig i ni.

Agorir y Testament Newydd yn y ffordd fwyaf rhyddieithol ac anniddorol, gellir meddwl, drwy adrodd yn ddifloesgni restr faith o gyndadau Iesu Grist (anhysbys gan mwyaf i mi). Yn ôl pob tebyg, y mae Mathew yn rhoi inni yno achau *Joseph*. Pa arwyddocâd a pha werth sydd i beth felly? Yn ddiweddarach, rhydd Luc restr arall; ac yn ôl pob tebyg, i'n goleuo ynghylch achau *Mair*. Sut y mae'r holl wybodaeth hon yn berthnasol ac yn wir effeithiol? Dyma'n syml gyhoeddi bod Iesu Grist yn wir ddyn. Daeth i'r byd mewn corff, fel pob dyn arall, a chanddo deulu drwy wyrth, a chanddo hanes helbulus. Nid ysbryd oedd yno, er mai Duw oedd yno. Rhaid bod gan Iesu DNA deublyg fel yr oedd ganddo ymennydd a dwylo. Does dim DNA gan Dduw'r Tad na chan yr Ysbryd Glân: mae ganddynt hwy orffennol a dyfodol diderfyn, fel yr oedd gan y Mab wrth gwrs, ac Anno Domini. Ond cafodd Iesu rywbeth arall. Cafodd y swydd o gynrychioli Duw yn y byd, ac o bontio drosodd i ddyn am ryw ddeng mlynedd ar hugain, i roi'i fywyd mewn modd erchyll (drwy gymryd arno'i hun y gosb am bechod o'r cwmp ymlaen), er mwyn i mi, ti a fi, dderbyn y gwynfyd perffaith yn ddifarw am byth. Hynny yw, yr oedd genedigaeth Iesu Grist yn wyrth. Ac yr oedd yr Ysbryd Glân felly wedi bod yn *hadau Joseph a Mair*, (fel cyd-ragflaenwyr) yn wryfol wyrthiol. Dyna sy'n esbonio'r achau; dodwyd hwy ar femrwn yn y Beibl, am ei fod yn ddyndod llawn. Roedd ganddo darddiad dynol a dwyfol.

Rhyfedd, rhyfedd fu ffyddlondeb Duw drwy gydol y dirywiad a gafwyd yn nirywiad

amrywiol yr eglwys gynnar a'i dilynodd. Mae'r Goruwchnaturiol y tu hwnt i gyrraedd ymenyddau gwrthwynebus. Gwyrth oedd ei anian. Yn achos Iesu Grist, wrth groesawu'i ymgorfforiad ffeithiol, cafwyd angylion yn croesawu'i enedigaeth, ac nid oedd unrhyw wyrthiau yn rhy anodd iddo Ef: atgyfododd ef dri pherson dynol arall – merch Jairus, mab y weddw yn Nain, a Lasarus – cyn bodloni ar ewyllys ei Dad wrth farw'i hun. A chafwyd tystion lawer i hynny. Dyfynnaf 1 Cor.15: 3-8: 'traddodais i chwi yr hyn a dderbyniais: i Grist farw dros ein pechodau ni, yn ôl yr Ysgrythurau [h.y. fe'i rhagwelwyd gan y proffwydi]: iddo gael ei gladdu, a'i gyfodi y trydydd dydd, yn ôl yr Ysgrythurau; ac iddo ymddangos i Cephas, [gŵr disglair, gweithiwr cyffredin, llenor ffrwythlon, gweinyddwr campus] ac yna i'r Deuddeg. *Yna, ymddangosodd i fwy na phum cant o ddilynwyr ar unwaith – ac y mae'r mwyafrif ohonynt yn fyw hyd heddiw, er bod rhai wedi huno.* Yna, ymddangosodd i Iago, yna i'r holl apostolion. Yn ddiwethaf oll, fe ymddangosodd i minnau hefyd, fel i ryw erthyl o apostol. Oherwydd y lleiaf o'r apostolion wyf fi, un nad wyf deilwng i'm galw yn apostol, gan imi erlid eglwys Dduw.' Ac yna, ymddangosodd *fel awdur* ym Mhatmos.

Yna, gyda'r Eglwysi a ddilynodd ei fywyd 'naturiol' ar y ddaear, fe gafwyd enciliad a dirywiad mewn ardaloedd gwahanol. Ond roedd gynnwm ni addewid na fyddai Crist yn ein gadael yn ddiamddiffyn. Llosgwyd hyn ar dalcennau'r saint, ac yn yr Ysgrythur. Ysgrythur oedd a oedd yn cyd-fynd o ran Ysbryd â natur y Duwdod ei hun.

Dyna seiliau cadarn i hanesyddiaeth yr holl Feibl. Hanesyddiaeth yw sy'n undod, oherwydd mai'r un awdur sydd wedi'i hanadlu i feddwl yr ysgrifenydd dynol o dan arweiniad anffaeledig: 2 Tim. 3: 16, 'Y mae yr holl Ysgrythur wedi ei hysbrydoli gan Dduw, ac yn fuddiol i hyfforddi, a cheryddu, a chywiro, a disgyblu mewn cyfiawnder; 2 Pedr 1:20 'Nid yw'r un broffwydoliaeth o'r Ysgrythur yn fater o ddehongliad personol, oherwydd ni ddaeth yr un broffwydoliaeth erioed trwy ewyllys ddynol; pobl oeddent a lefarodd air oddi wrth Dduw wrth gael eu hysgogi gan yr Ysbryd Glân.' Cafodd y blaned hon felly ddigon o dystiolaeth. Ond methwyd gan lawer yn gynhenid â gweld pwy oedd Ef, ble'r oedd Ef, na beth oedd y problemau seiliol dynol syml yn gryno y daeth i'w datrys. Oni bydd sylweddoliad ac argyhoeddiad o'r Iesu Grist hwn, fe erys y Ddaear Newydd a'r Nefoedd Newydd yn wagle.

Dwi'n credu mai gwell i'm dadl sefyll yn y fan yna. Mewn gwirionedd, oherwydd yr egwyddor ragdybiol, dyw 'dadl' yn y dull confensiynol ddim yn taro deuddeg, gan nad yw'r dyn naturiol yn derbyn y peth sydd uchod. Gwnaethpwyd y cam gwag cyntaf hwnnw eisoes gan y Dyneiddiwr wrth fod yn ddyn, a rhwystrwyd popeth yn flaenorol o'r herwydd. Ni ddaw neb at y Tad ond drwyddo Ef. Felly, y gymwynas orau a wna Cristion i'w ffrind yw ei garu a dweud y gwir, a thystio iddo a gweddïo drosto y bydd yr unigryw Ysbryd Glân yn ei gymhwyso i dderbyn y galon dlawd.

Daeth y Goruwchnaturiol yn naturiol fel y byddo'r naturiol yn nefol. Hyn yw'r tramgwydd.

Pan ddaw'r dyneiddiwr gerbron Crist, a yw'n ei farnu ef, fel y rhagdybia'i fod yn ei wneud ar hyn o bryd, yn ôl amodau'r ddaear hon? Os felly, gwna ragdybiaeth gyfeiliornus. Yr hyn sy'n digwydd, wrth reswm, yw mai'r Iesu Atgyfodedig sy'n barnu'r dyneiddiwr bob tro, nid fel arall. Yr unig gysur mwyach yw mai'r Un sy'n barnu yw hefyd yr Un sy'n mynd i fod yn gyfreithiwr yn ein hamddiffyn. Ac yn amgenach na hynny, yr Un sy'n barnu yw'r Un sydd wedi derbyn pob un a'i cais o ddifri, ac felly wedi dioddef y gosb yn ei le, wedi derbyn cael ei wneud yn bechod, yn enw Cyfiawnder y Greadigaeth.

Pan fo Duw, felly, yn wreiddiedig yn y tlawd ei ysbryd, mae gan hwnnw'r greadigaeth i gyd. Hyn yw cefndir ac amgylchfyd y *Datguddiad* ar ôl galw am sylw'r Saith Eglwys.

* * *

Does neb yn medru perswadio neb arall i fod yn Gristion. Heb dderbyn calon newydd – hynny yw, heb ailenedigaeth – all neb fod yn Gristion. Fedr neb sydd heb ailenedigaeth gael ei dderbyn gan Dduw a Thad yr Arglwydd Iesu. Fedr neb sydd heb ei fywhau'n ysbrydol i'r gwirionedd unigryw amgyffred pethau dwyfol. Nid mater o allu bydol-feddyliol yw hyn. Nid mater o addysg uwch yw chwaith. Syml yw, ond naturiol amhosibl i anghredadun seciwlar. Gellir bod yn athrylith o'r radd flaenaf, heb glem am feddwl Duw.

Ym mryd yr anghredadun arferol a chonfensiynol, gall amrywiaeth o grefyddau ymddangos yn beth iach heb yr Undod. Yn waelodol, yr un nodweddion sydd iddynt oll. 'Cyfartaledd crefyddol' yw un o ddogmâu gwirion a 'gwleidyddol gywir' y seciwlar. Ond nid 'crefydd' sy'n cyfrif, eithr y **gwirionedd** datguddiedig digyfaddawd. Nid mater o foesoldeb yw, ond o ansawdd neu etifeddiaeth waredigol. Y tebyg yw bod miliynau o bobl yn rhagori ar ambell Gristion o safbwynt moesoldeb ac anhunanoldeb a gostyngeiddrwydd. Ond mae yna dynfa ddieithr wedi symud i mewn i galon y Cristion, a'i ysbryd yn ceisio ymarfer ffrwythau'r ysbryd (Gal. 5: 22), er bod y cnawd pechadurus yn parhau i wneud gweithredoedd y cnawd (Gal. 5:19; Rhuf. 7: 25; Rhuf. 8: 3-10). Pechadur druan yw'r Cristion sy'n caru'i elynion oherwydd bod Duw yntau wedi caru'i elynion (megis y pechadur ei hun; ond ni wŷr yr anghredadun arferol ddim am beth felly, a gall fod 'yn gwneud ei orau'). Gŵyr y Cristion na fydd neb yn cyrraedd sancteiddhad llawn heb ddaear newydd. Y 'gorau' sy'n gwahanu'r ddau.

Wrth farw ar y groes, mae Iesu'n dweud, 'O Dad, i'th ddwylo di yr wyf yn cyflwyno fy ysbryd, (Luc 23: 46). Mae wedi cymryd arno'i hun ein pechod ni ar y Groes. Mewn tridiau mae Iesu'n atgyfodi gyda chorff newydd, sy'n berffaith unol â'i ysbryd, yn un cyfryngwr, y dyn Crist Iesu. Oherwydd yr iachawdwriaeth hon, fe fydd pob Cristion wedyn yn cael corff newydd i uno â'i ysbryd.

Duw, felly, sy'n gwneud POB PETH i'r Cristion – yn rhoi iddo fyw had yr ysbryd lle y mae Cyfiawnhad yn 100%. Ond dyw Sancteiddhad byth yn cyrraedd y nod yna yn y byd marwol hwn.

Heb y profiad hwn gan y dyneiddiwr crefyddol, rhuthrir i honni nad yw'n bod. 'Os nad yw wedi digwydd i mi, ni all ddigwydd i neb. Heb weld yr anweledig, nid yw'r anweledig yn bod.' Mae hyn yn annigonol o safbwynt ansawdd a bodolaeth bywyd tragwyddol, hyd yn oed os yw yn ymddangos yn ddigonol i ni, a ninnau'n byw mew corff annigonol. Cais y seciwlaryn rhinweddol ddringo i'w nefoedd drwy'i nerth rhagorol ei hun: ond daw Duw i lawr i godi'r credadun ffaeledig.

Eithafrwydd y ffeithiau hyn yw sylfaen y *Datguddiad*.

Un maes diwinyddol enfawr yw'r cwestiwn teg a sylweddol hwn sy'n codi amheuaeth oherwydd bod Duw yn dewis rhai i farw'n dragwyddol, neu o leiaf i ddiodef poenau dynol, neu (ac yntau'n rhagluniaethu pob peth) yn caniatáu i ddyinion gyflawni troseddau dybryd o greulon yn erbyn merched a phlant. Mae yna berthynas rhwng rhyddid ewyllys dyn i ddewis drosto'i hun o fewn cyfyngiadau gras amddiffynnol cyffredinol, a hollwybodaeth a hollalluowgrwydd a hollbresenoldeb Duw ym mhob iot. Dyn sy'n gwneud y drwg i gyd. Duw sy'n gwneud y da. Yn ochr her Patmos, mae dweud bod meddwl gofod-ac-amser dyn yn gorrach deallol, hyd yn oed yn y deallusion mwyaf oll, yn fath o ddihangfa ry gyfleus efallai ym mryd rhywrai, ond y mae'n wir. Bid a fo am hynny, y mae gwrthryfel hunanymchwyddol a chyson dyn yn erbyn rhoddion aruthrol Duw yn syfrdan o haerllug. Y ddadl ganolog yw, wrth gwrs, mai o'i Gariad mawr y mae Duw wedi anfon Ei uniganedig Fab i'r byd, yn unswydd er mwyn i *bobun sy'n credu* gael bywyd tragwyddol, drwy ras yn rhad ac am ddim. Hynny yw, mi wnaeth Ef bopeth. Dyna linyr canol yr union gred a dderbyniwyd yn hanesyddol gan y Cymry; cenedl a fendithiwyd mor fawr, ac a ddewisodd ganlyn llwybr melltigaid mor fynych.

CYFOESEDD LLENYDDOL A'R SEFYDLIAD (1)

Mae pob ysgrifennu yn gyfoes, ar ryw olwg. Felly, y *Datguddiad*. Fe'i gwneir ar y pryd. Beth bynnag yw'r cynnwys, mae'r profiad a fynegir gan y meddwl o leiaf yn tarddu'r funud yna. Hynny yw, dyna'r cyfyngiadau a'r anocheledd a ddarllena pob cenhedlaeth yn ei thro. Siarad â'r eglwysi mewn amgylchiadau ar y pryd a wnâi.

Ond mae yna ystyr arall i gyfoesedd. Mae yna ymwybod o 'ffasiwn'. Fe ellir ymateb i hynny'n negyddol iach. Fe all fod yn aflwyddiannus gynhenid, ac fe all y negyddiaeth beidio â bodloni ar ddilyn y llif ar y pryd, gall dybied bod gwir wreiddioldeb a hunaniaeth yn gofyn am newydd-deb ac yn gallu ymwrthod ag ystrydeb yr arferol. Fe ellir hefyd dybied bod gormes yr oes bresennol yn cynrychioli ffordd o fyw sy'n wrthun. Fe all Moderniaeth o'r herwydd gynrychioli math o daeogrwydd i'r darllenydd craff. Fe all anfodlonrwydd ar yr oes dyfu ar sail adweithio

deallus.

Ar y llaw arall fe all creadur ymateb i ffasiwn modernaidd yn gadarnhaol, ac ymhoffi yn y profiad o berthyn i fudiad. Fe all synied hyd yn oed ei bod yn ddyletswydd daeog i ymateb i'r oes o ran moesoldeb neu estheteg ymarferol. Fe ellid synied bod cydredeg â'r cyfoes yn berthnasol i lenor effro, hyd yn oed.

Fe ellid, sut bynnag, dderbyn y cyfoes â'r glust a'i wrthod â'r glust yr un pryd â'r meddwl. Mae yna fath beth â gwirionedd tragwyddol sy'n sefydlog: y llythrennol ambell waith er enghraifft, megis bodolaeth, trefn, y galaethau, y ddaear. Ac mae yna fath beth yn y bywyd hwn â phechod, amherffeithrwydd a ffaeledigrwydd, a hwnnw'n anorffen, sydd hefyd yn bresenoldeb diymadael tra bôm ar y ddaear hon.

Un o bennaf themâu *Datguddiad* yw bod y genadwri hon i'r Saith Eglwys hefyd yn siarad â ni yn berthnasol gyfoes yn yr unfed ganrif ar hugain. Roedd yn berthnasol ar y pryd, ac yn sefyll yn awr uwchlaw gwamalrwydd llif amser gan fod y Beibl oll wedi llwyddo i ddweud y gwir tragwydd yn berffaith wrth rywrai o bob cenhedlaeth.

I'r Cristion, mae'r profiad cwbl hwn, yn gynhwysfawr ac yn hanfodol, yn ôl y genadwri a dderbyniwyd. A rhydd y cefndir hwn wybodaeth o fath arbennig iddo. Gŵyr nad newydd-deb yw ymwrthod â chrediniaeth.

Dyw'r unfed ganrif ar hugain ddim wedi peri syndod o ran bod yn 'oleuedig' felly ynghylch peidio â derbyn Duw a'i hawliau, a pheidio â mynd i gapel o ddechrau'i fywyd tan ei ddiwedd. Felly y bu hi'n hanfodol yn digwydd ers y dechrau. Felly y bu hi'n hanfodol yn y berthynas anffyddlon rhwng Duw a'r Adda cyntaf, ac y bu rhwng Iesu Grist a'r bobl a'i herlidiodd. Hynny yw, dyna'r norm hynafol. Ac fe'i gwelir ym mhrofiad Paul ac Ioan a'r holl gredinwyr pechadurus a'u dilynodd. Bu ganddynt allu i wneud dadansoddiad craff o sefyllfa ddiddianc – ar y naill law, ynghylch hiraeth yr unigolyn am y diddim, ac ar y llall am yr anghredadun yng ngoleuni'r Gogoniant etholedig.

Un peth a unai un traddodiad hynod boblogaidd a hynafol mewn anghrediniaeth oedd materoliaeth. Dyma'r lle y ceid y Sadwceaid. Ymwrthodent â'r Atgyfodiad. Ni dderbyniant y dimensiwn ysbrydol o gwbl. Dyma'r 'rhesymolwyr' heddiw.

Ar ryw olwg, ymlynai'r Ymerawdwr Custennin yntau wrth yr un egwyddor. Dichon iddo ddod yn 'Gristion' am resymau gwleidyddol, ac fe ddaeth ef â'r holl ymerodraeth Rufeinig gydag ef. Dyma 'dröedigaeth boblog' Eglwys Rufain yn ffatriaid ddechrau ymsefydlu a dod yn uned sefydliadol drefnus. Ond yn rhyfedd iawn – os rhyfedd hefyd – mynnodd Duw y câi weddill ffyddlon drwy Gustennin a thrwy'r ymerodraeth a'r ffyrdd Rhufeinig ymestyn ac aros yn ddi-dor drwy'r canrifoedd a thrwy'r Merthyron er gwaethaf pob gwyrad.

Ochr yn ochr â'r Sadwceaid fe gaed yng nghyfnod Iesu, yr 'ysgrifenyddion' – yr

ysgolheigion. Dyma'r traddodiad a arweiniodd y bri a geir o hyd ar 'ddeallusion'. Ond yr oedd gan Dduw ei gynllun ei hun a fynnai fod y wreigen fechan yn ei chôr yn y capel yn gallu adnabod Iesu Grist a deall rheidrwydd yr Atgyfodiad corfforol hanesyddol yn well weithiau na'r academydd disgleiriaf.

Gyda'r dyrfa o 'ddeallusion', fe ymrestra'r 'moesolwyr' didwyll ac annidwyll, y rhai sy'n rhoi'u ffydd mewn gweithredoedd ymarferol da. Ac fe allant fod yn bobl i'w hedmygu'n fawr. Ond bwriant eu rheswm heibio – yn gwbl afresymol – ynghylch hyd yn oed bosibilrwydd y dimensiwn goruwchnaturiol. Glynant wrth y naturiol fel y sawl sy'n boddi ac sy'n cydio yn yr ystyllen agosaf am ddiwrnod neu ddau yn y storm cyn suddo'n derfynol. Gwrthodant yr Ysgrythur hanesyddol a ffeithiol gyda rhyw fath o wylltineb ystyfnig.

Amrywiol o gyfnewidiol oedd rhychwant yr anghredu a'r credu cymysglyd ymhlith y Saith Eglwys.

Yn eu plith, ceir yng ngweledigaeth Patmos, y naturiolwyr epiciwriaid niferus a fodlonai'n gyfan gwbl ar ryddid caeth y cnawdol. Clymir y carfannau hyn oll wrth ei gilydd gan dramgwydd y beddrod gwag a'r Gŵr a rodiodd yn fyw wedi'i adael, ynghyd â'r Ysbryd Glân a gerddodd drwy'r Eglwys Gynnar ac a gydiodd yn ddigroeso yn Paul, yr athrylith eithriadol alluog hwnnw a wasgwyd i'r llawr a'i godi mewn goleuni. Ni chasaodd neb Iesu Grist yn fwy na Paul. Ac ni phlygodd neb yn is nag ef gerbron ei Waredwr.

Gyda'r epiciwriaid, am eu bod yn profi math o blesera, gellid nodi'r beirdd, y cerddorion, y gwyddonwyr, a'r masnachwyr hwythau sy'n gallu dod o hyd i bleserau cyffrous drwy gyfrwng eu gwaith. Er eu bod yn gallu rhagori o ran doniau ar rai Cristnogion – er nad pob un – dwy 'ran' hanfodol sydd ymhlith dynion, sef y rhai sy'n elynion i Iesu a'r rhai sy'n eiddo iddo: y ddau undod. Felly y rhannwyd 'yn ddiniwed' wleidyddol Eglwys Anglicanaidd Cymru gan y Tuduriaid. Ond nid rhaniad yn y golwg oedd, gweithred seciwlar. Ô'r golwg, dichon i'r dystiolaeth barhau. Cafwyd y lliaws isymwybodol, ac yna cafwyd y credinwyr ffyddlon ufudd.

Wedi i'r Phariseaid ofyn iddo, 'beth oedd y gorchymyn mwyaf?', dyma Iesu yntau'n troi i holi: 'Beth yw eich barn chwi ynglŷn â'r Meseia? Mab pwy ydyw?' Ac ni allent osgoi dedfryd. Yn ateb, dywedir: 'ni feiddiodd neb ei holi ddim mwy.' Ond yr oedd yr ymholiad yn eu herio, ac yn herio pawb yn y byd i roi ateb hyd y dydd heddiw, gan fod ymatal yntau yn fath o ateb: nid oes clawdd terfyn i neb eistedd yn niwtral arno. Meddai Martyn Lloyd-Jones: 'I have known men who were the slaves of sin, hopeless drunkards and wife-beaters and adulterers, who only stopped short of murder. And I have known them as saints and great gentlemen. What produced the change? The probation officer? No, no; they had been in his hands for years. Psychological treatment? It did not touch them. The appeals of wife and children, fathers-in-law, mothers-in-law, fathers, brothers,

sisters – nothing could touch them. But this message did. And it completely changed them, made them noble citizens, not only of the kingdom of God but even of the kingdom of this world.'

Nid sefydliad y ddyneiddiaeth seciwlar a'u gwaredodd.

Roedd y celwydd cyntaf a ddwedwyd erioed yn un gan y Diafol ei hun. Gwadu a wnaeth na byddai dyn ddim yn marw. Hynny yw, sefydlwyd marw ar gelwydd, ac mae un celwydd bob amser yn arwain at un arall; a throwyd dyn rhag cydnabod yr un yma am yr hyn oedd. Cuddiwyd y gwir rhag bod dyn yn sylweddoli'r rhyfel a gâi fodoli o hynny ymlaen tan y Ddaear Newydd a'r Nefoedd Newydd.

Mae'r diafol yn celwydda am ddyn, amdano'i hun, am y byd, ac am Dduw; ac felly, pob dyn sydd yng ngafael y diafol. Y mae hyn yn arbennig o wir am rai 'gwyddonwyr', oherwydd y naws a'r balchder sydd ynglŷn â'r fath weithgaredd. Dyma'r rhyfel a oedd ar waith ymhlith y proffwydi a'r gau-broffwydi a geid yn Israel.

Gymaint o hyfrydwch yw troi mwyach at Dad y gwirionedd ac awelon ffres y rhinweddau arbennig pefriol a wasgara'r Ysbryd Glân ledled y ddaear. Hwn yw'r Un a ddywed wrthym fod dyn yn naturiol yn greadur syrthiedig, ond sy'n cynnig glendidau a gogoneddau bywyd tragwyddol o fewn Ei gwmmi ef. Yn ei wŷydd ef y mae'r Mawl yn codi mewn ysblander trugarog. Roedd y salmwyr a'r proffwydi wedi canfod y rhyfeddod hwnnw; gymaint rhwyddach, ar ôl y Gras a'r Atgyfodiad yn y gorffennol, gyda'r Esgyniad a'r Sancteiddhad parod, yw'r datguddiad tryloyw sydd ar gael heddiw, heb arian a heb werth.

Ymaith ffôl amheuon,
Heriaf bob treialon,
Iesu yw fy rhan;
Canaf ym mhob tywydd,
Os caf wenau f'Arglwydd,
Gobaith f'enaid gwan.
O! Fy Nuw, fy ngweddi clyw,
Os cyrhaeddaf nef y nefoedd,
Molaf Di'n oes oesoedd. Emrys.

Mae Ef yma gyda ni. Ef sy'n gwneud y gwaith allweddol. Ambell waith, y mae'n amlwg bresennol; ac yn euog, allwn ni ddim ond murmur dan ein hanadl, 'Dyma Ef. Danfon fi, Arglwydd.'

Yma y dangosir y rhyddhad sy'n datrys ein myfyrdod am berthynas y Greadigaeth a'r Waredigaeth, y Gras Cyffredinol a'r Gras Arbennig (Rhuf. 8: 19-22). Bu'r greadigaeth yn 'disgwyl' er y Cwmp, yn disgwyl yn daer am yr enedigaeth. Darostyngwyd y greadigaeth honno i oferedd. Ac fel mam am ei phlentyn, bu'n ocheneidio, bu'n ysu am ei rhyddhau o gaethiwed a llygredigaeth,

mewn gwewyr drwyddi. Hiraethai am fod yn Ddaear Newydd ar ddelw Crist. Dyma'r Duw, uwch y cyfan, yn sicrhau'r geni diogel ar Batmos. Croeso i'r Farn. Yr oedd y byd, y pechadur edifeiriol, mor werthfawr i Dduw. Gymaint y carodd Duw y byd, fel y byddai bellach yn sicrhau geni i fywyd tragwyddol bawb sy'n disgwyl amdano Ef. Beth yw galar ar ôl rhywun annwyl ond galar am enedigaeth? Ac y mae'r Greadigaeth oll mewn gwewyr esgor yn hiraethu am ei thynnu i'r breichiau tragwyddol, ac am godi'r felltith (Dat. 22: 3). Yn *Datguddiad*, rhydd Iesu Grist ei ateb i bawb.

Y FARN OLAF EI HUN (Penodau 4 – 20)

Dyma'r chweched sêl yn agor, a'r holl ddaear yn siglo, yr haul yn tywyllu, a gwaed yn meddiannu'r lleuad. Dyma'r sêr i gyd yn disgyn fel pe bai rhyw wth anferth wedi cydio yng ngwar y nefoedd a'u siglo. Mae trefn yn ymddatod, ac fel pe bai'n rhaid wynebu'r Farn. Mae'r ddaear a'r nefoedd yn crychu megis tamaid o bapur, yn troi'n rhodyn fel sgrôl, sachliain galar. Ym mhob man mae'r ofnadwyaeth y tu hwnt i ddadl.

Yn awr, y mae'r anghredinwyr gyda'r credinwyr yn gorfod cydnabod realiti'r Duw a addolir. Does dim dianc rhag barn.

Y Farn Olaf yw calon a phen draw *Datguddiad* nad oes dim modd mynd y tu arall heibio iddi. Ar y naill ochr mae gelynion Duw, a'r ochr arall y mae'r credinwyr ymddangosiadol ddiymadferth. Darluniais innau'r frwydr mewn lliwiau llachar. Dyna a wna *Datguddiad* ei hun. Does dim ymatal rhag ofnadwyaeth y Gwirionedd. Heddiw, megis yn nyddiau mawr Patmos, y mae'r tramgwydd yn dramgwydd cyhuddgar. Nid da gan anghredinwyr ei dderbyn. Gwaith Ioan yw bod yn bont sy'n cyflwyno'r realiti yn union fel y mae gan gynnwys yr ymosodiad yn y Farn ei hun. Nid ymrydd rhyddfrydiaeth ei hun i wynebu'r dyn hunan-ganolog druan; osgoad yw ymosodiad Rhyddfrydiaeth ar y fath greulondeb tybiedig. Ni ellir goddef dim didoli. Eciwmeniaeth ddiffiniau a geir yn ffasiwn, y dyn 'annibynnol' sydd heb awdurdod allanol, a'i len haearn rhwng y Goruwchnaturiol a'r Naturiol: y dychymyg trist a anwesir gan y *ddyneiddiaeth 'seciwlar'* ond a rwygir er ei gwaethaf ei hun megis llen y Deml. Hyn sy'n crafu ymhlith y Saith Eglwys.

Nod yr Arglwydd Iesu Grist wrth ymddangos fel hyn yn ei Air, yn *Datguddiad*, yw calonogi'r Saith Eglwys o hyd yn yr unfed ganrif ar hugain. Ymddengys y Saith Eglwys yn wan. Ond cryf ydynt. Galwant am bresenoldeb yr Iesu, ac mae Ef yn brysio i fod gyda hwy. Mae'n dod yn glinigol i fanylu ar eu profiad o ddisgwyl cyflawniad cysur a bygythiad y Farn. Yn gysâct greulon-garedig, daw'r *Datguddiad* ar unwaith ymhen brawddeg, o ddelwedd i ddelwedd, i ddadlennu'r Farn Olaf sydd i'r credinwyr yn fendith sy'n fwy na phob bendith, ac yn felltith waeth na phob melltith.

Y gyfrinach amdanom ni ein hun – dyma'r cwbl yn cael ei ddatguddio, dyneiddiaeth y

Sefydliad a thlodion y capeli Cymraeg heddiw, gyda'n gilydd, o flaen trothwy Daear Newydd a Nefoedd Newydd, i glodfori'r Oen.

Y FARN A PHROBLEMAU'R CRISTION

Yr wyf wedi cyfaddef bod llawer o gynnwys y *Datguddiad* yn anodd i'w ddeall. Ac y mae hyn yn wir am y Farn ei hun a'r didoli, yn ogystal ag am y Cwmp a Duw'n caniatáu holl greulondeb dyn i'w gyd-ddyn a dioddefiadau naturiol ym myd natur fel llifogydd a daeargrynfaoedd, a Chynllun Rhagluniaeth Duw fel y'i gwelir ar y Groes – bod Duw rywsut wedi rhaglunio'r fath beth ag aberthu'i Fab er mwyn i bechaduriaid gael eu hachub. Mae'r *Datguddiad* yn y pen draw megis holl feddwl Duw i raddau helaeth, yn ormod i'n deall meidrol. Gweddus fyddai archwilio'n gyntaf ac yn gall yr hyn a ddywed y Beibl ynghylch y meddwl hwnnw.

Mae'r Diafol ei hun yntau yn broblem anhygoel. Pwy oedd ef? Sut y gwrthryfelodd? A fodolai erioed fel Duw? A grewyd ef i wrthryfela? O ble y daeth hwnnw? Pam? Sut y cawn wybod? Pam y dylem ddisgwyl deall?

Mae'r holl broblemau a'r cwestiynau hyn yn codi i'r golwg yn chwilfrydedd y darllenydd iach, yn arbennig wrth ddarllen llyfr olaf a chwlmw y Beibl, ac yn ymddangos heb gael eu datrys yn foddhaol. Dyma broblem, mae'n ymddangos, na ddylem adael carreg heb ei throï i'w datrys.

Ambell waith, pan feddyliwn am y broblem, neu pan holic ni amdani gan Gristnogion eraill, tueddwn i ddefnyddio'r gair 'dirgelwch', a newidiwn y testun gan dybio mai gwastraff ar amser yw tindroi gyda materion y tu hwnt i ni. Mae cymaint o faterion diddorol a hanfodol eraill inni eu gwneud i lenwi'n bywyd. Yn dawel bach, tybiwn mai ein tynged efallai yw'r anwybodaeth orfodol arnom, ac nad oes yna ateb ar gael. Tybiwn fod gan ddyn hawl i wybod popeth, heb sensor. Oni ddylai pob gwybodaeth fod – o leiaf yn botensial – o fewn cyraeddiadau aruthr dealltwriaeth dyn, neu o leiaf o fewn posibilrwydd ei chyrraedd gyda chymorth cyfrifiaduron anferth a pheirianwaith cyfathrebol potensial?

Yna, wynebwn realiti mwy anferthol y Crëwr a Diwedd y Byd – un o bynciau mawr *Datguddiad*: Ei fedr rhyfeddol a diderfyn Ef, a mater anferthol Tragwyddoldeb. Beth yw hyn oll? A'r hyn yr ym yn ei ddisgwyl o'r diwedd yw y byddai'r fath ddiderfynoldeb yn gorfod bodloni â bod o fewn cyrraedd terfynoldeb pitw dynoliaeth unigryw. Mae Iesu wedi dod at Ddatguddiwr – Ioan – i'w ddatguddio yn ei Dduwdod, wedi'r Ailddyfodiad. Derbyniwn y Gras heb fod yr un cwestiwn yn ddigonol i'w chwilio.

Na adawn i hyn fod yn achlysur i ddifriō Gras naturiol dyn.

Eto, yr oedd dyn wedi'i greu i ddarostwng y ddaear a phopeth sydd ynddi sydd i fod yn glod i Dduw. Ac yr oedd hyd yn oed Sophocles, y dyneiddiwr mawr hwnnw cyn Crist wedi sylweddoli

llawnder arwyddocâd gallu dyn. Hyn a fu'n atyniad i genhedlaeth y cyfieithydd, W.J. Gruffydd:

*Llawer rhyfeddod a welwyd,
nid dim mor rhyfedd â dyn.
Hwn sydd yn croesi'r cefnforoedd
dan sgwrs y corwyntoedd a'u gwŷn.
A'r hynaf o'r duwiau, y ddaear
anniflan anfarwol erioed, –
hwn gyda'i feirch sy'n ei dofi
ar rawd y tymhorau i'w hoed.*

Mae'r 'ddaear anniflan' erbyn heddiw yn bygwth diflannu o dan bwysau'r sbwriel a dŵr; ac os bydd galluoedd a chwantau rhyfeddol dyn gan bwyll yn llwyddo i estyn bywyd i'r hyd y mae rhai meddygon yn ei chwenychu, drwy gymhwysu'n hunaniachaol organau'r corff tan drechu heintiau'i gilydd, oferedd yw a bydd y Ddaear a'r Nefoedd Newydd yn ôl amser Duw a'i feirch yn dod ynghynt na disgwyl bach Ffawstaidd.

Ond bydd Cristion gostyngedig yn hyderus barod i fynd ymhellach na Sophocles, ac ymhellach na phob meddyginiaeth amgen. Fe greodd Duw ddyn i fod yn fwy na'r naturiol. Fe'i creodd drwy allu goruwchnaturiol i fod yn oruwchnaturiol hefyd. Ni raid mynd ymhellach nag Efengyl *Mathew* 5: 44, 'Rwyf fi'n dweud wrthyh: carwch eich gelynion, a gweddiwch dros y rhai sy'n eich erlid; felly fe fyddwch yn blant i'ch Tad sydd yn y nefoedd.'

Beth felly sy'n peri'r holl drachwantu fel broga ymchwyddol La Fontaine am wybod popeth a threchu darfod naturiol? Yn syml, ac yn rhyfeddol, ewyllys yr Anfeidrol. Nid dihangfa yw'r ateb paradocsiaidd hwnnw, ond anocheledd. Sylweddolwn hynny, a dysgwn ddysgu'n well; diau fod gan Dduw ewyllys ('Gwneler dy ewyllys'). A hyn a ddeallwn fwyfwy drwy addoliad. Datguddia *Datguddiad* fod ewyllys Duw yn berffaith gariadus a chyfiawn. Ar y ddaear crewyd dyn yn rhyfeddol, eto'n feidrol. Ymchwydda'r meidrolyn bychan mewn balchder trist yn ei erbyn, a daw ewyllys dwyfol erddo, o'i dragwyddoldeb uchod i'r ddaear isod, i fod yn fychan ac yn ofnadwyol yr un pryd, er ei fwyn ef.

Y Duw hwnnw, gan y call, a folir.

MAWL I (Penodau 4 – 20)

Yr un fath â'r Farn, y mae Mawl yn parhau o bennod 4 tan bennod 20 ac yn darparu asgwrn cefn i ddiben *Datguddiad*. Mae achlysur y Mawl i'w gael, yn y Ddaear Newydd a'r Nefoedd Newydd, bellach yn orfoleddus. Mae holl fyd sydd wedi'i selio yn cael eu rhyddhau yn lliaws llon – 144,000; ac ar eu talcennau y mae enw'r Oen a'r Tad. Dathlu buddugoliaeth ar raddfa fawr a wnânt

yn rhyfel yr Oen: dyna natur mawl *Datguddiad*.

Digwydd y gair 'Mawl' yn 5: 12: 'anrhydedd, gogoniant a mawl.' Ond mae'r Mawl wedi dechrau yn fwyaf uniongyrchol a chanolog ym mhennod 4 gyda'r corws yn canu adnod 8, 'Sanct, Sanct, Sanct.'

Mae Mawl yn weithgaredd pwysig, gan mai dyma brif bwrpas bywyd dyn, a phrif bwrpas bodolaeth a hanfod diben y ddaear oll. Ni pherthyn i'r dwyfol yn unig; ond y dwyfol yw'r patrwm i'r gwrthrych iddo.

Nodedig yng Nghymru yw traddodiad Mawl y Llys, lle yr oedd y Pennaeth yn cynrychioli Duw. Roedd ef yn crynhoi morâl a safonau a deddf y llwyth oll. Roedd yn crynhoi felly hanfod y genedl. Mae effaith y Mawl yn ysbrydol yn bellgyrhaeddol: mae'n cynnal trefn. Ar ryw olwg, eto, y mae'n ddeuol, oherwydd nad yw Mawl yn gallu cyfrannu dim nac ychwanegu dim at fawrhau Duw: ond i'r dyn a'i rhydd, y mae'n rym iachaol ac yn foddion Gras. Mae'r sawl, sy'n gallu moli o'r galon, yn derbyn bywhad. Yn y pum pwnc athrawiaethol, a nodwyd gan Synod Dordt, ni nodwyd mai Moli'r Arglwydd a'i fwynhau'n dragywydd oedd prif ddiben bywyd ym mryd Calfin. Ond ceisio ateb pum pwynt yr Arminiaid yr oedd y Synod Calфинаidd, nid crynhoi Cyffes Ffydd Calfin.

Ni all molwr gadarnhau Duw, wrth reswm; ac eto, yn y weithred ei hun y mae dyn yn siarsio batri dyn drwy waith Duw ynddo.

Fel hyn y geiria'r *Datguddiad* y paradocs hwnnw'n llythrennol (7: 16-17),

Ni newynant mwy ac ni sychedant mwy,

ni ddaw ar eu gwaethaf na'r haul

na dim gwres,

oherwydd bydd yr Oen sydd yng nghanol yr orsedd yn eu bugeilio hwy,

ac yn eu harwain i ffynhonnau dyfroedd bywyd,

a bydd Duw yn sychu pob deigr yn o'u llygaid hwy.

A thrachefn yn *Datguddiad* 10: 9-10 mae'n broses garthiol, '*Euthum at yr angel a dweud wrtho am roi'r sgrôl fechan imi, ac atebodd fi: "Cymer a bwyta hi; fe fydd hi'n chwerw i'th gylla, ond yn felys fel mêl yn dy enau."* Cymerais y sgrôl o law'r angel a'i bwyta hi, ac yr oedd yn felys fel mêl yn fy ngenau; ond wedi i mi ei bwyta aeth fy nghylla yn chwerw.'

CYFOESEDD LLENYDDOL A'R SEFYDLIAD (2)

Dogmatig o sgeptig yw'r Sefydliad llenyddol Cymraeg yn yr unfed ganrif ar hugain ynghylch rhywbeth fel Mawl mewn unrhyw faes; ac efallai fod hynny'n anochel yn golygu bod y Sefydliad yn gynhenid ddiddiben ynglŷn ag ystyr. Ni sylweddolir bod 'creu' ynddo'i hun yn gorfod bod yn weithred adeiladol. Allan o'r *ie* y crewyd y ddaear oll a'i bwrpas, nid allan o *na*. Mae pob

proton yn dweud wrthym ei fod yn adlewyrchu'r awydd i fyw. Mae'r drefn yn dramgwydd i'r dogmâu a'r ffasiynau dadadeiladol. Hynny yw, er mwyn byw o gwbl, dysg y llenor yn anochel fod ymostwng a chydsynied â'r 'Gorchymyn Diwylliannol' yn llwybr profedig yn ei enaid.

Roedd y rheswm yr wyf innau wedi cydio ym maes llenyddiaeth yn hwylustod esboniol. Dyma'r union ffrwytho a geisiais gynt yn bersonol wrth geisio gyrfa, yn llanc. Ymhlith y swyddi cynhyrchiol, gwn nad yw llenyddiaeth ond un, a chytunaf fod llawer o gynhyrchion eraill sy'n gwbl wahanol, ond yn dilyn yr un diben, ac ar wahanol fathau o ddulliau. Cytunaf fod llawer o gynhyrchu eraill sy'n well ac yn gwbl wahanol, ond yn dilyn yr un diben. Bu fy rhwymedigaeth bersonol i dasg llenyddiaeth yn weddol gyson wedyn, o bosib oherwydd bod ôl-foderniaeth wedi'i phrofi'i hun i mi yn wrth-ddywedol. Ar hyd y blynyddoedd, ceisiais lunio gwahanol gyfrolau, er mwyn mynegi, mewn disgrifiadau amrywiol, agweddau gwahanol ar Fynegiant moliannus (ym mryd y Cristion): megis *Beirniadaeth Gyfansawdd*, 2003 er enghraifft, sy'n ymgais i fapio adeiladwaith Mawl mewn llenyddiaeth; *Mawl a'i Gyfeillion*, ynghynt yn 2000: ymgais arall i olrhain twf Mawl fel calon y traddodiad Cymraeg o'r Cynfeirdd hyd Bantycelyn; *Mawl a Gelynyon ein Gelynyon*, 2000: ymgais i eirio'r ateb cyfoes negyddol i'r her gyfoes gan werth, trefn, a phwrpas; *Cyfriniaeth Gymraeg*, 1994: ymgais i olrhain perthynas a phosibilrwydd o olyniaeth (anwastad) gyfriniol yn y Gymraeg o'r Oesoedd Canol hyd yr Ugeinfed Ganrif; *Ysbryd y Cwlwm*, 1998: ymgais i ddiffinio gweddau gwahanol ar genedlaetholdeb Cymreig a Chymraeg mewn llenyddiaeth sy'n cydnabod Mawl yn gymhelliad canolog iddi. Ymdroi â Mawl a wnâi'r cwbl.

Gwelwch fod y thema o Fawl yn hen dueddiad gennyf a'm bod i er yn gynnar wedi ymhoffi mewn amrywiaeth o weddau ar y maes, ond yn bennaf ar ei ddefnydd yn y byd llenyddol. Felly, pan ymgymerais â'r ymgais i ddarllen a thrafod llyfr y *Datguddiad*, er mwyn myfyrio'n ddwysach ar ei arwyddocâd i'r Ffydd Gristnogol yn gyffredinol a cheisio amgyffred esboniad Ioan o Fawl i'r tlotyn edifeiriol yn arbennig, yr oeddwn eisoes wedi ceisio datblygu offeryn adeiledig o ddadansoddiad. A cheisiais osod gwahanol ffactorau yn eu lle. Gobeithiwn y byddai'r seiliau a ddatblygaswn eisoes yn gymorth i weithio'n llymach ac yn ôl moddion cadarnach. Yr oedd Mawl yn fwrwm eisoes yn *Datguddiad*.

Carwn sylwi ychydig ar berthynas yr astudiaeth *Beirniadaeth Gyfansawdd* wrth ogwyddo tua Mawl. Mae'n gyfrol sy'n cynnwys Rhagarweiniad a Chlo. Rhyngddynt ceir cynllun teirhan – Tafod, Mynegiant, Cymhelliad y Llenor. Er mai Cymhelliad yw'r adran sy'n ymwneud o raid â Mawl, y mae'r ddwy adran arall yn ymwneud â threfn a phwrpas, ac felly'n cael eu llunio i esbonio moliant.

Dechreuwyd y Rhan gyntaf gyda'r gair 'Rhaid', nid er mwyn dychryn neb. Ond fel y gwelir yn *Datguddiad*, y mae 'rhaid' ym mhobman gyda Duw. A heb raid, ni welem y pwynt. Nid y rhaid a

ddodir am ben gweithgaredd, ond y rhaid sy'n angenrheidiol fewnol eisoes yng nghraidd y cread. Ac yn *Beirniadaeth Gyfansawdd* hithau ceisiwyd dangos perthynas rheidrwydd â chynnyrch strwythurol llenyddol yn ei hadeiladwaith holistig.

Cyn dyfynnu o'r gwaith hwnnw ddau ddarn sy'n awgrymu ambell gasgliad perthnasol cwta i'r *Datguddiad*, dylwn nodi mai cyfrol fechan yw *Beirniadaeth Gyfansawdd* nad yw ond yn mapio'n gryno holl ffurf a chynnwys a chyswllt beirniadaeth lenyddol â'r rheini, megis y crynhodd J. Morris-Jones holl elfennau gramadeg Cymraeg yn syml yn *An Elementary Welsh Grammar*, 1921 (gan gynnwys y fannod, amserau'r ferf, ac yn y blaen). Felly y ceisiais innau yn y llyfr bach *Beirniadaeth Gyfansawdd* fapio'n wahanol begynau cynnwys, ffurfiau, a chymhelliad llenyddiaeth.

Ymddengys Cymhelliad a Mynegiant ynddynt eu hunain yn rhamantaidd rydd, ond fe'i cyflyrir gan Ffurf a Deunydd: dyma'r hyn sy'n peri i'r awdur gyfansoddi. O safbwynt y Cymhelliad i lenyddiaeth, dylwn nodi'n gyntaf fod a wnelo hynny â Gras Cyffredinol (doniau sydd fel y glaw yn disgyn ar y cyfiawn a'r anghyfiawn yn ddiwahân). Ond yn ail, fe all ymdrin â Gras Arbennig. Ac yn fynych, y mae'r Cristion yn medru trafod gwaith penodol Gristnogol yn well (er y gall fod ei waith ei hun yn ddigon sâl) na'r seciwlaryn oherwydd bod profiad wedi-tröedigaeth (yn ogystal â chyn-dröedigaeth) ganddo. Dyma ddau baragraff go hir: mae'n ymgais i ddiffinio'r cysyniad o Fawl mewn llenyddiaeth yn gyffredinol:

(tud. 130) 'Yn gyntaf, y mae'n ymffurfio'n fframwaith cyson yn y meddwl. Mae'n adeiledd i fywyd. Datganiad gweithredol yw wedyn o blaid bodolaeth. Dyma gyhoeddi'n isymwybodol neu'n ymwybodol mewn meddwl, gair a gweithred ein bod o blaid yr Achos Creiddiol, o blaid ymagweddu'n drefnus ac yn ffrwythlon, ein bod yn cyfathrebu'n gadarnhaol ynglŷn â'r creëdig, a'n bod am hyrwyddo cyfiawnder (cyn belled ag y deëllir hynny). Dyma dueddfryd sy'n 'pleidio', felly, mai natur gynhenid iaith a'i phwrpas hanfodol (er gwaethaf cwmp a gwyrriad mewn Mynegiant) yw dweud y gwir, ein bod yn cymeradwyo'r ddelfryd a'r grym hwn. Gwaith y credadun (fel cysgod) yw gwneud ei orau i anrhydeddu'r Creu felly. Ac y mae'r meddylfryd cyfunol hwn oll yn ddwfn anochel. Fe'i galwaf yn 'Fawl' am fod hynny'n well na dim mewn termau llenyddol, ond mae'n cynnwys 'meddwl, gair a gweithred'. Mae'n ymgartrefu yn y Gydwybod, fel y sylwodd Morgan Llwyd.

Eto mae'n fwy na thueddfryd rhyfedd mewn byd mor ffaeledig a negyddol yn fynych. Er gwaethaf y Cwmp, ac oherwydd Gras Cyffredin a'r modd y mae'n ymwneud â'r awydd i oroesi, ceir elfen o ddeddf orfodol y tu ôl i'r gorchymyn "Moliennwch yr Arglwydd." "*Fe foliennwch*" yr Arglwydd yw'r ergyd hefyd. Y tu mewn i'r fframwaith isymwybodol hwnnw y gellir dychanu, tanseilio, gwadu, gwrthryfela, anghredu, ac yn y blaen gan fod yn ddyrchafol. Gweithredoedd sy'n dethol, yn disgyblu ac yn trefnu yw'r rheini. Ond y mae fel pe bai dyn hyd yn oed gyda'r rhain yn

gorfod ymateb er ei waethaf mewn rhyw fath o ffordd gefnogol gynhwysfawr o fewn y meddylfryd adeiladol ei hunan. Sefydlogrwydd o fewn ansefydlogrwydd yw sy'n ceisio cynnal trefn (nid y drefn). Mae hyd yn oed dychanu ei hun mewn amgylchfyd o'r fath yn ymgais, felly, i hyrwyddo moesoldeb. Wrth fod yn rhan fechan o'r greadigaeth, nid oes dewis ond ufuddhau i'r amodau. Molwn yn weithredol, cyfathrebwn yn foliannus gadarnhaol yn yr un ffordd ag yr ufuddhawn i ddisgyrchiant.'

Dyma mewn man arall baragraff go faith sy'n ymwneud â Mawl Cristnogol yn unig:

(tud. 184) *Moliant*: Ynglŷn â hyn y saif y gorchymyn cyson a mwyaf cyffredin yn yr ysgrythur.

Molwch yr Arglwydd. Esboniad a dathliad yw o'r gogwydd cadarnhaol sydd yn gosod diben i fywyd. Dyma hefyd gyfeiriad iechyd bwriadedig diwylliant. Mae'r diben i'r moliant hwn yn wrthrychol. Mae'n amgylchu'r cwbl o fywyd, ac yn cyflawni hynny drwy ras cyffredin – pawb a phopeth, yn ymwybodol neu beidio [*er ei fod, yn achos y Cristion, yn ei fynegi drwy gynhaliaeth gras arbennig*]. Rhaid i bawb dderbyn adeiladwaith cyfundrefnus gwerth, ymagwedd at drefn, a diben yn y gwrthrych ysbrydol hwn. Dyna'r cynhwysion angenrheidiol cyson. Heb y fframwaith hwn yn benodol, nid oes iechyd llawn. Ond mae'n fwy sylfaenol a chynhwysfawr hyd yn oed nag iachawdwriaeth ac yn pegynu y tu allan i ddyn.'

NID RHETHREG: TELYNEGRWYDD (Dat. 2: 17 – Dat. 20:14)

Mae arddull y *Datguddiad*, ynghyd â'i gynnwys, yn unigryw, ac weithiau'n awgrymu telynegrwydd unigryw. Yr wyf am dynnu sylw at rai gweddau ar yr arddull achlysurol hwnnw. Nid Rhethreg fyddai'r term priodol. Mae'n gallu bod yn farddonol, heb dderbyn yr olwg sy'n neilltuo neu'n torri siâp iaith yn brydyddol fel ffurf wahanol. Mae'n wir brydferth, er yr ofnadwyaeth achlysurol.

Mae gennym gyfres o ddarluniau lled-alegorïaidd. Hyd yn oed yn y rhannau rhyddiaith mae yna ryw unigrywiaeth anghyffredin sy'n groes i'r llythrennol, ac fe'u cyflwynir megis cyfres o smotiau paent ar gynfas, gyda'r Arglwydd yn sefyll uwchben y llun â'i frws, llawn cyffelybiaethau a throsiadau, fel pe bai'r artist yn taro delweddau haniaethol a darluniau realistig ar draws ei gilydd. Nid rhethreg yw, oherwydd y mae hynny'n awgrymu rhywbeth ffug neu wneuthuredig.

Yn hyn o beth mae'r alegoriïaidd yn gymysg â'r llythrennol: e.e. 'a'i lais fel seren llawer o ddyfroedd'; 2: 17, 'I'r sawl sy'n gorchfygu, rhof gyfran o'r manna cuddiedig, a rhof hefyd garreg wen'; 2: 28, 'Rhof iddo hefyd seren y bore'; 3:3, 'fe ddof fel lleidr, ac ni chei wybod pa awr y dof atat' [cf. 1 Thes. 5: 2, 'yr ydych yn gwybod yn iawn mai fel lleidr yn y nos y daw Dydd yr Arglwydd']; 3:16, 'fe'th boeraf allan o'm genau'; 4: 1. 'Dyma'r llais, a glywswn gyntaf yn llefaru wrthyf fel sŵn utgorn'; 4: 6, 'yr oedd môr megis o wydr, tebyg i risial'; 6: 1, 'llais fel taran'; 6: 12,

'aeth yr haul yn ddu fel sachliain galar, a'r lleuad lawn yn goch fel gwaed.' [Mae'r ail gyffelybiaeth yn y frawddeg hon, o bosib, yn wahanol o ran natur i'r gyffelybiaeth gyntaf. Dichon fod corff atgyfodedig Iesu Grist yn dangos olion y gwaed o hyd, megis yr oedd wedi cadw olion yr hoelion ar ei ddwylo atgyfodedig. Gall fod oherwydd bod ôl-dioddefaint a chlwyfo ar gyrff y merthyron yn cario olion eu harwriaeth o hyd mewn buddugoliaeth newydd.]

Mae'r detholiad alegoriâidd cwta oll yn wahanol, dyweder, i flodeurwydd arddull megis: 6: 13, 'syrthiodd sêr y nef i'r ddaear fel cawod o ffigys gleision oddi ar ffigysbren pan siglir ef gan wynt mawr', lle y ceir un nodwedd weddol gyson yn yr unigrywiaeth arddull, sef gormodiaith ymddangosiadol. Mewn gwirionedd, yng nghyd-destun eithafol y Farn (na chrewyd iaith ddynol ar gyfer ei mynegi), anodd fyddai bod yn eithafol go iawn. Defnyddir yr ormodiaith ymddangosiadol hon er mwyn 'bywhau' y mynegiant o bosib: 6: 16, 'dywedasant wrth y mynyddoedd a'r creigiau, "Syrthiwch arnom, a chuddiwch ni rhag wyneb yr hwn sy'n eistedd ar yr orsedd..." Yn fynych yn y naratif cynhwysir 'paradocs'. Dywedais ynghynt fod paradocs yn realiti annigonol wrth sôn am Dduw oherwydd cyfyngiadau prenaidd syrthiedig deall a dychymyg dyn, (megis creu bydysawd allan o ddim, Duw yn dod mewn cnawd, y perffaith lân yn cymryd pechod arno'i hun i dalu iawn er mwyn i'n marwol gyrff fyw'n berffaith ac yn dragywydd). Felly yma, 7: 17. 'bydd yr *Oen* sydd yng nghanol yr orsedd yn eu *bugeilio* hwy.' Felly hefyd Dat. 20: 14. lle y mae'r 'Ail Farwolaeth', dybiaf i, yn golygu bod Marwolaeth ei hun yn marw. Bellach gydag atgyfodiad y corff Cristnogol, y mae marwolaeth yn cael ei choncro ynghyd â phob dim sy'n groes, megis Dyneiddiaeth Seciwlar – pob dim sydd ag ansawdd darfodedig ynddo.

Paradocs ynt.

Math o ddeuoliaeth yw paradocs, lle y mae'r deuol yn dod yn unol. Felly hefyd pob gair mwys. Yn wir, patrymu iaith yw ailadrodd neu aralleirio: mae'n pwysleisio, wrth gwrs, ond y mae'n gwneud mwy, drwy drawsffurfio'r normal: 13: 11, 'Yr oedd ganddo ddau gorn fel *oen*, ond yn llefaru fel draig', neu 14: 16, 'A dyma'r hwn oedd yn eistedd ar y cwmwl yn bwrw ei gryman i'r ddaear, a medwyd y ddaear.'

Mae unigrywiaeth y math hwn o arddull yn parhau tan ddiwedd y llyfr, ond i'n clustiau mae'r naws yn mynd yn llai telynegol a thyner wrth suddo i mewn i'r ddelwedd ddychrynlyd sydd o fewn yr awyrgylech cyfarwydd gyda chordiau soniarus sy'n gweithio tuag at gresendo.

Ymbalfalu am fodd i fynegi hyn o ffenomen aruthr yr wyf. Mae Ioan ei hun dan arweiniad Iesu'r barnwr yn ymdeimlo fwyfwy ag effaith ailadrodd: rhyfeddod ar ôl rhyfeddod. Teimlir yn gwbl orchfygedig mewn un patrwm yn yr arddull a ddaw i'r golwg ym mhennod wyth, ac yna sy'n ymddangos eto yn y nawfed bennod: dyfynnaf 8: 7, 'Llogwyd traean o'r ddaear, llogwyd traean o'r coed'; 8: 8, 'Trodd traean o'r môr yn waed', 8: 9, 'a bu farw traean o greaduriaid byw y môr, a

dinistriwyd traean o'r llongau'; 8:10, 'syrthiodd ar draean o'r afonydd...'; 8: 11, 'a throdd traean o'r dyfroedd yn wermod'; 8: 12, 'trawyd traean o'r haul a thraean o'r lleuad a thraean o'r sêr, nes tywyllu traean ohonynt, ac ni bu dim golau am draean o'r dydd, a'r un modd am draean o'r nos.' Dro ar ôl tro, dyna i mi dri thro ar ddeg i'r gair 'traean' yn taranu mewn adnodau olynol di-dor. Heb fynd yn bell, y mae'r gair obsesiynol hwn wedyn yn mynd dan ddaear am dro byr, ond yn ailymddangos yn Dat. 9: 15, 'i ladd traean o'r ddynolryw... 9: 18, 'fe laddwyd traean o'r ddynolryw' fel pe bai'r awdur yn ffarwelio.

Gyda phatrymu o'r fath, mae'n debyg y buasai'r llenor arferol yn gallu'i wneud yn ymwybodol neu'n isymwybodol. Ond yn achos y Duw-ddyn hollwybodol, doedd yna ddim yn isymwybodol. Mae'n bur bosib bod Ioan yn sylweddoli beth oedd yn digwydd, ac yn ymhyfydu yn harddwch patrymu bodolaeth.

Byddaf yn teimlo mai math o orymdaith yw rhestru rhengoedd geiriol fel hyn. Mae gorymdeithio geiriol o'r fath yn digwydd mewn llawer man yn y gyfrol, megis yn fawrhydig iawn yn Dat. 8: 11 ymlaen. Yn y fan yna gallasai fod wedi dweud yn syml 'nwyddau o lawer math a chyfoeth'; ond yr hyn a wna'r awdur yw rhestru un nwydd ar ôl ei gilydd yn orymdaith sy'n cyfleu gwirionedd y ddelwedd ailadroddus. Felly y mae mewn darnau rhestrol yn creu rhyfeddod, fel y bydd gorymdaith o danciau a rocedi a milwyr ac anifeiliaid ac arfau o lawer math yn yr unfed ganrif ar hugain mewn dathliad ymdeithiol ym mryd pererin bydol rhyfelgar. Ni raid ailadrodd yr un peth yn unig. Sylwer ar amrywiaeth fel elfen mewn rhyfeddod yn yr orymdaith hon: 18: 16,

'Gwae, gwae'r ddinas fawr,
sydd wedi ei gwisgo â lliain main,
â phorffor ac ysgarlad,
a'i thecáu â thlysau aur,
â gemau gwerthfawr a pherlau,
oherwydd diffeithio cymaint o gyfoeth mewn un awr.'

Mae'r awdur yn y cymal olaf fel pe bai'n chwerthin yn odidog. Yn wir, mae'r holl lyfr hwn yn ymffurfio'n gyfresol o syniadau diriaethol, hyd yn oed yn yr arolwg o Saith Ddinas tua'r dechrau. Hyd yn oed yn thematig, wedi cyrraedd y diwedd ar ein siwrnai, fe fyddwn wedi cael ein gorfodi i wynebu nifer sylweddol o themâu dynol a dwyfol ailadroddol. Bydd ystyriaethau dwys a'u hystyron wedi codi eu pennau fel petaent yn arwain at y Farn Olaf, y Gogoniant, a'r Ddaear Newydd a'r Nefoedd Newydd: *themâu* academiaidd weithiau megis yr Awduraeth, – Mawl a grybwyllir yn ei ryfeddod ar y dechrau a'r diwedd i'r llyfr. Y Goruwchnaturiol a'r Naturiol, Ffiniau Deall, Addoliad, Gras Cyffredinol a Gras Arbennig, Amser a Gofod, Alegori a Throsiad, Goleuni, Symbolau, Gorsedd, Meirch a Marchogion, Dreigiau, Ôl-foderniaeth, Proffwyd-Offeiriad-a-Brenin, ac eraill,

yn gwau drwy'i synhwyrâu, gan arwain tua'r terfyn. Mae'n ymdroi gyda syniadaeth sy'n corddi awdur mewn modd haniaethol, a hynny yn yr un cyd-destun â'r diriaethol.

CORONI PEN YR EGLWYS (Penodau 11 – 14)

Pwnc a digwyddiad canolog y penodau nesaf yw Coroni Pen yr Eglwys.

Wrth inni ganfod y Canhwyllbrennau a sylwi ar Fab y Dyn yn symud rhyngddynt, down i syllu yn awr ar goroni Iesu yng ngŵydd yr Eglwys. Gwyddom i'r Tad sicrhau bod pob dim yn ddarostyngedig i Grist: Dat. 1: 6. Yr unig frenhiniaeth ryngwladol a barhaodd drwy'r oesoedd yw Brenhiniaeth y Drindod. Mae Ioan eisoes wedi galw Iesu Grist yn Frenin ar Deyrnas y Gwirionedd, yn Nheyrnas Nefoedd: Ioan 18: 36-37. Ef yw'r Brenin sy'n gwasanaethu: Math. 20: 26.

Mae'r Frenhiniaeth honno wedi'i dynodi ar gyfer dau gyfnod: (1) Teyrnasu absoliwt dros bawb a phopeth yn y Cosmos; (2) Teyrnasu dros y Cosmos gyda'r etholedigion yn unig, wedi'u cipio o rym y tywyllwch. Wrth inni ganfod y Canhwyllbrennau a sylwi ar Fab y dyn yn symud rhyngddynt, down i syllu yn awr ar goroni Iesu yng ngŵydd yr Eglwys. Ymdrown ymhlith Saith Trymped sy'n cyhoeddi agor y seliau, darllen y cofnodion, ac yna ysblander ofnadwy'r Farn. Fe'i datguddir i ni mewn cyfres o drychinebau. Ond yn ogystal â datgan barn, y maent hefyd yn galw i edifeirwch. Felly y digwyddai'n fuan i Ymerodraeth Teyrnas Rufain.

Mae'r utgyrn ym Mhennod 8 yn galw trychineb ar draean o'r ddaear. Dyfynnwyd y rhediad o draeanau gynnuau. Yma mae **saith** utgorn. Y mae'r pedwar cyntaf yn effeithio ar fodolaeth gorfforol y bobl. Y maent yn achosi storm o gesair, tywyllwch, a thân ar y ddaear. Gyda'r seithfed sêl, daw tawelwch cyn storm y Farn a dicter Duw Cariad. Gwêl Ioan saith angel yn chwythu'r trympedau. Ar y ddaear, mae'r merthyron hwythau, sydd heb guro eto ar ddrws marwolaeth, yn gweddïo yn y tawelwch.

Mae'r ail angel yn cyhoeddi trychineb y mynydd sy'n cael ei luchio i'r môr, a'r môr yn cosbi'r drygionus ac yn distrywio o fewn ei gyrraedd. Mae'r trydydd angel yn datgan i'r afonydd sy'n llifo dros dir gyda seren anferthog yn hyrddio o'r nefoedd. Ymddengys eryr yn awr i nodi diwedd y pedwar gwae cyntaf. Dyma'r pumed corn yn seinio, syrth Satan ac agor pwll y diafoliaid i'r holl fyd.

Eto, yn y penodau hyn, gelwir ynghyd yr Eglwys i fod yn un, yn canu un gân. Pedwar henuriad ar hugain sy'n ateb anthem yr angylion: syrth yr henuriaid ac ymostyngant i Dduw gan ddweud: 11: 17-18 –

'Yr ydym yn diolch i ti, O Arglwydd Dduw hollalluog,
yr hwn sydd a'r hwn oedd.'

Mor wahanol i 1: 8 – 'yr hwn sydd a'r hwn oedd a'r hwn sydd *i ddod*.' Hepgorir yr Un sydd i ddod oherwydd bod yr Eglwys yn Un yn pyncio un gân bellach. Newidiwyd amser. Pedwar henuriad sy'n

ateb i anthem yr angylion: syrth yr henuriaid ar eu hwynebau, ac ymostyngant i Dduw gan ddweud: 11: 17-18 – 'am iti feddiannu dy allu mawr/ a dechrau teyrnasu', dros y nefoedd yn agored, a chymdeithas berffaith gyda'r Drindod wedi'i chyflawni – mewn dicter ac mewn cariad.

CRIST YN WYNEBU'R DDRAIG A'I CHYNGHREIRIAID (DATGUDDIAD 12 – 14)

Ym mhob un o'r gweledigaethau yn awr ailadroddir holl hanes dyfodiad y Farn dro ar ôl tro mewn ffyrdd gwahanol. Mae'r naratif dwfn cysylltiol yr un fath, ac yn digwydd yr un pryd, ond mewn ffurfiau a chynhwysion gwahanol yn y gweledigaethau, ac mae natur yr enghreifftiau'n amrywio.

Mae'r byd yn cael ei newid. Nid ei newid ohono'i hun a wna. Newidia oherwydd fod Brenin yn ei newid o'r tu allan drwy ennill ei ewyllys, a thrwy ennill serchiadau, ac awydd i fod yn eiddo cariadus i'r Brenin.

Ymddengys fod penodau 12 – 14 yn fwy gwleidyddol na'r penodau eraill. Mae'r eglwysi'n wynebu gelyniaeth Rhufain. Trachwant am *deyrnasiad dros y byd oll* sy'n nodweddu Satan yn y Ddraig (Dat. 13:1; 20:2, cf. 6: 12). Yn yr ardaloedd o gwmpas Môr y Canoldir, go brin bod yr un Ymerodraeth arall wedi ymestyn yn gyffelyb o'r Alban hyd yr Aifft ac Asia. Tybia rhai fod y Ddraig yn emblem mewn taleithiau Rhufain ymylog fel Patmos a Chymru i gynrychioli awdurdod gwrthun yr Ymerodraeth. Defnyddir *draco* i ddynodi stondard milwrol ar ffurf Draig, ac fe'i ceir yn Lladin y drydedd ganrif.

Traethu Darogan yw *Datguddiad*: gwelir y dyfodol yn y presennol. Mewn llenyddiaeth Gymraeg, ceir llawer o 'Ganu Darogan' (Prophetic Poetry) cenedlaetholgar. Un o'r cerddi enwocaf yw *Armes Prydein Vawr* (Gorchfygiad Prydain), cerdd a amserir tua 930. Ymddengys fod y ddraig erbyn y ganrif honno yn arwyddlun i fod yn falch ohoni a'i chysylltiadau gwâr a Christnogol a chyfreithiol Rufeinig, mewn taleithiau ymylog gyda'r heolydd wedi'u hadeiladu'n greiddiol ôl-Rufeinig (*Romania* o'i chyferbynnu â *Barbaria*), yn creu delwedd gadarnhaol ohoni ledled ymerodraeth yr Arglwydd. Ond fe'i ceir yn *Historia Brittonum*, 'Nennius' (c.800) lle y ceir Dreigiau'n Ymladd (*duo vermes*). Wedyn yn *Historia Regum*, Sieffre, ceir 'dreigeu' (*dracones*); yna eto yn *Lludd a Llevelys* (trydedd ganrif ar ddeg).

Dichon fod Cymru, er hynny, fel Patmos yn synied am y ddraig yn emblem ar gyfer rhyfel. Dyna oedd arwyddlun Cadwaladr (Llyfr Du), megis y'i mabwysiadwyd gan Harri Tudur i fod ar flaen y gad ar ei ymdaith i faes Bosworth.

Yn y rhan hon o'r *Datguddiad 12: 4-6*, '*Safodd y ddraig o flaen y wraig oedd ar fin esgor, er mwyn llyncu ei phlentyn ar ei eni. Esgorodd hi ar blentyn gwryw, hwnnw sydd i lywodraethu'r holl genhedloedd â gwialen haear*. Ond cipiwyd ei phlentyn at Dduw a'i orsedd ef. Ffodd y wraig i'r

anialwch; yno y mae ganddi le wedi baratoi gan Dduw.' (Hynny yw, roedd perygl i'r plentyn adeg ei eni (yn ogystal â phroffwydoliaeth); a ffodd i'r Aifft i'w ddiogelu).

Roedd Israel o'r dechrau yn uned grefyddol-a-gwleidyddol. A sylweddolwyd hyn adeg marwolaeth Iesu Grist, ac wedyn gan Paul ac Ioan yn yr Eglwys Gynnar.

A phwysig yw hyn i ddarllenwyr heddiw sy'n meddu ar sensitifrwydd araf deg a gwrthryfel beirniadol cyfoes wrth iddynt bwysu y lle sydd i *Datguddiad* yn y gogwydd sydd gan Gristnogion, fyfyrion ynghylch y cyswllt mewn gras cyffredinol a'r gorchymyn diwylliannol rhwng Teyrnas Dduw yn wleidyddol ac yn grefyddol. Gellid hawlio mai Teyrnas yn yr ysbryd a'r meddwl yw Teyrnas lle y mae Iesu Grist i'r Cristion bob amser ar ei Orsedd mewn sancteiddrwydd.

Mae Teyrnas Dduw yn cynnwys yr holl Gosmos (Eph. 1: 20). Etholedigion yw'r dinasyddion (Phil. 3: 20): mae'r rhain yn undod organaidd, yn un bobl (1 Pedr: 2: 9). Eto, er eu hundod, daw'r amryfal bobl (megis ar y ddaear) i gyfrannu yn ôl doniau a swyddi amryfal. Mae'n faes magnetig sy'n cynnwys sfferau ac yn tynnu pawb ato'i hun yn sfferau unigol sy'n ffurfio un Sffêr cynhwysfawr (mewn dull tebyg i Dooyweerd). Ceir gweddau cryno y sfferau hyn, megis – Sffêr ragosiadol (ffydd, pwrpas, ac ystyr): y Tri-yn-Un: y nefoedd

sffêr foesegol (cariad; cymdeithas, priodas)

sffêr esthetig creadigaethol (harmonï): Deddf Duw a'r Cwmp

sffêr farnwrol (barn, gwleidyddiaeth)

Materion Haniaethol i'w rheoli

sffêr ofodol (lle)

sffêr amserol (hanes a symudiad)

sffêr rifyddol (cyfrif)

sffêr ddadansoddol (trefn a deall)

sffêr fiolegol (anifeiliaid a phlanhigion)

Materion Diriaethol i'w rheoli

sffêr economaidd (masnach a chynilo)

*

*

*

Y DEYRNAS WLEIDYDDOL A'R DEYRNAS NEWYDD

Dyma'r math o *drefn* sydd yn cael gweithredu'n ymarferol ac yn gelfydd ym meddwl Duw ac yn ei greadigaeth dystiol.

Mae gan bob un o'r sfferau ei faes penodol a chyd-berthynol ei hun mewn olyniaeth a threfn Benarglwyddiaethol, o fewn pob sffêr yn ôl ei amodau a'i nodweddion gwahaniaethol ei hun.

Eto, awdurdod gwleidyddol a chyfraith gwlad yw un o'r meysydd a ddiplanna ar y Ddaear Newydd. Achoswyd cyfraith a threfn yn yr ystyr fydol yn ôl un o ganlyniadau'r cwmp. Heb droseddwr mwyach, ni bydd angen na cherydd na chosb.

Dyma wedd ffrwydrol o chwyldroadol yn natblygiad bywyd.

Sonnir am barhad bodolaeth pobl o bob iaith a chenedl yn y Deyrnas. Ond bydd pawb yn deall ei gilydd. Trefnwyd bodolaeth iaith ac enwi gan Dduw ei hun, nid oherwydd cosb Tŵr Babel, ond oherwydd ymchwyddo gorganoli dynoliaeth: gwasgarwyd ieithoedd ledled y ddaear oherwydd balchder dyn yn y fan yna yn gorganoli ac yn unffurfio ei adeiladwaith ef ei hun, a thorri cyngor Duw, nid oherwydd ffyniant diwylliannol lleol.

'Israel' yw'r uned ddaearol a throsiadol sy'n Deyrnas wleidyddol ac yn Deyrnas ysbrydol, gyda'r Arglwydd yn deddfu, mewn Theocratiaeth ddigyfnewid (Salm 147: 19-20). Uned o bobl sy'n cyd-greu yw'r Nefoedd Newydd a'r Ddaear Newydd. Mwynhau cariad a chreadigaeth Duw yw priod bwrpas dyn. Diwyllio'r tir a bugeilio'r anifeiliaid, er mwyn ei gynhaliaeth ei hun, yw prif waith a dyletswydd dyn. Garddwr yw ef o hyd er gogoniant Duw, yn darostwng y pridd er ei glod.

Gyda'r cwmp y mae pob dim wedi syrthio ac yn pydru mewn llygredd. Mae Teyrnas Dduw ar y llaw arall yn cael ei chrybwyll yn y Testament Newydd yn amlach na'r Cyfamod (Dat. 19: 11-16) gan fod y naill yn rhagflaenu'r llall mewn hanes. Y tu mewn i'r patrwm uchod, y mae patrwm perthynas Duw a dyn, a'r Cwmp yn cael ei weithredu: dyma'r Duw sy'n ymostwng a'r dyn sy'n ymddyrchafu'n falch. A'r tu mewn i'r patrwm hwnnw a sefydlodd Duw, y mae perthynas y Deyrnas uchod a'r wladwriaeth israddol yn cael ei chyflwyno. Mae'r apostolion yn annog Cristnogion i ufuddhau i'r awdurdodau gwladol, hyd yn oed dan bennaeth afreolaidd fel Nero yn amser Ioan.

* * *

Mae'r adran gyflwyniadol i hyn (Penodau 4 – 7) yn adlewyrchu deuoliaeth thematig y llyfr i gyd. Mae yna Oen a Cheffyl Gwyn, ac un ydynt; ac y mae yna drugaredd a ffyrnigrwydd (a sancteiddrwydd), ac un ydynt drachefn. Hwyl yn baradocsaidd yw'r Iesu ei hun.

Ond at ei gilydd, yr hyn a oedd yn annisgwyl efallai i'r heddychwyr cyntaf oedd mai gogwyddo at ryfel y mae'r adran hon. Tuedda i felltithio cyn bendithio, oherwydd er bod y gyfrol yn delweddu peth ar y bywyd glân hyfryd sy'n olynu'r Farn, y Farn ei hun sy'n cael prif sylw'r adran hon.

Dengys penodau 4 – 5 ofnadwyaeth yr Orsedd sy'n rheoli'r bydysawd. Fan hyn y mae Ioan yn canfod drws yn agored yn y nef (cf. Esec. 1: 1), a llais Iesu'n ei wahodd i ddod ato. Ym mhennod 6 y mae ef yn cael ei gipio yn yr Ysbryd i fod yn y nef a'r bydysawd (4 – 5) yn cael ei lywodraethu gan y Tad ar yr Orsedd (Dat. 4: 2). Ceir saith lusern a môr o wydr yno (4: 5,6). Ond nid y nef a ddelweddir, eithr yn hytrach y bydysawd oll o weledfa'r nef. Mae gogoniant y ddaear newydd

(islaw) wedi'i dröedigaethu yn sicr. Ond gellid, yr un pryd, alegoreiddio; ynghyd â llythrenoli o'i fewn. Fe ganfyddwn yn gyntaf y weledigaeth yn amodi'r ddelwedd yn un profiad yn y meddwl meidrol. Fe symboleiddia 'gwyn' sancteiddrwydd Duw na all oddef düwch pechod, a fflachia taran gerbron yr Orsedd (4: 5). Yna, ceir enfys sy'n dweud wrthynt fod y storm drosodd. Mae popeth, gan gynnwys lladdfa a thlodi, newyn a phläu, yn gweithio er daioni i'r sawl sy'n caru Duw.

Gwêl Ioan yn awr o'i ddeutu pedair gorsedd ar hugain, a phedwar ar hugain o henuriaid arnynt sy'n cynrychioli henuriaid yr Hen Gyfamod a'r Newydd, y deuddeg patriarch a'r deuddeg apostol (cf. Dat. 21: 12-14) ynghyd â'r Tad, yr Ysbryd Glân, a'r Mab (ac yng ngwaed yr olaf y mae'r saint wedi cannu'u dillad). Ceir cyswllt nodedig rhwng y ddau Gyfamod yn Dat. 5: 5; 4: 6 a 4: 7, yn Esec. 1: 5; 1: 10; 1: 13 yn y rhif a'r symbolau amryfal o geriwbiaid. Dro ar ôl tro, y maent yn canu anthem y Creawdwr (5: 14; 7: 11-12).

Mae sgrôl yr Oen yn awr (5: 1-7; a 6: 14) yn cofnodi cynllun tragwyddol Duw. Mae Iesu'n datguddio mai thema arweiniol *Datguddiad* yw dadlennu cynllun mawr Duw wedi'i selio dan saith sêl. Hawlir gan angel cryf, 'Pwy sy'n deilwng i agor y sgrôl neu dorri'r seliau?' Yn awr, wyla Ioan, o hiraeth cariadus at ei Arglwydd. A medd henuriad (Dat. 5: 5), 'Paid ag wylo; wele, y mae'r Llew o lwyth Jwda, Gwreiddyn Dafydd, wedi gorchfygu ac ennill yr hawl i agor y sgrôl a'i saith sêl.' Ar y groes ac yn y gwaed, sy'n Oen, (5: 8-14), a llifa symbolau eraill gerbron, megis y delyn, y ffiolau aur, yr aroglarth, y cwbl yn arwyddo gweddi a diolch. Ond (6:6) dychwelwn yn awr at wleidyddia a masnacheiddio'r gyfrol yn hyn o ryfel. Mae'r cwbl yn arwyddo'r imperialaeth Rufeinig lle y mae'r cryf o gorff yn ceisio concro'r gwan o gorff, ond yr eiddil a'r gorthrymedig yn concro'n ysbrydol yn y bôn ac yn y diwedd.

Y mae marchogion ar bedwar march: ceffyl gwyn yn gyntaf, sef Crist (Dat. 6: 2, cf. 1: 13 yml.). Cysylltir 'gwyn' â'r sanctaidd a'r nefol (cf. Dat.19: 11; a'r gwisgoedd gwyn, cwmwl gwyn, gorsedd wen, carreg wen â'r un cyswllt). Mae Crist yn derbyn coron. Mae'n concro (cf. Dat. 3: 21; 5: 5; 6: 2; 6: 16; 11: 15; 12: 11; 14: 1 yml.; 17: 14; 19:11). Thema bwysig iawn y *Datguddiad* yw Crist y Conquerwr.

Wedyn, daw'r ceffyl coch a'i farchog. Cynrychiola ef erlidwyr y byd i'r Cristnogion a laddwyd fel eu Harglwydd (Dat. 5: 6; 6: 4; 13:3; 13: 8) megis Paul, Publius a Polycarp.

Mae'r ceffyl du, o'i ddarllen yng nghyd-destun Esec. 4: 10 a Dat. 13:17, a'r gweddill o'r llyfr, yn arwyddo dod â newyn a chaledi. Mae'r cyfoethog yn mwynhau bywyd moethus; ac mae'n gwmni gweddus i'r ail geffyl.

Mae'r ceffyl gwelwlyd yn cynrychioli'r byd dioddefus, y rhai sy'n wynebu gwae. Angau yw'r marchog, a'r tu ôl y mae Hades yn trotian. Ond cyfyngedig yw'r awdurdod a roir i Angau a Hades, cf. Esec. 14: 21 a Dat 6: 8.

Yn yr adran 6: 9-11 clywn gri'r merthyr. Ac yn symbolaidd, fel y mae pob dim yn *Datguddiad*, rhoddir i'r lladdedigion glogau gwyn llifeiriol. Rhoddir sicrwydd iddynt y cânt ateb i'w herfyniadau ar Ddydd y Farn.

Y LLIAWS SELIEDIG (6: 1-17; 7: 1-8)

Ceir rhai penodau lle yr ymledir yn llydan. Ond mewn rhai megis 6 – 7, crynhoir ffenomen.

Mae'r cwbl yn barod. Mae'r pedwar angel sy'n rheoli'r pedwar ban – gogledd, de, dwyrain a gorllewin – yn barod i ddistrywio tir a môr (Dat. 7: 2). Yna, fe wêl Ioan angel arall yn disgyn o'r dwyrain. Ganddo ef y mae sêl y Duw byw. Mae'n gorchymyn (7: 3) 'Peidiwch â niweidio na daear na môr na choed nes inni selio gweision ein Duw ar eu talcennau.'

Dyma feddwl Duw ar gyfer gwareiddiad a gwaredigaeth dyn. Agorir y seliau (6: 1-17). Drwy'r gyntaf daeth allan y ceffyl gwyn, yn ôl pob tebyg, sef Crist, i goncro. Yn ail, daeth y ceffyl coch, i ddwyn tangnefedd. Yn drydydd, y ceffyl du, gyda'r dafol i fantoli'n fasnachol. Yn bedwerydd, y ceffyl gwelwlwyd, sef angau. Yn bumed, wedi agor y sêl, ceir eneidiau'r merthyron. A'r chweched sêl yn ofnadwyaeth y farn. Dyma ddadselio'r gwirionedd amdani.

Heddiw, gyda'r dad-ddifrifoli ar Gristnogaeth yn yr unfed ganrif ar hugain, a'r ymgais i wthio Barn o dan y carped, a gwadu nad oes dim math o ofnadwyaeth ynghylch pechod, y mae'r ddelwedd o ddadseilio yn fyfyrdd ynghylch effeithiau'r fath ymguddio, er enghraifft Dat. 6: 9, 'Pan agorodd y bumed sêl, gwelais dan yr allor eneidiau'r rhai a laddwyd ar gyfrif gair Duw ac am y dystiolaeth yr oeddent wedi'i dwyn. Gwaeddasant â llais uchel: "Pa hyd, Benllywydd sanctaidd a gwir, cyn i ti farnu, a dial ein gwaed ar drigolion y ddaear." [Ni wyddom a oes adlewyrchiad llythrennol o hynt rhai o'r merthyron ar y pryd, e.e. 'dan yr allor'; ond nid effeithia ar y gwir ddweud ysbrydol.] Yr oedd y tystion gau wedi erlid y tystion glân hyd angau, ac yn awr wynebant ganlyniad difrif ofnadwy. Allan o gyrff y merthyron y tardda llewyrch yr Eglwys ac Achos Crist.

Mae'r seliau gyda'i gilydd yn cydberthyn ac yn effeithio ar ei gilydd.

SAITH UTGORN (Dat. 8 – 11)

Mae amser yn y penodau hyn yn ymddangos yn groyw, ond yn awr, mae amser yn dadrolio'n ddeinamig. Trown o'r diwedd, gyda'r Arglwydd, at lawnder llydan y goleuni eglwysi'n llusernau i draed Cristnogion, ac yn ôl i esgyniad yr Arglwydd.

Yng nghanol brwydr olaf diwedd amser, ar ôl gorseddu'r Crist buddugoliaethus, gosodir golygfa geni'r plentyn, ac erlid y plant, a'r fam yn ffoi gydag ef i'r anialwch. Efallai fod y geni hwn yn eni yng nghalonau y rhai sydd mewn angen. Bydd pennod 12: 4 wedyn yn symud amser o'r atgyfodiad i'r geni, o'r nef yn ôl i'r ddaear; o'r croeshoeliad a fu un tro i'r aberth sy'n nodwedd i'r

Crist tragwyddol: 'Safodd y ddraig o flaen y wraig oedd ar fin esgor, er mwyn llyncu ei phlentyn ar ei eni. Esgorodd hi ar blentyn gwryw, hwnnw sydd i lywodraethu'r holl genhedloedd â gwialen haearn; ond cipiwyd ei phlentyn at Dduw a'i orsedd ef. Ffodd y wraig i'r anialwch, yno y mae ganddi le wedi ei baratoi gan Dduw i'w chynnal ynddo.'

Soniais am ddiflaniad Amser yn nhragwyddoldeb. Dyma un o nodweddion Hanes yng ngweledigaethau'r Beibl. Cawn y diflaniad o Amser ym mhroffwydoliaeth Eseia 9: 6-7:

'Canys *bachgen* a *aned* i ni,
mab a *roed* i ni,
a *bydd* yr awdurdod ar ei ysgwydd.
Fe'i *gelwir*, "Cynghorwr rhyfeddol, Duw cadarn,
Tad bythol".'

Felly yn *Datguddiad* gwelwn fod yr Hen Destament yn gwau drwy'r Testament Newydd. Y mae plâu'r Aifft (Ecsodus 9 – 10) yn ymddangos yn *Datguddiad* 'y cenllysg a'r tân' (8: 7) a'r 'locustiaid' (9: 3). Mae'r 'mynydd' sy'n cael ei daflu i'r môr yn *Datguddiad* 8: 8 eisoes wedi cael ei gysgodi yn Salm 46: 2, Eseia 34: 3; 54: 10; Esec. 38: 20; Mic. 1: 4; Nahum 1: 5.

DANTE: arwyddocâd gwaith athrylithgar Dante yng ngoleuni *Datguddiad*.

Wrth ddarllen gwaith ambell Gristion sydd wedi ymdroi yn ddwys gyda *Datguddiad*, ac wedi ymroi i gofnodi nid yn unig drafodaeth esboniadol ohono, eithr i gwmpasu ei effaith yn bersonol arno ef, megis Thomas Charles, ni ellir llai na synied iddo gael ei newid y tu hwnt i eglurhad. Mae'n ymdeimlo â rhywbeth sydd yn perthyn i fyd arall. Fe'i meddiannwyd gan fodolaeth anesboniadwy. Mae effaith *Datguddiad* ar wahanol Gristnogion yn gallu amrywio'n rhyfeddol, gan ddibynnu ar anian, addysg a doniau.

Yn achos Dante, ceisiwyd cyflwyno hyn yn onest ac yn fanwl, lle bynnag y byddai hynny'n ei arwain: gweithred sy'n ymylu ar heresi; gweithred sydd hefyd yn beryglus o ran hygoledd artistig hyd yn oed. Ond fe fentrodd. Aeth y tu hwnt i gynnyrch dychymyg at gofnodiad a ymddiriedai yn y ffeithiolrwydd a rithiodd o'i flaen.

Ymhlith y llenyddiaeth all-feiblaidd weledigaethol yn hanes Ewrob, *Y Gomedï Ddwyfol* gan Dante yw'r cynnyrch enwocaf. Mae'n greadigaeth o'r radd flaenaf ymhlith clasuron dychmyglon grymusaf gwareiddiad. Anodd credu nad dyma ddehongliad creadigol a phersonol gorchestol a gafodd un o athrylithoedd y byd o'r *Datguddiad* ei hun hefyd. Yn sicr, roedd yn ymwybodol iawn o'r *Datguddiad* wrth ei ysgrifennu. Dehongliad Acwinaidd ac Awstinaidd a gaed ganddo. Hynny yw, yr oedd Dante (o fewn ei ganrif ef) yn ymateb yn gydymdeimladus ac yn ymgollol anochel yn yr

un cyfwng â phrofiad Patmos o safbwynt gweledigaeth gras cyffredinol. Delweddent ill dau yr un *Inferno*.

Felly, i'r sawl sy'n hoff o lenyddiaeth glasurol y gorllewin, ac yn efrydu *Datguddiad*, anodd peidio â threulio tipyn o amser buddiol gyda Dante. Efō oedd un o arweinwyr pennaf y blodeuad brodorol ar ôl i ieithoedd Groeg, a Lladin, a Hebraeg gilio o'u blodeuo ym mryd noddwyr cyfoethog, ac iddynt yn raddol ymdroi mwyfwy gyda'u hieithwedd genedlaethol eu hun i fod yn ieithoedd modern. Roedd newid o'r fath yn wir yng Nghymru hithau.

Mae'r *Inferno* yn epigaidd, ac mor anferth a dylanwadol ac mor ddyledus i batrwm y *Datguddiad* gan Iesu-Grist-Ioan-a'r-Ysbryd-Glân, a dyled Dante ei hun yn debyg i'r profiad ysbrydol ar Batmos, fel na all y sawl sy'n myfyrio ar werth yr epig diweddar ddim peidio â chydabod mor gyd-wahanol ac eto mor debyg yw'r ddau gynnyrch rhyfeddol hyn.

Go brin fod dim barddoniaeth arall yn peri inni, fel hyn 'weld' bywyd ar ei ddyfnaf yn ei derfyn ac awgrymu fel y gellid atgyfodi barddoniaeth gan ddawn 'all-Feiblaidd' i gael golwg newydd ar brofiad Patmos, gan gawr llenyddol drwy ras cyffredinol.

Pan fydd Cyn-filflwyddwyr drwy gymorth rhifolion a dyddiadau yn darllen i mewn i'r Beibl broffwydoliaeth ynghylch yr ail ryfel byd neu'r ffœedigaeth ddihangol o ymsefydlwyr erlidiedig i'r Israel 'newydd' (megis Ioan ynghynt i Batmos), mae'r hyn a wneir gan y credinwyr diweddar ôl-Dante hyn yn gwbl groes i'r Beibl. Dyfalant yn wrth-alegorïaidd, a bod yn rhy llythrennol ynghylch ffigurau a ddefnyddid yn grefyddol. Yr hyn a wnâ'r Hen Destament, yn draddodiadol, yw proffwydo yr hyn a fydd yn gorfod bod yn wir, yn ôl ei ddull ei hun o ddweud y gwir. Hefyd, pan holwn sut y mae'r Beibl yn llefaru o hyd, gwelir ef fel datganiad digyfnwid inni i gyd. Tuedda'r dehonglwyr diweddar i beidio â thro'i'r lle dyladwy i gredinwyr nac i'r ysbrydol yn y farn.

Mae yna enghraifft adnabyddus o gamddarllen yr Ysgrythur sy'n tarddu yng ngwaith Groeg Iddew o'r enw Philo (20 C.C. – O.C. 40). Fe'i meithrinwyd ef ar waith Plato a'r Stoiciaid. Tueddodd o'r herwydd i drafod yn fwy haniaethol ac alegorïaidd nag y bydd Cristnogion yn ei wneud, yn arbennig yn achos yr hanes clasurol, llythrennol... yn groes i'r Cyn-filflwyddwyr gan ddechrau yn y llythrennol ac aros yn y fan yna. Credai Philo nad cyndad i'r Hebraeid oedd Abraham, eithr math o feddwl – cysyniad oedd ef drwy ddysg a gynyddodd yn ei ysgolheictod, symbol felly, nid gŵr diriaethol. Dan gais ei wraig Sarah, fe ufuddhaodd a phriodi Hagar, er mwyn esgor ar blant. Yn hyn o beth, yr oedd y briodas honno yn 'feddwl cynyddol' neu'n 'gallineb buddiol' wedi mynd ymhellach na 'dysg golegol', a pheri gyda'r Sarah hon y ddi Isaac ohoni, a byddai ef yn cynrychioli 'llawenydd ysbrydol'. Perthyn hanes ysgrythurol clasurol ar y llaw arall i ffeithiau amser; fel y gwelsom Amser yw un o ffactorau mawr gwelediad Patmos.

Eto, ceir llawer o themâu sy'n gyffredion i'r ddau glasur: yn y *Datguddiad* megis yn y *Gomedi*, ceir themâu cyfan sy'n gyffredin i'r ddau: e.e. y plâu, Amser fel ffactor anferth, Ffurf Alegoriaidd, rhifau (a Mathemateg fel egwyddor a ffurf ysbrydol), Dŵr y Bywyd, Goleuni, Anifeiliaid (gan gynnwys yr Oen a'r Ceffylau), y Farn Olaf: dyna sy'n amlwg yn yr adran Inferno; a'r Ddaear Newydd a'r Nefoedd Newydd gydol y darlleniad o'r epig diweddar mewn manylion yma ac acw, canfyddwn fel yr oedd y llyfr beiblaidd yn sail isymwybodol Dante, ond yn wahanol.

Yr hyn a wnaeth Dante gyda Beatrice oedd ei throi'n sant. Hi oedd y symbol o ddiwinyddiaeth a'r gwirionedd, yn gyffredinol ac nid ar y pryd dros dro. Dysgodd Dante allweddolrwydd y gostyngedig, ac mai ymostwng oedd craidd yr efengyl (er gwaethaf ei falchder o'r Gomedi). At ei gilydd, roedd credoau Cristnogol Dante yn uniongrededd goruwchnaturiol. Ond cerdd all-feiblaidd oedd yr *Inferno*, yn egniol wreiddiol, yn fwrlwm o ddyfeisgarwch. Nis bwriadwyd yn awdurdodol.

Symbol oedd serch. Cysgod ffaeledig oedd o dduw wedi'i ddynoli. Yn hyn o beth, hawdd deall y sawl sy'n barnu mai eilunaddoli sydd yma. Ond llenyddia yr oedd ef, nid sgrifennu diwinyddiaeth. Roedd y weledigaeth a'i cludai ef yn ei feddiannu o ddifri, ac yn ei negyddu rhag casgliadau sobr diwinyddol. Proffwyd personol dychmygus, mwy rhamantus na Ioan, oedd Dante. A does dim dwywaith iddo'i hun dderbyn datguddiadau gweledigaethau fel profiad personol cyson. Gwyddai mai rhamantaidd personol oedd y gweledigaethau hyn. Roedd hyn yn rhan o'i fywyd bob dydd. Ufuddhâi i'r profiad, a'i gredu yn ei sobrwydd. Troes angladd yn briodas yn y Ddaear Newydd.

Ceisio dadlau yr wyf fod y weledigaeth o Beatrice mor glwm wrth barodrwydd Dante i gredu o ddifri, mai real oedd hi yn ei delwedd ysbrydol, nes ei bod yn galon-weddnewidiol. A daeth y credu cryf hwnnw yn rhan o grediniaeth 'Beatrice-Patmos' i Dante. Heresi oedd hyn, bid siŵr, a math o eilunaddoliad. Ond er mor heretig oedd Dante o ran llythrenogrwydd, yr oedd yn troi'r sffêr esthetig er ei waethaf yn sffêr eglwysig yn ffactor, all fod yn bleser esthetig i Gristion. I'r Cristion llengar, yr oedd yn darparu profiad y gellid ei synhwyro wrth sylweddoli fel y gallai hen brofiad mewn llyfr am gyfnod cynt fod mor real â heddiw yn yr unfed ganrif ar hugain, gan mor gyfoethog arhosol oedd unrhyw wirionedd dwfn. Yn wir, mae hyn o rithiad yn adeiladu yn y cof agosrwydd i'n helbulon cyfoes yn y rhyfel rhwng da a drwg.

Yn hyn o beth, yr oedd yn barod i Beatrice ddisodli Crist. Neu o leiaf, yr oedd yn ei mabwysiadu hi i drosglwyddo angerdd y gwirionedd. Yr oedd hi fel gras cyffredinol yn trosiadu gras arbennig, heb wadu cynhwysydd, wrth gwrs, ac yn ei arwain ymlaen at weledigaeth ufudd a dilys o Dduw. Yr oedd hi felly'n cael ei defnyddio i'w achub ef. Ynddi hi priodwyd Dante â'r Eglwys. A chan nad Crist mohoni, wrth gwrs, ac ni cheisiai ef dwyllo neb, fel yr heretig arferol, ni

raid oedd iddo honni uniongredded oherwydd cywirdeb dychymyg.

Fel *Datguddiad* Patmos, yr oedd ef wedi dilyn *Eseciel* wrth ganfod dynolrwydd Crist.

Person byw oedd Iesu i Dante oherwydd ei welediad o Beatrice. Cysgod oedd hi, fel y caed cysgodau neu deipiau o Iesu drwy gydol yr Hen Destament. Byddai rhai beirniaid yn cyfrif iddo dderbyn profiad cyfriniol dilys.

Bid a fo am ddehongli cyfriniaeth mewn amgylchfyd pryd y mae cymaint o wyrdroi ar bechadurusrwydd y dychymyg drwy hunanganolrwydd, dyma'r lle y mae dylanwad *Datguddiad* Patmos, o ran barddoniaeth, yn ysbrydoli Dante:

[*Paradiso: Canto xxxi*]

li occhi su levai,

e vidi lei che si facea corona

reflettendo da sè li eterni rai....

quanto li da Beatrice la mia vista;

ma nulla mi facea, chè sua effige

non discendea a me per mezzo mista.

'O donna in cui la mia speranza vige,

e che soffristi per la mia salute

in inferno lasciar le tue vestige,

di tante cose quant' i' ho vedute,

dal tuo podere e dalla tua bontate

riconosco la grazia e la virtute.

Tu m' hai di servo tratto a libertate

per tutte quelle vie, per tutt' i modi

che di ciò fare avei la potestate...'

{Codais fy llygaid a gwelais, lle y gwnaethai iddi'i hun goron, yn adlewyrchu ohoni ei phelydrau tragwyddol, ... daeth y gwelediad o du Beatrice, heb wneud yr un gwahaniaeth i mi, o'i delwedd wyneb yn wyneb yn ddirwystr. 'O Arglwyddes, ynot ti mae fy ngobaith yn cael ei nerth a thi a gariodd fy iachawdwriaeth wrth iti adael dy olion traed yn Uffern, fel y byddaf yn cydnabod dy ras a'th rinwedd. Tydi a'm tynnodd allan o gaethiwed i ryddid drwy'r holl ffyrdd hyn, drwy'r holl foddion o fewn dy allu...'} }

Yn adran I, sef *Inferno* (a ddilynnir gan ddwy adran arall), darlunnir Uffern fel pe bai wedi'i hadeileddu o naw cylch o ddiodefaint wedi'u lleoli o fewn y Ddaear. Y mae Ffyrsil yn arwain Dante drwy naw cylch Uffern. Cylchoedd cyd-echel ydynt, gan gynyddu fwyfwy o ran drygioni, pan

gyrhaedda ganol y ddaear lle y rhwymir Satan mewn caethiwed.

Dante ei hun sy'n rhoi'r naratif. Ac ef ei hun yw'r cymeriad y dilynir ei ffawd. Cychwynna drwy ddringo'n union i fyny mynydd bach, ond caeir ei ffordd gan fwystfilod na all eu hosgoi. Symbolau ydynt ar gyfer tri math o bechod sy'n dwyn yr anedifeiriol i mewn i dair adran fawr sy'n golygu tri gwahaniad o Uffern:

bleiddes – anghymedroldeb

llew – trais

llewpart – twyll maleisus

Mae'r bwystfilod yn ei yrru ef i dywyllwch camsyniad, 'lle is' (basso loco), lle y mae'r haul yn ddistawrwydd.

Dyma Deyrnas y rhai a wrthododd werthoedd ysbrydol drwy ildio i archwaethau bwystfilaidd ac i drais, neu drwy wyrdroi eu dealltwriaeth ddynol, i drais, ac i falais yn erbyn eu cyd-ddynion. Mae'r *Gomedi Ddwylfol* yn cynrychioli siwrnai'r enaid tuag at Dduw, gyda'r adran I yn disgrifio cydnabyddiaeth ac ymwadu â phechod.

Fel dyfais lenyddol, cyfrifir alegori yn estyniad o'r trosiad, gan ddefnyddio cymeriadau lle mae digwyddiadau i fod i gynrychioli'r byd go iawn, a chan gorffori ynddi'i hun themâu perthnasol ac achlysuron sy'n rhan o'n bywyd bob dydd. Mae llenorion neu siaradwyr yn defnyddio alegoriau nodweddiadol fel dyfeisiau rhethregol a fyn gyflwyno ystyron sydd heb fod ar yr wyneb, sy'n symbolau, yn ffigurau, ac yn weithredoedd. Dônt at ei gilydd, i adleisio'i gilydd, yn ôl yr ystyr foesol, ysbrydol, neu boliticaidd-gymdeithasol y mynnir eu cyfleu. Felly Dante yn ei amser.

Mae patrwm cynllun y Weledigaeth yn ymrithio'n gyfres ddatblygol sydd wedi'i hamseru'n fwy ffurfiol na'r *Datguddiad*. Mae'r *Datguddiad* fel y gwelsom yn cydio yng ngwar Dante ac yn ymgodi uwchben amser. Dyma amlinelliad o'r Cynnwys fesul cam tyfiannol, a datblygol o'r epig all-feiblaidd:

Rhagymadrodd

1.1 Caniad 1-11

1.2 Cyntedd Uffern

Naw Cylch Uffern

2.1 Trawsolwg

2.2 Cylch Cyntaf (Limbo)

2.3 Ail Gylch (Trachwant)

2.4 Trydydd Cylch (Gloddest)

2.5 Pedwerydd Cylch (Gwanc)

2.6 Pumed Cylch (Llid)

Mynedfa Dis

2.7 Chweched Cylch (Heresi)

2.8 Seithfed Cylch (Trais)

2.9 Wythfed Cylch (Twyll)

Wal ganolog Malebolge

2.10 (Brad)

3. Canol Uffern (Oriol) ac yn y blaen hyd at ganto XXXIV.

Mae'n amlwg fod Dante wedi'i feithrin ei hun ar *Ddatguddiad*. Ceir cyfeiriadau bwriadol neu anfwriadol ganddo. Mae ysgolheigion felly o raid wedi ysgrifennu cryn dipyn o astudiaethau cydwybodol am y ffyrdd gwahanol y bu Dante yn lleoli ac yn cyfeirio at destunau beiblaidd yn ystod ei gerdd. Gweler, er enghraifft: 'Dante and the Biblical Intertextual Approaches to the *Divine Comedy*, *Italia* 63 (1986): 225-36; 'Biblical Citation in Dante's *Divine Comedy*' *Annals d'Italienistia* 8 (1990).

Ceir un dehongliad gan Dante o ddarn o *Ddatguddiad* (17: 1-3) fel proffwydoliaeth o'r dyfodol o'r Curia Rhufeinig – Inf. xxix, 106-108.

Mae bwystfilod yn ymddangos fel alegorïau yn y Pasiant o'r Eglwys Fuddugoliaethus yn *Purdan xxxix* (142-144). Dyma'r weledigaeth a gafodd Ioan (Dat. 4: 6-11). Ac o flaen y bwystfilod hyn fe gafwyd bwystfilod cyffelyb gan y proffwyd Eseciel (1: 1-21), nid benthyciad o raid, ond y naill a'r llall wedi wynebu'r un profiad.

Drachefn, mae'r 'Llyn o Dâ'n' yn Dante (a seiliwyd yn llythrennol ar dâ'n i feirwon mewn cwm bychan o gwmpas Jerwsalem) hefyd wedi ymddangos yn y *Datguddiad* 20: 10, 'a bwriwyd y diafol, twyllwr y cenedloedd i'r llyn tân; 20: 14-15,'Bwriwyd Marwolaeth a Hades i'r llyn tân. Pwy bynnag ni chafwyd ei enw'n ysgrifenedig yn llyfr y bywyd, fe'i bwriwyd i'r llyn tân.' cf. Math. 25: 46.

O geisio cyd-deimlo â chelfyddyd Dante, fe all y Cristion – ar lefel wareiddiol werthfawrogi, a mwynhau, y campwaith hwn gyda brwdfrydedd.

DATGUDDIAD (Penodau 15 a 16)

Mae'r hanes yn ymffurfio'n undod crwn. Ym mhenodau 1 – 3, bendithiwyd y Saith Eglwys â phresenoldeb Crist. Gwelsom nhw'n dioddef o erledigaeth ym mhenodau 4 – 7. Ond syrthiai

barnedigaeth Duw ar yr erlidwyr (boed ym Mhatmos neu yng Nghymru) ym mhenodau 8 – 11. A gwelwyd ynddynt yr ystyr ddyfnaf, sef y frwydr rhwng 'had y wraig' a'r ddraig.

Ond er syndod i bob meidrolyn, yr un pryd â'r utgyrn y mae'r ffiolau'n cael eu tywallt ar yr anghredinwyr bythol a'u proffwydi gau wrth ragflaenu'r Farn Olaf. Mae'r Farn wedi bod ar waith o'r dechrau cyntaf, bid siŵr, sef oddi ar y Cwmp, megis yr amddiffyniad a'r cysgod o'r aberth dwyfol. Ond yn awr aeddfedodd yr Amser. Daeth yn bryd i'r barnu ddirwyn i ben yn y Farn Olaf. Cysgod diriaethol i hyn fu'r Beibl i gyd. Rhybudd trugarog, arwydd o Gariad Duw, Paratoad, Rhybudd. Arweiniad oedd yn ôl at y prydferthwch cyntaf. Gorffennwyd hanes y Greadigaeth. Mae'r daith fawr ar ben, a'r Mab yn cael ei goron. Does neb ond y Tad sy'n gweddu i'w goroni Ef yn Ei fodlonrwydd, ac y mae'r saint drwy'r Ysbryd Glân yn ymuno yn y fuddugoliaeth derfynol:

Dyrchafer enw Iesu cu
Gan seintiau is y nen;
A holl aneirif luoedd nef,
Coronwch Ef yn Ben.

Yn awr y canfyddwn wyneb yn wyneb baradocs llawenydd y Farn. Tywelltir o'r ffiolau ar y bobl sy'n gwisgo nod bwystfil y ddraig. Hyn yn anad dim sy'n arddangos dyfodiad y Farn. Mae gogoneddu Duw yn goresgyn (yn wir yn trechu) pob galar mawr am dynged pechod dyn. Ac y mae Duw cariadus yn taro â'r saith bla olaf bawb sy'n addoli'r ddraig. Dynoda'r plâu fod y terfynoldeb wedi caledu. Does dim lleddfu na thyneru mwyach. Mae cariad wedi gorffen rhoi'r ymostyngiad dwyfol i'r rhain, a'r Brenin ar ei orsedd. Bellach cawn gân o fawl i'r Oen ym mhenodau 21 – 22, gyda'r Nef Newydd a'r Ddaear Newydd, y Jerwsalem Newydd, a Dyfodiad Crist yn Ei Ogoniant. A dyma'r Eglwys oll yn weledig ac yn anweledig yn ei hundod pur yn gorfoleddu heb bechod mwyach mewn buddugoliaeth ar hen elyn y tân a'r Môr o Wydr, fel y gwnâi cannoedd Israel yn gysgod wedi'r achubiaeth rhag boddi yn y Môr Coch gyda lluoedd byddin yr Aiff. Rhodd oedd y fuddugoliaeth gan yr Iôr. Agorir y seintwar (Dat. 15: 5-8).

Tywelltir cynnwys y ffiolaid Gyntaf o gornwydydd ar y rhai yr oedd nod y bwystfil arnynt. Gwaed haerllugrwydd y meirw oedd yn yr Ail ffiolaid. Dŵr o'r môr a'r ffynhonnau a drôin waed o'r Drydedd. Tân yr haul a losgai o'r Bedwaredd. Llud yr Arglwydd ei hun a neilltuid i'r Bumed garfan. A'r ffiolaid Olaf a dywalltai Har-Magedon. Dyma ryfel a gysgodwyd mewn teipiau ymlaen llaw yn *Barnwyr* 4 a 5: 6, 8 (cf. Dat. 11: 7-11; 19: 11yml.; 20: 7 yml.) gan dynnu amser at ei gilydd drachefn o'r Hen Destament a'r Testament Newydd. Ar yr adeg hon yn Hanes helbulon cosb, dyma'r Arglwydd Iesu'n ymddangos yn sydyn fel y mae yn dragywydd i'r credadun tlawd: dinistrir holl ymerodraeth y Drwg.

DATGUDDIAD 20 – CYSURO A MEITHRIN GOBAITH

Rhybudd oedd rhan o swyddogaeth *Datguddiad*.

Ond rhan arall oedd cysuro a meithrin gobaith.

Felly penodau 7 – 8. Doedd dim dwywaith nad oedd yr eglwysi yn anghenus. Mewn llawer ohonynt, bu bendith yn ymsymud cyn y gwanhau ac wynebu gwyradau truenus. Cysur a roddwyd, felly, ynghyd â thawelwch, cyn arwain at y farnedigaeth fawr.

Yn unol â gweddill *Datguddiad*, mae'r bennod 20 yn alegoriaidd ac yn symbolaidd. Mae'r ffordd y trinnir Amser mewn tragwyddoldeb yn gyson yn ôl y defnydd o'r gorffennol yn adnodau 1-4, gyda'r sefyllfan wedi ei gosod yng ngolwg awdur syrthiedig. Yr un sefyllfan a geir yn y berfau ar gyfer 20: 4-5 wrth droi tuag adnod 9: 'cyrchasant dros wyneb y ddaear ac amgylchynu gwerysll y saint a'r ddinas sy'n annwyl gan Dduw.' [Oni ddefnyddir y term 'gwerysll' yn fan yma am y 'saint' oherwydd eu bod mewn rhyfel?] Mae'r manau a gynhwysir o fewn y cyrch hwn yn cynnwys y Saith Eglwys yr ysgrifennwyd y llythyrau atynt, a'i fuddugoliaeth a gofnodir yn adnod 10 yn gysur iddynt ar amser o galedi.

Mae Dydd o Farn eisoes o flaen y ddaear oll, felly, a hynny yn *fuan*. Mae'r lluoedd dan arweiniad Satan wedi ymgasglu i ryfel. Disgrifir ofnadwyaeth diwedd y byd. Defnyddiaf y geiriau 'llythrennol' a 'symbolaidd' i esbonio'r hyn sy'n digwydd ac i'w cyferbynnu â'i gilydd. Ond nid wyf yn siŵr, wrth esbonio fel yna, a ydym i fod i gymryd y geiriau 'rhyfel' a 'tân o'r nef' yn llythrennol neu beidio, ac a yw hynny'n bwysig. Fe ddigwydd hyn oll yn realistig ac yn fyw, beth bynnag. Fe fydd diwedd i'r byd yn ôl ewyllys Duw. Fe fydd barn yn gwbl wir. A bydd yn ddychrynlyd.

Dyfalw a wna dynion heddiw, mewn 'pleidiau'.

Mae nodiadau'r *Beibl Canllaw* 2015 yn esbonio'r tri dehongliad pennaf o'r ffyrdd y bu dynion ers tro yn dehongli'r bennod hon: (a) y cynfilflwyddwyr, (b) yr ôlflwyddwyr, (c) yr allflwyddwyr. Mae fy nehongliad i yn perthyn i'r allflwyddwyr i bob pwrpas. Ac yr wyf yn falch i sefyll yn eu rhengoedd. Ond mae a wnelo â distryw amser a meddiannu gan dragwyddoldeb yn adnod 11, gyda'r ddaear a'r nef yn ffoi. Bernir a theflir marwolaeth a Hades i'r llyn tân. Dyna'r ymwybod realistig sy'n digwydd. Gan fod hyn yn caniatáu i raddau ymwybod llythrennol, efallai mai teg fyddai defnyddio'r term 'milflwyddwyr' (yn syml) i'w ddynodi, gan gymryd y milflwyddwyr yn drosiadol fel allflwyddwyr, ond yn llythrennol amhleidiol yn ei effeithiau – megis sefydlu ym Mhennod 21 y Nef Newydd a'r Ddaear Newydd yn llythrennol, heb farwolaeth: i weddillion synnwyr pryderus mae hyn yn baradocsaid o ofnadwy.

Mae cydfeddwl effeithiau realistig a'u mynegi mewn termau alegoriaidd yn golygu peidio ag ynysu Pennod 20 fel pe bai'n unigolyddol wahanol i'r gweddill o'r llyfr. Ni bydd y Nef Newydd na'r Ddaear Newydd eu hunain fymryn yn llai ffeithiol na llai alegoriol na'r Saith Eglwys ddaearol

hynny, nac yn llai eu potensial yn ysbrydol. Mae hyn oll yn uwch-fydol er eu cysur.

MAWL II (Pennod 21-22)

Mewn mawl pur y gorffennir y *Datguddiad*.

Ioan sy'n llefaru yn awr. Ond y mae'r pedwar cymeriad ym Mhennod 1 hefyd i'w cael yma drachefn: Ioan, yr angel, y Mab a'r Tad; a'r Ysbryd Glân ynghudd ymhob gair. Nid diwedd bywyd fu'r Farn ond diwedd pechod.

Gwedd ar Fawl y Jerwsalem Newydd yw'r sôn am y defnydd a gafwyd yn ei hadeiladwaith anghyffredin. Dyma'r unig le yn y Beibl lle y cesglir ac yr enwir gorymdaith mor rhyfeddol werthfawr gan enwi'r elfennau sy'n ei ffurfio: (Dat. 21: 18-21), 'Iasbis oedd defnydd y mur, a'r ddinas ei hun yn aur pur, gloyw fel gwydr. Yr oedd sylfeini mur y ddinas wedi eu haddurno â phob math o emau gwerthfawr: iasbis oedd y garreg sylfaen gyntaf, saffir yn ail, chalcedon y drydedd, emrallt y bedwaredd, sardonyx y bumed, sardion y chweched, eurfaen y seithfed, beryl yr wythfed y nawfed, chrysoprasos y ddegfed, hyacinth yr unfed ar ddeg, amethyst y ddeuddegfed. A deuddeg perl oedd y deuddeg porth; pob porth wedi ei wneud o un perl. Ac yr oedd heol y ddinas yn aur pur, fel gwydr tryloyw.'

Dyma restr anghyffredin. Dichon mai alegoriaidd oedd yr hyn a gyfleid yn y fan yma – ni wyddom ai llythrennol ynte ai alegoriaidd a llythrennol oeddent yr ochr yma i'r bedd – ond nid yw hyn yn bwysig, gan mai gwirionedd mawrhydig gwerthfawr inni ryfeddu amdano yw. Iasbis yn wyn ac yn cyfleu sancteiddrwydd, sardion yn goch ac yn cyfleu bywyd, enfys y cyfuniad o liwiau yn cyfleu cyfamod. Nid rhyfeddod balch yn y modd dynol a'r mynegiant ymffrostiol oedd hyn, ond gogoniant Duw.

Doedd dim adeilad 'neilltuedig' i addoliad yno, dim capel nac adeiladwaith penodol o eglwysig; ac ymddengys hyn yn baradocs nes iddo gael ei esbonio: (Dat. 21: 22) 'A theml ni welais ynddi, oherwydd ei theml hi yw'r Arglwydd Dduw, yr Hollalluog, a'r Oen.' A'r adnod yma yn anad dim yw un sy'n esbonio natur y Duwdod, a'r swydd ogoneddus yn Nhragwyddoldeb, a pherthynas y Cristion (yng Nghrist) yn y Nef a'r Ddaear Newydd.

Rhyfeddod yw mawl. Nid yw Duw ynddo'i hun, wrth gwrs, yn falch i gael ei ganmol, fel plentyn neu gariadferch. Mae Duw'n fodlon o glywed mawl dyn cyn belled ag y mae'n adlewyrchu gwerthoedd a dealltwriaeth o bwrpas wedi'u meistroli. Roedd yr hen fyd yn adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng 'Dyn' yn gwrthod Duw, a Duw yn peidio â gwrthod dyn, a'r Byd Newydd wedi esgor ar y cadarnhaol yn unig, gyda'r ddau yn rhedeg at ei gilydd. Yn yr Hen Fyd, ceid rhagflas o Dywysog Tangnefedd yn nistawrwydd y Saboth a gweddi drwy hyfrydwch ymneilltuo; rhagflas o hyfrydwch cymdeithas o Gariad tragwyddol mewn teulu sanctaidd ac Eglwys annwyl y ddaear yn

ymestyn yn Nhragwyddoldeb ond bellach yn ddifrycheulyd. Ac wedi gorffen dwy bennod o'r fath, dywedwyd popeth. Nid oes angen i'r Iesu ddweud dim mwy.

Ond am ei berthynas arbennig ag Ioan, a grybwyllwyd ar ddechrau hanes *Datguddiad*, hunodd hwnnw â'i law yn ddiâu yn llaw gariadus yr Iesu byth mwy. Yn anorffen, ar un olwg, a hynny yn rhyfeddol, ond yr un pryd yr un mor rhyfeddol pan gyhoeddodd Ef 'Gorffennwyd.'